Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
87/2023
Dyddiad Cyhoeddi:
04/10/2023

# Gwerthusiad o Gymorth Busnes ERDF

## Adroddiad terfynol

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-83504-677-7

Teitl: Gwerthusiad o Gymorth Busnes ERDF

Awdur(on): Oliver Allies, Paula Gallagher, Michelle Hollier, Michael Pang, Benjamin Reinertz, Prabhat Vaze, a Paul Woodcraft.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Oliver Allies, Paula Gallagher, Michelle Hollier, Michael Pang, Benjamin Reinertz, Prabhat Vaze, a Paul Woodcraft; (2023). Gwerthusiad o Gymorth Busnes ERDF. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 87/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gymorth-busnes-gronfa-datblygu-rhanbarthol-ewrop-adroddiad-terfynol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Charlotte Guinee

Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso: Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: rme.mailbox@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau ........................................................................................................ 2

Rhestr ffigurau ....................................................................................................... 3

1. Cyflwyniad/cefndir ........................................................................................ 6

2. Cyd-destun a Rhesymeg Rhaglen Weithredol yr ERDF ..........................................17

3. Gweithgareddau Cymorth i Fusnesau ERDF ..........................................................39

4. Barn rhanddeiliaid ar gynnal y rhaglen .................................................................55

5. Barn am y cymorth a gafwyd – arolwg busnes .......................................................67

6. Dysgu o astudiaethau achos am brosiectau ............................................................92

7. Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol.........................................................................102

8. Casgliadau ac argymhellion .................................................................................120

Adran Cyfeiriadau ..................................................................................................130

Atodiad A: Yr Arolwg i Fusnesau............................................................................131

Atodiad B: Astudiaethau achos ..............................................................................159

Atodiad C: Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol.........................................................185

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Yr Echelau Blaenoriaeth (EB) sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ........ 8
Tabl 1.2: Amcanion penodol sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ........ 8
Tabl 1.3: Sampl yr Arolwg ........ 12
Tabl 2.1: Crynodeb o ddangosyddion economaidd ........ 26
Tabl 3.1: Rhestr o'r gweithrediadau a gynhaliwyd o dan AP1.2 ........ 39
Tabl 3.2: Rhestr o'r gweithrediadau a gynhaliwyd o dan AP2.2 ........ 41
Tabl 3.3: Rhestr o'r gweithrediadau a gynhaliwyd o dan AP2.4 ........ 42
Tabl 3.4: Gwariant fesul Amcan Penodol (Ionawr 2023) ........ 43
Tabl 3.5: AP1.2 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ........ 45
Tabl 3.6: AP1.2 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Dwyrain Cymru ........ 46
Tabl 3.7: AP2.2 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) ........ 47
Tabl 3.8: AP2.3 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) ........ 48
Tabl 3.9: AP2.4 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ........ 50
Tabl 3.10: AP2.4 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Dwyrain Cymru ........ 51
Tabl 3.11: AP1.2 – Perfformiad yn erbyn dangosydd canlyniad ........ 52
Tabl 3.12: AP2.2, 2.3, 2.4 – Perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad ........ 53
Tabl 5.1: Math o gymorth a roddwyd – yn gyffredinol a fesul AP ........ 71
Tabl 5.2: Cymorth mewn meysydd pwnc a nodwyd o bosibl trwy'r Pecyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes ........ 75
Tabl 5.3: Effaith COVID-19 ar sut y rhoddwyd cymorth ........ 79
Tabl 5.4: Gweithredu newidiadau i seilwaith TGCh o ganlyniad uniongyrchol i gymorth ........ 82
Tabl 5.5: Amcangyfrif o'r swyddi gros (FTE) a grëwyd a swyddi (FTE) a ddiogelwyd fesul AP 88
Tabl 5.6: Gwasanaethau cymorth sydd eu hangen yn y dyfodol ........ 89
Tabl 6.1: Trosolwg o weithrediadau dethol ar gyfer yr astudiaethau achos ........ 92
Tabl 6.2: Dangosyddion targed yn ôl gweithrediad ........ 93
Tabl 7.1: Rhifau Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau (CRN) yn ôl Amcan Penodol ........ 103
Tabl 7.2: Ystadegau cryno ar gyfer buddiolwyr a grwpiau cymharu yn y flwyddyn sylfaen ........ 107
Tabl 7.3: Newid cyflogaeth gros i fuddiolwyr yn ôl blwyddyn cymorth ........ 109
Tabl 7.4: Ychwanegedd cyflogaeth ........ 111

Tabl 7.5: Modelu amcangyfrif o flynyddoedd cyflogaeth ychwanegol .................................... 112
Tabl 7.6: Newid yn y trosiant gwirioneddol i fuddiolwyr yn ôl blwyddyn y cymorth ................. 113
Tabl C1: Canlyniadau ar gyfer nifer y rhifau CRN a nifer y rhai unigryw ar bob cam ............. 186
Tabl C2: Rhifau CRN a ganfuwyd yn ôl Amcan Penodol yn ôl achosion cymorth .................. 188
Tabl C3: Rhifau CRN unigryw a ganfuwyd yn ôl Amcan Penodol .......................................... 188
Tabl C4: Amcangyfrifon model probid ................................................................................. 190

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1.1: Rhanbarthau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru (2014–2020) .. 7
Ffigur 2.1: Mynegai GVA, 2014=100 ...................................................................................... 20
Ffigur 2.2: GVA fesul awr a weithiwyd .................................................................................... 20
Ffigur 2.3: Canran y newid yn y stoc busnes fesul sector diwydiannol eang yng Nghymru a'r DU (2014–2022) ................................................................................................................. 21
Ffigur 2.4: Newid yn nifer y mentrau fesul sector diwydiannol eang yng Nghymru (2014–2022) ........................................................................................................................................ 23
Ffigur 2.5: Canran y newid mewn cyflogeion fesul sector diwydiannol eang yng Nghymru a Phrydain Fawr (2015–2021) ................................................................................................ 24
Ffigur 2.6: Newid yn nifer y cyflogeion fesul sector diwydiannol eang – 2015-2021 (i'r mil agosaf) ................................................................................................................................ 26
Ffigur 2.7: Cyfradd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH) bob mis (Ionawr 2015–Tachwedd 2022) ................................................................................................................ 32
Ffigur 2.8: GDP chwarterol gwirioneddol y DU – 2014(Ch1) hyd at 2022(Ch1) ....................... 33
Ffigur 2.9: Cyfradd diweithdra'r DU (%) ar gyfer pobl 16 oed a throsodd, wedi'i addasu'n dymhorol ............................................................................................................................ 34
Ffigur 2.10: Datblygu a gweithredu'r rhaglen ......................................................................... 37
Ffigur 5.1: Sampl yr arolwg yn ôl prif sector y buddiolwyr o gymharu â BBaCh yng Nghymru . 68
Ffigur 5.2: Rhesymau dros chwilio am gymorth ..................................................................... 69
Ffigur 5.3: Math y cymorth dechrau busnes a roddwyd ........................................................... 72
Ffigur 5.4: Cymorth i redeg a thyfu busnes ............................................................................ 73
Ffigur 5.5: Bodlonrwydd â'r cymorth ....................................................................................... 75
Ffigur 5.6: Bodlonrwydd ag elfennau penodol y cymorth ........................................................ 77

Ffigur 5.7: Pa gamau gweithredu, os rhai o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd o ganlyniad i gael cymorth drwy'r rhaglen? ........ 80
Ffigur 5.8: Cynnydd o ran masnacheiddio cynhyrchion ........ 83
Ffigur 5.9: Trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cael cymorth ........ 84
Ffigur 5.10: Newidiadau mewn perfformiad busnes o ganlyniad i gymorth y rhaglen ........ 86
Ffigur 7.1: Cyfradd paru wrth gysylltu data a'r cysylltu â data'r ONS ........ 102
Ffigur 7.2: Twf cyflogaeth mewn busnesau a gynorthwyir yn erbyn cymaryddion ........ 110
Ffigur 7.3: Twf trosiant mewn busnesau a gynorthwyir yn erbyn cymaryddion ........ 114
Ffigur 7.4: Cynhyrchiant gwirioneddol ........ 115
Ffigur C1: Plotio sgorau tueddiad ar gyfer Modelau I a II (wedi cael neu heb gael cymorth) . 192

**Geirfa**

| **Byrfodd** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AB | Addysg Bellach |
| AGP | Rhaglen Cyflymu Twf |
| AP | Amcan Penodol |
| ASTUTE | Technolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy Uwch |
| AU | Addysg Uwch |
| BBaCh | Busnesau Bach a Chanolig eu maint (SME) |
| BERD | Gwariant Busnesau ar Ymchwil a Datblygu |
| BSD | Cronfa Ddata Strwythur Busnes |
| CATI | Cyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur |
| CCT | Thema drawsbynciol |
| CIE | Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol |
| CJRS | Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws |
| CPIH | Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr |
| CRM | Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid |
| CRN | Rhif Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau |
| CThEF | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi |
| DC | Dwyrain Cymru |
| DiD | Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau |

| Byrfodd | Diffiniad |
|---|---|
| EB | Echelau Blaenoriaeth |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| FTE | Cyfwerth ag amser llawn |
| GCC | Gorllewin Cymru a’r Cymoedd |
| GDHI | Incwm Gwario Gros Aelwydydd |
| GDP | Cynnyrch domestig gros |
| GVA | Gwerth ychwanegol gros |
| IP | Eiddo deallusol |
| ITL | Lefelau Tiriogaethol Rhyngwladol |
| IUK | Innovate UK |
| NGA | Mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf |
| NGB | Band eang y genhedlaeth nesaf |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PAYE | Talu wrth Ennill |
| PSM | Paru sgorau tueddiad / propensity score matching |
| RD&I | Ymchwil, Datblygu ac Arloesi |
| RET | Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| SFBE | Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes |
| SIC | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| SPC | Tystysgrif diogelu atodol |
| SPF | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin |
| TAW | Treth ar Werth |
| TCA | Cytundeb Masnach a Chydweithredu |
| TGCh | Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| UKRI | Ymchwil ac Arloesi yn y DU |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# 1. Cyflwyniad/cefndir


1.1 Ym mis Tachwedd 2021, comisiynwyd Wavehill, ynghyd â Winning Moves a Belmana, gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o gymorth anariannol i fusnesau a ariennir drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ac a gyflwynwyd drwy Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014–2020.

1.2 Mae rhaglenni ERDF 2014–2020 a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gyda'i gilydd yn cael eu hadnabod fel Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop. Mae WEFO yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn rheoli Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru.

1.3 Mae ERDF 2014–2020 wedi'i rhannu yn ddwy Raglen Weithredol yng Nghymru yn seiliedig ar ddau ranbarth daearyddol, sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) a Dwyrain Cymru (DC). Dangosir yr awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â phob rhanbarth daearyddol yn Ffigur 1.1 drosodd.

1.4 Mae Rhaglenni Gweithredol yr ERDF wedi'u cynllunio i gyfrannu at dwf deallus, cynaliadwy a chynhwysol ac at gydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol. Eu nod yw mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog yn economi Cymru wrth adeiladu ar ei chryfderau. Ymhellach, nod y rhaglenni yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hyrwyddo materion amgylcheddol a lliniaru effeithiau andwyol, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

**Ffigur 1.1: Rhanbarthau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru (2014–2020)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.5 Rhoddwyd strwythur i'r rhaglenni drwy ddefnyddio Echelau Blaenoriaeth (EB), Amcanion Penodol (AP), a gweithrediadau, a'r rhain oll yn rhoi'r ffocws ar gyfer buddsoddi. Bwriad y gwerthusiad yw asesu effeithiolrwydd Cymorth i Fusnesau ERDF

gan ganolbwyntio’n benodol ar ddwy EB o fewn y Rhaglenni Gweithredol,[1] sef EB 1: Ymchwil ac Arloesi ac EB 2: Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh).

**Tabl 1.1: Yr Echelau Blaenoriaeth (EB) sydd wedi’u cynnwys yn yr astudiaeth**

| Echel Blaenoriaeth | Y newidiadau a geisir |
|---|---|
| 1 – Ymchwil ac Arloesi | • Cynyddu’r cyllid ar gyfer ymchwil (preifat a chystadleuol) sy’n cael ei ddenu i sefydliadau ymchwil Cymru.<br>• Cynyddu masnacheiddio ymchwil, datblygu ac arloesi (RD&I) gan fusnesau Cymru yn ardal y rhaglen. |
| 2 – Cystadleurwydd BBaCh | • Mynd i’r afael â methiannau’r farchnad o ran argaeledd cyllid ecwiti a benthyciadau, gan gynnwys cyfalaf risg.<br>• Cynyddu nifer y BBaChau a’r nifer sy’n goroesi, yn enwedig BBaChau twf uchel (gan gynnwys mentrau cymdeithasol).<br>• Cynyddu twf cyflogaeth yn y BBaChau hynny sydd â photensial i dyfu drwy fynd i’r afael â rhwystrau ar adegau allweddol yn eu twf.<br>• Cynyddu nifer y BBaChau sy’n defnyddio ac yn ymelwa ar fand eang cyflym iawn a gwibgyswllt yng Nghymru. |

1.6 Mae cyfres o amcanion penodol i’w cael o dan bob EB. Mae’r Amcan Penodol yn nodi’r angen economaidd-gymdeithasol a’r newidiadau penodol sydd i’w cyflawni drwy fuddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol. Mae ffocws y gwerthusiad wedi bod ar weithrediadau sydd wedi’u cynnal drwy amcanion penodol sy’n canolbwyntio ar gynorthwyo busnesau. Cyflwynir y rhestr o amcanion penodol a’u disgrifiadau yn Nhabl 1.2 isod.

**Tabl 1.2: Amcanion penodol sydd wedi’u cynnwys yn yr astudiaeth**

| Amcan Penodol | Disgrifiad |
|---|---|
| **AP 1.2** | Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus ar brosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn enwedig drwy drosglwyddo technoleg yn well o sefydliadau AU |
| **AP 2.2** | Cynyddu nifer y BBaChau newydd drwy roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth |

[1] Mae pum Echel Blaenoriaeth (EB) ledled rhaglenni’r ERDF, sef: EB1: Ymchwil ac Arloesi, EB2: Cystadleurwydd BBaCh, EB3: Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, EB4: Cysylltedd a datblygu trefol cynaliadwy (Gorllewin Cymru a’r Cymoedd)/Cysylltedd (Dwyrain Cymru), ac EB5: Cymorth Technegol.

| Amcan Penodol | Disgrifiad |
|---|---|
| **AP 2.3** | Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn ymelwa ar rwydweithiau Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf (NGA) a seilwaith TGCh |
| **AP 2.4** | Cynyddu twf y BBaCh hynny sydd â photensial i dyfu, yn enwedig trwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol) |

Themâu Trawsbynciol

1.7 Mae'n ofynnol i weithrediadau a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu at gyrraedd dangosyddion a thargedau themâu trawsbynciol. Mae'r dangosyddion themâu trawsbynciol ar gyfer rhaglenni ERDF fel a ganlyn:

**Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi:**

- Canran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro.
- Canran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro

**Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh:**

- Canran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro.
- Canran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau datblygu cynaliadwy a'u systemau monitro

1.8 Caiff gweithrediadau a gefnogir o dan Amcan Penodol 1.2 eu cyfeirio at Becyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes i gael cymorth â hyn. Mae'r pecyn cymorth ar gael ar-lein ac fe'i defnyddir i gynghori cwmnïau ar fanteision mabwysiadu'r mesurau a ddisgrifir uchod, ac mae ei ddefnydd yn eu galluogi i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cymorth pellach. Mae cymorth datblygu a gynigir gan Busnes Cymru fel rhan o Echel Blaenoriaeth 2 yn arwain at hawlio'r dangosyddion targed hyn.

Amcanion y gwerthusiad

1.9 Prif amcanion y gwerthusiad yw asesu:

- effeithiolrwydd Cymorth i Fusnesau ERDF, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd gweithgarwch y rhaglen sy'n ymwneud â menter, ymchwil a datblygu ac arloesi, a seilwaith TGCh
- y canlyniadau sydd wedi'u cyflawni hyd yma, e.e. creu busnesau, arloesi, goroesi a thwf, gan gynnwys cyflogaeth, trosiant, buddsoddiad ymchwil a datblygu, ymelwa ar TGCh, allforion ac elw ymhlith y busnesau hynny a gafodd eu creu a'u cynorthwyo gan weithrediadau'r ERDF
- a yw busnesau a gynorthwyir wedi cael cyngor, arweiniad neu gymorth mewn perthynas â themâu trawsbynciol, eu barn am yr ansawdd a'u bodlonrwydd ynghylch hyn
- a oedd y rhaglen wedi cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a sut y cyfrannodd y rhaglen at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- a oedd gwahanol fathau neu gategorïau gweithrediadau (a chymorth) neu wahanol sefyllfaoedd busnes (maint, sector diwydiannol neu leoliad daearyddol) yn dylanwadu ar yr effeithiau.

**Dull methodolegol**

1.10 Mae'r gwerthusiad wedi cynnwys **ymchwil desg** yn adolygu dogfennau amrywiol sy'n gysylltiedig â Rhaglenni Gweithredol yr ERDF, astudiaethau achos wedi'u targedu, a data yn ymwneud â pherfformiad sy'n gysylltiedig â'r Amcanion Penodol.

1.11 Cynhaliwyd **arolwg ar 1,014** o fusnesau bach a chanolig drwy holiadur a oedd yn seiliedig ar gynllun yr arolwg a ddefnyddiwyd mewn gwerthusiad tebyg yn 2016[2]. Gwnaethpwyd gwelliannau i'r arolwg i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r cyd-destun cyfoes yn ystod y Rhaglenni Gweithredol.

1.12 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar ymwybyddiaeth am gymorth ERDF, y cymhellion dros ei gael, natur y cymorth a gafwyd, lefelau bodlonrwydd â'r cymorth

---

[2] SQW Ltd, Ysgol Fusnes Aston a BMG Research (2016) *Gwerthusiad o 'Cymorth i Fusnesau' yr ERDF*, WEFO, Llywodraeth Cymru.

hwnnw, ac effeithiau'r cymorth hwnnw ar weithgarwch busnes yn ogystal â'i effaith ar gyflogaeth a pherfformiad busnes. Mae'r arolwg busnes i'w weld yn Atodiad A.

1.13 Roedd y sampl a ddarparwyd ar gyfer yr arolwg busnes yn cynnwys y busnesau hynny a oedd wedi cael cymorth o dan Amcanion Penodol 1.2, 2.2, 2.3 a 2.4 (gweler Tabl 1.2 uchod). Mabwysiadwyd dull samplu cwota fesul AP a oedd yn dynwared hapsampl syml. Galluogodd hyn gael proffil o ymatebwyr yr arolwg a oedd yn adlewyrchu nodweddion y boblogaeth fwy.

1.14 Yn dilyn trafodaethau rhwng y consortiwm gwerthuso a Llywodraeth Cymru, penderfynwyd cyfyngu ar y ffrâm sampl i gynnwys busnesau oedd wedi cael cymorth yn y blynyddoedd diwethaf (o fis Mawrth 2019 ymlaen). Mabwysiadwyd y dull hwn gyda'r ddealltwriaeth y byddai'n cryfhau cof y busnesau am y cymorth i roi ymatebion mwy cywir i gwestiynau, ar yr un pryd hefyd a galluogi cymharu barn am y cymorth cyn ac ar ôl COVID-19.

1.15 Drwy gyfyngu ar y boblogaeth gymwys i'r rheiny a gafodd gymorth, cafwyd bron i 7,500 o gofnodion cymwys. Fodd bynnag, canfu dadansoddiad pellach fod 520 o gofnodion dyblyg, a oedd yn golygu bod 6,974 o gofnodion unigryw yn y boblogaeth gymwys.

1.16 Rhoddwyd yr arolwg ar dreial gyda sampl o 300 o fusnesau, gan anfon arolwg ar-lein i 200 ohonynt a chysylltu â 100 arall dros y ffôn. Amcan y peilot hwn oedd nodi'r fethodoleg a ffefrir ar gyfer gweinyddu a rheoli'r arolwg, a chymharu ansawdd a defnyddioldeb data a gasglwyd drwy'r dulliau ar-lein a ffôn. Yn dilyn y peilot, gwnaed mân newidiadau i strwythur a geiriad y cwestiynau.

1.17 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg peilot, defnyddiwyd dull arolwg amlfodd, sef cyfuno canlyniadau'r holiadur a gwblhawyd ar-lein â'r cyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Yn gyfan gwbl, cwblhawyd 1,014 o arolygon, 870 drwy CATI a 144 ar-lein, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 13.5 y cant.

**Tabl 1.3: Sampl yr Arolwg**

| Amcan Penodol (AP) | Nifer y cyfranogwyr (2016–2022) | Canran yr holl gyfranogwyr | Nifer y cyfranogwyr ar gael a ymgysylltodd (Mawrth 2019) | Nifer yr ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd | Canran o holl ymatebwyr yr arolwg |
|---|---|---|---|---|---|
| AP1.2 | 1,122 | 5.7% | 390 | 59 | 5.8% |
| AP2.2 | 4,841 | 24.7% | 2,139 | 262 | 25.8% |
| AP2.3 | 5,306 | 27.1% | 1,806 | 272 | 26.8% |
| AP2.4 | 8,145 | 41.6% | 3,159 | 421 | 41.5% |
| **Cyfanswm** | **19,580** | **100.0%** | **7,494**[3] | **1,014** | **100.0%** |

Gofynion samplu ychwanegol

1.18 Yn ogystal â'r nodweddion samplu a grybwyllwyd uchod, roedd angen sicrhau bod y ~1,000 o ymatebion terfynol a gwblhawyd yn cynnwys:

- o leiaf 600 o ymatebion gan fusnesau a gefnogir drwy Busnes Cymru (AP2.2 a 2.4) a Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes (AP2.3)
- rhaniad daearyddol addas sy'n adlewyrchu'r boblogaeth o fusnesau a gefnogir yn y ddwy Raglen Weithredol: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

**Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol**

1.19 Cynhaliwyd gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) fel rhan o'r gwerthusiad i archwilio effeithiau trosiant a chyflogaeth ymhlith busnesau a gymerodd ran sydd wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ac ar gyfer treth ar werth (TAW) neu dalu wrth ennill (PAYE). Ar ben hynny, edrychodd y CIE ar brosesau codi arian busnesau (sy'n rhoi arwydd o dueddiad twf busnes, yn ogystal â bod yn brocsi ar gyfer arloesi) a chyflogau cyfartalog y busnesau cyfranogol (fel dangosydd o ansawdd cyflogaeth).

1.20 Yn y gwerthusiad CIE, yn ogystal â deall perfformiad y busnesau a gynorthwyir, cesglir tystiolaeth o'r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y cymorth drwy archwilio busnesau tebyg ond nas cefnogir fel meincnod (y grŵp gwrthffeithiol neu'r grŵp cymharu). Roedd y dadansoddiad wedi defnyddio Cronfa Ddata Strwythur Busnes (BSD) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a data arall ar lefel cwmnïau. Mae'r BSD yn llunio ciplun bob blwyddyn o Gofrestr Busnesau'r ONS. Mae'r gofrestr yn cynnwys pob busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac/neu dreth incwm PAYE ac, felly,

[3] Dyma oedd nifer y cysylltiadau busnes a oedd ar gael cyn dileu cofnodion dyblyg.

mae'n cynnwys pob busnes sylweddol sy'n gweithredu yn y DU. Caiff y BSD ei ddiweddaru'n flynyddol ac, felly, mae'n darparu ystod eang o newidynnau economaidd sy'n cael eu casglu'n gyson ar gyfer busnesau dros amser. Mae'r newidynnau a gesglir yn cynnwys oedran busnes, trosiant, cyflogaeth, sector a goroesiad (sef bod gweithrediad yn parhau i fodoli). Mae hyn yn golygu y gellir dod o hyd i ddata cymaradwy ar gyfer busnesau yng Nghymru a gefnogir gan yr ERDF yn ogystal â busnesau eraill yn y DU a all weithredu fel y gwrthffeithiol.

1.21 Defnyddiwyd techneg ystadegol o'r enw paru sgorau tueddiad (PSM) i nodi cyfatebiaeth gwrthffeithiol. Roedd hyn wedyn yn sail ar gyfer dadansoddiad gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (DiD) i ddeall a yw'r twf a welwyd mewn busnesau a gynorthwyir a'r grŵp rheoli (y gwahaniaeth cyntaf) yn sylweddol wahanol cyn ac ar ôl y cymorth (yr ail wahaniaeth). Mae unrhyw wahaniaeth sylweddol yn amcangyfrifiad o effeithiau ychwanegol y cymorth.

1.22 Cynhaliwyd **ymchwil ansoddol** gyda **rhanddeiliaid allweddol** dros y ffôn a thrwy fideo-gynadledda (Microsoft Teams). Ymgynghorwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid ERDF i adfyfyrio ar berfformiad y gweithrediadau o fewn yr Amcanion Penodol a dargedwyd. Cynhaliwyd ymgynghoriadau yn ystod Awst a Medi 2022 gyda 16 o randdeiliaid yn cymryd rhan.

1.23 Mae cyfres o **astudiaethau achos** wedi'u llunio i roi mwy o fanylion am y profiad o gynnal gweithrediadau penodol ym mhob Amcan Penodol. Ymhellach, maent wedi rhoi'r cyfle i roi canfyddiadau'r arolwg yn eu cyd-destun ac i archwilio'n fanylach y cymorth a gynigir a phrofiadau'r busnesau a gafodd y cymorth hwnnw. Yn y cyfweliadau gyda Swyddogion Datblygu Prosiect, trafodwyd gweithrediadau a allai fod yn addas i fod yn astudiaethau achos. Defnyddiodd y gwerthuswyr y mewnwelediad hwn ochr yn ochr â thrafodaethau â Llywodraeth Cymru i fynd ati gyda'i gilydd i enwi detholiad o astudiaethau achos a oedd yn cynrychioli pob Amcan Penodol ac ystod eang o gymorth busnes.

1.24 Ar gyfer pob astudiaeth achos, cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn â'r buddiolwr arweiniol (sef y sefydliad sy'n rheoli'r gweithrediad) a sampl ar hap o'r busnesau a gafodd gymorth y gweithrediad. Ar draws y chwe astudiaeth achos roedd y rhain yn cyfateb i 41 o gyfweliadau manwl gyda'r busnesau a gymerodd ran.

### Cyfyngiadau'r fethodoleg

1.25 Mae pwyslais yr ymchwil hwn ar werthuso gweithgarwch ar lefel eang Amcanion Penodol. Er bod y nod terfynol ar gyfer y ddarpariaeth o dan bob AP yn gyson, mae natur y cymorth hwnnw (yn enwedig pa mor ddwys ydoedd, ei hyd, ac a'i rhoddwyd yn unigol neu i lawer ar yr un pryd) yn amrywio'n sylweddol (er y byddai pob busnes wedi cael o leiaf chwe awr o gymorth). Yn ogystal, mae cymorth busnes mewn rhai gweithrediadau wedi'i deilwra i gyfeiriad twf y cyfranogwyr hynny, gyda'r cymorth mwyaf dwys yn cael ei dargedu at y rhai sydd â'r rhagolygon twf cryfaf. Unwaith eto, mae hyn yn arwain at amrywiaeth sylweddol yn y cymorth a gafwyd. Nid oedd manylion ar gael i'r gwerthuswyr ynghylch dwyster y cymorth a gynigiwyd gan y gweithrediadau. Felly, nid yw'n bosibl rhoi cyfrif am amrywiadau mewn dwyster wrth archwilio lefelau bodlonrwydd na'r effeithiau ar fusnesau.

1.26 Roedd y wybodaeth reoli a oedd ar gael i gynnal yr arolwg yn cynnwys manylion cyswllt, sector diwydiannol y busnes hwnnw, y gweithrediad penodol yr oedd y busnes wedi ymgysylltu ag ef, a dyddiad yr ymgysylltu hwnnw. Gofynnodd rhai gweithrediadau i'w cyfranogwyr gael eu heithrio o boblogaeth yr arolwg oherwydd (er enghraifft) roedd risg o flinder ymgynghori gan eu bod yng nghanol gwerthusiadau penodol (a oedd yn golygu bod angen gwaith maes gyda'r busnesau hynny). Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y boblogaeth ynghyd â dylanwadau ar y sampl cymwys wedi cyfyngu ar y graddau y gellir asesu pa mor gynrychioladol yw ymatebion yr arolwg.

1.27 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adran hon, cyfranogwyr gweithrediadau Busnes Cymru a oedd wedi ymateb fwyaf i'r arolwg. Mae dwyster y cymorth a gynigir drwy Busnes Cymru yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar botensial twf y busnes. Mae un elfen o fewn gweithrediadau Busnes Cymru, sef y Rhaglen Cyflymu Twf, yn darparu'r cymorth mwyaf dwys i fusnesau sy'n canolbwyntio ar dwf dros gyfnod hwy o amser. Mae data a ddarparwyd ar ôl yr arolwg wedi nodi bod mwyafrif y cofrestriadau (tua 85 y cant) ar y Rhaglen Cyflymu Twf wedi digwydd cyn mis Mawrth 2019. Mae'r garfan hon o fusnesau felly yn anfwriadol wedi'u heithrio i raddau helaeth o ffrâm y sampl. (Roedd 14 o ymatebwyr o'r gwasanaeth hwnnw yn rhan o'r arolwg. Pe bai ymatebion yr arolwg yn gynrychioliadol o'u poblogaeth, byddai tua 70 o ymatebwyr i'r arolwg.) Gallai hyn fod wedi arwain at wanhau gwir lefel yr effeithiau hunangofnodedig sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a thwf busnes.

1.28 O ran dyluniad yr arolwg busnes, codwyd pryderon ynghylch ei hyd a chymhlethdod rhai setiau o gwestiynau. Gosodwyd hyn yn erbyn cefndir o ostyngiad yn y nifer sy'n ymateb i arolygon, a hynny wedi'i briodoli'n rhannol i flinder ymgynghori sy'n gysylltiedig ag ymchwil sylfaenol helaeth i fusnesau yn ystod pandemig COVID-19 a'r cynnydd yn nifer yr achosion o weithio o bell. Arweiniodd hyn at ad-drefnu (dileu rhai cwestiynau) yr arolwg i sicrhau ffocws ar feysydd diddordeb allweddol y gwerthusiad.

1.29 Roedd y casgliad o gwestiynau ynghylch priodoledd (*attribution*) yn un o'r meysydd a symleiddwyd. Yn sgil llai o wybodaeth yn yr arolwg o gael ymatebwyr eu hunain yn priodoli effaith, cyfyngwyd ar y gallu i gynnal gwerthusiad o effaith hunangofnodedig y cymorth. Mae hyn wedi cyfyngu ar rai o'r dadansoddiadau y gellir eu cynnal. Fodd bynnag, er bod effeithiau hunangofnodedig yn elfen o astudiaeth 2016, nid yw effeithiau hunangofnodedig yn cael eu hystyried yn ddulliau priodol o briodoli ac asesu. Nid yw'r dull yn cofrestru ar Raddfa Dulliau Gwyddonol Maryland (sy'n graddio gwerthusiadau polisi o 1 [lleiaf cadarn] i 5 [mwyaf cadarn]), tra bod y dull gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) a ddisgrifiwyd yn flaenorol yn yr adran hon wedi'i raddio ar Lefel 3[4].

1.30 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn.

- Yn Adran 2 ceir trosolwg o gyd-destun economaidd-gymdeithasol y rhaglen.
- Mae Adran 3 yn rhoi trosolwg o'r cymorth a gynigir drwy'r amrywiol Amcanion Penodol ac mae'n crynhoi cynnydd pob AP yn erbyn data ar ddangosyddion targed a gwariant.
- Mae Adran 4 yn crynhoi barn rhanddeiliaid y rhaglen.
- Ceir dadansoddiad yn Adran 5 o atebion yr arolwg gan y 1,014 o ymatebwyr a oedd wedi cael cymorth drwy'r Amcanion Penodol.
- Mae Adran 6 yn pwyso ar ganfyddiadau cyfweliadau manwl gyda busnesau a gymerodd ran a rheolwyr prosiect o astudiaethau achos dethol i grynhoi'r prif bwyntiau dysgu o'r ddarpariaeth honno.
- Yn Adran 7 ceir crynodeb o'r gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE).

[4] Gweler i gael manylion pellach ar wahanol lefelau Graddfa Maryland.

- Mae Adran 8 yn tynnu'r canfyddiadau at ei gilydd i fod yn sail i gasgliadau ac argymhellion yr astudiaeth.

## 2. Cyd-destun a Rhesymeg Rhaglen Weithredol yr ERDF

### Cyflwyniad

2.1 Cyn asesu perfformiad gweithrediadau cymorth i fusnesau drwy ddwy raglen yr ERDF, mae'n bwysig yn gyntaf ystyried y cyd-destun economaidd-gymdeithasol y maent wedi bod yn gweithredu ynddo. Mae'r adran hon yn adfyfyrio ar y sefyllfa economaidd-gymdeithasol ar ddechrau cylch hwn y Cronfeydd Strwythurol yn 2014 (mae Cronfeydd Strwythurol yn cael eu dyrannu i Aelod-wladwriaethau ar sail saith mlynedd) ac yn cyflwyno trosolwg o berfformiad economi Cymru ers hynny. Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y ceisiodd yr ERDF ddylanwadu arnynt, gan gynnwys gwerth ychwanegol gros (GVA), cynhyrchiant, y sylfaen busnes, cyfraddau dechrau busnes, cyflogaeth, arloesi, allforion ac enillion. Ymhellach, rhoddir ystyriaeth i'r prif newidiadau mewn polisi cyhoeddus y mae'r rhaglenni wedi gorfod gweithio ynddynt.

2.2 Mae Pennod Cymru o Gytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig[5] yn nodi cyfres o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol sy'n darparu'r rhesymeg y tu ôl i bwyslais (ymysg eraill) ar y pedwar Amcan Penodol sydd o fewn cwmpas y gwerthiad hwn.

### Datblygu Ymchwil ac Arloesedd

2.3 Maes amlwg yn y data a ddadansoddwyd yng Nghytundeb y Bartneriaeth oedd y bwlch amlwg yng Ngwariant Busnesau ar Ymchwil a Datblygu (BERD) rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Mae mantais gref mewn arloesi i'w gweld yn gyffredinol yn y DU; fodd bynnag, nid yw hwn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, a Chymru yn cael ei nodi i fod yn "ddilynwr arloesi"[6] ar y Sgorfwrdd Arloesedd Rhanbarthol[7] ac ar ei hôl hi o gymharu â rhai rhanbarthau eraill gweddill y DU.

2.4 Disgrifia'r Cytundeb Partneriaeth sut yr effeithiodd perifferoldeb Cymru yn negyddol ar fasnacheiddio ymchwil, a hynny, yn ei dro, wedi arwain at lai o fuddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi. Wedi dweud hynny, nododd y Cytundeb fanteision amlwg i Gymru

[5] Cytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig (aethpwyd iddo 4 Ionawr 2023).
[6] Mae'r Sgorfwrdd Arloesedd yn egluro hierarchaeth o bedwar grŵp arloesi ar gyfer rhanbarthau: Arweinydd Arloesi, Dilynwr Arloesedd, Cymedrol wrth Arloesi, a Bach wrth Arloesi. Roedd Cymru felly yn yr ail grŵp o bedwar, er ei fod ar ben isel y categori ochr yn ochr â Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Swydd Efrog a Humber ond yn is na'r rhan fwyaf o ranbarthau'r DU.
[7] Sgorfwrdd Arloesedd Rhanbarthol (2012)

o ran annog mewnfuddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi drwy, er enghraifft, gostau byw is a gwell ansawdd bywyd, galluoedd gweithgynhyrchu uwch, a meysydd arbenigo clyfar cyfredol a newydd y gellid manteisio arnynt drwy'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol[8].

**Cystadleurwydd BBaCh**

2.5 O safbwynt cystadleurwydd BBaCh, nododd Cytundeb Partneriaeth y DU fod cynhyrchiant cyfartalog BBaCh yng Nghymru yn 2011 yn 69 y cant o gyfartaledd y DU, neu 83 y cant pan eithriwyd Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Ystyriwyd bod y bwlch cynhyrchiant hwn yn ffactor a gyfrannodd at y gwahaniaeth yn y GVA â gweddill y DU ac ystyriwyd ei fod yn effeithio ar gystadleurwydd BBaChau Cymru[9].

2.6 Mae buddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi yn cael ei gydnabod yn eang fel sbardun allweddol ar gyfer cynyddu twf cynhyrchiant, ond nodwyd nifer o rwystrau eraill yn y Cytundeb Partneriaeth i greu a thwf BBaChau yng Nghymru, gan gynnwys:

- amharodrwydd ymhlith darpar entrepreneuriaid i ddechrau busnesau newydd
- BBaChau ddim yn manteisio'n llawn ar farchnadoedd newydd, yn enwedig mewn gwledydd eraill
- BBaChau ddim yn cyrraedd potensial cynhyrchiant mewn sectorau penodol, e.e. gweithgynhyrchu
- BBaChau mewn ardaloedd gwledig yn wynebu rhwystrau i dwf oherwydd eu bod yn bell oddi wrth staff medrus, seilwaith annigonol, ac, ar gyfer sector diwydiannau'r tir, oherwydd gweithlu sy'n heneiddio[10].

2.7 Gwaethygwyd yr heriau hyn gan y gwahaniaethau sylfaenol mewn perfformiad economaidd-gymdeithasol a gafwyd yng Nghymru yn y cyfnod hwn (ceir rhagor o fanylion am y gwahaniaethau hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon).

[8] Codwyd y meysydd allweddol ar gyfer arbenigo craff ar y cyfan o Llywodraeth Cymru (2012) *Gwyddoniaeth i Gymru, agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru.
[9] Cytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth EM (diwygiwyd 31 Ionawr 2020)
[10] Llywodraeth EF (2014) *Cytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig*, Llywodraeth EF

### Ymelwa ar TGCh

2.8 Mae ymelwa ar TGCh yn hollbwysig wrth wella cystadleurwydd BBaCh ond mae'n rhaid bod seilwaith perthnasol yn ei le. Yn 2012, Cymru oedd â'r argaeledd isaf o wasanaethau band eang cebl a'r argaeledd band eang ffeibr ail isaf (2013) ymhlith gwledydd y DU[11]. Yn 2013, roedd mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf (NGB) ac argaeledd band eang cyflym iawn (cyflymder gwirioneddol at y cwsmer yn 30Mbit yr eiliad neu uwch) ar ei isaf yng Nghymru o holl ranbarthau'r DU (48 y cant o gymharu â chyfartaledd y DU o 73 y cant), er bod hyn i fyny o 37 y cant flwyddyn ynghynt)[12]. Roedd y papur yn cydnabod na fyddai'r farchnad yn mynd i'r afael â'r heriau o gyflwyno seilwaith TGCh i'r ardaloedd daearyddol ymylol a mwy heriol (fel rheol y rhai sy'n brin eu poblogaeth ac â thirwedd heriol), gan haeddu buddsoddiad ERDF sylweddol felly. Felly, roedd Rhaglen Cyflymu Cymru 2007–2013, a geisiai sicrhau NGB, wedi'i chyflwyno i 96 y cant o'r 1.4m eiddo yng Nghymru erbyn haf 2016[13].


### Perfformiad economaidd allweddol ers 2014

Cynhyrchiant

2.9 Yn 2014, cyfanswm GVA yng Nghymru oedd £57.3bn[14]. Erbyn 2019, roedd y GVA wedi codi i £68.9bn; fodd bynnag, arweiniodd yr achosion o COVID-19 yn 2020 at grebachu yn y GVA i £66.6bn[15]. Mae Ffigur 2.1 isod yn dangos bod tueddiadau GVA Cymru wedi adlewyrchu'n fras rai Lloegr a'r DU. Mae GVA wedi cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag y mae yn yr Alban, tra bod twf GVA yng Ngogledd Iwerddon wedi rhagori ar yr holl ranbarthau eraill, a rhai economegwyr wedi priodoli hyn i'w mynediad i farchnadoedd yr UE (Iwerddon yn benodol)[16].

[11] Ofcom (2013) Y Farchnad Gyfathrebu 2013
[12] Ofcom (2013) Cysylltu'r Gwledydd ac adroddiadau isadeiledd
[13] Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cynigion y DU
[14] Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul diwydiant
[15] Ibid.
[16] Ibid.

**Ffigur 2.1: Mynegai GVA, 2014=100**





Ffynhonnell: ONS, 2020, Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul diwydiant

2.10 Fel arfer caiff cynhyrchiant ei fesur yn ôl GVA fesul awr a weithiwyd. Yng Nghymru roedd hyn yn £26.90 yn 2014 ac erbyn 2020 roedd y ffigwr hwn wedi codi 18 y cant i £31.80 (gweler Ffigur 2.2 isod). Roedd cyfradd y cynnydd mewn cynhyrchiant yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y DU (17 y cant) ac yn uwch na phob un o'r gwledydd cartref eraill. Mae'r perfformiad hwn wedi lleihau mymryn ar y bwlch cyfrannol rhwng cynhyrchiant Cymru a'r DU (gyda chynhyrchiant Cymru yn 84.4 y cant o gyfartaledd y DU yn 2020 o gymharu ag 83.3 y cant yn 2013). Mae'r cau ar y bwlch cynhyrchiant wedi digwydd oherwydd twf cynhyrchiant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd wedi perfformio'n well dros gyfnod y rhaglen na Dwyrain Cymru a'r DU (gyda thwf o 19.4 y cant). Er gwaethaf y cynnydd diweddar hwn, fodd bynnag, erys cynhyrchiant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar ddim ond 81 y cant o gyfartaledd y DU[17].

**Ffigur 2.2: GVA fesul awr a weithiwyd**

[17] Cynhyrchiant isranbarthol: mynegeion cynhyrchiant llafur yn ôl isranbarthau ITL2 ac ITL3 y DU





Ffynhonnell: ONS, 2020, Cynhyrchiant isranbarthol: mynegeion cynhyrchiant llafur yn ôl isranbarthau ITL2 ac ITL3 y DU

Stoc busnes

2.11 Roedd 92,445 o fusnesau cofrestredig yng Nghymru yn 2014. Erbyn 2021, roedd y stoc busnes wedi cynyddu mwy na 13,000 neu 14 y cant i 105,815 o fusnesau cofrestredig. Gwelwyd bod cyfraddau twf tebyg yn y stoc busnes yn nau ranbarth y rhaglen. Ar gyfartaledd, roedd twf yn y stoc busnes ledled y DU yn uwch na'r twf yng Nghymru (15 y cant), wedi'i ysgogi'n bennaf gan dwf yn Lloegr (16 y cant)[18]. Mae Ffigur 2.3 yn cymharu'r newid yn y stoc busnes fesul sector diwydiannol eang ac yn dangos sut yr ehangodd nifer y mentrau yng Nghymru ym mhob sector diwydiannol yng Nghymru ar wahân i'r sectorau amaethyddiaeth a chyfanwerthu. Cafwyd y twf cyfrannol mwyaf mewn trafnidiaeth a storio yn ogystal â gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, gyda thueddiadau sectoraidd yn adlewyrchu'n fras y rhai a welwyd ledled y DU. Cafwyd y twf cyfrannol mwyaf mewn trafnidiaeth a storio yn ogystal â gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, gyda thueddiadau sectoraidd yn adlewyrchu'n fras y rhai a welwyd ledled y DU.[19]

**Ffigur 2.3: Canran y newid yn y stoc busnes fesul sector diwydiannol eang yng Nghymru a'r DU (2014–2022)**

[18] Demograffeg Busnes, ONS, Mentrau busnes gweithredol yn ôl ardal a blwyddyn
[19] Cyfrif busnesau'r DU – mentrau fesul diwydiant a maint cyflogaeth, ONS.





Ffynhonnell: ONS, 2022, Cyfrif busnesau'r DU

2.12 Yn Ffigur 2.4 isod cyflwynir sut mae'r newid cyfrannol yn trosi i newid yn nifer y mentrau fesul sector diwydiannol yng Nghymru. Mae'n dangos bod y twf mewn stoc wedi'i ysgogi gan gynnydd yn nifer y mentrau yn y sectorau adeiladu, trafnidiaeth a storio, a'r gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes. Er bod y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn wedi gweld newid cyfrannol sylweddol, roedd y stoc fach o fusnesau yn y sector hwn yn 2014 yn golygu bod y twf cyfrannol hwn yn trosi i gynnydd o 240 o fentrau yn y sector[20].

[20] Cyfrif busnesau'r DU – mentrau fesul diwydiant a maint cyflogaeth, ONS.

**Ffigur 2.4: Newid yn nifer y mentrau fesul sector diwydiannol eang yng Nghymru (2014–2022)**




Ffynhonnell: ONS, 2022, Cyfrif busnesau'r DU

2.13 Roedd nifer y busnesau fesul pen (wedi'i fesur fesul 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio) wedi cynyddu bron 10 y cant rhwng 2014 a 2020, sef i 527. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd cyfraddau twf mewn busnesau fesul pen ychydig yn uwch yn y Gorllewin a'r Cymoedd na'r Dwyrain; fodd bynnag, dim ond 72 y cant o gyfartaledd y DU oedd busnesau fesul pen yn ardal GCC. Roedd cyfraddau twf mewn busnesau fesul pen yn uwch ar draws y DU (yn cael ei yrru gan Loegr a Gogledd Iwerddon). Cyfeirir weithiau at nifer y busnesau fesul pen fel dwysedd busnesau. Roedd twf o'r fath mewn mannau eraill yn y DU wedi cynyddu'r bwlch yn nwysedd busnesau rhwng Cymru a'r rhanbarthau eraill. Bellach mae gan Gymru 76 y cant o ddwysedd busnesau cyfartalog y DU (i lawr o 77 yn 2014)[21].


2.14 Cododd **cyfanswm nifer y swyddi** yng Nghymru o 1.394m yn 2014 i 1.444m yn 2019[22]. Fodd bynnag, ysgogwyd y twf mewn swyddi yng Nghymru gan Ddwyrain

[21] Mentrau busnes gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ôl ardal a blwyddyn, Demograffeg Busnes, ONS.
[22] StatsWales – StatsCymru – cyflogaeth yn y gweithle fesul diwydiant ac ardal. 2019 yw'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y set ddata hon.

Cymru (lle cynyddodd nifer y swyddi 8.2 y cant yn ystod y cyfnod hwnnw o'i gymharu â 0.2 y cant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd). Er bod y twf mewn cyflogaeth yn Nwyrain Cymru wedi rhagori ar gyfartaledd y DU, roedd twf cyffredinol Cymru wedi aros ar 3.5 y cant o gymharu â chyfartaledd y DU o 6.5 y cant[23]. Mae'r gyfradd twf cymharol uchel yn y stoc busnes ynghyd ag absenoldeb unrhyw dwf materol yn nifer y swyddi yn GCC yn awgrymu symud yn y stoc busnes i fusnesau sy'n llai eu maint.

2.15 Er bod y dadansoddiad dros gyfnod ychydig yn wahanol i'r dadansoddiad o newid yn y stoc busnes, mae Ffigur 2.5 isod yn rhoi cipolwg pellach ar ba sectorau sydd wedi cyfrannu at greu swyddi. Mae'r siart yn mapio newid cyfrannol fesul sector ac yn dangos ehangiad cyfrannol cyflym mewn cyflogaeth yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu[24].

**Ffigur 2.5: Canran y newid mewn cyflogeion fesul sector diwydiannol eang yng Nghymru a Phrydain Fawr (2015–2021)**




Ffynhonnell: ONS, 2021, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth


23 Ibid.
24 Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, ONS.

2.16 Mae Ffigur 2.6 yn ystyried cyfrannau'r ehangu fesul sector yng Nghymru o ran nifer y cyflogeion ac yn dangos mai'r prif yrwyr o ran cynnydd yn nifer y swyddi (i'r mil agosaf) yw'r gwasanaethau gwybodaeth a chyfathrebu, gwasanaethau cymorth a gweinyddu busnes, a'r sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn. I'r gwrthwyneb, crebachu'n sylweddol wnaeth nifer y cyflogeion dros yr un cyfnod yn y sectorau addysg, manwerthu a gweithgynhyrchu. Yn ddiddorol, gwelwyd cynnydd yn nifer y mentrau ym mhob un o'r tri sector lle bu gostyngiad yn nifer y cyflogeion. Awgryma hyn symudiad ym mhroffil mentrau yn y sectorau hynny tuag at ficrofusnesau a busnesau bach ac i ffwrdd oddi wrth y rhai sydd ar raddfa fwy[25].

2.17 Mae dadansoddiad o'r stoc busnes yn 2014 yn dangos bod microfusnesau (sef rhai sydd â 0–9 o gyflogeion) yn cyfrif am 76.4 y cant a 76.6 y cant o'r holl fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu a'r sector addysg, yn y drefn honno. Erbyn 2021, roedd microfusnesau yn cyfrif am 79.7 y cant ac 81.5 y cant o'r holl fusnesau yn y sectorau hyn. Mewn cymhariaeth, ar draws pob sector cynyddodd cyfran y microfusnesau a busnesau hunangyflogedig ychydig o 88.3 y cant i 89.5 y cant o'r holl fusnesau[26].

[25] Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, ONS.
[26] Dadansoddiad manwl o faint busnesau, Cymru a'r DU, StatsCymru

**Ffigur 2.6: Newid yn nifer y cyflogeion fesul sector diwydiannol eang – 2015-2021 (i'r mil agosaf)**




Ffynhonnell: ONS, 2021, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

2.18 Mae'r bwlch yn y cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU wedi cydgyfeirio ychydig dros amser. Yn 2014 roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 69.5 y cant, ond erbyn 2022 roedd wedi cynyddu i 73.7 y cant. Mae hyn yn parhau i fod ychydig yn is na chyfartaledd y DU, fodd bynnag, sef 75.4 y cant yn 2022. Cynyddodd y gyfradd gyflogaeth yn fwy amlwg yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn y Dwyrain dros y cyfnod hwnnw, gyda chyfradd cyflogaeth GCC yn 73 y cant o gymharu â 74.9 y cant yn DC yn 2022[27].



2.19 Mae'r tabl isod yn ceisio crynhoi, mewn modd tebyg i adroddiad 2016, berfformiad economi Cymru ers 2014 yn erbyn perfformiad y DU. Mae'r metrigau'n cynnwys dangosyddion allweddol eraill ar gyfraddau dechrau, arloesi, allforion a chymwysterau. Er bod y rhan fwyaf o'r metrigau yn dangos newid cadarnhaol i economi Cymru, eto cymysg yw'r perfformiad dros y cyfnod hwnnw, o gymharu â chyfartaledd y DU, ac mae'n parhau i lusgo y tu ôl i'r DU.

[27] Cyfradd cyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Arolwg Llafurlu Lleol Cymru: Crynodeb o weithgarwch economaidd, ONS

**Tabl 2.1: Crynodeb o ddangosyddion economaidd**

| Dangosydd | Crynodeb | Newid ers 2014 | Cymharu â newid y DU ers 2014 | Y diweddaraf yn erbyn cyfartaledd y DU |
|---|---|---|---|---|
| **GVA** | Roedd GVA yng Nghymru yn £57.2bn yn 2014, gan gynyddu i £66.6bn erbyn 2020. Mae hyn yn gynnydd o 16.3 y cant dros y cyfnod o saith mlynedd. Fodd bynnag, mae cyfradd y twf wedi aros ychydig yn is nag yng ngweddill y DU ac eithrio'r Alban[28]. | ↑ | ↓ | ↓ |
| **GVA fesul pen** | Roedd GVA Cymru fesul pen yn £18,532 yn 2014, gan gynyddu 13.4 y cant i £21,020 yn 2020. Mae'r gyfradd cynnydd hon yn uwch nag un y DU (12.1 y cant) a phob rhanbarth arall heblaw am Ogledd Iwerddon. Mae GVA Cymru fesul pen bellach yn 72.2 y cant o gyfartaledd y DU, i fyny o 71.4 y cant yn 2014[29]. | ↑ | ↑ | ↓ |
| **GVA fesul awr a weithiwyd** | Cynyddodd GVA fesul awr a weithiwyd o £26.9 yn 2014 i £31.8 yn 2020, sef cynnydd o 14.8 y cant. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cynnydd ar lefel y DU. Mae cynhyrchiant Cymru yn parhau i fod 15.7 y cant yn is na chynhyrchiant y DU (£37.7)[30]. | ↑ | ↑ | ↓ |
| **Stoc busnes** | Yn 2021, roedd gan Gymru 105,815 o fusnesau cofrestredig, cynnydd o fwy na 13,000 (14 y cant) ers 2014. Yn ystod yr un cyfnod, gwelodd y DU gynnydd o 15 y cant yn y stoc busnes. Cynyddodd nifer y busnesau fesul pen 9.6 y cant yng Nghymru rhwng 2014 a 2021, o'i gymharu â chynnydd o 11.3 y cant ledled y DU[31]. | ↑ | ↓ | ↓ |


[28] Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul diwydiant, ONS
[29] Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul pen ac elfennau incwm
[30] Cynhyrchiant isranbarthol: mynegeion cynhyrchiant llafur yn ôl isranbarthau ITL2 ac ITL3 y DU
[31] Mentrau busnes gweithredol yn ôl ardal a blwyddyn, Demograffeg Busnes, ONS

| Dangosydd | Crynodeb | Newid ers 2014 | Cymharu â newid y DU ers 2014 | Y diweddaraf yn erbyn cyfartaledd y DU |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogaeth** | Cynyddodd cyfradd cyflogaeth Cymru 4.2 pwynt canran rhwng 2014 a 2022. Y cynnydd ledled y DU ar gyfer y cyfnod hwn oedd 3.7 pwynt canran. Fodd bynnag, mae cyfradd cyflogaeth Cymru yn parhau i fod yn is na chyfradd y DU[32]. |  |  |  |
| **Cyfraddau busnesau yn dechrau** | Cynyddodd nifer y busnesau newydd yng Nghymru o 11,345 yn 2014 i 13,945 (ffigwr dros dro) yn 2021 (sy'n gyfradd cynnydd uwch nag yn y DU). Dim ond tan 2020 y mae data cyfradd busnesau newydd (fesul 10,000 o'r boblogaeth) ar gael; fodd bynnag, maent yn dangos cynnydd o 3.4 y cant yng Nghymru, tra bod y gyfradd busnesau newydd ar draws y DU yn parhau'n sefydlog. Wedi dweud hynny, mae cyfradd busnesau newydd Cymru yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfradd y DU[33]. |  |  |  |
| **Cyfraddau busnesau yn cau** | Cynyddodd nifer y busnesau yn dod i ben yng Nghymru o 8,530 yn 2014 i 10,200 yn 2020. Yn ystod y cyfnod hwn cynyddodd cyfradd busnesau Cymru yn dod i ben 20.5 y cant, a chynyddodd cyfradd y DU 26.7 y cant. Mae cyfradd busnesau Cymru yn dod i ben yn is na chyfartaledd y DU[34]. |  |  |  |
| **Arloesi** | Cynyddodd Gwariant Busnesau ar Ymchwil a Datblygu (BERD) yng Nghymru o £386m yn 2014 i £494m yn 2020, sef cynnydd o 28.8 y cant. Mae hyn yn is na'r twf mewn gwariant ar draws y DU o 34.8 y cant. Arhosodd lefel y gwariant fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio yn is na lefel y DU[35]. |  |  |  |

[32] Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol Cymru a blwyddyn, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ONS
[33] Busnesau newydd fesul ardal a blwyddyn, Demograffeg Busnesau newydd, ONS
[34] Busnesau newydd fesul ardal a blwyddyn, busnesau wedi cau, Demograffeg Busnes, ONS
[35] Dadansoddi'r Ymchwil a Datblygu a wnaed gan fusnesau'r DU yn ôl gwlad neu ranbarth: Gwariant a chyflogaeth, 2009 hyd at 2020 prisiau cyfredol, ONS.

| Dangosydd | Crynodeb | Newid ers 2014 | Cymharu â newid y DU ers 2014 | Y diweddaraf yn erbyn cyfartaledd y DU |
|---|---|---|---|---|
| **Allforion** | Cynyddodd gwerth allforion Cymru o £14.1bn yn 2014 i £15.2bn yn 2021, cynnydd o 7.6 y cant. Mewn cymhariaeth, cynyddodd cyfanswm allforion y DU o £283bn i £309.7bn, cynnydd o 9.4 y cant[36]. | ↑ | ↓ | ↓ |
| **Sgiliau** | Roedd cyfran y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru sydd â chymwysterau NVQ Lefel 4 neu uwch wedi cynyddu o 33.2 y cant yn 2014 i 38.6 y cant yn 2021, sef cynnydd o 15.8 y cant. Mae cyfartaledd y DU yn parhau i fod yn uwch ar 43.5 y cant ac mae wedi cynyddu ers 2014 ar gyfradd uwch (23.7 y cant)[37].<br><br>Gostyngodd cyfran poblogaeth oedran gweithio Cymru sydd heb unrhyw gymwysterau o 10.0 y cant i 8.3 y cant rhwng 2014 a 2021. Er hynny, mae lefelau uwch o bobl heb unrhyw gymwysterau yng Nghymru na chyfartaledd y DU o 6.8 y cant[38]. | ↑ | ↓ | ↓ |
| **Enillion** | Cynyddodd enillion wythnosol gros cyfartalog yng Nghymru o £470.5 yn 2014 i £562.8 yn 2021, cynnydd o 18.8 y cant. Cynyddodd cyfartaledd y DU yn ystod yr un cyfnod ychydig yn llai (17.8 y cant). Fodd bynnag, arhosodd enillion wythnosol cyfartalog yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, sef £609.8 yn 2021[39]. | ↑ | ↑ | ↓ |

[36] Ystadegau Masnach Rhanbarthol y DU mewn Nwyddau, Gwerth Allforion fesul Rhanbarth, CThEF.
[37] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ONS.
[38] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ONS.
[39] Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl gwlad yn y DU, Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, ONS

| Dangosydd | Crynodeb | Newid ers 2014 | Cymharu â newid y DU ers 2014 | Y diweddaraf yn erbyn cyfartaledd y DU |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI)** | Cynyddodd GDHI fesul pen yng Nghymru o £15,374 i £17,592 rhwng 2014 a 2020. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 14.4 y cant. Ar draws y DU, cynyddodd GDHI fesul pen 15.9 y cant ac mae GDHI cyfartalog Cymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU. Cynyddodd GDHI fesul pen yng Nghymru o £15,374 i £17,592 rhwng 2014 a 2020. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 14.4 y cant. Ar draws y DU, cynyddodd GDHI fesul pen 15.9 y cant ac mae GDHI cyfartalog Cymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU[40]. |  |  |  |

[40] Incwm Gwario Gros Aelwydydd yng Nghymru yn ôl mesur a blwyddyn, Cyfrifon Gwladol

**Newidiadau cyd-destunol ychwanegol sy'n effeithio ar economïau Cymru a'r DU**

Ymadawiad y DU â'r UE

2.20 Ym mis Mehefin 2016 pleidleisiodd mwyafrif y pleidleiswyr i adael yr UE mewn refferendwm yn y DU. Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd wrth negodi'r cytundeb a'r telerau ymadael, gadawodd y DU yr UE yn swyddogol ym mis Ionawr 2020. Aeth y DU wedyn i gyfnod pontio tan fis Rhagfyr 2020, pan adawodd y DU y farchnad sengl a'r undeb tollau.

2.21 Ym mis Rhagfyr 2020 cytunodd y DU a'r UE i Gytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) newydd i lywodraethu cysylltiadau masnachu rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Roedd y Cytundeb yn amlinellu sail wahanol ar gyfer mynediad i'r farchnad. Cyflwynwyd nifer o brosesau a chostau newydd y mae'n rhaid i fusnesau eu hystyried yn awr wrth fasnachu rhwng y DU a'r UE. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi golygu bod angen i fusnesau sy'n allforio a mewnforio ail-raddnodi eu gweithrediadau, gan gynnwys gwaith papur a chostau ychwanegol[41].

COVID-19

2.22 Ar 23 Mawrth 2020, cafodd y cyhoedd ym Mhrydain gyfarwyddyd gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig i aros gartref heblaw at ddibenion penodol. Dros y cyfnod dilynol o 15 mis, gweithredwyd cyfyngiadau clo a phellter cymdeithasol, er bod y rheoliadau yn amrywio mewn cyfnodau gwahanol. Yn ystod y cyfnod hwn bu tarfu sylweddol ar fywyd bob dydd a gweithgarwch economaidd. Roedd goblygiadau uniongyrchol hyn, ar draws cyfnod mawr o 2020 a 2021, yn cynnwys:

- ad-drefnu gweithrediadau ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau i alluogi gweithwyr a chwsmeriaid i weithio gartref neu gadw pellter cymdeithasol
- cau busnesau dros dro mewn rhai sectorau, gan gynnwys y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden, yn ystod y cyfnodau pan oedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar eu mwyaf llym

[41] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2022) Y dystiolaeth ddiweddaraf am effaith Brexit ar fasnach y DU

- amharodrwydd defnyddwyr a phrynwyr i ddychwelyd i siopau a chyfleusterau hamdden pan ailagorodd y rhain, gyda nifer yr ymwelwyr mewn llawer o ardaloedd yn peidio â dychwelyd i lefelau cyn y pandemig
- yr anallu i gael mynediad i lawer o leoliadau gweithle, gan amharu ar weithgareddau megis ymchwil a datblygu sydd angen mynediad at offer neu gyfleusterau arbenigol fel rhan annatod o'r gwaith
- tarfu ar gadwyni cyflenwi, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, wrth i'r pandemig darfu ar weithgarwch economaidd ledled y byd.

2.23 Mewn ymateb i effeithiau COVID-19 ar economi'r DU, rhoddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyfres o bolisïau ar waith i gefnogi busnesau a gweithwyr, gan gynnwys:

- Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, wrth i CThEF dalu 80 y cant o gyflogau gweithwyr ar ffyrlo hyd at gap o £2,500 y mis, yn rhedeg (mewn amrywiol ffurfiau) o fis Mawrth 2020 i fis Medi 2021
- nifer o gynlluniau benthyciadau busnes, gan gynnwys Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws a Benthyciadau Adfer
- rhyddhad ardrethi busnes i bob busnes yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020–2021
- Llywodraeth Cymru yn dosbarthu Cronfa Cadernid Economaidd, gan roi benthyciadau ar gyfraddau ffafriol yn ogystal â chyllid grant fel cronfa argyfwng i fusnesau cymwys oedd yn ymgeisio.


Pwysau chwyddiant a'r argyfwng costau byw

2.24 Roedd ailagor economïau ledled y byd yn dilyn pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd ym mhrisiau ynni[42] a phwysau chwyddiant yn dechrau ymddangos. Roedd goresgyniad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022 wedi cyflymu'r cynnydd ym mhrisiau ynni yn fyd-eang yn ogystal ag achosi aflonyddwch sylweddol i gadwyni cyflenwi, a hynny yn ei dro wedi arwain at gynnydd mewn chwyddiant yn economïau'r

[42] Gweler, er enghraifft, tueddiadau prisiau pum mlynedd ar gyfer nwy naturiol wrth i brisiau gynyddu'n gyson o wanwyn 2021 a phrisiau olew wedi codi'n sydyn o fis Rhagfyr 2021: BBC

DU a gwledydd eraill y byd yn ystod 2022 (gweler **Error! Reference source not found.** 2.7). Disgwylir i effeithiau hyn bara hyd at ddiwedd cyfnod rhaglen yr ERDF.

**Ffigur 2.7: Cyfradd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH) bob mis (Ionawr 2015–Tachwedd 2022)**





Ffynhonnell: ONS, 2022, cyfradd flynyddol CPIH: pob eitem

**Effeithiau newidiadau yn y cyd-destun ar ddangosyddion economaidd**

2.25 Mae Ffigur 2.8 isod yn dangos sut y cynyddodd y GDP yn raddol hyd at ddechrau 2020, cyn gostwng yn sylweddol yn dilyn COVID-19. Nid yw wedi gwella'n llwyr eto i lefelau cyn-COVID-19. Llwyddodd economi'r DU o drwch blewyn i osgoi dirwasgiad yn y ffigurau economaidd diweddaraf; fodd bynnag, mae disgwyliad o hyd y bydd y DU yn mynd (neu'n wir wedi mynd) i ddirwasgiad (er ei fod ar raddfa is nag yr ofnwyd ar y dechrau) ac y bydd yn debygol o aros mewn dirwasgiad drwy gydol 2023[43], sy'n golygu amodau economaidd heriol am weddill cyfnod cyflawni rhaglen ERDF.

[43] Banc Lloegr

**Ffigur 2.8: GDP chwarterol gwirioneddol y DU – 2014(Ch1) hyd at 2022(Ch1)**




Ffynhonnell: ONS, 2022, Cynnyrch domestig gros: mesurau cyfaint cadwynog: wedi'i addasu'n dymhorol £m

2.26 Oherwydd y cryn gynnwrf economaidd dros y blynyddoedd diwethaf, fel rheol byddai amrywio ar lefel debyg yn y metrigau amrywiol yn amlwg yn y farchnad lafur. Mae Ffigur 2.9 isod yn dangos effeithiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar gyfradd ddiweithdra, er enghraifft; fodd bynnag, roedd cyfradd y cynnydd yn ymylol ac roedd yr adferiad o'r cynnydd hwnnw'n gymharol gyflym. Ystyriwyd bod y cynnydd cyfyngedig mewn diweithdra yn 2020, er gwaethaf yr heriau i fusnesau o ganlyniad i COVID-19, wedi digwydd yn bennaf oherwydd Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a oedd wedi cynorthwyo busnesau i ddal gafael mewn cyflogeion.

**Ffigur 2.9: Cyfradd diweithdra'r DU (%) ar gyfer pobl 16 oed a throsodd, wedi'i addasu'n dymhorol[44]**




Ffynhonnell: ONS, Awst 2022, Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig

**Cyd-destun polisi**

2.27 Cynlluniwyd y Rhaglenni Gweithredol ar gyfer yr ERDF yn 2013–2014, gydag Arloesi Cymru, Strategaeth Arbenigo Clyfar, yn nodi'r rhesymeg y tu ôl i lawer o Echel Blaenoriaeth: Ymchwil ac Arloesi, tra bod Pennod Cymru Cytundeb Partneriaeth y DU yn rhoi tystiolaeth bellach o'r cyfiawnhad dros yr angen am y ddwy Echel Blaenoriaeth, Ymchwil ac Arloesi a Chystadleurwydd BBaCh.

2.28 Yn 2015, yn fuan ar ôl dechrau'r cylch hwn o Gronfeydd Strwythurol, daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol i gyrff cyhoeddus ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau hynny. Dyma'r hyn sydd ynddi sy'n arbennig o berthnasol i wasanaethau cymorth busnes:

- **Cymru lewyrchus** — cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel, poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig

[44] Data a addasir yn dymhorol yw data sy'n cael ei addasu i ystyried patrymau a thueddiadau tymhorol. Gall diweithdra, er enghraifft, ostwng dros dro yn y cyfnod cyn y Nadolig wrth i fanwerthwyr ymateb i'r galw cynyddol; gall hefyd ostwng dros dro yn ystod misoedd yr haf wrth i'r sector twristiaeth a hamdden ymateb i'r galw cynyddol

cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

- **Cymru gydnerth** — cenedl sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** — cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial (ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau).

2.29 Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen yn 2016 ac mae'n cyflwyno pedair thema allweddol a gweithgareddau cysylltiedig a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Y pedair thema oedd:

- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac Egnïol
- Uchelgais a Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig.

2.30 Roedd yr ymagwedd hwn yn dystiolaeth bellach o newid ym mholisi Llywodraeth Cymru (ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) tuag at fwy o ffocws ar entrepreneuriaeth a chymorth busnes sy'n ehangu cyfleoedd ac yn hyrwyddo llesiant yn seiliedig ar weledigaeth o dwf cynhwysol.

2.31 Mae Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru yn nodi 12 amcan y llywodraeth (amcanion llesiant y llywodraeth, gan adeiladu ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r camau arfaethedig i'w cyflawni. Mae Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cyflwyno rhaglen fuddsoddi mewn pobl a busnesau gyda'r nod o ysgogi ffyniant a lleihau anghydraddoldeb ledled Cymru. Disgrifiai sut y cydnabuwyd busnesau i fod yn bartneriaid cyflawni allweddol, gyda'r Cynllun Gweithredu yn cyflwyno'r Contract Economaidd i fframio'r berthynas ddwyochrog rhwng y llywodraeth a busnesau ac ysgogi buddsoddiad cyhoeddus ac iddo bwrpas cymdeithasol.

2.32 Sbardunodd effaith ddofn pandemig COVID-19 ymateb polisi eang a helaeth gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru eu dull gweithredu yn y ddogfen Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau, sydd wedi'i ddwyn

ymlaen yn Ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi (sy'n nodi cynlluniau ar gyfer mynd ar drywydd tri chanlyniad sy'n sail i'r weledigaeth o economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial):

- **economi ffyniannus** drwy ganolbwyntio ar gydnerthedd, cryfhau'r economi sylfaenol a sylfaen economaidd amrywiol ond rhyngberthynol o gwmnïau sy'n edrych tuag allan ac sydd â pherfformiad arloesi cadarnhaol, lefelau cynhyrchiant da, a gweithlu medrus iawn.
- **economi gwyrddach** sydd â lefelau uchel o ailgylchu a defnydd effeithiol o adnoddau sy'n ychwanegu gwerth economaidd ac yn osgoi gwastraff, yn creu swyddi mewn diwydiannau newydd – o ynni adnewyddadwy i drwsio.
- **economi mwy cyfartal** sy'n buddsoddi ym mhotensial cynhyrchu pob aelod o gymuned, gan sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

2.33 Mae'r genhadaeth wedi'i chynllunio i alinio'n agos â Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, sydd (drwy wersi a ddysgwyd drwy 20 mlynedd o bolisi cydlyniant yr UE) yn nodi llwybrau ar gyfer y defnydd gorau posibl o gyllid yn ei le gan Lywodraeth y DU mewn modd rhanbarthol.

2.34 Mae Ffigur 2.10 drosodd yn crynhoi'r datblygiadau polisi sydd wedi cyd-daro â newidiadau economaidd-gymdeithasol o bwys dros gyfnod y rhaglen.

## Ffigur 2.10: Datblygu a gweithredu'r rhaglen

| Cyd-destun allanol | | Datblygu a gweithredu rhaglen ERDF |
|---|---|---|
| | 2014 | Y Pwyllgor Rheoli'r Rhaglen wedi cael cyfansoddiad ffurfiol ("teulu"[45] o weithrediadau Busnes Cymru a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2014) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael cydsyniad brenhinol | 2015 | |
| Pleidleisiodd mwyafrif y pleidleiswyr yn refferendwm y DU i adael yr UE<br>Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Symud Cymru Ymlaen | 2016 | Blaenoriaeth 1: Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn cael cyllid – 87 y cant o gyllid Blaenoriaeth 2 wedi'i ymrwymo (88 y cant yn GCC) |
| Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru | 2017 | Blaenoriaeth 1: 88 y cant o gyllid yn DC wedi'i fuddsoddi mewn naw prosiect (81 y cant mewn 20 prosiect yn GCC) — cyhoeddi galwad bellach ar gyfer prosiectau |
| | 2018 | Blaenoriaeth 1: ASTUTE, Cyflymydd Arloesedd Data, Peirianneg Dylunio Uwch, Canolfan Biotechnoleg, ACCELERATE – Technoleg Arloesi Iechyd Cymru, a'r prosiect Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol oll yn sicrhau cyllid yr ERDF<br>Blaenoriaeth 2: Y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol yn cael estyniad er mwyn creu Cronfa Datblygu Asedau Cymunedol newydd |
| Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi | 2019 | Blaenoriaeth 1: FLEXISApp yn cael cyllid i weithredu ledled GCC — y ddwy Flaenoriaeth wedi'u hymrwymo'n llawn<br>Blaenoriaeth 2: Cyllid wedi'i ddyfarnu i Fenter Busnes Cymdeithasol Cymru: Dechrau Newydd yn GCC |
| Y DU yn gadael yr UE (Ionawr) — cyfnod pontio yn dechrau<br>Pandemig COVID-19 yn cyrraedd y DU (Mawrth)<br>Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol<br>Y cyfnod pontio yn dod i ben (Rhagfyr) — y DU yn gadael y farchnad sengl a'r undeb tollau | 2020 | Blaenoriaeth 1: AgorIP yn cael cyllid i ehangu i Ddwyrain Cymru<br>Blaenoriaeth 2: Gweithrediadau Busnes Cymru yn sicrhau estyniad tan fis Rhagfyr 2022 a chyllid wedi'i ddyfarnu i gefnogi creu busnesau cymdeithasol newydd yn Nwyrain Cymru. Cafodd Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru gyllid ychwanegol i dalu am wasanaethau estynedig wrth ailbroffilio yn 2020, 2021 a 2022. Cafodd gweithrediadau eraill estyniadau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn caniatáu mwy o amser i ddarparu'r cymorth mwyaf posibl – dim cyllid ychwanegol.<br>Blaenoriaeth 2: Cafodd y cynllun Cyflymu arian ychwanegol (ac estyniad) ddiwedd 2020 fel ymateb i'r pandemig COVID yn ogystal â chymorth i adfer busnes. Hwn oedd yr unig amrywiad o'r patrwm uchod. |
| LlC yn cyhoeddi Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi | 2021 | Blaenoriaethau 1 a 2: Estyniadau amrywiol wedi'u hystyried gan y Grwpiau Rheoli Portffolio |
| Goresgyniad Rwsia o Wcráin yn arwain at gyfyngiadau yn y gadwyn gyflenwi a chyflymu chwyddiant | 2022 | |

[45] Cymorth Entrepreneuriaeth, Cymorth BBaChau, a Busnes Cymdeithasol Cymru, ynghyd ag Ymelwa ar Fand Eang.

## Crynodeb

- Yn y cyfnod cyn y Rhaglen Weithredol, dioddefai Cymru gyfraddau isel o ran buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu, gweithgarwch entrepreneuraidd, a nifer llai o BBaChau yn canolbwyntio ar dwf nag yn rhanbarthau eraill y DU.
- Mae economi Cymru wedi tyfu’n gyson yn ystod cyfnod y rhaglen, gyda Dwyrain Cymru yn sbarduno twf mewn swyddi, tra bod y Gorllewin a’r Cymoedd wedi ysgogi twf yn nifer (stoc) y busnesau.
- Mae economi Cymru wedi gweld newid cadarnhaol yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol dros gyfnod y rhaglen, gan gau’r bwlch â’r Deyrnas Unedig mewn perthynas â chynhyrchiant, gweithgarwch entrepreneuraidd, ac enillion cyfartalog. Mae dangosyddion yn erbyn yn cynnwys allforion, gwariant ar ymchwil a datblygu, ac uwchsgilio, fodd bynnag, mae’r bwlch rhwng Cymru a’r DU wedi ehangu.
- Mae pandemig COVID-19, Brexit, a’r rhyfel yn Wcráin (a’r argyfwng costau byw cysylltiedig) oll wedi effeithio ar berfformiad economi Cymru (a’r DU).

# 3. Gweithgareddau Cymorth i Fusnesau ERDF

## Cyflwyniad

3.1 Mae’r adran hon yn rhoi trosolwg o’r mathau eang o weithgareddau a gynhelir o dan bob Amcan Penodol a chynnydd cyfunol cysylltiedig gweithgareddau fesul AP yn erbyn dangosyddion targed wedi’u proffilio a’r gwariant.

## Disgrifiad o’r gweithgarwch

AP1.2: Masnacheiddio gweithgareddau Ymchwil ac Arloesi

3.2 Y nod ar gyfer Amcan Penodol 1.2 oedd: “Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy drosglwyddo technoleg yn well o sefydliadau AU.”

3.3 Roedd gweithgareddau enghreifftiol ar gyfer yr amcan hwn yn cynnwys gweithrediadau a oedd yn cefnogi busnesau i oresgyn rhwystrau i arloesi, mynd ati i arloesi, a gwella cadwyni cyflenwi arloesi rhwng busnesau a sefydliadau academaidd. Ymhellach, roeddent yn cynnwys treialu gweithrediadau a oedd yn profi cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau arloesol mewn meysydd â photensial masnachol.

3.4 Ymhellach, roedd yr Amcan Penodol yn cynnwys cynnal gweithgareddau masnacheiddio, cefnogi datblygiad prototeipiau a hybiau neu glystyrau isel eu cost ar gyfer busnesau a sectorau arloesol, yn ogystal â chymorth i fasnacheiddio, diogelu neu ymelwa ar ymchwil. Ceir rhestr o’r gweithrediadau a gynhaliwyd drwy AP1.2 yn Nhabl 3.1 isod (sylwer, pan gynhelir gweithrediad yn y ddwy raglen, yna mae’n ddau weithrediad ar wahân, sef un yn Nwyrain Cymru [DC] ac un yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd [GCC]).

**Tabl 3.1: Rhestr o’r gweithrediadau a gynhaliwyd o dan AP1.2**

| Teitl y gweithrediad | Buddiolwr arweiniol | Rhaglen |
|---|---|---|
| SMARTInnovation | Llywodraeth Cymru | DC & GCC |
| ASTUTE 2020 | Prifysgol Abertawe | GCC |
| SMARTCymru | Llywodraeth Cymru | DC & GCC |
| M-Sparc | Prifysgol Bangor | GCC |
| SMARTExpertise | Llywodraeth Cymru | DC & GCC |
| CEMET (Y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Technoleg Symudol a Datblygol) | Prifysgol De Cymru | DC & GCC |

| Teitl y gweithrediad | Buddiolwr arweiniol | Rhaglen |
|---|---|---|
| BEACON Plus | Prifysgol Aberystwyth | DC & GCC |
| SEACAMS2 | Prifysgol Bangor | GCC |
| SPECIFIC 2 | Prifysgol Abertawe | GCC |
| Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd | Prifysgol Caerdydd | DC |
| AgorIP | Prifysgol Abertawe | DC & GCC |
| Canolfan Pysgod Cregyn – ymchwil ac arloesi | Prifysgol Bangor | GCC |
| SMARTAQUA | Prifysgol Abertawe | GCC |
| Data Daearyddol ac Arsyllu ar y Ddaear ar gyfer Monitro (GEOM) | Prifysgol Aberystwyth | GCC |
| Hyb Datrysiadau Storio Ynni Clyfar (SESS) | Prifysgol De Cymru | GCC |
| Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (MEECE) | Offshore Renewable Energy Catapult | GCC |
| Llwybrau Masnacheiddio ar gyfer Technolegau Nano a Micro | Prifysgol Abertawe | DC |
| ASTUTE East | Prifysgol Abertawe | DC |
| Canolfan Arbenigedd Ffotoneg (CPE) | Prifysgol Glyndŵr | GCC |
| Bwydydd i'r Dyfodol | Prifysgol Aberystwyth | GCC |
| Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol (RICE) | Prifysgol Abertawe | GCC |
| Cyflymydd Arloesedd Data (DIA) | Prifysgol Caerdydd | DC |
| Peirianneg Dylunio Uwch | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | DC & GCC |
| ACCELERATE – Cyflymydd Technoleg Arloesi Iechyd Cymru | Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf. | DC & GCC |
| Chwyldro Cylchol | Riversimple Movement Ltd | GCC |
| FLEXISApp | Prifysgol Caerdydd | GCC |

Amcan Penodol 2.2: Dechrau busnesau

3.5 Y nod ar gyfer Amcan Penodol 2.2 fel y nodir yn Rhaglenni Gweithredol yr ERDF oedd: “Cynyddu nifer y BBaChau newydd drwy roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth.”

3.6 Roedd gweithgareddau enghreifftiol ar gyfer yr AP hwn yn cynnwys y canlynol:

- cyngor a mentora i fusnesau newydd, gan ganolbwyntio ar fusnesau newydd â photensial i gyflawni twf uchel
- gweithgarwch entrepreneuraidd cyn dechrau busnes (e.e. y gallu i brofi syniadau busnes neu gefnogi graddedigion a busnesau sydd â photensial mawr).

- cymorth penodol er mwyn creu mentrau cymdeithasol (gan gynnwys hyrwyddo modelau busnes arloesol) lle ceir tystiolaeth o fylchau mewn darpariaeth prif ffrwd.

3.7 Ceir rhestr o'r gweithrediadau a gynhaliwyd drwy AP2.2 yn Nhabl 3.2 isod.

**Tabl 3.2: Rhestr o'r gweithrediadau a gynhaliwyd o dan AP2.2**

| Teitl y gweithrediad | Buddiolwr arweiniol | Rhaglen |
|---|---|---|
| Cymorth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru | Llywodraeth Cymru | DC a GCC |
| Busnes Cymdeithasol Cymru Dechrau Newydd | Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru yn flaenorol) | DC a GCC |

Amcan Penodol 2.3: Y defnydd ar TGCh

3.8 Y nod ar gyfer Amcan Penodol 2.3 oedd: "Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn ymelwa ar rwydweithiau Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf a seilwaith TGCh."

3.9 Roedd gweithgareddau enghreifftiol ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yn cynnwys cynnal gweithdai, clinigau, a diagnosteg busnes un-i-un yn canolbwyntio ar y defnydd o fand eang y genhedlaeth nesaf (NGA)[46], gan bwysleisio'r manteision i BBaChau ond hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i'w ddefnyddio'n llwyddiannus. O dan AP2.3 mae dau brosiect yr ERDF yn cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru, sef Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes (Dwyrain Cymru) a Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes (GCC).

Amcan Penodol 2.4: Twf cyflogaeth mewn BBaChau

3.10 Y nod ar gyfer Amcan Penodol 2.4 oedd: "Cynyddu twf y BBaChau hynny sydd â photensial i dyfu, yn enwedig trwy gael mynediad at farchnadoedd newydd (cartref a rhyngwladol)."

3.11 Roedd gweithgareddau enghreifftiol ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yn cynnwys y gweithgareddau amrywiol a ganlyn:

- gwybodaeth a chyngor i fusnesau, megis y cymorth sydd ar gael yn gyffredinol i bob BBaCh e.e. drwy wefannau a llinellau cymorth

[46] Mae hyn yn cyfeirio at fand eang sy'n cefnogi gwell cyflymder ac ansawdd gwasanaeth o gymharu â systemau hŷn. Yn aml mae'n golygu uwchraddio rhwydweithiau copr neu gyfechelog presennol. Rhagor o fanylion yn [Geirfa Band Eang](#)

- cymorth wedi'i deilwra i fusnesau sy'n bwysig yn economaidd ac sy'n tyfu, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i wella cynhyrchiant, e.e. gwerthiannau, marchnata, datblygu cynnyrch, prisio a rheoli risg
- cyngor a chymorth wedi'u teilwra i fusnesau er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i dwf, e.e. materion adnoddau dynol, strategaeth, marchnata, modelau busnes, systemau, rheoli risg, effeithlonrwydd adnoddau, gwelliannau gweithredol, datblygu cynnyrch, cadwyni cyflenwi a dosbarthu
- cymorth pwrpasol i ddatblygu a thyfu mentrau cymdeithasol (gan gynnwys hyrwyddo modelau busnes arloesol) pan fo tystiolaeth o fylchau yn y ddarpariaeth brif ffrwd.
- meithrin gallu, cyngor, arweiniad a chymorth i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal busnesau yng Nghymru rhag manteisio ar gyfleoedd caffael (gan gynnwys yn rhyngwladol)
- cymorth i ryngwladoli busnesau a chynyddu allforion, megis broceriaeth a digwyddiadau partner, ffeiriau masnach, cwnsela/cyngor/mentora/costau sy'n ymwneud â chenadaethau neu gymorth ariannol arall, ymchwil i'r farchnad neu wasanaethau gwybodaeth eraill.
- cymorth ar gyfer mesurau effeithlonrwydd adnoddau ac effeithlonrwydd ynni o fewn BBaChau, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i fuddsoddiadau cysylltiedig, gan gefnogi newid ymddygiadol, a chefnogi lledaenu technoleg ac arloesi ac annog BBaChau i gynnal archwiliadau ynni.[47]

**Tabl 3.3: Rhestr o'r gweithrediadau a gynhaliwyd o dan AP2.4**

| Teitl y gweithrediad | Buddiolwr arweiniol | Rhaglen |
|---|---|---|
| Cymorth i BBaCh – Busnes Cymru | Llywodraeth Cymru | DC a GCC |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru yn flaenorol) | DC a GCC |
| Y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | DC a GCC |

[47] I gael manylion pellach gweler Wavehill (2023)

### Gwariant hyd yma

3.12 Mae Tabl 3.4 isod yn cyflwyno data monitro diweddaraf y rhaglenni ar wariant. Drwy'r ddwy Raglen Weithredol, gwelir yn y tabl bod y 47 o weithrediadau wedi cael ychydig o dan £0.5bn o gyllid, gyda £300m ohono'n gysylltiedig â grantiau'r UE. Mae'r colofnau olaf yn cyflwyno dadansoddiad o gynnydd mewn gwariant yn erbyn ymrwymiadau ariannu ac yn dangos bod y rhan fwyaf o'r Amcanion Penodol yn debygol o wario'n agos at eu dyraniad targed. Yr un eithriad i hynny yw AP1.2, lle mae diffyg sylweddol mewn gwariant yn debygol, yn enwedig yn Nwyrain Cymru.

3.13 Deellir bod nifer o brosiectau yn yr Amcan Penodol hwnnw wedi dadneilltuo cyllid a lleihau targedau yn unol â hynny o ganlyniad i COVID-19 (ym mis Mawrth 2020, roedd allbynnau cymorth busnes i gyd wedi'u hymrwymo o leiaf 75 y cant yn y ddau ranbarth, gyda dros 90 y cant wedi ymrwymo i'r rhan fwyaf)[48].

**Tabl 3.4: Gwariant fesul Amcan Penodol (Ionawr 2023)[49]**

| AP | Gweithrediadau | Cyfanswm y dyraniad (£m) | Dyraniad grant yr UE (£m) | Cyfanswm wedi'i ymrwymo (£m) | Grant yr UE wedi'i ymrwymo (£m) | Cyfanswm gwariant (% yr hyn a ymrwymwyd) | Gwariant grant yr UE (% yr hyn a ymrwymwyd) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | |
| 1.2 | 23 | 245.9 | 163.8 | 259.7 | 160.4 | 66% | 67% |
| 2.2 | 2 | 34.3 | 21.4 | 42.2 | 29.0 | 88% | 85% |
| 2.3 | 1 | 8.5 | 5.3 | 10.9 | 7.1 | 87% | 82% |
| 2.4 | 3 | 60.7 | 37.9 | 67.7 | 46.6 | 88% | 88% |
| **Dwyrain Cymru** | | | | | | | |
| 1.2 | 12 | 110.3 | 55.1 | 104.2 | 50.0 | 51% | 55% |
| 2.2 | 2 | 14.9 | 7.5 | 9.8 | 4.9 | 93% | 88% |
| 2.3 | 1 | 3.4 | 1.7 | 4.1 | 1.6 | 95% | 88% |
| 2.4 | 3 | 16.7 | 8.4 | 21.7 | 11.9 | 88% | 87% |
| **Pob AP** | **47** | **494.7** | **301.1** | **520.3** | **311.5** | | |

[48] Ibid.
[49] Cynnydd y rhaglenni: Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020

**Perfformiad yn erbyn dangosyddion targed**

AP1.2

3.14 Mae Tablau 3.5 a 3.6 isod yn manylu ar berfformiad yr Amcan Penodol yn erbyn dangosyddion allweddol o ran allbwn a chanlyniad ar gyfer pob Rhaglen Weithredol hyd at 31 Hydref 2022. Fel y gwelir ynddynt, er bod perfformiad yn erbyn y proffil ar gyfer cynnyrch newydd-i-gwmni a chynnyrch newydd-i'r-farchnad yn ymddangos yn gryf fel cyfran o'r targed a broffiliwyd, ni fydd yr un o'r ddwy Raglen Weithredol yn cyrraedd ei thargedau ar gyfer y rhaglen gyfan. Mae hyn yn adleisio pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid (a archwilir yn yr adran ganlynol) ynghylch y gallu i fasnacheiddio cynnyrch. Yn yr un modd, yn y ddau dabl mae'r dangosydd allbwn ar gyfer nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion yn 10 y cant o gyfanswm targed Dwyrain Cymru ac yn 21 y cant o gyfanswm y targed ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd. Unwaith eto, mae hyn yn dangos yr heriau yn ymwneud â pha mor berthnasol yw'r dangosydd hwn, o ystyried y pryderon ynghylch rhannu eiddo deallusol, yr amser y mae'n ei gymryd i gofrestru patent, a'r gofynion adnoddau ar fusnesau i wneud hyn. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn awgrymu efallai nad hwn oedd y dangosydd mwyaf addas ar gyfer gweithrediadau o'r math hwn.

3.15 Cytunwyd y byddai busnesau sy'n cymryd rhan yn cael eu hatgyfeirio at Busnes Cymru (AP2.2 a 2.4) ar gyfer y dangosyddion cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu cynaliadwy. Roedd un gweithrediad wedi dechrau darparu'r dangosyddion hyn cyn y cytundeb i atgyfeirio at Busnes Cymru; felly, mae'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd yn ymwneud ag un gweithrediad, a dim byd wedi'i gofnodi yn erbyn y dangosyddion hyn ar gyfer Dwyrain Cymru.

3.16 Mae nifer y mentrau a gafodd gymorth anariannol a'r targed canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn, h.y. lefel y gyflogaeth a grëwyd, hefyd yn llai na tharged y rhaglen. Mae cyflogaeth a grëwyd yn naturiol yn ddangosydd sydd ar ei hôl hi. Felly, mae'n debygol o gynyddu'n sylweddol yn ystod misoedd olaf y rhaglen; fodd bynnag, mae'n annhebygol o wneud hynny i'r graddau sy'n ofynnol i gyrraedd targed y rhaglen, yn enwedig o ystyried y cefnogir cyfradd is o fentrau nag a broffiliwyd.

3.17 Mae'r gweithrediadau o fewn Amcan Penodol 1.2, fodd bynnag, wedi perfformio'n gryf mewn perthynas â nifer y cydweithredu, maint buddsoddiad y sector preifat, a nifer y mentrau newydd a gynorthwyir.

**Tabl 3.5: AP1.2 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd**

| Dangosyddion targed | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed[50] | Rhagolwg prosiect[51] | Wedi'i broffilio hyd yma[52] | Wedi'i gyflawni hyd yma[53] | Perfformiad yn erbyn y targed | Perfformiad yn erbyn y proffil |
| Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad | 490 | 453 | 238 | 238 | 49% | 100% |
| Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 725 | 922 | 521 | 427 | 59% | 82% |
| Nifer y partneriaid yn cydweithio ar brosiectau ymchwil | 1,500 | 2,533 | 1,892 | 1,905 | 127% | 101% |
| Nifer y mentrau yn derbyn grantiau | 350 | 110 | 68 | - | 0% | |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 2,000 | 1,377 | 1,076 | 861 | 43% | 80% |
| Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 30 | 61 | 37 | 33 | 110% | 89% |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu | €42.8m | €76.8m | €45.5m | €43.1m | 101% | 95% |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 1,125 | 753 | 324 | 288 | 26% | 89% |
| Nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion | 519 | 267 | 103 | 108 | 21% | 104% |
| Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | amherthnasol | 86 | 50 | 52 | | 104% |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | | | | | |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 470 | 8 | 8 | 8 | 2% | 100% |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 470 | 8 | 8 | 8 | 2% | 100% |

[50] Targed: lefel y cyflawni y cytunwyd arni ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglenni Gweithredol.
[51] Rhagolwg prosiect: y targed a osodwyd yn erbyn dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni yn erbyn cwblhau'r Gweithrediadau hynny.
[52] Wedi'i broffilio hyd yma: y gwerth a ragwelir gan Weithrediadau cymeradwy i'w gyflawni yn erbyn dangosyddion allbwn erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.
[53] Wedi'i gyflawni hyd yma: y gwerth a adroddir yn erbyn dangosyddion allbwn gan Weithrediadau cymeradwy erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.

## Tabl 3.6: AP1.2 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Dwyrain Cymru

| Dangosyddion targed | Dwyrain Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed[54] | Rhagolwg prosiect[55] | Wedi'i broffilio hyd yma[56] | Wedi'i gyflawni hyd yma[57] | Perfformiad yn erbyn y targed | Perfformiad yn erbyn y proffil |
| Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad | 300 | 166 | 82 | 82 | 27% | 100% |
| Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 250 | 274 | 149 | 116 | 46% | 78% |
| Nifer y partneriaid yn cydweithio ar brosiectau ymchwil | 450 | 708 | 443 | 444 | 99% | 100% |
| Nifer y mentrau yn derbyn grantiau | 320 | 100 | 43 | - | 0% | 0% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 650 | 586 | 525 | 421 | 65% | 80% |
| Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 20 | 20 | 11 | 7 | 35% | 65% |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu | €26.2m | €30.1m | €13.7m | €12.9m | 49% | 94% |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 670 | 286 | 110 | 104 | 16% | 95% |
| Nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion | 315 | 117 | 44 | 32 | 10% | 73% |
| Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | amherthnasol | - | - | - | 27% | 100% |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | | | | | |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 200 | - | - | - | 0% | amherthnasol |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 200 | - | - | - | 0% | amherthnasol |

[54] Targed: lefel y cyflawni y cytunwyd arni ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglenni Gweithredol.
[55] Rhagolwg prosiect: y targed a osodwyd yn erbyn dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni yn erbyn cwblhau'r Gweithrediadau hynny.
[56] Wedi'i broffilio hyd yma: y gwerth a ragwelir gan Weithrediadau cymeradwy i'w gyflawni yn erbyn dangosyddion allbwn erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.
[57] Wedi'i gyflawni hyd yma: y gwerth a adroddir yn erbyn dangosyddion allbwn gan Weithrediadau cymeradwy erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.

AP2.2

3.18 Ar gyfer gweithrediadau o dan Amcan Penodol 2.2, mae'r tabl (3.7) isod yn dangos perfformiad cryf wrth ddarparu cymorth anariannol i fentrau (fel arfer y rheini sydd wedi dechrau busnes yn ddiweddar), gan gyflawni o leiaf deirgwaith y targed gwreiddiol ar gyfer yr AP. Ar draws dangosyddion eraill, gan gynnwys mentrau newydd a gefnogir a dangosydd canlyniad o ran cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir, mae'r AP ychydig yn uwch na'r proffil ac mae'n ymddangos ei fod yn debygol o gyrraedd cyfanswm y targed, neu fethu â'i gyrraedd o fymryn bach.

3.19 Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion sy'n ymwneud â mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu cynaliadwy yn syrthio'n fyr o'r targed. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i berfformiad is na'r disgwyl yn erbyn y targedau hyn yng nghamau cynnar y gweithrediadau hynny o dan yr Amcan Penodol hwn, yn enwedig y rhai a gychwynnodd tua dechrau cylch hwn y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol. Fel yr amlinellir mewn adrannau dilynol yr adroddiad, bu cynnydd sylweddol yn y gweithgaredd hwn wrth i'r gweithrediadau fynd rhagddynt, er nad i'r graddau y bydd modd goresgyn y diffyg amlwg.

**Tabl 3.7: AP2.2 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022)**

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion targed** | **Targed** [58] | **Rhagolwg prosiect** [59] | **Wedi'i broffilio hyd yma** [60] | **Wedi'i gyflawni hyd yma** [61] | **Perfformiad yn erbyn y targed** | **Perfformiad yn erbyn y proffil** |
| Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 5,150 | 4,138 | 3,783 | 4,069 | 79% | 108% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 275 | 1,056 | 849 | 925 | 336% | 109% |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 8,800 | 7,851 | 7,510 | 8,156 | 93% | 109% |

[58] Targed: lefel y cyflawni y cytunwyd arni ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglenni Gweithredol.
[59] Rhagolwg prosiect: y targed a osodwyd yn erbyn dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni yn erbyn cwblhau'r Gweithrediadau hynny.
[60] Wedi'i broffilio hyd yma: y gwerth a ragwelir gan Weithrediadau cymeradwy i'w gyflawni yn erbyn dangosyddion allbwn erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.
[61] Wedi'i gyflawni hyd yma: y gwerth a adroddir yn erbyn dangosyddion allbwn gan Weithrediadau cymeradwy erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | | | | | |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 2,710 | 1,310 | 1,094 | 1,193 | 44% | 109% |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 2,710 | 1,160 | 950 | 1,044 | 39% | 110% |

| Dangosyddion targed | Dwyrain Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed | Rhagolwg prosiect | Wedi'i broffilio hyd yma | Wedi'i gyflawni hyd yma | Perfformiad yn erbyn y targed | Perfformiad yn erbyn y proffil |
| Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 2,200 | 1,885 | 1,765 | 1,974 | 90% | 112% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 120 | 556 | 580 | 584 | 487% | 101% |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 3,800 | 3,187 | 3,124 | 3,653 | 96% | 117% |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | | | | | |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 1,170 | 698 | 577 | 640 | 55% | 111% |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 1,170 | 606 | 481 | 532 | 45% | 111% |

AP2.3

3.20 Mae'r AP hwn wedi perfformio'n gryf yn erbyn y proffil, ar ôl rhagori eisoes ar dargedau prosiect, rhai ohonynt o gryn dipyn. Yn sgil COVID-19, ar ôl cyfnod tawel byr yn y nifer a oedd wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon, cafwyd ymgysylltu arbennig o gryf wrth i gyflymu ddigwydd yn y broses o drosglwyddo i ddigideiddio gweithgareddau busnesau. Mae'n debyg bod y cyfuniad o gadw pellter cymdeithasol a gweithio o bell wedi cryfhau'r galw am y cymorth hwn, a'r gweithrediad wedi llwyddo i'w gyflawni i raddau helaeth, gan arwain at y gorberfformio sy'n amlwg yn Nhabl 3.8 isod.

**Tabl 3.8: AP2.3 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022)**

| Dangosyddion targed | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed | Rhagolwg prosiect | Wedi'i broffilio hyd yma | Wedi'i gyflawni hyd yma | Perfformiad yn erbyn y targed | Perfformiad yn erbyn y proffil |
| Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 1,480 | 1,709 | 1,591 | 1,806 | 122% | 114% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 3,450 | 4,384 | 4,077 | 4,048 | 117% | 99% |

| Dangosyddion targed | Dwyrain Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Targed** | **Rhagolwg prosiect** | **Wedi'i broffilio hyd yma** | **Wedi'i gyflawni hyd yma** | **Perfformiad yn erbyn y targed** | **Perfformiad yn erbyn y proffil** |
| Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 400 | 474 | 445 | 433 | 108% | 97% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 900 | 1,296 | 1,223 | 2,038 | 226% | 167% |

AP2.4

3.21 Dengys y tablau (3.9 a 3.10) isod bod nifer y mentrau a gafodd gymorth anariannol ar hyn o bryd yn is na'r proffil ar draws y ddwy Raglen Weithredol. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion canlyniad – cynnydd mewn cyflogaeth a lefel allforion – ill dau yn rhagori ar y targedau. Awgryma hyn, er bod nifer y mentrau a gefnogir yn is na'r disgwyl, eu bod yn debygol o fod wedi cael cymorth mwy dwys a bod mwy o bwyslais na'r disgwyl ar dwf, gan arwain at orgyflawni'r dangosyddion canlyniad.

3.22 Mae hefyd yn werth sylwi nad oes unrhyw ddangosyddion wedi'u cofnodi ar gyfer buddsoddiad o'r sector preifat. Deellir mai ychydig o alw oedd ymhlith ymgeiswyr am arian ERDF i ymgorffori'r dangosydd hwn yn eu gweithrediadau. Mae adborth o ymchwil cysylltiedig[62] yn awgrymu nad oedd llawer o gymhelliant i gontractwyr sicrhau incwm o'r sector preifat, gan y byddai unrhyw arian preifat a sicrhawyd yn disodli buddsoddiad ERDF mewn prosiectau.

3.23 Y targedau ar gyfer dau ddangosydd Themâu Trawsbynciol (5,910) yw'r targedau a nodir yn y Rhaglen Weithredol, fel y cytunwyd â'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon prosiect yn is oherwydd, er enghraifft, mae gweithrediadau fel Cymorth i BBaCh gan Busnes Cymru yn cael eu targedu i gyflawni dangosyddion Themâu Trawsbynciol ar gyfer 40 y cant o'r busnesau a gefnogir.

[62] Ibid.

### Tabl 3.9: AP2.4 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

| Dangosyddion targed | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed [63] | Rhagolwg prosiect[64] | Wedi'i broffilio hyd yma[65] | Wedi'i gyflawni hyd yma[66] | Perfformiad yn erbyn y targed | Perfformiad yn erbyn y proffil |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 6,450 | 10,527 | 9,852 | 10,760 | 167% | 109% |
| Nifer y mentrau yn derbyn grantiau | 40 | 59 | 55 | 29 | 73% | 53% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 8,000 | 6,353 | 5,904 | 6,013 | 75% | 102% |
| Buddsoddiad preifat mewn BBaCh yn cyfateb i gymorth cyhoeddus - grantiau | €4.3m | €0.8m | €0.6m | €0.0m | | |
| Cynnydd mewn lefelau allforio | £167.1m | £312.7m | £287.0m | £317.0m | 190% | 110% |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | | | | | |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 5,910 | 1,819 | 1,566 | 1,603 | 27% | 102% |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 5,910 | 1,969 | 1,680 | 1,732 | 29% | 103% |

[63] Targed: lefel y cyflawni y cytunwyd arni ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglenni Gweithredol.
[64] Rhagolwg prosiect: y targed a osodwyd yn erbyn dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni yn erbyn cwblhau'r Gweithrediadau hynny.
[65] Wedi'i broffilio hyd yma: y gwerth a ragwelir gan Weithrediadau cymeradwy i'w gyflawni yn erbyn dangosyddion allbwn erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.
[66] Wedi'i gyflawni hyd yma: y gwerth a adroddir yn erbyn dangosyddion allbwn gan Weithrediadau cymeradwy erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.

**Tabl 3.10: AP2.4 – Perfformiad yn erbyn y proffil (hyd at 31 Hydref 2022) – Dwyrain Cymru**

| Dangosyddion targed | Dwyrain Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed [67] | Rhagolwg prosiect[68] | Wedi'i broffilio hyd yma[69] | Wedi'i gyflawni hyd yma[70] | Perfformiad yn erbyn y targed | Perfformiad yn erbyn y proffil |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 2,550 | 6,405 | 5,949 | 6,145 | 241% | 103% |
| Nifer y mentrau yn derbyn grantiau | 10 | 24 | 22 | 15 | 150% | 68% |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 5,400 | 3,156 | 3,046 | 3,190 | 59% | 105% |
| Buddsoddiad preifat mewn BBaCh yn cyfateb i gymorth cyhoeddus - grantiau | €2.2m | €0.8m | €0.7m | €0.0m | 0% | 0% |
| Cynnydd mewn lefelau allforio | £65.9m | £84.8m | £83.2m | £99.0m | 150% | 119% |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | | | | | |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 3,200 | 760 | 700 | 818 | 26% | 117% |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 3,200 | 852 | 766 | 870 | 27% | 114% |

**Perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad**

3.24 Ar gyfer y rhaglen ERDF bresennol bu newid yn y modd y mesurir dangosyddion canlyniad, sef eu bod bellach yn ymwneud â holl boblogaeth y wlad (yn hytrach na'r rhai sydd wedi cael cymorth yn unig[71]) ac fel arfer gellir eu canfod mewn ystadegau cyhoeddedig sydd eisoes yn bodoli.

3.25 Wrth ddadansoddi perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad, mae Tabl 3.11 isod yn cyflwyno sawl gwaelodlin. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith, oherwydd oedi yn

[67] Targed: lefel y cyflawni y cytunwyd arni ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglenni Gweithredol.
[68] Rhagolwg prosiect: y targed a osodwyd yn erbyn dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni yn erbyn cwblhau'r Gweithrediadau hynny.
[69] Wedi'i broffilio hyd yma: y gwerth a ragwelir gan Weithrediadau cymeradwy i'w gyflawni yn erbyn dangosyddion allbwn erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.
[70] Wedi'i gyflawni hyd yma: y gwerth a adroddir yn erbyn dangosyddion allbwn gan Weithrediadau cymeradwy erbyn adeg benodol yng nghylch oes y Gweithrediadau. Mae'r union adeg hon yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser yr hawliad awdurdodedig diweddaraf.
[71] Er enghraifft, un dangosydd canlyniad yng nghylch blaenorol y Cronfeydd Strwythurol oedd "swyddi a grëwyd mewn BBaChau a gynorthwyir".

argaeledd data dangosyddion, fod y gwaelodlin wedi pwyso ar dystiolaeth o sawl blwyddyn cyn dechrau ar y Rhaglenni Gweithredol.

3.26 Mae targedau ar gyfer y Rhaglen Weithredol yn seiliedig ar gynnydd cyfrannol yn erbyn y gwaelodlin; felly, mae addasiadau yn y gwaelodlin yn dylanwadu ar y dangosydd targed.

3.27 Disgrifir y targed ar gyfer y dangosydd canlyniad sy’n gysylltiedig ag AP1.2 fel cynnydd o 23–27 y cant (yn dibynnu ar y Rhaglen Weithredol). Mae hyn yn cyfateb i darged sydd â throsiant sy’n gyfran gyfartalog o rhwng 28.1 y cant a 32.3 y cant (yn dibynnu ar y gwaelodlin a ddefnyddiwyd a’r ystod a ddefnyddiwyd). Waeth beth fo’r dangosydd gwaelodlin a ddefnyddiwyd, mae’r ffigwr gwirioneddol ar gyfer y dangosydd canlyniad ar gyfer 2020 yn rhagori ar y targed hwn (er nad oes data ar gael ar lefel y Rhaglen Weithredol).

**Tabl 3.11: AP1.2 – Perfformiad yn erbyn dangosydd canlyniad**

| AP | Dangosydd canlyniad | Gwaelodlin | Targed yn GCC (2023) | Targed yn DC (2023) | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.2 | Rhaniad cyfartalog cyfanswm y trosiant o arloesi cynnyrch yn ogystal ag arloesi newydd: newydd i’r farchnad, newydd i fusnes, ac wedi gwella’n sylweddol | 22.4%[72] (2010)<br>Gwaelodlin yn 2012 = 25.5%[73] | +24–27% | +23–24% | 34.8%[74] (Cymru gyfan) (2020) |

3.28 Cyflwynir y targedau ar gyfer AP2.2, 2.3 a 2.4 yn Nhabl 3.12 isod. Mabwysiadwyd dull tebyg i AP1.2 ac ym mhob achos mae’r rhaglen wedi cyrraedd targed y dangosydd canlyniad. Archwilir i ba raddau y gellir priodoli hyn i’r cymorth a gafwyd yn adran 5 (canfyddiadau o’r arolwg busnes) ac adran 7 (y gwerthusiad effaith gwrthffeithiol/CIE).

[72] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) (2010) Arolwg Arloesedd y DU wedi’i gyflwyno yn WEFO (2015) Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth – ERDF: Echel Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi
[73] BIS (2012) Arolwg Arloesedd y DU.
[74] Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) (2020) Arolwg Arloesedd y DU.

**Tabl 3.12: AP2.2, 2.3, 2.4 – Perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad**

| AP | Dangosydd canlyniad | Gwaelodlin | Targed yn GCC (2023) | Targed yn DC (2023) | Gwirioneddol (perfformiad diweddaraf) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.2 | Cyfrif mentrau newydd yn cael eu sefydlu | 4,675 (GCC)[75] (2012), 2,595 (DC)[76] (2012)<br><br>Gwaelodlin yn 2014 = 6,410 (GCC)[77], 4,935 (DC)[78] | +8% (rhagdybiedig ar ffigurau 2012) | +5% (rhagdybiedig ar ffigurau 2012) | 7,920 (GCC)[79] 6,025 (DC)[80] (ffigurau 2021) |
| 2.3 | Defnydd BBaCh o fand eang ffeibr a chebl | 22%[81] | 27%[82] | 27%[83] | 100% wedi'i fabwysiadu<br>61% cyflym iawn (lawrlwytho >30mbps)<br><br>39% band eang safonol <30mbps (ffigurau 2020)[84,85] |
| 2.4 | Cyflogaeth mewn mentrau bach (10–49 o gyflogeion) a chanolig eu maint (50–249) | 169,100 (GCC), 117,100 (DC)[86] | +10% GCC | +6% DC | 188,400 (GCC), 132,500 (DC)[87] (ffigurau 202) |

[75] Demograffeg Busnes ONS (2012) wedi'i gyflwyno yn WEFO (2015) Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth – ERDF: Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau
[76] Ibid.
[77] Demograffeg Busnes (2014).
[78] Ibid.
[79] Nifer y busnesau newydd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 2021, Demograffeg Busnes ONS (2021).
[80] Nifer y busnesau newydd yn Nwyrain Cymru yn 2021, Demograffeg Busnes ONS (2021).
[81] Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu yng Nghymru yn WEFO (2015) Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth – ERDF: Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau
[82] Ibid.
[83] Ibid.
[84] Arolwg aeddfedrwydd digidol
[85] Sylwch fod mabwysiadu band eang cyflym iawn wedi cynyddu 23 pwynt canran ers 2017.
[86] Llywodraeth Cymru (2013) *Dadansoddiad o faint busnesau Cymru.*
[87] Llywodraeth Cymru (2022) *Dadansoddiad o faint busnesau gweithredol yng Nghymru, 2021*

## Crynodeb

- Mae’r rhan fwyaf o Amcanion Penodol yn agos at wario’n llawn y cyllid grant UE a ymrwymwyd; fodd bynnag, ymddengys fod AP1.2 yn debygol o fethu â chyflawni hyn oherwydd dadneilltuo arian o sawl gweithrediad.
- Ar gyfer AP2.4 bu gor-ymrwymiad o gyllid yr UE.
- Mae’r AP1.2 yn rhagori ar ei darged o ran partneriaid yn cydweithredu mewn prosiectau ymchwil; fodd bynnag, yn erbyn cynnyrch newydd-i-farchnad a newydd-i-gwmni, nifer y patentau a gofrestrwyd, a chynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir, mae’r AP yn annhebygol o gyrraedd ei darged ar gyfer y rhaglen.
- Mae AP2.2 wedi rhagori ar y targedau o ran nifer y mentrau a gefnogir ac yn agos at ei darged o ran y rhan fwyaf o ddangosyddion eraill. Fodd bynnag, mae’r AP yn debygol o fethu â chyrraedd ei darged mewn perthynas â mabwysiadu strategaethau datblygu cynaliadwy neu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro.
- Mae AP2.3 eisoes wedi rhagori ar holl dargedau’r rhaglen ac wedi mwy na dyblu’r targed nifer y mentrau a gafodd gymorth anariannol yn Nwyrain Cymru.
- Yn AP2.4, mae nifer y mentrau a gafodd gymorth anariannol yn is na’r proffil ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae’r dangosyddion canlyniad sy’n gysylltiedig â chynnydd mewn cyflogaeth ac allforion yn rhagori ar eu targedau, sy’n awgrymu cymorth mwy dwys sydd wedi sicrhau perfformiad twf cryfach na’r disgwyl.
- Cyflawnwyd holl ddangosyddion canlyniad y Rhaglenni Gweithredol ar gyfer yr Amcanion Penodol, gan ragori ar rai ohonynt o gryn dipyn.

# 4. Barn rhanddeiliaid ar gynnal y rhaglen

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r farn strategol ar gyflawni'r rhaglen ERDF ac, yn benodol, y ddarpariaeth mewn perthynas â'r Amcanion Penodol sydd dan sylw yn yr astudiaeth hon.

**Y rhesymeg y tu ôl i'r ymyrraeth**

4.2 Pan ofynnwyd iddynt am y meddylfryd y tu ôl i ddyluniad gweithrediadau mewn perthynas â gweithgareddau o dan AP2, soniodd rhanddeiliaid am yr angen i gynyddu gweithgarwch entrepreneuraidd, cyfraddau cynhyrchiant, a nifer y mentrau twf yng Nghymru. Yn ogystal, y gobaith oedd y byddai cynyddu nifer y mentrau twf yng Nghymru yn arwain at sicrhau lefelau uwch o gyfalaf menter. Ymhlith y BBaChau hynny sydd â photensial i dyfu, teimlai rhanddeiliaid y byddai prosiectau'n ceisio galluogi BBaChau i gyflawni potensial o'r fath trwy (ymysg elfennau eraill) gael mynediad i farchnadoedd newydd (yn ddomestig ac yn rhyngwladol) a chreu swyddi uchel eu gwerth i economi Cymru.

4.3 Ar gyfer AP2.3 roedd cydnabyddiaeth bod cryn fuddsoddiad mewn seilwaith band eang wedi digwydd drwy'r rhaglen flaenorol; ar adeg cynllunio'r gweithrediad o fewn yr Amcan Penodol hwn, fodd bynnag, roedd seilwaith a ariannwyd drwy raglen 2007–2013 yn dal i gael ei gyflwyno. Cynlluniwyd gwaith rhaglen 2014-2020 ar y sail y byddai band eang ar gael yn gyffredinol. Ar y cam dylunio rhaglen, pan oedd y seilwaith band eang wedi'i gwblhau, roedd cydnabyddiaeth nad oedd llawer o fusnesau'n ymwybodol ei fod ar gael neu'n anghyfarwydd â'i fudd posibl i'w cwmni.

4.4 O ran AP1.2, soniodd rhanddeiliaid am yr angen i gynyddu lefelau arloesi trwy fuddsoddiad ychwanegol mewn ymchwil a datblygu ac i fuddsoddiad o'r fath arwain at drosi prosesau ymchwil ac arloesi yn llwyddiannus yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell (trwy AP1.2). Dylai'r buddsoddiadau hynny yn AP1.2 ddangos "arbenigo clyfar" – sef nodi'r meysydd arbenigol hynny y mae busnesau a sefydliadau ymchwil Cymru eisoes wedi sefydlu arbenigedd o bwys rhyngwladol ynddynt neu â rhyw fath o fantais gymharol.

4.5 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau Cymru, y byd academaidd ac Innovate UK, gan dynnu sylw at yr her o ddenu cyllid

arloesi gan Lywodraeth y DU i ategu buddsoddiad ERDF mewn gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru.

**Ystod a natur y gweithgareddau a ariennir drwy'r rhaglen**

4.6 Wrth ddiffinio natur y gweithgareddau a ariennir drwy raglen ERDF, cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at Adolygiad Guilford[88], a oedd yn argymell datblygu "grŵp cychwynnol o brosiectau strategol sylfaen 'asgwrn cefn' sy'n dangos potensial clir ar gyfer cyflawni amcanion allweddol y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd"[89]. Teimlai rhanddeiliaid fod hyn wedi galluogi symud tuag at lefel gweithgarwch sy'n fwy strategol ac i ffwrdd oddi wrth weithrediadau mwy niferus, ar raddfa lai.

4.7 Roedd gwasanaeth siop un stop Busnes Cymru hefyd yn cael ei ystyried yn brosiect asgwrn cefn strategol, gyda chynllun y rhaglen yn galluogi trosglwyddo cymharol ddidrafferth o'r ddarpariaeth a gynigiwyd yng nghylch blaenorol y Cronfeydd Strwythurol. Teimlwyd bod gweithrediad Busnes Cymru wedi adfyfyrio ar yr hyn a weithiai yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen flaenorol ac wedi addasu'r cynnig gwasanaeth yn unol â hynny. Nododd un rhanddeiliad mai'r unig ychwanegiad newydd (ers y rhaglen flaenorol) at deulu gweithgarwch Busnes Cymru a ariannwyd drwy'r Amcanion Penodol hyn oedd yr un a oedd yn ymwneud ag ymelwa ar fand eang cyflym iawn. Roedd hynny hefyd, fodd bynnag, yn adlewyrchu symud naturiol o weithgareddau a gynhaliwyd yn y rhaglen flaenorol, gan esblygu o weithredu seilwaith band eang a ffeibr i gefnogi ymelwa effeithiol ar y seilwaith hwnnw.

4.8 Ar gyfer gweithgareddau eraill, soniodd rhanddeiliaid am werth y cyfnod negodi (lle câi ceisiadau eu hadolygu ar y cyd gan dîm y rhaglen), a roddodd gyfle i gyfuno cynigion. Arweiniodd hyn at sefyllfaoedd ac atebion lle byddai sawl ymgeisydd a oedd yn cynnig darparu gweithgaredd tebyg ar wahân yn cael eu cyfarwyddo i gyfuno'r cynllun yn un. Fodd bynnag, un o gyfyngiadau'r dull hwn oedd diffyg terfynau amser yn gysylltiedig â chyfuno syniadau am brosiectau, a theimlwyd bod hyn yn gadael ceisiadau'n rhy benagored ac yn arwain at lithro wrth ddyfarnu a gweithredu prosiectau.

4.9 Pendronodd rhanddeiliad arall ynghylch a oedd sefydliadau ymchwil o'r tu allan i Gymru wedi cael digon o sylw i gyflwyno syniadau prosiect ar y cyd â SAUau Cymru y

---

[88] Guilford, G. (2013) *Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020*, WEFO, Caerdydd.

[89] Mae'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd wedi'i gynllunio i alluogi adnabod meysydd lle gall y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu'n fwyaf effeithiol at bolisi datblygu economaidd cyffredinol Llywodraeth Cymru.

gellid wedi mynd i’r afael â nhw drwy weithgareddau’r Cronfeydd Strwythurol. Teimlwyd bod eu diffyg ymgysylltu yn y broses ddylunio yn golygu bod proffil y gweithgareddau a ariennir (yn bennaf trwy AP1.2) yn cael ei yrru gan SAUau a sefydliadau ymchwil eraill yng Nghymru a hynny fel arfer yn y meysydd lle teimlent fod eu harbenigedd ymchwil ar ei gryfaf. Nid yw hynny’n golygu yr ystyriwyd bod syniadau am brosiectau dan arweiniad sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn wannach o gwbl; yn wir, soniodd rhanddeiliaid am gryfder y cynigion hyn ond fod cyfyngu rhywfaint wedi bod efallai ar y gallu i arloesi a chyflwyno syniadau a gweithgareddau newydd.

**Gweinyddu a darparu**

4.10 Soniodd rhanddeiliaid am heriau ar y dechrau gyda’r systemau monitro ar gyfer y rhaglen yn ogystal â gallu cyfyngedig system ar-lein WEFO ar gyfer adrodd fel partneriaid. Fodd bynnag, teimlwyd hefyd fod ymdrech sylweddol ac effeithiol wedi arwain at welliannau o ran defnyddioldeb y system, a hynny wedi helpu wrth gynnal y rhaglen.

4.11 Cyn y pandemig, roedd y rhaglen yn gofyn am gasglu “llofnodion inc gwlyb” a chopïau papur o wahanol ffurflenni cyfranogi a chofrestru. Arweiniodd y pandemig at symud cyflym yn y broses hon at lofnodion electronig. Er bod hyn wedi arwain at effeithlonrwydd sylweddol ar gyfer gweithrediadau, yn enwedig pan oedd cyfyngiadau cymdeithasol ar waith, disgrifiwyd ei bod yn arbennig o anodd casglu tystiolaeth angenrheidiol gan gyfranogwyr i gofnodi dangosyddion canlyniadau amrywiol trwy geisiadau e-bost o bell.

4.12 Roedd y rhaglen hefyd wedi cyflwyno Timau Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) a roddai gymorth i’r rheiny sy’n ymgeisio i’r Cronfeydd Strwythurol[90]. Teimlai rhanddeiliaid fod y Timau Ymgysylltu yn arbennig o ddefnyddiol i ymgeiswyr a oedd yn newydd i’r broses cael cyllid yr UE neu i sefydliadau llai. Yn ogystal, teimlwyd eu bod yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill (gan gynnwys SAUau, colegau AB, ac awdurdodau lleol) a allai fod wedi dioddef oherwydd toriadau staffio neu lai o drosiant a hynny wedi arwain at golli arbenigedd yng Nghronfeydd Strwythurol yr UE.

[90] Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Timau Ymgysylltu i’w gael yma: Gwerthusiad o’r timau ymgysylltu rhanbarthol

.

4.13 Disgrifiodd nifer o randdeiliaid y prosesau monitro a gweinyddu sy’n gysylltiedig â’r rhaglen i fod fel taith, a’r prosesau wedi’u mireinio drwy gydol y rhaglen. Mae’r prosesau bellach yn cael eu hystyried yn ganmoladwy yn y DU a’r UE. Yn ôl a ddeallir, mae’r OECD[91] hefyd wedi canmol y dulliau a fabwysiadwyd, gan argymell eu parhad ar ôl diwedd rhaglen yr UE.

4.14 Roedd mater arall a amlygwyd gan randdeiliaid a buddiolwyr arweiniol (rheolwyr prosiectau gweithrediadau) yn ymwneud â’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai o ddangosyddion yr ERDF. Roedd y derminoleg ar gyfer rhai dangosyddion wedi newid ychydig o’r rhaglen flaenorol ac roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch gofynion. Roedd nifer y mentrau newydd a gynorthwyir a nifer y mentrau sy’n cael cymorth anariannol yn ddau ddangosydd y soniodd rhanddeiliaid amdanynt lle’r oedd dryswch ar y dechrau ynghylch y meini prawf cymhwysedd. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at ostyngiad sylweddol yn y niferoedd a adroddwyd ac at ostwng targedau rhai gweithrediadau.

4.15 Soniodd arweinwyr gweithredol yn aml am ethos partneriaeth cryfach yn eu hymwneud â WEFO, gyda mwy o bwyslais ar gydweithredu a rhoi cymorth cynghori nag yr oedd rhai wedi cael profiad ohono mewn cylchoedd blaenorol o Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Themâu Trawsbynciol

4.16 Roedd y dull partneriaeth gyda WEFO yn arbennig o amlwg mewn perthynas â themâu trawsbynciol (CCT). Mae’r buddiolwyr arweiniol a WEFO wedi gweithio i greu system ar gyfer y themâu sydd wedi symud yr ymagwedd o fod yn rhywbeth oedd braidd yn ymylol mewn gweithrediadau i fod wedi’u hintegreiddio’n effeithiol (o’r ymgysylltu drwodd i ddefnyddio dulliau pragmatig wrth ddarparu). Penodwyd ymgynghorwyr sydd â’r arbenigedd angenrheidiol i integreiddio’r ddarpariaeth hon yn effeithiol neu eu cefnogi i siarad am gydraddoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol yng nghyd-destun anghenion busnes. Yn ogystal, mae integreiddio’r gweithgareddau hyn wedi’i ddwysáu oherwydd bod cynnydd wedi bod ym mhroblemau busnesau sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng costau byw, a chynnydd cyflym mewn biliau ynni.

4.17 Mae’r rheiny sy’n ymwneud â chynnal gweithgarwch o dan frand Busnes Cymru (Dechrau Newydd, twf BBaCh, ac ymelwa ar fand eang cyflym iawn) wedi bod yn rhan

[91] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

o gyfres o weithdai Blaenoriaeth 2 ERDF y deellir eu bod wedi bod yn ddefnyddiol i gryfhau'r dull partneriaeth o gyflawni'r Themâu Trawsbynciol. Mae'r gweithdai wedi archwilio perfformiad, a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal a allai gefnogi Themâu Trawsbynciol, a lle gellir gwneud gwelliannau. Ategwyd at y rhain drwy sefydlu gweithdai themâu trawsbynciol chwarterol sy'n ceisio canfod atebion i unrhyw broblemau y daethpwyd ar eu traws. Mae'r mynychwyr wedi cynnwys y rheiny sy'n darparu cymorth busnes, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, a sefydliadau AU.

4.18 Cyflwynwyd dangosyddion themâu trawsbynciol ar lefel achosion hefyd i helpu gweithrediadau i weld y camau gweithredu yr oeddent yn eu cymryd sy'n cefnogi'r themâu pan nad oedd ganddynt gyfrifoldeb am ddangosyddion y themâu yn y Rhaglen Weithredol. Roeddent yn ganllaw ac yn ffordd o ddangos trwy astudiaethau achos y cyfraniad yr oeddent yn ei wneud. Mae'r dull hwn wedi ehangu'r ystod o weithgareddau y gellir adrodd eu bod yn cyfrannu at yr agenda themâu trawsbynciol. Dywedir bod yr hyblygrwydd ychwanegol yn y dull gweithredu wedi arwain at ymrwymiad cryfach gan fuddiolwyr arweiniol yn ogystal â brwdfrydedd tuag at gyflawni dangosyddion ar lefel achosion wrth ddarparu gwasanaethau. Mae gwell dealltwriaeth ac ymrwymiad wedi arwain at welliant sylweddol yn y ddarpariaeth.

**Barn am y prif lwyddiannau**

Ymateb i COVID-19

4.19 Wrth adfyfyrio ar y prif lwyddiannau roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o ymateb y rhaglen i bandemig COVID-19. Symudwyd yn gyflym i ddarparu'n rhithwir ar draws yr holl weithrediadau, gyda llawer yn disgrifio sut y gallent addasu o fewn ychydig ddyddiau, yn hytrach nag wythnosau, tra bod y rhaglen wedi addasu ei gwasanaeth i ffwrdd o dwf a rhoi mwy o bwyslais ar wydnwch a goroesi. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y galw am gymorth i ymelwa ar TGCh a band eang a gweithio o bell wedi cynyddu'n sylweddol, a adlewyrchir hyn ym mherfformiad gweithgareddau yn AP2.3.

4.20 Cafodd targedau sy'n gysylltiedig â thwf cyflogaeth a chynyddu allforion eu gostwng a chyflwynwyd hyblygrwydd (yn y lle cyntaf gan y Comisiwn Ewropeaidd) i alluogi addasu'r dull cyflawni. Cefnogwyd rhai busnesau a gymerodd ran i addasu eu gweithrediadau i helpu i ymateb i'r pandemig, e.e. datblygu glanweithydd dwylo, cyfarpar diogelu personol, neu ddarparu ymchwil i helpu i ddeall y firws.

4.21 Mae'r symud tuag at ddarpariaeth rithwir a welwyd mewn ymateb i'r pandemig wedi'i gadw i raddau helaeth. Nid yn unig y mae rhith-ddarpariaeth yn cynnig arbedion effeithlonrwydd ar gyfer darparu gwasanaethau, gall hefyd helpu i osgoi eithrio rhai cyfranogwyr yn anfwriadol drwy ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb os ydynt efallai'n amharod i fynychu sesiwn gweithdy oherwydd risg barhaus dal yr haint.

Sefydliadau ymchwil a chydweithredu â busnesau

4.22 Maes llwyddiant allweddol arall oedd y cynnydd mewn cydweithio llwyddiannus rhwng sefydliadau AU a diwydiant. Teimlid bod y cymorth i gael mynediad at academyddion wedi chwalu llawer o rwystrau rhwng sefydliadau ymchwil a'r sector masnachol. Roedd cydweithredu o'r math hwn o gymorth i ragori ar dargedau mewn perthynas â chydweithredu rhwng partneriaid (fel yr amlinellir yn adran 3).

**Meysydd i'w gwella**

4.23 Er y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o gydweithio a chydweithredu â phartneriaid, mae gallu'r cydweithredu hwn i ddod â chynnyrch a gwasanaethau newydd ymlaen i'r farchnad wedi'i gyfyngu gan faterion yn ymwneud ag eiddo deallusol ac, yn ôl a ddeallir, oherwydd nad oes digon o gysylltiadau â darparwyr cymorth masnachol. Teimlai sawl rhanddeiliad fod angen cryfhau'r newid o gymorth sy'n gysylltiedig ag arloesi i gymorth busnes sy'n helpu i fasnacheiddio cynnyrch a gwasanaethau'n effeithiol ac y gallai hyn fod wedi dylanwadu ar y cyfraddau is na'r disgwyl o fasnacheiddio cynnyrch a gwasanaethau a gofnodwyd.

4.24 Ymhellach, teimlwyd bod un o'r dangosyddion targed allweddol, h.y. nifer y patentau a gofrestrwyd, o bosibl yn amhriodol i rai busnesau. Dywedodd rhanddeiliaid a oedd yn gysylltiedig â Blaenoriaeth 1 fod pryderon ymhlith busnesau ynghylch rhannu syniadau ac eiddo deallusol a bod ffyrdd eraill o sicrhau eiddo deallusol (yn hytrach na dilyn llwybr patent).

4.25 Roedd pryderon hefyd nad oedd gan rai microfusnesau a masnachwyr sengl yr adnoddau ariannol i helpu i fasnacheiddio eu cynnyrch a'u gwasanaethau a bod darpar fusnesau yn ystyried bod rhywfaint o'r cymorth anariannol drwy'r rhaglen yn llai gwerthfawr nag ymyriadau ariannol, a hynny wedi effeithio ar lefelau ymgysylltu a diddordeb.

4.26 Roedd teimlad y byddai busnesau a darpariaeth gwasanaeth yn elwa o aliniad cryfach â'r corff Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac, yn benodol, Innovate UK i dynnu ar yr

adnoddau sydd ar gael ar yr adeg briodol i hwyluso masnacheiddio cynnyrch. Fodd bynnag, teimlwyd bod diffyg cydlynu penodol gyda'r sefydliadau hyn mewn gweithgareddau prosiect, a hynny wedi arwain at amlygrwydd isel yng nghyfleoedd buddsoddi Llywodraeth y DU sy'n codi drwy AP1.2.

4.27 Roedd pryderon cysylltiedig ynghylch sut y gallai ymadawiad y DU â'r UE ddylanwadu ar fynediad at gyllid o'r math hwn yn y dyfodol. Soniodd rhanddeiliaid am sut roedd synergeddau â Horizon Ewrop yn gynnar yn y rhaglen wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, roedd bwlch mewn cyfleoedd ariannu penodol, gan godi pwysigrwydd defnyddio darpariaeth arloesi yn y DU gyfan a chodi proffil gweithrediadau addas i elwa ar fuddsoddiadau o'r fath.

Cadw staff

4.28 Mae cadw staff hefyd wedi bod yn heriol i weithrediadau, yn enwedig yng nghamau olaf y rhaglen, a hynny wedi effeithio ar barhad y ddarpariaeth a'r gallu i reoli a darparu gwasanaethau. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi cysylltu hyn â'r cynnwrf economaidd-gymdeithasol ers dechrau pandemig COVID-19 yn ogystal ag awydd cysylltiedig ymhlith y gweithlu am rolau parhaol (yn hytrach na rhai dros dro). Roedd hyn, ynghyd â diffyg eglurder ynghylch ffynhonnell, maint a ffocws cyllid yn dilyn cau Cronfeydd Strwythurol yr UE, wedi cynyddu ymdeimlad o ansicrwydd ynghylch llwybrau gyrfa i'r rheiny a ystyriai fynd am un o'r swyddi hyn.

Dangosyddion allbwn

4.29 Soniodd rhanddeiliaid am rai rhwystredigaethau ar y dechrau ynghylch y dangosyddion perfformiad allweddol, sut y diffiniwyd y dangosyddion, a'r gofynion angenrheidiol i gofnodi yn erbyn dangosydd. Nodwyd bod dau ddangosydd yn arbennig o broblematig:

- y diffiniad sy'n gysylltiedig â chynnyrch newydd-i-gwmni/newydd-i'r-farchnad (deellir fod hwn wedi newid dros amser, gyda'r mireinio'n egluro'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r targed hwnnw)
- y gwahaniaeth aneglur rhwng chwe awr o gymorth diagnostig busnes a 12 awr o gymorth ymgynghorol gweithredol. Mae cyflawni'r naill neu'r llall o'r rhain yn arwain at fenter yn derbyn cymorth anariannol. Fodd bynnag, cofnododd rhai gweithrediadau'n anghywir bod y dangosydd wedi'i gyflawni, ar ôl cyflawni'r hyn a ystyriwyd yn chwe awr o gymorth ymgynghorol (yn hytrach na chymorth diagnostig),

a oedd felly wedi arwain at addasiadau (gostyngiadau) yn y niferoedd yn y dangosydd hwn yr oeddent wedi'i gyflawni.

4.30 Roedd pryderon eraill ynghylch y dangosyddion allbwn yn ymwneud ag i ba raddau y mae'r rhain yn dylanwadu ar ddyluniad y darparu gwasanaethau. Roedd rhai gweithrediadau yn fwriadol wedi anelu eu cynnig gwasanaeth i fod yn ddarpariaeth tua chwe awr ac/neu 12 awr. Roedd rhanddeiliaid yn cwestiynu i ba raddau yr oedd hynny'n symud y gwasanaeth oddi wrth gael ei arwain gan anghenion i fod wedi'i arwain gan ddangosyddion targed. Yn gysylltiedig â'r pryderon hyn roedd ymdeimlad y gallai fod sefyllfaoedd lle'r oedd busnesau cyfranogol yn cael eu cefnogi hyd at y chwe awr neu'r 12 awr o ymyrraeth a dim pellach. Cwestiynwyd i ba raddau y mae hyn yn ystyried taith benodol y busnesau unigol eu hunain.

**Canlyniadau, effeithiau, a gwerth ychwanegol strategol**

4.31 Soniodd y rhanddeiliaid am amrywiaeth o ganlyniadau ac effeithiau, a'r rhain yn cynnwys cyfraddau goroesi ymhlith busnesau newydd wedi'u cefnogi gan Busnes Cymru a oedd fel arfer fwy na dwbl cyfraddau goroesi busnesau newydd ledled Cymru.[92]

4.32 Cyfeiriwyd hefyd at y GVA a gynhyrchir gan gynlluniau cymorth, yn enwedig drwy greu swyddi ychwanegol ymhlith busnesau a gynorthwyir. Mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai pob £1 o wariant ar Busnes Cymru gael ei gysylltu â chynnydd amcangyfrifedig o £10 yn GVA Cymru bob flwyddyn pe byddai'r gyflogaeth yn cael ei chadw[93].

4.33 Soniodd rhanddeiliaid am bwyslais strategol gwell y rhaglen yn sgil sefydlu prosiectau "asgwrn cefn" sydd wedi ceisio adeiladu ar lwyddiant a oedd yn bodoli eisoes a mireinio a gwreiddio darpariaeth a sefydlwyd yng nghylchoedd blaenorol y Cronfeydd Strwythurol.

4.34 Dywedwyd hefyd y sefydlwyd cysylltiadau strategol yn ystod oes y rhaglen, gyda phartneriaethau rhyngwladol yn cael eu sefydlu gyda MIT yn Boston drwy'r rhaglenni Industrial Liaison Programme a Vanguard Initiative (sy'n ceisio adeiladu ecosystemau arloesi rhanbarthol ledled Ewrop).

[92] Munday, M. a Roche, N. (2021) *Mesur effaith economaidd Busnes Cymru*, Prifysgol Caerdydd.
[93] Ibid.

4.35 Roedd enghreifftiau hefyd lle gwahoddwyd sefydliadau addysg uwch gan fusnesau i brosiectau Horizon Ewrop, gan ddangos y canlyniadau a ddeilliai o'r rhwydweithiau a'r partneriaethau sydd wedi'u galluogi gan raglen ERDF.

4.36 Er bod sawl rhanddeiliad wedi nodi cryfhau'r cydlyniant rhwng diwydiant, y llywodraeth, a phartneriaid academaidd, holwyd i ba raddau yr oedd partneriaethau llwyddiannus yn cael eu lledaenu a'u rhannu fel arfer da. Teimlai dau randdeiliad y gellid gwneud mwy i rannu a lledaenu cydweithrediadau llwyddiannus a chadarnhau'r arfer hwn.

**Argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol**

4.37 Gan adfyfyrio ar brofiad y rhaglen ERDF a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol newidiol, gofynnwyd i randdeiliaid am eu hargymhellion ynghylch darparu cymorth yn y dyfodol.

4.38 Dywedodd rhanddeiliaid pa mor bwysig oedd hi fod darpariaeth cymorth yn cyd-fynd ac yn ategu ei gilydd, gan sicrhau gwasanaeth cyson, gweladwy a chysylltiedig sy'n osgoi dryswch yn y farchnad. Mynegodd sawl rhanddeiliad awydd am gytundebau amlflwyddyn ar gyllid, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau asgwrn cefn strategol.

4.39 Argymhellwyd hefyd y dylid symleiddio'r broses ddyfarnu a darparu, gyda'r gallu i gael amserlenni byrrach ar gyfer mentrau arloesol sy'n cyd-fynd â'r cynnig strategol hwnnw.

4.40 Soniodd sawl un am yr angen i brif ffrydio'r cymorth digidol a gynigir ynghyd â mwy o ffocws ar sero net, newid yn yr hinsawdd, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

4.41 Wrth ragweld gostyngiad ym maint yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cymorth, soniodd rhanddeiliaid am yr angen i ystyried codi tâl am wasanaethau penodol ond hefyd sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cyd-fynd yn agos â pholisi llywodraeth, gan greu swyddi sy'n talu'n dda a gwaith teg (er enghraifft).

4.42 Ystyriwyd bod datgysylltu darpariaeth gwasanaeth oddi wrth dargedau ERDF hefyd yn gyfle i ailedrych ar ddulliau o ddarparu gwasanaethau, gan sefydlu dangosyddion perfformiad sy'n cael eu harwain gan anghenion ac yn cael eu llywio gan gyfleoedd. Yn gysylltiedig â hyn mae angen a chyfle canfyddedig am fwy o wrthrychedd wrth ddarparu'r ddiagnosteg gychwynnol fel rhan o'r broses ymgysylltu, gan leihau'r dylanwad tybiedig hwnnw o gyrraedd trothwy o ran nifer yr oriau cymorth.

4.43 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am yr angen i adeiladu ar y cynnydd wrth wella cysylltiadau rhwng sefydliadau ymchwil a diwydiant. Cyfeiriwyd hefyd at annog microfusnesau yn arbennig i gymryd rhan mewn cydweithrediadau ymchwil a darparu'r adnoddau i oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â'u hymgysylltiad.

4.44 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am y cyfleoedd i ymgysylltu'n fwy effeithiol ag economïau lleol a chydag awdurdodau lleol, sefydliadau ymchwil, a sefydliadau rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darpariaeth yn adlewyrchu'r cryfderau a'r heriau lleol unigryw sy'n bodoli ac sydd wedi'u gwreiddio yn y cymunedau lleol hynny.

4.45 Mae pryderon y gellid colli'r dulliau cadarn o reoli rhaglenni a phrosiectau a ariennir gan yr UE yng Nghymru, ac mae awydd i gadw'r elfennau gorau o'r rhain mewn gweithgarwch yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae pryderon y gallai'r cynnydd sylweddol a wnaed o ran cyflawni yn erbyn y themâu trawsbynciol gael ei golli heb ofynion y Cronfeydd Strwythurol.

4.46 Mae themâu trawsbynciol wedi arwain cynlluniau i feddwl ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu cynnal yn wahanol. Bydd cynnwys y themâu o ddechrau rhaglenni yn y dyfodol yn debygol o helpu i fynd i'r afael â'r diffygion adnoddau a welwyd yn y gorffennol. Mae'r defnydd o ddangosyddion ar lefel achosion wedi rhoi arweiniad defnyddiol i fentrau i adfyfyrio ar y cyfraniad y maent yn ei wneud i'r themâu. Bellach mae mwy o ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o'r gwerth ychwanegol y mae hyn yn ei roi i gymorth busnes.

4.47 Roedd amrywiaeth o'r argymhellion gan randdeiliaid hefyd yn adlewyrchu ar y strwythurau newidiol ar gyfer darparu ariannu a ddaw yn sgil Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF). Mae yna bryderon, gyda chynlluniau buddsoddi a arweinir gan awdurdodau lleol ar gyfer y Gronfa hon, bod risg o doreth o fentrau ar raddfa fach sy'n drysu'r farchnad neu'n arwain at ddyblygu neu orgyffwrdd pan fo busnesau'n gweithredu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

4.48 Teimlai rhanddeiliaid y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan allweddol wrth weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynlluniau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ategu darpariaeth asgwrn cefn y bwriedir iddi gael ei phrif ffrydio y tu hwnt i raglen ERDF.

## Crynodeb

- Soniai rhanddeiliaid yn aml am Adolygiad Guilford fel sail i flaenoriaethu gweithgareddau drwy'r Rhaglen Weithredol a datblygiad grŵp cychwynnol o brosiectau strategol i fod yn asgwrn cefn.
- Cafodd dyluniad y prosiectau asgwrn cefn ganmoliaeth eang am adeiladu ar yr hyn a weithiodd yn y rhaglen flaenorol, gan esblygu, mireinio a gwreiddio'r cymorth a gynigir yng Nghymru.
- Er y cafwyd trafferthion ar y dechrau gyda'r systemau monitro, mae diffiniadau allbwn a gofynion cymhwysedd wedi gwella dros amser. Yn ogystal, bu newid amlwg yn rôl a pherthynas WEFO â buddiolwyr arweiniol, gydag ethos partneriaeth cryf yn cael ei sefydlu a phwyslais ar gydweithio yn ogystal â hyblygrwydd mewn ymateb i ysgytwadau allanol.
- Mae'r dull partneriaeth hefyd wedi helpu i integreiddio mwy o themâu trawsbynciol yng ngweithgarwch gweithrediadau yn AP2.2 ac AP2.4 (lle pennwyd targedau).
- Roedd rhanddeiliaid yn arbennig o gadarnhaol am yr ymateb i bandemig COVID-19. Addaswyd yn gyflym i ddarparu gwasanaethau ar-lein neu o bell a chroesawyd y diwygiadau i flaenoriaethau'r rhaglen, sef i ffwrdd o dwf a thuag at wytnwch a goroesi.
- Disgrifiodd rhanddeiliaid hefyd sut y bu i gydweithio rhwng sefydliadau ymchwil a sefydliadau masnachol fod yn arbennig o lwyddiannus. Fodd bynnag, soniwyd am heriau ac wrth fasnacheiddio cynnyrch, gyda rhai yn cysylltu'r rhain ag angen am integreiddio a chydweithio agosach rhwng mentrau sy'n gysylltiedig ag arloesi, datblygu cynnyrch, a chymorth busnes.
- Ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, argymhellodd rhanddeiliaid gytundebau amlflwyddyn ar gyfer prosiectau asgwrn cefn i'w hategu gan weithgareddau arloesol, tymor byr. Yn ogystal, siaradodd rhanddeiliaid am yr angen i brif ffrydio darpariaeth cymorth digidol ac ymgysylltu'n fwy effeithiol ag economïau lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu heriau a chyfleoedd lleol.
- Teimlwyd hefyd bod dileu cyllid yr UE yn gyfle i ddatgysylltu darpariaeth oddi wrth ddangosyddion allbwn/canlyniad i sicrhau ei bod yn cael ei harwain gan angen/cyfle, yn hytrach nag yn cael ei harwain gan allbwn.

***Argymhellion***

- Yn y cyfnod sy'n arwain at ariannu darpariaeth cymorth yn y dyfodol, rhaid adolygu'r dangosyddion perfformiad a'r meini prawf cysylltiedig ar gyfer eu cyflawni.
- Dylai dangosyddion osgoi dylanwadu ar ymddygiad os yw'n tynnu darpariaeth gwasanaeth oddi wrth anghenion a chyfleoedd y busnesau sy'n cymryd rhan.
- Dylid cadw'r dulliau a fabwysiadwyd i integreiddio themâu trawsbynciol yn effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cymorth busnes yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried eu haliniad agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru.
- Mae angen i wasanaethau cymorth sicrhau aliniad agos ag Innovate UK ac adnoddau eraill sy'n canolbwyntio ar arloesi, a mynediad da i'r adnoddau hyn, er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn cael eu cyfran deg o gyfleoedd i gael gafael ar y buddsoddiad hwn.
- Dylai darpariaeth cymorth digidol fod yn rhan o'r cynnig prif ffrwd ar gyfer cymorth busnes, o ystyried ei rôl ganolog yn hybu cystadleurwydd economaidd.
- Erys rôl hanfodol i Lywodraeth Cymru yn y gwaith o gydlynu, alinio a hyrwyddo gweithgarwch cymorth busnes dan arweiniad awdurdodau lleol, gan weithio ochr yn ochr â thimau rhanbarthol i leihau'r risg o ddryswch a mwy o gymhlethdod o ran yr hyn a gynigir yn y farchnad.

# 5. Barn am y cymorth a gafwyd – arolwg busnes

## Cyflwyniad


5.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolwg i 1,014 o gyfranogwyr a gafodd gymorth wedi'i ariannu gan ERDF o dan Amcanion Penodol 1.2, 2.2, 2.3 neu 2.4. Mae copi o'r arolwg i'w gael yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

5.2 Yn adran hon yr adroddiad, mae croesdablau wedi'u creu i nodi a phrofi arwyddocâd ystadegol perthynas bosibl rhwng dau newidyn (sef ymateb yr holl ymatebwyr i'r arolwg fel un newidyn ac ymateb ymatebwyr fesul AP fel y newidyn arall) trwy gyfrwng prawf annibyniaeth Sgwâr-Chi Pearson. Wrth ddehongli'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adran hon (yn benodol yr hyn a gyflwynir mewn tablau), dangoswyd gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng yr hyn a arsylwyd mewn cymhariaeth â gweddill y sampl, ar lefel hyder 95 y cant (lefel arwyddocâd 0.05). Mae ffigurau glas a saeth ar i fyny wedi'u defnyddio i nodi gwahaniaethau cadarnhaol, a ffigurau coch gyda saeth ar i lawr ar gyfer gwahaniaethau negyddol. O'r herwydd, nid yw ffigurau heb saethau yn dangos unrhyw berthynas arwyddocaol, o gymharu â gweddill y sampl, ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried yn benderfynydd sy'n arwyddocaol yn ystadegol.

## Proffil y buddiolwyr

5.3 Mae Ffigur 5.1 yn dangos dosbarthiad sector y busnesau a ymatebodd i'r arolwg ac yn cymharu hyn â dosbarthiad BBaChau ledled Cymru. Mae'r sector proffesiynol a gwyddonol a'r sector gweithgynhyrchu yn llawer amlycach ymhlith busnesau a gynorthwyir nag sy'n arferol ledled Cymru. Roedd y sectorau hyn amlycaf ymhlith y rhai a gafodd gymorth o dan AP1.2, gyda thraean o'r busnesau a gymerodd ran yn gweithredu yn y sector proffesiynol/gwyddonol a chwarter yn y sector gweithgynhyrchu.

**Ffigur 5.1: Sampl yr arolwg yn ôl prif sector y buddiolwyr o gymharu â BBaCh yng Nghymru**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014*)*, a chyfrif busnesau Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (2022)

5.4 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ficrofusnesau (sef yn cyflogi llai na 10 o bobl), gan gyfrif am 86 y cant o ymatebwyr yr arolwg, tra bod 92 y cant o'r busnesau a ymatebodd yn gweithredu o un safle.

5.5 Mae gan fwy na phedwar o bob pum busnes (83 y cant) gwsmeriaid ledled Cymru, tra bod hanner (51 y cant) yn gwasanaethu cwsmeriaid ledled gweddill y DU.

**Ymwybyddiaeth a chymhelliant**

5.6 Cadarnhaodd dau o bob tri (67 y cant) o'r holl ymatebwyr eu bod yn ymwybodol bod y cymorth yn cael ei ariannu drwy'r ERDF (sydd ychydig yn is na'r gyfradd ymwybyddiaeth yn 2016 [75 y cant])[94]; fodd bynnag, roedd bron pob un (97 y cant) o'r rhai a ymgysylltodd â chymorth drwy AP1.2 yn ymwybodol o'r ffynhonnell ariannu.


5.7 Daeth chwarter o ymatebwyr yr arolwg i wybod am y cymorth drwy chwilio ar-lein (o gymharu â dim ond chwech y cant yn arolwg 2016), a hyn wedi cynyddu i 29 y cant o

94 SQW Ltd, Ysgol Fusnes Aston a BMG Research (2016) *Gwerthusiad o 'Cymorth i Fusnesau' yr ERDF*, WEFO, Llywodraeth Cymru

fusnesau a gafodd gymorth ar ôl i bandemig COVID-19 ddechrau, gan ddangos dylanwad posibl y newid i ddarpariaeth rithwir.

5.8 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg nodi eu rhesymau dros gymryd rhan yn y ddarpariaeth. Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod 59 y cant wedi nodi twf busnes fel rheswm (i lawr o 71 y cant yn 2016), tra bod gan 40 y cant ddiddordeb mewn dechrau busnes. Roedd rhesymau nodedig eraill yn cynnwys cyflwyno cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd (30 y cant o gymharu â 54 y cant yn 2016) a chynnal lefelau trosiant a phroffidioldeb (30 y cant).

**Ffigur 5.2: Rhesymau dros chwilio am gymorth**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014)

5.9 O’u dadansoddi fesul Amcan Penodol mae’n amlwg bod dyheadau i dyfu eu busnes yn codi amlaf ymhlith y rhai a gafodd gymorth drwy AP2.3 (ymelwa ar TGCh a band eang ffeibr), gyda 70 y cant yn mynegi’r dymuniad hwnnw. Mewn mannau eraill, roedd patrymau cymhelliant fel rheol yn adlewyrchu nodau pob AP (gyda’r awydd i gyflwyno cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd yn arbennig o gyffredin ymhlith cyfranogwyr AP1.2 a’r awydd i ddechrau busnes yn arbennig o gyffredin ymhlith cyfranogwyr AP2.2).

5.10 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg pam eu bod wedi mynd am gymorth ERDF yn hytrach na darpariaeth cymorth busnes arall. Dywedodd ychydig dros hanner oherwydd ei fod yn haws cael gafael arno na darpariaeth arall, a hyn yn cynyddu i ddau o bob tri o’r rheiny a oedd eisiau cymorth i arallgyfeirio i farchnadoedd newydd neu ddatblygu partneriaethau cydweithredol (yn gysylltiedig ag AP1.2 fel arfer). Yn ogystal, cyfeiriodd 50 y cant at y ffaith bod y gwasanaeth am ddim (a hyn wedi cynyddu i 59 y cant ymhlith y rhai a oedd yn cael cymorth o dan AP 2.3). Teimlai dros draean (37 y cant) fod y cymorth yn fwy addas i’w hanghenion na darpariaeth arall oedd ar gael, tra teimlai 22 y cant ei fod o ansawdd gwell na darpariaeth arall (a hyn yn cynyddu i 27 y cant ymhlith y rhai a oedd yn cael cymorth o dan AP2.2).

5.11 Pe na bai cymorth ERDF wedi bod ar gael, dywedodd 40 y cant o’r ymatebwyr a holwyd y byddai wedi bod yn annhebygol neu’n annhebygol iawn y byddent wedi cael cymorth yn rhywle arall. Cynyddai’r canran hwn i bron i hanner yr ymatebwyr a gafodd gymorth o dan AP2.3. I’r rheiny oedd am ddechrau busnes, dywedodd 22 y cant y byddai’n “annhebygol” a 16 y cant “annhebygol iawn” y byddent wedi chwilio am gymorth yn rhywle arall pe na byddai’r cymorth hwn yn bodoli. I’r rheiny oedd am dyfu eu busnes, cyfran yr ymatebwyr busnes a oedd yn “annhebygol” o chwilio am gymorth yn rhywle arall oedd 30 y cant tra bod 13 y cant yn “annhebygol iawn” o chwilio am gymorth yn rhywle arall.

**Cymorth y prosiect**

5.12 Mae Tabl 5.1 drosodd yn cyflwyno natur y cymorth a ariennir gan ERDF a ddarparwyd i ymatebwyr yr arolwg. Dengys y tabl batrymau sy’n adlewyrchu pwyslais pob Amcan Penodol. Mae’n werth nodi bod 26 y cant o ymatebwyr yn 2016 wedi adrodd eu bod wedi cael cymorth ag e-fasnach neu TGCh, sy’n dangos bron i ddyblu cyfran ymatebwyr yr arolwg a gafodd gymorth o’r math hwn o’r Rhaglen Weithredol flaenorol i’r un hon.

**Tabl 5.1: Math o gymorth a roddwyd – yn gyffredinol a fesul AP[95]**

| | AP1.2 | AP2.2 | AP2.3 | AP2.4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor neu gymorth ar sut i redeg a thyfu busnes | 12% ↓ | 75% ↑ | 18% ↓ | 25% ↓ | **59%** |
| Cefnogaeth gyda marchnata digidol ac e-fasnach | 29% ↓ | 67% ↑ | 58% | 58% | **50%** |
| Cael gafael ar gyllid | 14% | 16% ↑ | 3% ↓ | 10% | **36%** |
| Cyngor neu gymorth ar sut i ddechrau busnes | 36% | 52% ↑ | 14% ↓ | 42% ↑ | **35%** |
| Datblygu cydweithredu, partneriaeth neu gefnogaeth â rhwydweithio | 12% ↓ | 48% | 84% ↑ | 34% ↓ | **27%** |
| Cyngor neu gefnogaeth arloesi | 66% ↑ | 29% | 24% | 21% ↓ | **26%** |
| Cyngor neu gefnogaeth TGCh | 42% ↑ | 36% ↑ | 18% ↓ | 25% | **26%** |
| Drafftio strategaethau ac/neu brosesau ar gyfer y cwmni cyfan - gan gynnwys strategaethau Amgylcheddol a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth | 22% | 23% | 48% ↑ | 15% ↓ | **25%** |
| Cymorth yn ymwneud ag adeiladau'r busnes neu ofod swyddfa, gan gynnwys gofod labordy | 10% | 8% | 4% | 6% | **10%** |
| Cyngor neu gefnogaeth allforio | 24% | 33% ↑ | 14% ↓ | 27% | **6%** |
| Arall (manylwch) | 3% | 2% | 3% | 6% ↑ | **5%** |
| Dim un o'r rhain | 2% | 2% | 2% | 4% | **4%** |
| Ddim yn cofio/Ddim yn gwybod | 5% | 4% | 4% | 6% | **3%** |


Ffynhonnell: Dadansoddiad o Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014). Sylwer y gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis sawl opsiwn ar gyfer y cwestiwn hwn, felly, nid yw'r canrannau yn adio i 100 y cant.

[95] Mae'r saethau'n cynrychioli gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol (lefel arwyddocaol 0.05) rhwng yr hyn yr arsylwir arno mewn ymatebwyr a gefnogir gan AP o gymharu â gweddill y sampl. Mae'r saeth las tuag i fyny (↑) yn dynodi gwahaniaeth positif, a'r saeth goch ar i lawr (↓) yn dangos gwahaniaeth negyddol.

### Cymorth i ddechrau busnes

5.13 Ymysg y busnesau hynny a oedd wedi cael cymorth dechrau busnes, yn bennaf drwy AP2.2, roedd y cymorth wedi canolbwyntio ar gynllunio busnes (70 y cant) ac archwilio/datblygu syniad am fusnes (57 y cant), neu roedd yn gysylltiedig â marchnata a hyrwyddo (60 y cant) ac/neu ddeall y farchnad (57 y cant). Meysydd pwysig eraill cyngor ar ddechrau busnes oedd rheoleiddio a deddfwriaeth, a gyrchwyd gan 52 y cant o'r busnesau a ymatebodd, a mynediad at gymorth ariannol (46 y cant)[96].

**Ffigur 5.3: Math y cymorth dechrau busnes a roddwyd**





Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 358)

Cymorth i fusnesau wedi'u sefydlu'n barod

5.14 Yn ddigon tebyg i hanes yr elfen cymorth dechrau busnes, y mathau mwyaf cyffredin o gymorth a dderbyniwyd yn yr elfen hon hefyd oedd ar gyfer marchnata a hyrwyddo (67 y cant) a chymorth wrth gynllunio busnes (65 y cant). Ymhlith busnesau mwy sefydledig, fodd bynnag, roedd mwy o bwyslais ar gymorth wedi'i anelu at ymgysylltu â chwsmeriaid a gwella seilwaith a phrosesau mewnol. Roedd hanner y busnesau wedi chwilio am ffyrdd o wella ymgysylltiad cwsmeriaid, tra bod 46 y cant wedi cael cymorth â mabwysiadu digidol (roedd 27 y cant hefyd wedi cael cymorth â seilwaith TG) a 43 y cant gyda gwella prosesau busnes.

[96] Sylwch fod y cwestiwn hwn wedi gadael i fusnesau ddewis mwy nag un ateb.

**Ffigur 5.4: Cymorth i redeg a thyfu busnes**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 597)

Cymorth ag Arloesi

5.15 Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd 26 y cant eu bod wedi cael cymorth ag arloesi. O'r busnesau hyn, roedd 46 y cant wedi cael cefnogaeth ag ymchwil a datblygu, datblygu cynnyrch ac arloesi, tra bod 42 y cant wedi cael cymorth â masnacheiddio a throsglwyddo gwybodaeth.

5.16 Pan oedd busnesau'n cael cymorth ag arloesi, dywedodd mwy na thraean (37 y cant) ohonynt eu bod wedi datblygu perthynas gydweithredol â sefydliadau AU, academyddion eraill, a busnesau eraill. Codai cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi datblygu perthynas cydweithredu i 42 y cant ymhlith y rhai yn Nwyrain Cymru yn unig a gafodd gymorth ag arloesi. Yn ôl y disgwyl, roedd cyfran uwch o fusnesau (58 y cant) a gafodd gymorth o dan AP1.2 wedi cadarnhau eu bod wedi datblygu

perthynas gydweithredol trwy gymorth arloesi na'r rhai a oedd yn cael cymorth o dan Amcanion Penodol eraill.

5.17 Mae dadansoddiad fesul sector yn nodi bod cyfran uwch o fuddiolwyr yn y sector gwasanaethau busnes wedi cael cymorth gydag ymchwil a datblygu, datblygu cynnyrch, ac arloesi (69 y cant), tra bod dadansoddi ar lefel Amcan Penodol yn dangos bod un busnes o bob pump a gâi gymorth o dan AP2.3 yn benodol wedi cael cymorth â datblygu gwefan a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, sydd eto'n adlewyrchu ffocws yr AP ar BBaChau yn defnyddio ac yn ymelwa o seilwaith TGCh.

Themâu Trawsbynciol

5.18 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg am eu defnydd o Becyn Adnoddau Diogelu at y Dyfodol gan Busnes Cymru[97]. O'r 1,014 o ymatebwyr, dim ond tri y cant (29 o ymatebwyr) oedd yn cofio defnyddio'r pecyn adnoddau (er bod 21 y cant arall yn ansicr a oeddent wedi gwneud hynny).

5.19 Mae'n bosibl bod diffyg ymwybyddiaeth ynghylch y Pecyn Adnoddau Diogelu at y Dyfodol wedi dylanwadu ar y gyfradd ymateb hon. Pan ofynnwyd iddynt am y mathau o gyngor a chymorth a gawsant, cyfeiriodd chwarter y busnesau a ymatebodd at gael cymorth â "llunio strategaethau ac/neu brosesau cwmni cyfan – gan gynnwys amgylcheddol a chydraddoldeb ac amrywiaeth". Dyma'r math o weithgaredd a fyddai fel arfer wedi codi drwy'r pecyn adnoddau. Roedd cyfeiriadau at dderbyn y math hwn o gymorth yn arbennig o gyffredin ymhlith busnesau a gefnogid drwy AP2.2 (33 y cant) ac AP2.4 (27 y cant). Yn wir, yn yr Amcanion Penodol hyn y targedwyd gweithrediadau i gyflawni dangosyddion themâu trawsbynciol y rhaglen.

5.20 Pan archwiliwyd natur y cymorth yn fanylach, mae'r elfennau a nodir yn Nhabl 5.2 isod i gyd yn debygol o fod wedi dod dan ddylanwad defnyddio'r pecyn adnoddau (er nad yw'n bosibl pennu i ba raddau). Dengys y tabl bod y gweithgaredd hwn unwaith eto ar ei amlycaf ymhlith y rhai a gafodd gymorth drwy AP2.4 ac AP2.2.

[97] Mae Pecyn Adnoddau Diogelu Busnes at y Dyfodol yn ceisio helpu busnesau i gyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy wreiddio datblygu cynaliadwy, egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chefnogaeth gyda'r Gymraeg yn eu dyheadau ar gyfer y dyfodol


**Tabl 5.2: Cymorth mewn meysydd pwnc a nodwyd o bosibl trwy'r Pecyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes**[98]

| % y golofn | AP1.2 | AP2.2 | AP2.3 | AP2.4 | Cyfans wm |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella rheolaeth AD, gan gynnwys gweithdrefnau recriwtio a chydraddoldeb ac amrywiaeth | 0% | 23% | 8%↓ | 27%↑ | **20%** |
| Cymorth ag effeithlonrwydd ynni ac adnoddau | 6% | 15%↑ | 5%↓ | 11% | **11%** |
| Gwella arferion amgylcheddol | 12 | 22% | 9%↓ | 20% | **17%** |
| **Nifer yn y golofn** | 17 | 176 | 159 | 245 | 597 |

Barn am y cymorth

5.21 Mae Ffigur 5.5 isod yn manylu ar fodlonrwydd ymatebwyr mewn tri maes, sef sut y darparwyd y cymorth, ansawdd y cymorth hwnnw, a pha mor fodlon oeddent â chanlyniadau/effeithiau'r gefnogaeth i'w busnes. Mae'n dangos lefelau uchel o fodlonrwydd ar draws y tri maes. Roedd bron i dri chwarter (73 y cant) yn "fodlon iawn" neu'n "eithaf bodlon" ag ansawdd y cymorth a dderbyniwyd, ac roedd 69 y cant yn "fodlon iawn" neu'n "eithaf bodlon" â'r ffordd y darparwyd y cymorth.

**Ffigur 5.5: Bodlonrwydd â'r cymorth**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014)

98 Mae'r saethau'n cynrychioli gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol (lefel arwyddocaol 0.05) rhwng yr hyn yr arsylwir arno mewn ymatebwyr a gefnogir gan AP o gymharu â gweddill y sampl. Mae'r saeth las tuag i fyny (↑) yn dynodi gwahaniaeth positif, a'r saeth goch ar i lawr (↓) yn dangos gwahaniaeth negyddol.


5.22 Ymysg y rheiny oedd yn “fodlon iawn” â’r ffordd y darparwyd y cymorth, yr hyn oedd yn bwysig iawn oedd pa mor ymatebol a pha mor rhwydd cael gafael ar y cynghorydd. Yn ogystal, roedd busnesau bodlon yn aml yn tynnu sylw at y pethau a gyflawnwyd, megis adroddiadau diagnostig a chynlluniau gweithredu, i fod yn gryfder penodol.

5.23 O ran yr ymatebwyr anfodlon, cyfeiriwyd at ddiffyg ymgysylltiad gan eu cynghorydd yn ogystal â chyfathrebu anaml neu ddiffyg bod yn ymatebol. Ymddengys mai’r prif reswm arall dros anfodlonrwydd yw’r un sy’n gysylltiedig â COVID-19, gyda sawl busnes yn tynnu sylw at y problemau ag ymgysylltu ar-lein a diffyg cyswllt wyneb yn wyneb. Wrth ddadansoddi ymatebwyr yr arolwg yn ôl pryd yr oeddynt wedi ymgysylltu â’r cymorth, sylwyd ar gynnydd yn y rhai a oedd yn anfodlon â’r ffordd y darparwyd cymorth (o 12 y cant o’r ymatebwyr a gofrestrodd cyn y pandemig i 17 y cant o’r ymatebwyr a gofrestrodd ar ôl i’r pandemig ddechrau). Fodd bynnag, nid yw’r gyfradd hon yn gynnydd sy’n arwyddocaol yn ystadegol.

5.24 Wrth ddadansoddi fesul Amcan Penodol, gwelwyd bod cyfran uwch (sy’n arwyddocaol yn ystadegol) o fusnesau yn “anfodlon iawn” â’r cymorth a gawsant o dan AP2.4 (11 y cant o’i gymharu ag wyth y cant ar gyfer yr holl ymatebwyr). Wrth ddadansoddi atebion penagored i chwilio am ysgogwyr yr anfodlonrwydd, mae’n amlwg bod y ffigur hwn yn rhannol gysylltiedig â diffyg ymateb ar ran y darparwr cymorth.

5.25 Yna gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno â sawl datganiad yn ymdrin ag agweddau penodol ar y cymorth a dderbyniwyd. Nododd dros 80 y cant o’r ymatebwyr fod y ddarpariaeth wedi’i chyflwyno dros amserlen dderbyniol, gyda thri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno bod y cymorth yn berthnasol i’w hanghenion nhw (a busnesau tebyg). Fodd bynnag, teimlai un o bump o’r ymatebwyr nad oedd digon o ymgysylltu dilynol wedi hynny na theilwra ar y ddarpariaeth.

**Ffigur 5.6: Bodlonrwydd ag elfennau penodol y cymorth**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014)

Bodloni disgwyliadau

5.26 Teimlai dros 80 y cant o'r ymatebwyr fod eu disgwyliadau wedi'u bodloni (o leiaf), tra bod bron i ddau o bob tri (60 y cant) o ymatebwyr yr arolwg wedi nodi bod y cymorth wedi rhagori ar eu disgwyliadau (yn cynyddu i 69 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cael cymorth o dan AP2.2). Teimlai tua un o bob chwech o'r ymatebwyr (17 y cant) fod y cymorth wedi methu â bodloni eu disgwyliadau, gyda 12 y cant o ymatebwyr o dan AP2.4 yn nodi bod y cymorth yn llawer llai nag yr oeddent wedi'i ddisgwyl. Ymhlith yr ymatebwyr hynny y bodlonwyd eu disgwyliadau, roedd tri rheswm clir pam fod hyn yn wir: cyflymder ymateb, gwybodaeth a phrofiad y cynghorydd, ac ymgysylltu dilynol.

5.27 I’r rhai a deimlai nad oedd eu disgwyliadau wedi’u bodloni, nodwyd ansawdd ac amlder y cyfathrebu fel rheswm dros anfodlonrwydd. Dywedodd sawl busnes mai cyfyngedig oedd y cyswllt gan eu cynghorydd ar ôl y cyfarfod cyntaf ac roedd yn rhaid iddynt fynd ar ôl eu cyswllt yn rheolaidd i holi am ddatblygiadau a chael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd rhesymau eraill dros anfodlonrwydd yn ymwneud â diffyg cymorth wedi’i deilwra, ac ystyriwyd bod y cyngor a’r wybodaeth a gafwyd yn rhy generig.

Effaith COVID-19 ac ymadael â’r UE ar y cymorth

5.28 O’r ymatebwyr i’r arolwg, cofrestrodd 41 y cant â’r cymorth ar ôl mis Mawrth 2020, pan osododd y llywodraeth gyfyngiadau cymdeithasol i atal lledaeniad COVID-19. Gofynnwyd sawl cwestiwn i’r busnesau hyn yn archwilio effaith pandemig COVID-19 ar y cymorth a gafwyd yn ogystal â’i effeithiau.

5.29 Ymhlith y garfan hon o fusnesau a ymatebodd, dywedodd 38 y cant fod y cyfyngiadau a osodwyd wedi effeithio ar sut ac/neu pryd y rhoddwyd y cymorth. Fel y dangosir yn Nhabl 5.3 isod, ymhlith y rhai a soniodd am effaith cyfyngiadau COVID-19, roedd bron i ddau fusnes o bob tri ar draws pob Amcan Penodol yn yr arolwg wedi cael eu cymorth wedi’i ddarparu o bell. Mae’r gyfran hon yn cynyddu i bron i bedwar busnes o bob pump o dan AP2.3 yn cael eu cymorth o bell. Ymhellach, dywedodd chwarter yr holl ymatebwyr fod angen mwy o gymorth arnynt o ganlyniad i’r pandemig. Mae’r ymatebion yn dangos pa mor effeithiol yr ymatebodd gweithrediadau i’r cyfyngiadau a osodwyd, gan mai dim ond lleiafrif o ymatebwyr yr arolwg (11 y cant) a ddywedodd fod oedi wedi bod yn eu cymorth neu nad oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd y mater hwn yn llawer amlycach ymhlith y busnesau cyfranogol a oedd wedi cael cymorth o dan AP1.2. Fel yr amlinellwyd mewn adrannau blaenorol, roedd llawer o fusnesau a gymerodd ran mewn gweithrediadau o dan yr AP hwn wedi’u cyfyngu drwy beidio â chael mynediad i labordai ac offer technegol cysylltiedig i wneud gweithgareddau ymchwil a datblygu ac arloesi yng nghanol y pandemig.

**Tabl 5.3: Effaith COVID-19 ar sut y rhoddwyd cymorth**[99]

| Effaith COVID-19 | AP1.2 | AP2.2 | AP2.3 | AP2.4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cafodd ei ddarparu o bell | 38% | 85% ↑ | 79% ↑ | 49% ↓ | 63% |
| Roedd angen mwy o gymorth | 15% | 15% | 19% | 31% | 24% |
| Roedd oedi â'r cymorth neu nid oedd ar gael | 46% ↑ | 0% | 2% | 14% | 11% |
| Arall | 0% | 0% | 0% | 5% | 3% |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 160)

5.30 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr adfyfyrio ar sut yr oedd COVID-19 a chyfyngiadau a osodwyd gan y llywodraeth wedi effeithio ar weithredu unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu. Roedd bron i hanner (46 y cant) y busnesau a atebodd y cwestiwn wedi cael eu gorfodi i gau neu wedi methu â gweithio, tra bod bron i chwarter (23 y cant) wedi sôn am anawsterau wrth gyfathrebu â chwsmeriaid oherwydd diffyg gwasanaethau wyneb yn wyneb a cholli masnach.

5.31 Dywedodd un o bob pump o'r ymatebwyr fod Brexit wedi cael effaith ar eu gallu i roi camau gweithredu ar waith (ffigur a gynyddodd i 32 y cant o fusnesau yr oedd hyd at 49.9 y cant o'u gwerthiannau o farchnadoedd Ewropeaidd ac a nododd fod ganddynt gwsmeriaid yn Ewrop). Pan soniai busnesau am effeithiau Brexit ar eu gweithrediadau ac/neu berfformiad, costau allforio a mewnforio yn ogystal â materion cadwyn gyflenwi oedd yr effeithiau mwyaf cyffredin.

### Canlyniadau ac effeithiau o'r cymorth


5.32 Roedd yr arolwg busnes yn cynnwys cyfres o gwestiynau er mwyn deall y camau yr oedd ymatebwyr wedi'u cymryd o ganlyniad i dderbyn y cymorth, yn ogystal â'r effaith a gafodd camau o'r fath ar eu perfformiad busnes. O'r 1,014 o fuddiolwyr busnes a ymatebodd i'r arolwg, roedd mwy na thri chwarter (77 y cant) ohonynt wedi rhoi o leiaf un cam gweithredu ar waith o ganlyniad i dderbyn cymorth.

5.33 Yn fwyaf cyffredin, cymerwyd camau i wella gwerthiannau a marchnata (yn enwedig ymhlith cyfranogwyr AP2.3, lle cymerodd 57 y cant o ymatebwyr y camau hyn), targedu cwsmeriaid newydd, a chynyddu sgiliau yn y busnes, gyda thua dau fusnes o

[99] Mae'r saethau'n cynrychioli gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol (lefel arwyddocaol 0.05) rhwng yr hyn yr arsylwir arno mewn ymatebwyr a gefnogir gan AP o gymharu â gweddill y sampl. Mae'r saeth las tuag i fyny (↑) yn dynodi gwahaniaeth positif, a'r saeth goch ar i lawr (↓) yn dangos gwahaniaeth negyddol.

bob pump yn rhoi camau gweithredu ar waith mewn o leiaf un o'r tri maes hyn. Dywedodd mwy na chwarter y busnesau eu bod wedi datblygu prosesau newydd a oedd naill ai'n cefnogi rhedeg eu busnes o ddydd i ddydd (28 y cant) neu'n cefnogi darparu cynnyrch ac/neu wasanaethau i gwsmeriaid (26 y cant). Roedd bron i un o bob pump o fusnesau (19 y cant) wedi elwa o gael mynediad at gyllid neu fuddsoddiad (gan gynyddu i bron i draean y busnesau [29 y cant] a gafodd gymorth AP2.2). Ymhellach, mae'n werth nodi bod mynediad at gyllid yn fwy cyffredin (23 y cant) ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi cofrestru ar y rhaglen yn dilyn dechrau COVID-19.

**Ffigur 5.7: Pa gamau gweithredu, os rhai o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd o ganlyniad i gael cymorth drwy'r rhaglen?**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014)

Dechrau busnes

5.34 Roedd bron i chwarter ymatebwyr yr arolwg wedi sefydlu busnes yn dilyn y cymorth a gawsant drwy'r rhaglen. Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor debygol oedd hi y byddent wedi sefydlu busnes beth bynnag yn absenoldeb y cyngor. Teimlai bron i un o bob pump o'r ymatebwyr (19 y cant) y byddai'n "annhebygol" (12 y cant) neu'n "annhebygol iawn" (saith y cant) y byddent wedi sefydlu eu busnes pe na byddai'r cymorth yn bodoli. Roedd dros 60 y cant o'r holl ymatebwyr a sefydlodd fusnes yn dilyn y cymorth yn rhai a gymerodd ran yn AP2.2. Ymhlith y grŵp hwnnw, gwelwyd bod y farn am y cymorth ar yr un lefel (teimlai 19 y cant y byddai'n "annhebygol" neu'n "annhebygol iawn" y byddent wedi sefydlu eu busnes yn absenoldeb y cymorth).

5.35 Dangosodd y data monitro diweddaraf fod ychydig dros 6,000 (6,043) o fentrau newydd wedi'u cefnogi yn Amcan Penodol 2.2.[100] Yn ôl yr arolwg, roedd 56 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn AP2.2 wedi dechrau busnes o ganlyniad i dderbyn cymorth. Os adlewyrchir cyfradd dechrau busnes yr arolwg ymhlith y boblogaeth gyfan a gefnogir drwy AP2.2, mae hyn yn cyfateb i 3,384 o fusnesau newydd yn dechrau. Os yw'r gyfran o'r rhai a holwyd a deimlent na fyddent wedi dechrau busnes, yn absenoldeb y cymorth, yn cael ei adlewyrchu ar draws poblogaeth gyfan AP2.2 a ddechreuodd fusnes, byddai hyn yn cyfateb i gyfanswm o **643 o fusnesau wedi'u dechrau o ganlyniad i'r cymorth a gafwyd drwy AP2.2**.

Busnesau yn ymelwa ar TGCh

5.36 Roedd bron i chwarter (23 y cant) o'r busnesau a ymatebodd wedi rhoi newidiadau ar waith i'w seilwaith TGCh o ganlyniad i'r cymorth. Cyfeiriodd bron i dri chwarter o'r rhain (73 y cant) at ddatblygu presenoldeb ar-lein drwy weithgarwch marchnata a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynyddu i 83 y cant ymhlith y rhai a gafodd gymorth AP2.3 (gan ei fod yn un o ganlyniadau arfaethedig y cymorth hwn, disgwylir y lefel hon o boblogrwydd). Ymhellach, cyflwynodd neu gwellodd dau o bob tri o'r ymatebwyr wefan eu cwmni (gan godi i 77 y cant o blith y rheiny a gafodd gymorth AP2.3). Roedd ychydig dros 40 y cant o fusnesau wedi dechrau defnyddio llwyfannau cyfathrebu ar-

[100] Yn seiliedig ar ffurflenni chwarterol hyd at Hydref 2022.

lein fel Microsoft Teams a Zoom, rhaglenni sydd wedi dod yn bwysicach wrth reoli a gweithredu busnesau o ddydd i ddydd ers COVID-19.

5.37 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oeddent wedi dechrau defnyddio neu gynyddu eu defnydd o wasanaethau band eang ffeibr neu gebl o fewn y pum mlynedd diwethaf. Roedd ychydig mwy na thraean (34 y cant) ohonynt naill ai wedi cyflwyno band eang ffeibr/cebl (17 y cant) neu wedi cynyddu eu defnydd ohono (17 y cant). O’r ymatebwyr hyn, dywedodd 11 y cant (ac 20 y cant o ymatebwyr AP2.3) fod y cymorth a gafwyd wedi effeithio ar hyn

**Tabl 5.4: Gweithredu newidiadau i seilwaith TGCh o ganlyniad uniongyrchol i gymorth**

| **Newidiadau i seilwaith TGCh** | **%** |
|---|---|
| Gweithgarwch marchnata a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol | 73% |
| Datblygu gwefan | 66% |
| Llwyfannau cyfathrebu ar-lein (Microsoft Teams, Zoom, etc.) | 41% |
| Cyfathrebu mewnol a gweithio o bell (e.e. mewnrwyd) | 24% |
| Systemau storio ac/neu rannu data | 23% |
| Meddalwedd rheoli (e.e. meddalwedd rheoli prosiectau, gwyliau, cyfrifo digidol, etc.) | 21% |
| System CRM i integreiddio/cysylltu systemau TG eraill | 13% |
| Dim un o’r uchod (os rhywbeth arall, manylwch) | 8% |
| Ddim yn gwybod | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 231). Roedd modd rhoi sawl ateb. Sylwer y gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis sawl opsiwn ar gyfer y cwestiwn hwn; felly, nid yw’r canrannau yn adio i 100 y cant.


Cynnyrch a phrosesau newydd

5.38 Roedd tua 45 y cant o’r busnesau a ymatebodd wedi datblygu cynnyrch neu brosesau newydd o ganlyniad uniongyrchol i dderbyn cymorth drwy raglen ERDF. O’r 446 o fusnesau unigryw a oedd wedi datblygu cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd, roedd 32 y cant wedi datblygu cynnyrch neu wasanaethau newydd, tra bod 38 y cant wedi cyflwyno prosesau, gweithdrefnau neu systemau newydd i gefnogi rheolaeth eu busnes, ac roedd 30 y cant wedi cyflwyno prosesau i gefnogi darparu cynnyrch a gwasanaethau i gwsmeriaid. Roedd bron i dri chwarter (72 y cant) o ymatebwyr yr arolwg o’r farn bod y cymorth yn “bwysig iawn” neu’n “bwysig gan amlaf” wrth ddatblygu’r rhain.

5.39 Pan oedd busnesau wedi datblygu cynnyrch newydd, cawsant eu cyfeirio at nifer o gwestiynau ychwanegol. Mae Ffigur 5.8 isod yn dangos y cynnydd a wnaed o ran

masnacheiddio cynnyrch[101] o ganlyniad uniongyrchol i'r gefnogaeth. Cyn ymgysylltu â'r rhaglen, dim ond 20 y cant o'r ymatebwyr a deimlai fod eu cynnyrch yn barod ar gyfer y farchnad, gyda mwy na hanner (59 y cant) yn y cam datblygu cychwynnol neu yn y cam profi cysyniad. Yn dilyn y cymorth, roedd 56 y cant o'r ymatebwyr yn ystyried bod eu cynnyrch yn barod ar gyfer y farchnad, gyda 39 y cant o'r cynhyrchion yn cael eu masnacheiddio'n llawn (yn cael eu gwerthu neu eu cynnig i gwsmeriaid), tra bod 18 y cant yn y cam datblygu cychwynnol neu yn y cam profi cysyniad.

**Ffigur 5.8: Cynnydd o ran masnacheiddio cynhyrchion**




Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 132 cyn ymgysylltu, 135 ar ôl ymgysylltu – "well gen i beidio dweud" wedi'u gadael allan)

5.40 Pan ofynnwyd iddynt ystyried effaith eu cynnyrch newydd ar werthiannau, dywedodd dau o bob tri ohonynt (65 y cant, 92/141) eu bod wedi gweld cynnydd mewn gwerthiannau (a hwn yn codi i 89 y cant [42/47] ymhlith y rhai a oedd wedi masnacheiddio eu cynnyrch/gwasanaeth yn llawn), gyda thraean o'r rheini a nododd effaith ar werthiannau (33 y cant, 30/92) yn amcangyfrif bod eu gwerthiant wedi cynyddu mwy na 31 y cant.


[101] Masnacheiddio yw'r **broses o ddod â chynnyrch neu wasanaethau newydd i'r farchnad**. Mae masnacheiddio ehangach yn cynnwys cynhyrchu, dosbarthu, marchnata, gwerthu, cymorth i gwsmeriaid, a swyddogaethau allweddol eraill sy'n hanfodol i sicrhau llwyddiant masnachol y cynnyrch neu'r gwasanaeth newydd

Trosiant, elw a cholled

5.41 O ran trosiant blynyddol, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd gan hanner y busnesau a ymatebodd drosiant o dan £100,000, 18 y cant rhwng £100,000 a £499,999, a phump y cant rhwng £500,000 a £1m (gweler Ffigur 5.9 isod).

5.42 O dynnu'r rheiny nad oedd yn gallu rhoi ffigur trosiant allan o'r dadansoddiad, mae'n amlwg bod dros dri chwarter (76 y cant) o'r busnesau a gymerodd ran a oedd wedi cael cymorth AP2.2 yn gweithredu gyda throsiant o lai na £50,000, tra bod trosiant o dros £100,000 gan dri chwarter y rheiny a gafodd gymorth AP1.2 a hanner y rheiny a oedd yn AP2.4. Mae dosbarthiad trosiant ymhlith y rheiny a gafodd gymorth AP2.3 yn debyg iawn i'r hyn a gyflwynir yn y siart isod.

**Ffigur 5.9: Trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cael cymorth**




Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014)

5.43 Pan ofynnwyd iddynt gynnig amcangyfrifon o elw neu golled yn y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf, dywedodd 56 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi gwneud elw, ffigur sy'n cynyddu i 64 y cant ymhlith y busnesau hynny a sefydlwyd fwy na 10 mlynedd yn ôl. Roedd bron i chwarter y busnesau a ymatebodd wedi gwneud colled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, tra bod yr 20 y cant arall o ymatebwyr yn ansicr neu nid oeddynt am ddweud.

5.44 O blith y rhai a nododd elw, amcangyfrifodd 41 y cant ei fod yn llai na £10,000, amcangyfrifodd 29 y cant fod eu helw rhwng £10,000 a £49,999, tra nododd 12 y cant elw o rhwng £50,000 a £199,999. O'u dadansoddi fesul Amcan Penodol, roedd y cyfraddau elw uchaf yn amlwg ymhlith y busnesau a gafodd gymorth AP1.2 (48 y cant ag elw o fwy na £100,000).


5.45 O'r 24 y cant a nododd golled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd y rhain wedi'u dosbarthu'n weddol gyfartal ar draws busnesau o bob maint ac oedran (er bod gwneud colled yn llai tebygol ymhlith y busnesau hynny a sefydlwyd ers dros 10 mlynedd). Roedd y gyfran a ddisgrifiai golled fwy sylweddol fel rheol yn uwch ymhlith busnesau yn AP1.2 nag mewn ffrydiau cymorth eraill ac mae'n adlewyrchu'r tebygolrwydd bod y sefydliadau hyn yn y cyfnod ymchwil a datblygu cynnyrch, cyn mynd â'u cynnyrch/gwasanaeth i'r farchnad a chynhyrchu incwm. Mae'r data felly yn dangos yr amrywiaeth ym mherfformiad y busnesau a gafodd gymorth o dan AP1.2. Roedd busnesau o AP1.2 yn nodi'r elw uchaf o blith yr holl fusnesau a ymatebodd, er eu bod hefyd, pan oedd colledion, yn adrodd y colledion mwyaf o'r holl fusnesau a ymatebodd.

5.46 Er mwyn cael amcangyfrif o'r effaith y gellir ei phriodoli i'r rhaglen, gofynnwyd i fuddiolwyr busnes a oedd y newidiadau mewn trosiant, proffidioldeb a gwerthiant wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd yn dilyn cael cymorth. Fel y dangosir yn Ffigur 5.10 isod, dywedodd tua thraean y busnesau eu bod wedi gweld cynnydd mewn trosiant (38 y cant), proffidioldeb (34 y cant) a gwerthiant yn y DU (34 y cant), tra bod 45 y cant wedi nodi cynnydd mewn cynhyrchiant/effeithlonrwydd, o ganlyniad uniongyrchol i'r gefnogaeth. Ar gyfer un o bob pedwar busnes arall, roedd yr un mesurau hyn wedi aros yr un fath, gyda rhwng tri y cant a chwech y cant (o'r 795 a atebodd y cwestiwn) yn nodi bod y cymorth wedi arwain at ostyngiad.

5.47 Pan gaiff ymatebion eu dadansoddi yn ôl Amcan Penodol, ychydig iawn o amrywiaeth sydd yng nghyfran y busnesau sy'n priodoli newidiadau cadarnhaol i berfformiad busnes i gymorth y rhaglen. Nid oes ychwaith unrhyw amrywiad pan gânt eu dadansoddi yn ôl pryd yr oeddynt wedi ymgysylltu â'r cymorth[102].

5.48 O'u dadansoddi yn ôl sector diwydiannol, y rheini yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu (50 y cant, 10/20) a'r rheini yn y sector gwasanaethau bwyd a llety (47 y cant, 42/89) oedd fwyaf tebygol o ddisgrifio twf mewn gwerthiannau/trosiant yn ogystal â thwf mewn proffidioldeb. Ar gyfer y sector gwasanaethau bwyd a llety, mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig ag adferiad y sector yn dilyn llacio'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19.

**Ffigur 5.10: Newidiadau mewn perfformiad busnes o ganlyniad i gymorth y rhaglen**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 795)

5.49 Fel y gellid disgwyl efallai, pan ofynnwyd iddynt am effaith COVID-19 ar drosiant, elw a cholled, dywedodd 50 y cant o ymatebwyr ei fod wedi cael effaith "i raddau helaeth", tra bod 20 y cant arall wedi dweud "i ryw raddau".

Cyflogaeth

5.50 Y maes effaith olaf a archwiliwyd yn yr arolwg oedd cyflogaeth. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu mai bach fu effaith y cymorth ar swyddi a grëwyd a swyddi a

[102] Wrth ddadansoddi amseriad yr ymgysylltu â chymorth, llwyddwyd i'w coladu o dan dri chategori, sef y rhai a ymrestrodd cyn mis Hydref 2019 (cyn COVID-19), y rhai rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020 (ymgysylltu cyn COVID-19 ac o bosibl yn dal i gael cymorth yn ystod COVID-19), a'r rhai o fis Mawrth 2020 ymlaen (ymgysylltu ar ôl COVID-19).

ddiogelwyd, gyda 10 y cant o ymatebwyr yn nodi eu bod wedi creu swyddi ac/neu wedi diogelu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a gafwyd a'r camau gweithredu dilynol a wnaed ganddynt. Wrth ddadansoddi fesul Amcan Penodol, gwelwyd bod cyfran uwch o fusnesau a gafodd gymorth o dan AP2.4 wedi creu swyddi (16 y cant) a diogelu swyddi (16 y cant hefyd) o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth hwnnw, tra bod dau y cant o fusnesau a gafodd gymorth o dan AP2.3 wedi dweud eu bod wedi creu swyddi, ffigwr a gynyddodd i dri y cant ar gyfer swyddi a ddiogelwyd.

5.51 Ymhlith y 105 o fusnesau a greodd swyddi, tra bod dau ymatebydd o bob tri wedi creu un neu ddwy swydd, creodd 14 y cant o'r ymatebwyr 10 neu fwy. O'r 97 a ddiogelodd swyddi, roedd bron i hanner yr ymatebwyr (48 y cant) wedi diogelu un swydd neu ddwy, tra bod mwy nag un busnes o bob pump (21 y cant) wedi diogelu 10 neu fwy.

5.52 Mae Tabl 5.5 isod yn rhoi dadansoddiad sy'n seiliedig ar y dybiaeth bod y patrymau creu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a gododd yn yr arolwg ar gyfer pob AP yn cael eu hadlewyrchu ar draws yr holl gyfranogwyr sydd wedi cael cymorth o dan yr AP hwnnw. Mae hyn yn rhagdybio bod ymatebwyr i'r arolwg yn adlewyrchu'r holl gyfranogwyr ac nad oedd y ffaith bod yr arolwg ond wedi ymgysylltu â'r rhai a oedd wedi cofrestru ers mis Mawrth 2019 wedi cael unrhyw effaith ar nifer y swyddi yr oedd pob busnes wedi'u creu.

5.53 Dengys y tabl yr amcangyfrifir o dan AP2.2 bod 3,500 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) wedi'u creu, tra o dan AP2.4 amcangyfrifwyd bod 4,500 o swyddi FTE wedi'u creu. Gyda'i gilydd awgryma'r data bod bron i 10,000 o swyddi gros (FTE) wedi'u creu.

**Tabl 5.5: Amcangyfrif o'r swyddi gros (FTE) a grëwyd a swyddi (FTE) a ddiogelwyd fesul AP**

| AP | Rhaglen | Nifer y mentrau a gefnogwyd (Hyd. 2022) | Swyddi a grëwyd (FTE) | Swyddi a ddiogelwyd (FTE) |
|---|---|---|---|---|
| AP1.2 | GCC | 861 | 541 | 677 |
| | DC | 421 | 781 | 833 |
| AP2.2 | GCC | 4,069 | 1,874 | 816 |
| | DC | 1,974 | 1,707 | 1,719 |
| AP2.3 | GCC | 4,048 | 334 | 474 |
| | DC | 2,038 | 85 | 146 |
| AP2.4 | GCC | 6,013 | 3,553 | 4,943 |
| | DC | 3,190 | 978 | 2,839 |
| | | **Cyfanswm** | **9,852** | **12,446** |

5.54 Yna gofynnwyd i'r busnesau a ymatebodd adfyfyrio ar ba mor bwysig y teimlent oedd y cymorth wrth greu neu ddiogelu swyddi. Dywedodd dros 80 y cant (97/120) fod y cymorth wedi bod yn weddol bwysig o leiaf a dywedodd 41 y cant o ymatebwyr (49/120) ei fod wedi chwarae rhan bwysig iawn wrth greu neu ddiogelu swyddi.

5.55 Dros y pum mlynedd nesaf, roedd tua un o bob tri o'r holl fusnesau a holwyd (34 y cant) yn rhagweld y byddai swyddi pellach yn cael eu creu o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd yn dilyn y cymorth. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i bron i hanner (49 y cant) y busnesau a gafodd gymorth drwy AP1.2.

### Edrych i'r dyfodol

5.56 Roedd ychydig llai na chwarter (23 y cant) wedi cyrchu cymorth busnes arall ers cael cymorth drwy'r rhaglen, gan gynyddu i 39 y cant o'r rhai a oedd yn cael cymorth drwy AP1.2.

5.57 Byddai bron i ddau o bob tri (61 y cant) o'r rhai a holwyd yn croesawu cymorth pellach â marchnata a hyrwyddo yn ogystal â mynediad at gyllid (yn cynyddu i 65 y cant a 67 y cant, yn y drefn honno, o'u dadansoddi yn erbyn y rhai a oedd yn disgwyl creu rhagor o swyddi o ganlyniad i'r cymorth a gawsant). Byddai tua hanner yn dymuno cael cymorth i ganfod cwsmeriaid a'u cadw, lleihau gorbenion, a mabwysiadu technoleg i helpu i werthu i gwsmeriaid.

**Tabl 5.6: Gwasanaethau cymorth sydd eu hangen yn y dyfodol**

| Math y cymorth | % |
|---|---|
| Marchnata a hyrwyddo | 61% |
| Mynediad at gyllid | 61% |
| Canfod cwsmeriaid a'u cadw | 51% |
| Lleihau gorbenion | 47% |
| Defnyddio technoleg i werthu i gwsmeriaid | 47% |
| Rheolaeth ariannol | 43% |
| Adfer ar ôl COVID-19 | 39% |
| Defnyddio technoleg i gael y cydbwysedd gorau rhwng bywyd a gwaith | 38% |
| Gallu cynnig gweithio hyblyg ac o bell | 21% |
| Rheoli gofod swyddi a rhannu desgiau | 13% |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 8% |
| Arall | 7% |
| Dim byd | 5% |
| Cymorth busnes | 4% |
| Effeithlonrwydd ynni | 2% |
| NET | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg Cymorth i Fusnesau ERDF (Sylfaen = 1,014). Sylwer y gallai ymatebwyr yr arolwg ddewis sawl opsiwn ar gyfer y cwestiwn hwn; felly, nid yw'r canrannau yn adio i 100 y cant.

5.58 Hoffai bron i ddau o bob pump (39 y cant) o'r busnesau a ymatebodd weld cymorth pellach i adfer ar ôl COVID-19, gyda thraean o'r ymatebwyr yn dal i gyfeirio at bryderon ynghylch effeithiau hirdymor COVID-19. Nid oedd derbyn eu cymorth cyn neu ar ôl COVID-19 yn gwneud fawr o wahaniaeth i'r mathau o gymorth yr oedd busnesau am eu cael yn y dyfodol.

## Crynodeb

- Roedd dau o bob tri o'r holl ymatebwyr yn ymwybodol bod y cymorth yn cael ei ariannu drwy'r ERDF, tra bod bron pob un (97 y cant) o'r rhai a ymgysylltodd â chymorth drwy AP1.2 yn gwybod hynny.
- Daeth chwarter yr ymatebwyr o hyd i'r cymorth drwy chwilio ar-lein (o gymharu â chwech y cant yn 2016), ac roedd hyn wedi cynyddu i 29 y cant o'r rhai a gofrestrodd mewn darpariaeth yn dilyn dechrau COVID-19.
- Y prif resymau dros ymgysylltu â chymorth ERDF oedd pa mor addas oedd y ddarpariaeth, pa mor rhwydd cael gafael arni, a'r ffaith ei bod yn rhad ac am ddim. O ran 40 y cant o

ymatebwyr, byddai'n “annhebygol” neu'n “annhebygol iawn” y byddent wedi mynd at ddarpariaeth arall yn absenoldeb cymorth ERDF.

- Roedd bron i dri chwarter (73 y cant) yr ymatebwyr yn “fodlon iawn” neu'n “eithaf bodlon” â safon y cymorth a gawsant.
- Roedd anfodlonrwydd fel arfer yn deillio o deimlo diffyg ymateb neu ddiffyg cyfathrebu gan gynghorydd neu oherwydd heriau gydag ymgysylltu ar-lein (yn hytrach nag wyneb yn wyneb) (yn enwedig yn dilyn y pandemig). Roedd cyfraddau anfodlonrwydd yn uwch ymhlith cyfranogwyr AP2.4, yn bennaf oherwydd yr ymdeimlad o ddiffyg ymateb.
- Teimlai dros 80 y cant o ymatebwyr fod eu disgwyliadau wedi cael eu bodloni, a theimlai 60 y cant eu bod wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Ffactorau allweddol oedd yn dylanwadu ar yr ymateb hwn y soniodd yr ymatebwyr amdanynt oedd cyflymder yr ymateb, gwybodaeth a phrofiad y cynghorydd, ac ymgysylltiad dilynol.
- Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg a oedd wedi cael cymorth yn ystod y pandemig, teimlai 38 y cant fod cyfyngiadau'r llywodraeth wedi effeithio ar pryd/sut y darparwyd y cymorth, a dim ond 11 y cant a ddywedodd fod y cymorth wedi'i ohirio neu nad oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd y mater hwn yn fwy cyffredin ymhlith cyfranogwyr AP1.2 (46 y cant).
- Roedd mwy na thri chwarter (77 y cant) o'r busnesau a holwyd wedi cymryd o leiaf un cam gweithredu o ganlyniad i gael cymorth. Gan amlaf, roedd y rhain yn ymwneud â gwell gwerthiant a marchnata, targedu cwsmeriaid newydd, neu gynyddu sgiliau yn y busnes.
- Roedd bron i chwarter ohonynt wedi dechrau busnes, a theimlai un o bob pump o'r rhain y byddai wedi bod yn “annhebygol” neu'n “annhebygol iawn” y byddent wedi gwneud hynny yn absenoldeb y cymorth. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 643 o fusnesau ychwanegol a sefydlwyd o ganlyniad i'r cymorth a gafwyd drwy AP2.2.
- Roedd ychydig dros draean wedi cyflwyno band eang ffeibr/cebl neu wedi cynyddu eu defnydd ohono, gydag 20 y cant o'r rhai a gefnogwyd drwy AP2.3 yn teimlo bod y cymorth wedi effeithio ar hyn.
- Roedd bron i dri chwarter (72 y cant) o ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi datblygu cynnyrch neu brosesau newydd o ganlyniad i gael cymorth ERDF yn ystyried bod y cymorth yn “bwysig iawn” neu'n “bwysig gan amlaf” wrth ddatblygu'r rhain.

- Cyn cael cymorth, roedd 20 y cant o’r rhai a oedd yn datblygu cynnyrch neu wasanaeth newydd yn teimlo eu bod yn barod ar gyfer y farchnad; ar ôl cael cymorth roedd hyn wedi cynyddu i 56 y cant o’r ymatebwyr hynny.
- Teimlai tua thraean o’r ymatebwyr fod y cymorth wedi arwain at gynnydd mewn trosiant a phroffidioldeb, tra nododd 45 y cant gynnydd mewn cynhyrchiant/effeithlonrwydd o ganlyniad uniongyrchol i’r cymorth.
- Ymhlith yr ymatebwyr, dywedodd 10 y cant eu bod wedi creu neu ddiogelu swyddi o ganlyniad i’r cymorth. Mae modelu nifer y swyddi a grëwyd yn erbyn nifer amcangyfrifedig y cyfranogwyr unigryw ar gyfer pob AP yn awgrymu bod bron i 10,000 o swyddi FTE unigryw hunan-gofnodedig wedi’u creu o ganlyniad uniongyrchol i’r cymorth.

# 6. Dysgu o astudiaethau achos am brosiectau

## Cyflwyniad

6.1 Cyflwynir chwe astudiaeth achos yn Atodiad B, a'r rhain wedi llunio o gyfweliadau manwl â'r busnesau a gymerodd ran (41 o gyfweliadau ar draws y chwe gweithrediad) a chynrychiolwyr o bob un o'r gweithrediadau. Dewiswyd gweithrediadau o wahanol faint er mwyn cael cynrychiolaeth o'r ystod o ddarpariaeth a gynigir trwy bob un o'r Amcanion Penodol targedig. Mae'r adran hon yn crynhoi'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r astudiaethau achos hynny yn ogystal ag unrhyw batrymau a thueddiadau a ddaeth i'r amlwg yn dilyn dadansoddi ymatebion y cyfweliadau.

6.2 Yn Nhabl 6.1 ceir trosolwg o bob un o'r chwe gweithrediad, ac yn Nhabl 6.2 gwelir dosbarthiad y dangosyddion targed yn erbyn pob gweithrediad.

**Tabl 6.1: Trosolwg o weithrediadau dethol ar gyfer yr astudiaethau achos**

| Teitl y gweithrediad | AP | Crynodeb o'r gweithrediad |
|---|---|---|
| Cyflymu – Cyflymydd Technoleg Arloesi Iechyd Cymru (DC a GCC) | 1.2 | Nod rhaglen Cyflymu yw cefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy roi modd iddynt ddefnyddio arbenigedd academaidd a'r cyfleusterau diweddaraf mewn sefydliadau addysg uwch (SAU) i'w galluogi i fanteisio ar syniadau arloesol yn y sector gwyddorau bywyd. |
| CEMET – Y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Technoleg Symudol a Datblygol (DC a GCC) | 1.2 | Gan weithredu drwy Gyfadran Cyfrifiadura, Peirianneg a Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol De Cymru, bwriad CEMET yw rhoi mynediad i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru at waith ymchwil a datblygu wedi'i ariannu er mwyn dod â chynnyrch i'r farchnad mewn sectorau twf uchel fel deallusrwydd artiffisial, gweithgynhyrchu digidol, a seiberddiogelwch. Cynlluniwyd y gwaith Ymchwil a Datblygu i helpu busnesau sydd am greu cynnyrch, datrysiadau neu wasanaethau newydd sy'n ymwneud â thechnolegau blaengar a newydd fel dysgu peirianyddol, rhith-realiti a realiti estynedig, delweddu data, a deallusrwydd artiffisial. |
| Bwydydd i'r Dyfodol (GCC) | 1.2 | Nod Bwydydd i'r Dyfodol yw cynnig arbenigedd o safon fyd-eang mewn gwyddor bwyd, technoleg, maeth, ymchwil a datblygu ar gyfer busnesau bwyd uchelgeisiol yng Nghymru sy'n ceisio datblygu cynnyrch iach, gan greu marchnad a'i thargedu i'w gwerthu yn y DU a thramor. Wrth ddarparu'r cymorth hwn, ceisiai'r gweithrediad alluogi cwmnïau bwyd a diod i wella eu gallu i gystadlu a bod yn sail i dwf a chynaliadwyedd yn y dyfodol. |

| Teitl y gweithrediad | AP | Crynodeb o’r gweithrediad |
|---|---|---|
| Cefnogaeth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaCh, Busnes Cymru (DC a GCC) | 2.2 a 2.4 | Nod y Gwasanaeth Craidd a Thwf yw cynnig siop un-stop i entrepreneuriaid a busnesau bach a chanolig i’w cefnogi i dyfu a chreu swyddi. Mae lefel y cymorth a roddir gan y rhaglen yn dibynnu ar botensial a maint twf y buddiolwr, o lefel 1 ar gyfer microfusnesau a’r hunangyflogedig sy’n canolbwyntio ar ffordd o fyw i lefel 4 ar gyfer sefydliadau mwy sydd â mwy o botensial i dyfu.<br><br>Mae’r Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) ar gael i fusnesau a busnesau newydd sy’n dangos potensial twf uwch na’r rheini ar lefelau 1 i 4, gan ddangos y potensial ar gyfer cynnydd o 20 y cant yn eu trosiant bob blwyddyn am dair blynedd. |
| Busnes Cymdeithasol Cymru: Dechrau Newydd (DC a GCC) | 2.2 a 2.4 | Nod rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru (ar draws y ddau weithrediad) yw darparu cymorth a gwybodaeth dechnegol i’r rheiny sydd am sefydlu, gweithredu neu dyfu busnes cymdeithasol. Yn ogystal â rhoi cymorth ynghylch sut i sefydlu a thyfu’r mathau hyn o fusnesau, mae Busnes Cymdeithasol Cymru hefyd yn rhoi cyngor arbenigol i fentrau sy’n chwilio am fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol neu gyngor cyfreithiol i’r rhai sydd am ddod yn ymddiriedolaeth dan berchnogaeth y gweithwyr. |
| Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes (DC a GCC) | 2.3 | Nod y rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn oedd cefnogi busnesau i fanteisio ar y rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau a gyflwynwyd ledled Cymru. Nod y gweithrediad yw gwneud hyn trwy gefnogi busnesau i ddeall y cyfleoedd masnachol a’r arbedion effeithlonrwydd y gellid eu cael trwy fabwysiadu Cyflymu Cymru i Fusnesau.<br><br>Roedd gan y rhaglen ddau darged ERDF, sef rhoi cymorth anariannol i fentrau a chyflwyno cynnyrch sy’n newydd i’r cwmni. |

## Tabl 6.2: Dangosyddion targed yn ôl gweithrediad

| | Cyflymu | CEMET | Bwydydd i’ r Dyfodol | Busnes Cymru | Busnes Cymdeithasol Cymru | Cyflymu Cymru i Fusnesau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaid yn cydweithredu mewn prosiect ymchwil | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Mentrau sy’n cael cymorth anariannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | Cyflymu | CEMET | Bwydydd i’ r Dyfodol | Busnes Cymru | Busnes Cymdeithasol Cymru | Cyflymu Cymru i Fusnesau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mentrau wedi’u cefnogi i gyflwyno cynnyrch (prosesau/gwasanaethau) newydd i’r farchnad | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Mentrau wedi’u cefnogi i gyflwyno cynnyrch (prosesau/gwasanaethau) newydd i’r cwmni | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Buddsoddiad preifat yn cyfateb i gymorth cyhoeddus - arloesedd neu ymchwil a datblygu | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Patentau wedi’u cofrestru ar gyfer cynnyrch | ✓ | | ✓ | | | |
| Mentrau yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | | | | ✓ | ✓ | |
| Mentrau yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | | | | ✓ | ✓ | |
| Cynnydd mewn lefelau allforio | | | | ✓ | | |
| Nifer yr unigolion yn cael cymorth | | | | ✓ | | |
| Mentrau yn cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir | ✓ | ✓ | | | | |

**Penderfynu ar gymhwysedd a gwneud diagnosis o anghenion**

6.3 Ar draws y rhan fwyaf o weithrediadau, mae bod yn gymwys i’r ddarpariaeth wedi’i bennu gan natur yr anghenion cymorth ymhlith perchnogion busnes ac entrepreneuriaid. Mae sawl gweithrediad, yn enwedig Busnes Cymru a Chyflymu Cymru i Fusnesau, wedi’u cynllunio fel bod pob BBaCh yn gymwys, tra bod cymwysedd ar gyfer gweithrediadau sy’n gysylltiedig ag AP1.2 yn bennaf dan ddylanwad aliniad sectoraidd ac uchelgais y busnes.

6.4 Ar draws yr holl weithrediadau, mae ymgysylltu’r cychwynnol wedi’i integreiddio’n agos â rhyw fath o ddiagnosteg. Mae nifer o’r gweithrediadau yn cynnal diagnosteg gychwynnol yn rhithwir neu dros y ffôn. Mae hyn wedi bod yn gynyddol wir ers dechrau COVID-19, yn enwedig gyda’r rhai sy’n gysylltiedig ag AP2.2 ac AP2.4 oherwydd strwythur y gweithrediadau hyn a’r pwyslais ar borth a phroses gofrestru symlach.

6.5 Ar gyfer y gweithrediadau hynny o dan Amcan Penodol 1.2, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ymgysylltu personol i bennu’r anghenion a’r rhagolygon ar gyfer y syniad am gynnyrch/gwasanaeth. Mabwysiadwyd y dull mwy dwys hwn i gydnabod y cymorth

arbenigol a niche sydd ei angen a'r pwyslais ar ddull cydweithredol yn y berthynas drwy gydol cyfnod y busnes yn y gweithrediad hwnnw.

Darparu'r cymorth

6.6 Roedd y cymorth a roddwyd drwy AP2.2, 2.3 a 2.4 yn canolbwyntio ar y dechrau fel arfer ar sicrhau chwe awr o gymorth diagnostig neu 12 awr o gymorth ymgynghorol i fodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer cofnodi "menter sy'n cael cymorth anariannol". Roedd y ddarpariaeth gychwynnol hon yn aml yn cael ei roi ar ffurf gwasanaethau un i lawer, oddi ar y silff. Y tu hwnt i'r trothwy cychwynnol hwn o chwech neu 12 awr, byddai cymorth atodol, mwy dwys a phwrpasol ei natur (un-i-un fel arfer), yn cael ei dargedu at y mentrau hynny yr ystyrir eu bod fwyaf tebygol o gynhyrchu twf a fyddai'n cyfrannu at y dangosydd cyflogaeth[103]. I'r rhai a oedd wedi cael cymorth o dan AP1.2 roedd natur y cymorth yn fwy pwrpasol i ofynion penodol y sefydliad a'u syniad cysylltiedig am gynnyrch/gwasanaeth. Byddai'r berthynas a'r ymgysylltiad â busnesau yn yr AP hwn fel arfer yn para dros sawl mis i adlewyrchu anghenion y busnes a natur y cymorth.

6.7 Roedd gweithrediadau yn cynnig cymysgedd o wasanaethau wedi'u rhoi gan ddarparwyr dan gontract, asiantaethau partner, arbenigwyr caffael trwy fframwaith, neu arbenigedd mewnol i gefnogi busnesau cyfranogol.

6.8 Ymysg y busnesau a gymerodd ran yn y cyfweliadau astudiaeth achos, soniodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr eu bod wedi cael cymorth o bell yn bennaf. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd un-i-un dros y ffôn neu gynadledda fideo, gweminarau, a chymorth e-bost ad hoc. Yn cyd-fynd ag elfennau eraill o'r gwaith maes a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon, roedd sefydliadau yn priodoli hyn i amseriad y ddarpariaeth, gan fod y pandemig wedi cyfyngu ar ddarpariaeth wyneb yn wyneb.

Dylanwad COVID-19

6.9 Cafodd pandemig COVID-19 effaith ar y ffordd y darparwyd cymorth; fodd bynnag, roedd busnesau wedi gallu addasu i'r amgylchiadau hyn ac yn y rhan fwyaf o achosion ni amharwyd ar lefel y cymorth. Yn wir, yn y cyfweliadau manwl hyn, dywedodd y rhan

[103] Dangosydd targed ERDF "cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir" – nifer y swyddi newydd gros mewn mentrau a gynorthwyir.

fwyaf o sefydliadau (22/41) na chafodd y pandemig unrhyw effaith ar y cymorth a gawsant drwy'r rhaglen. O'r rhai a nododd rywfaint o effaith, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â sut y'i darparwyd, gyda'r mwyafrif helaeth (16/19) yn dweud bod y cymorth wedi'i ddarparu o bell trwy gyfarfodydd ar-lein, yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Dywedodd y rhan fwyaf o sefydliadau nad oedd defnyddio dull darparu o bell wedi bod yn broblem, gan mai dim ond dull cyfathrebu gwahanol ydoedd, er i nifer fach o gyfranogwyr adrodd y byddent wedi gobeithio cael ymweliadau safle pe bai hyn wedi bod yn bosibl.

6.10 Dim ond nifer fach o fusnesau cyfranogol (4/41) a ddywedodd fod COVID-19 wedi effeithio ar y cymorth a gawsant. Y busnesau hyn oedd y rhai a oedd yn gysylltiedig ag Amcan Penodol 1.2, gan gynnwys prosiectau labordy lle'r oedd gweithdrefnau diogelwch ychwanegol wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i'r pandemig neu lle roedd cyfyngiadau arnynt neu'n methu â chael mynediad i'r offer arbenigol sydd mewn labordai am wahanol gyfnodau yn ystod y cyfyngiadau ar symud.

6.11 Mae'r sefyllfa economaidd-gymdeithasol a grëwyd gan y pandemig (ac wedi hynny gan ryfel Wcráin a'r argyfwng costau byw cysylltiedig) wedi gwneud recriwtio i rai gweithrediadau yn fwy heriol. Soniodd y timau sy'n rhedeg y gweithrediadau hynny am y diffyg diogelwch cymharol sy'n gysylltiedig â'r contractau dros dro a oedd yn cael eu cynnig fel arfer, a theimlwyd eu bod yn llai deniadol oherwydd yr hinsawdd economaidd-gymdeithasol ansicr a'r diffyg eglurder ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol ar ôl cwblhau'r rhaglen.

Perfformiad

6.12 Roedd pob gweithrediad wedi perfformio'n dda yn erbyn y mwyafrif o'u targedau, gyda'r mwyafrif yn uwch na'r proffil ac yn disgwyl rhagori ar y targedau ar adeg cwblhau'r gweithrediad. Ymhlith gweithrediadau AP1.2, nodwyd heriau cyson mewn perthynas â chofrestru patentau (gweler adrannau 3 a 4 am ragor o wybodaeth), mater a adlewyrchwyd gan randdeiliaid wrth iddynt hwythau sôn am yr heriau o ddod â chynnyrch a gwasanaethau newydd i'r farchnad drwy'r AP hwn. Ar y llaw arall, soniodd gweithrediadau am gynnydd a llwyddiant sylweddol y cydweithredu rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil (a rhwng sefydliadau ymchwil partner). Soniodd sawl un am

etifeddiaeth bosibl y cysylltiadau hyn a’r tebygolrwydd uchel y byddant yn para (ac yn datblygu ymhellach) y tu hwnt i oes y gweithrediadau.

Themâu Trawsbynciol

6.13 Ymysg gweithrediadau’r astudiaethau achos, neilltuwyd targedau penodol ar gyfer themâu trawsbynciol i ddarpariaeth Busnes Cymru a Chyflymu Cymru i Fusnesau. Cafodd Busnes Cymru y targed o 40 y cant o’r cyfranogwyr yn mabwysiadu neu’n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth neu strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro. Yn ystod camau cynnar y gweithrediad, bu hyn yn heriol i’w gyflawni, ond mae cynnydd sylweddol wedi’i wneud. Teimlai tîm y prosiect fod meddylfryd wedi newid ymhlith cyfranogwyr a hyn wedi dylanwadu ar y cynnydd, drwy fod cydraddoldeb ac amrywiaeth ac, yn benodol, cynaliadwyedd amgylcheddol (a sut y gallai hynny ddylanwadu ar ostyngiad mewn costau ynni) wedi dod yn fwy o flaenoriaeth i fusnesau. O ganlyniad, mae’r gweithrediad bellach yn agos at gyrraedd y trothwy o 40 y cant.

6.14 Roedd atgofion busnesau o’u hymwneud â’r Pecyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes i’w gweld yn gymharol isel, gan adlewyrchu natur yr ymatebion i’r arolwg busnes ehangach. Roedd ychydig dros chwarter (11/41) o fusnesau’n gallu cofio eu bod wedi defnyddio’r pecyn cymorth, ac o’r rhain, dywedodd 9/11 nad oeddent wedi defnyddio’r pecyn cymorth oherwydd naill ai nad oedd yn berthnasol neu eu bod yn teimlo ei fod yn ailadrodd gwybodaeth yr oeddent eisoes yn ei gwybod. Wedi dweud hynny, fel yr amlinellwyd yn y dadansoddiad o’r arolwg busnes ehangach (adran 5), ymddengys bod busnesau yn rhyw fath o gysylltu’r pecyn adnoddau â’r cymorth a roddwyd i gyrraedd targedau themâu trawsbynciol.

6.15 Rhoddwyd y dasg o gyflawni dangosyddion themâu trawsbynciol ar lefel achos i’r gweithrediadau eraill. Sefydlwyd y rhain fel canfyddiadau o raglen 2007–2013 a nododd fod y dangosyddion ffurfiol i’w gweld yn rhy ddiamwys a phendant ac yn aml heb fod yn berthnasol i’r gweithgaredd a gyflwynwyd. Mewn ymateb, cafodd dangosyddion ychwanegol ar lefel prosiect eu nodi a’u dewis gan weithrediadau ar y cyd â WEFO er mwyn adlewyrchu gweithgarwch sy’n ymwneud â themâu trawsbynciol yn well.

Gwersi a ddysgwyd

6.16 Soniodd gweithrediadau am bwysigrwydd cael gwybodaeth a gofynion sy'n glir ac eglur yng nghanllawiau'r rhaglen ar gyfer casglu tystiolaeth a fyddai'n cyfrannu at ddangosyddion targed, a hynny o ddechrau un y fenter. Roedd hyn yn ymwneud â pheth dryswch cychwynnol ynghylch yr hyn oedd yn angenrheidiol (o ran tystiolaeth) er mwyn cyrraedd targed. Ymhellach, soniwyd am bwysigrwydd cael tîm ar y prosiect sydd o ansawdd uchel ac sy'n parhau'n gyson drwy gydol y gweithrediad.

6.17 Wrth fyfyrio ar wersi, dywedwyd mai ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant yw cael brand cyson ynghyd â neges glir a syml o'r gefnogaeth sydd ar gael, ochr yn ochr â rhwydweithiau cryf, sefydledig ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth a sicrhau atgyfeiriadau. Wrth edrych i'r dyfodol, mae pryderon ynghylch effeithiau cyfunol gostyngiad posibl ym maint y cyllid sydd ar gael a chynnydd posibl mentrau lleol ar raddfa fach yn deillio o gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sydd mewn perygl o greu dryswch yn y farchnad ar gyfer darpar fusnesau a busnesau presennol yng Nghymru.

6.18 Soniodd sawl gweithrediad am bwysigrwydd prif ffrydio darpariaeth cymorth digidol o dan ymbarél Busnes Cymru neu rywbeth tebyg. Yn y rhaglen bresennol fe'i hystyriwyd yn niche neu'n arbenigol, ond siaradodd y rhai a gyfwelwyd am sut roedd y pandemig wedi cyflymu'r gyfradd drosglwyddo i ymgysylltu a darparu'n ddigidol ac y dylid croesawu hyn mewn gweithgarwch cymorth yn y dyfodol.

6.19 Gofynnwyd hefyd i fusnesau ystyried beth yn eu barn hwy oedd y prif faterion datblygu busnes a allai effeithio arnynt yn y dyfodol. Yn aml (13/41), trafodai busnesau bryderon ynghylch sicrhau cyllid a buddsoddiad. Roedd y rhain yn cynnwys anawsterau o ran cael cyllid ar gyfer datblygu prosiectau, ymchwil neu brofi (fel yr oedd ar gael drwy Amcanion Penodol eraill rhaglen ERDF). Teimlwyd bod y cronfeydd hyn yn hanfodol i alluogi busnesau i wneud gwaith datblygu a allai fel arall fod â chostau llethol.

6.20 Roedd rhai busnesau (10/41) yn pryderu am bwysau costau byw, y posibilrwydd o ddirwasgiad, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar eu sector. Dywedodd busnesau fod y cynnydd mewn costau ynni, cyflogau a chostau gweithredol yn rhoi pwysau sylweddol arnynt. O ganlyniad, roedd sawl busnes yn pryderu am eu gallu i amsugno'r costau hyn a'r effaith gysylltiedig y gallai'r rhain ei chael ar wytnwch eu busnes. Soniodd busnesau am y risg o ddiswyddiadau a'r posibilrwydd o gau oherwydd y pwysau hwn:

> ‘Mae busnesau bychain yn wynebu costau ynni a thanwydd uwch ynghyd â chyflogau’n codi, ac oni bai ein bod yn cael cymorth, ni fyddwn yn gallu parhau i fasnachu.’ (Cyfwelai busnes)

6.21 Soniodd sawl busnes hefyd fod yr ansicrwydd ynghylch amodau economaidd-gymdeithasol ehangach yn rhwystr i dyfu ac i’w cynlluniau buddsoddi, gan arwain at amharodrwydd i fuddsoddi mewn offer neu gymryd eiddo newydd.

6.22 Soniodd busnesau hefyd am bryderon ynghylch recriwtio a chadw staff (a drafodwyd mewn 10/41 o ymatebion). Yn benodol, nododd busnesau fod prinder staff sydd â sgiliau addas. Fel y mynegir yn y dyfyniad isod, teimlwyd bod hyn yn fwy heriol yng nghyd-destun y cynnydd mewn gweithio o bell/hybrid ers pandemig COVID-19, gan ei fod yn golygu bod cwmnïau o Gymru bellach yn cystadlu yn erbyn cronfa hyd yn oed yn fwy o gyflogwyr ar gyfer ymgeiswyr cymwys:

> ‘Mae recriwtio talent dechnolegol [yn her]; ers COVID-19, mae llawer o [staff] sydd wedi’u lleoli yng Nghymru wedi dechrau gweithio o bell, sydd wedi caniatáu iddynt newid swyddi a dechrau gweithio i gwmnïau o Lundain neu America a fydd yn talu cyflog cychwynnol hyd at 60k—mae’n anodd cyfateb hynny fel busnes newydd.’ (Cyfwelai busnes)

6.23 Adroddodd busnesau fod angen mwy o ddarpariaeth sgiliau i gynyddu faint o staff medrus sydd ar gael yn y meysydd sydd â’r prinder mwyaf difrifol er mwyn gwella’r cyflenwad o ymgeiswyr cymwys yn y meysydd hyn.

6.24 Nododd sawl busnes hefyd anghenion cymorth mewn perthynas â helpu busnesau i baratoi at newidiadau rheoleiddiol a chyfreithiol, gan gynnwys cefnogi busnesau i baratoi ar gyfer sero net. Ymhellach, teimlai sawl busnes y byddai’n fuddiol cael mynediad at gyllid i gefnogi busnesau i wella eu heffeithlonrwydd ynni.

## Crynodeb

- Ar draws yr holl weithrediadau, roedd yr ymgysylltu cychwynnol yn golygu cynnal diagnosis o ryw fath. Ar gyfer y rhai o dan AP 2.2, 2.3 a 2.4, tueddai'r ymgysylltiad cychwynnol i fod yn rhithwir, tra ar gyfer AP1.2 roedd mwy o bwyslais ar ymgysylltu personol.
- Roedd ffocws cychwynnol y ddarpariaeth ar gyfer gweithrediadau AP2.2, 2.3 a 2.4 yn wasanaeth un-i-lawer ei natur, ac wedyn rhoddwyd cymorth atodol mwy dwys a phwrpasol (un-i-un fel rheol). Roedd cymorth AP1.2 yn fwy pwrpasol i anghenion penodol y busnes cyfranogol ac yn cael ei gynnal dros sawl mis.
- Roedd gweithrediadau yn cynnig cymysgedd o ddarparwyr gwasanaeth wedi'u contractio, asiantaethau partner, ac arbenigwyr caffael trwy fframwaith neu arbenigedd mewnol i ddarparu gwasanaethau i fusnesau cyfranogol.
- Dim ond lleiafrif o fusnesau yr effeithiodd COVID-19 arnynt ac yn benodol y rheini a oedd yn ymwneud â gweithrediadau AP1.2 lle roedd angen mynediad at labordai neu offer arbenigol arnynt.
- Effeithiodd yr hinsawdd economaidd-gymdeithasol ansicr ar staffio gweithrediadau, gyda buddiolwyr arweiniol yn adrodd am heriau denu staff i rolau dros dro.
- Soniodd y gweithrediadau hynny o fewn AP1.2 am lwyddiant cydweithredu rhwng sefydliadau ymchwil a busnesau a'r tebygolrwydd y byddai'r rhain yn ffurfio gwaddol allweddol i'w gweithgarwch. Gan adleisio barn rhanddeiliaid, ystyrid gan amryw fod masnacheiddio gwasanaethau a chofrestru patentau yn her.
- Ar gyfer AP2.2, 2.3 a 2.4, mae'r targedau gweithredol ar y cyfan yn cael eu cyflawni. Nodwyd prinder yn erbyn themâu trawsbynciol gan fuddiolwyr arweiniol, er bod hyn yn bennaf gysylltiedig â chynnydd araf ar y dechrau wrth ddarparu'r rhain. Roedd gwelliannau'n gysylltiedig â gweithio'n agos ag WEFO a chyflwyno'r Pecyn Adnoddau Diogelu at y Dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o gysylltiad neu gydnabyddiaeth o ddefnyddio'r pecyn cymorth hwnnw ymhlith busnesau.
- Wrth ystyried gwersi a ddysgwyd, siaradodd buddiolwyr arweiniol am bwysigrwydd gwybodaeth glir ac eglurder ynghylch y gofynion ar gyfer casglu tystiolaeth o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal â phwysigrwydd tîm prosiect o ansawdd uchel sy'n parhau'n gyson trwy gydol gweithrediad.
- Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd cysondeb a symlrwydd y brand ymhlith pryderon ynghylch risg peri dryswch yn y farchnad.

- Ymysg busnesau roedd pryderon ynghylch y sefyllfa economaidd-gymdeithasol, a oedd yn effeithio ar eu hawydd i fuddsoddi. Yn ogystal â hynny, roedd heriau yn gysylltiedig â dod o hyd i staff oedd â’r sgiliau addas yng nghanol pryder bod gweithio o bell yn golygu bod busnesau Cymru yn cystadlu yn erbyn cronfa ehangach o gyflogwyr am ymgeiswyr cymwys.


## 7. Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol

### Cyflwyniad

7.1 Cynhaliwyd gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) fel rhan o'r gwerthusiad i archwilio'r effeithiau ar drosiant a chyflogaeth yn y busnesau a gymerodd ran ac sydd wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ac ar gyfer TAW neu PAYE. Cam cyntaf y dadansoddiad oedd cysylltu'r busnesau a gynorthwyir â'u Rhif Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau (CRN). Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad o'r data monitro nad oedd rhif CRN ar gael i bob busnes. O ganlyniad, roedd angen ymchwil ychwanegol i ddod o hyd i'r rhif CRN, sef defnyddio cofrestrfa Tŷ'r Cwmnïau yn ogystal ag enw'r cwmni a manylion eraill.

7.2 Ar ôl cael rhif CRN, yr ail gam oedd cysylltu'r busnesau â data'r ONS, yn bennaf drwy Gronfa Ddata Strwythur Busnes (BSD). Mae Ffigur 7.1 yn dangos y broses baru – o'r achosion cael cymorth hyd at nifer y sefydliadau cyfatebol ar lefel yr Amcan Penodol.

**Ffigur 7.1: Cyfradd paru wrth gysylltu data a'r cysylltu â data'r ONS**




7.3 O'r set ddata wreiddiol, nodwyd 21,554 o achosion o gael cymorth. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai busnesau gael sawl achos o gymorth ar draws mwy nag un AP. Ar ôl tynnu'r dyblygu o'r data, roedd 10,152 o fusnesau unigryw. Gellid cysylltu rhif CRN â 9,664 (95 y cant) o'r busnesau hyn. O'r 9,664 o fusnesau â rhifau CRN, roedd 6,647

wedi'u cysylltu â chofrestr yr ONS, ac o'r rhain defnyddiwyd 4,804 o gwmnïau yn y dadansoddiad. Mae'r gyfradd colli ar y cam hwn yn adlewyrchu tua 2,000 o fusnesau newydd neu fach nad ydynt wedi'u cofnodi yng Nghofrestr Busnesau'r ONS, neu'r rhai a gefnogwyd yn ddiweddar iawn yn 2021 (tua 1,000 o fusnesau) gan fod eu canlyniadau heb eu gwireddu neu'n fesuradwy eto yn y data sydd ar gael.

7.4 Mae Tabl 7.1 yn crynhoi nifer y busnesau a oedd ar gael i'w dadansoddi o dan bob Amcan Penodol. Dengys y tabl gyfradd colli sylweddol ar gyfer y rhai a gefnogwyd drwy AP2.2, gan fod entrepreneuriaid a busnesau newydd yn llai tebygol o fod wedi cofrestru ar gyfer TAW a PAYE. Pan oeddent wedi cofrestru, nid oedd y rhan fwyaf i'w gweld yng Nghofrestr Busnesau'r ONS neu eu bod wedi'u cefnogi neu eu sefydlu'n ddiweddar iawn ac, felly, ni ellid eu defnyddio yn y modelu gwrthffeithiol/CIE (gan nad oeddent yn bresennol yn y Gofrestr Busnesau am y cyfnod dwy flynedd cyn y cymorth).

**Tabl 7.1: Rhifau Cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau (CRN) yn ôl Amcan Penodol**

| | | Nifer y rhifau CRN unigryw ymysg busnesau a gymerodd ran | | Cwmnïau a ddefnyddiwyd wrth fodelu CIE | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan Penodol | Cyfanswm y cyfranogwyr | Nifer | Canran y cyfranogwyr | Nifer | Canran y cwmnïau â rhif CRN | Canran o gyfanswm y cyfranogwyr a ddefnyddiwyd |
| AP1.2 | 1,122 | 941 | 83.9 | 445 | 47.3 | 39.7 |
| AP2.2 | 4,841 | 2,218 | 45.9 | 120 | 5.4 | 2.5 |
| AP2.3 | 5,306 | 2,425 | 45.7 | 1,286 | 53.0 | 24.2 |
| AP2.4 | 8,145 | 4,080 | 50.1 | 3,112 | 76.3 | 38.2 |

### Paru busnesau

7.5 Mae ceisio gwneud cymhariaeth syml o'r holl fusnesau a gynorthwyir â'r holl fusnesau na chafodd gymorth yn broblematig oherwydd mae'r ddau grŵp hyn yn debygol o fod yn wahanol iawn. Er bod rhai gweithrediadau sy'n cynnig cymorth busnes drwy raglenni ERDF yng Nghymru yn agored i bob BBaCh, mae rhywfaint o ddarpariaeth wedi'i thargedu at grwpiau penodol. Felly mae angen llunio grŵp cymhariaeth o fusnesau na chafodd gymorth sy'n debyg i'r rhai a gafodd. Er enghraifft, mewn senario

lle mae busnesau a gynorthwyir yn tueddu i fod yn fach, bydd y broses baru yn nodi busnesau nad ydynt wedi cael cymorth ond sydd o faint tebyg.

7.6 Y gronfa ar gyfer paru yw'r boblogaeth o fusnesau y mae busnesau tebyg yn cael eu dewis ohonynt. Dewisir busnesau o blith y boblogaeth ehangach o fusnesau yn y DU. Mae tynnu o'r gronfa hon yn defnyddio model dethol sy'n deillio o nodi ac amcangyfrif ffactorau sy'n cyfateb i fusnes sy'n cael cymorth[104]. Amcangyfrifwyd mwy na dwsin o fodelau. Drwy addasu'r newidynnau a ddefnyddiwyd ym mhob un o'r modelau hyn, arweiniodd hyn at setiau gwahanol o fusnesau gwrthffeithiol na chafodd gymorth. O'r modelau amcangyfrif amrywiol, nodwyd tri grŵp rheoli.

- **Grŵp Rheoli a ffefrir 1:** Mae hwn yn paru busnesau tebyg o ran trosiant gwirioneddol wedi'i rannu'n gategorïau i ddeall sut roedd maint yn dylanwadu ar y dewis, ac a oedd y busnes yn fuddiolwr prosiect Innovate UK (IUK) neu'n cael ei olrhain gan Beauhurst ai peidio. Mae bod yn fuddiolwr IUK neu gael ei olrhain gan Beauhurst yn dynodi busnes sy'n arloesol ac yn canolbwyntio ar dwf[105]. Mae'r model hefyd yn defnyddio newidynnau ar gyfer busnesau newydd, sef a oedd y busnesau wedi derbyn ffyrlo ai peidio, ymhle roeddent yn gweithredu mewn sectorau uwch-dechnoleg, a newidyn ar gyfer cofnodi cyflog isel.
- **Grŵp Rheoli amgen 2:** Nodwyd busnesau tebyg ar gyfer y grŵp hwn drwy ddefnyddio trosiant a chyflogaeth wedi'u rhannu'n gategorïau maint, yn ogystal ag ystod ehangach o sawl procsi twf, sef a yw'r busnes yn y diwydiant gwasanaethau gwybodaeth uchel neu weithgynhyrchu uwch-dechnoleg ac a yw'r busnes wrthi'n tyfu (twf o 20 y cant). Ar ben hynny, mae'r model hwn yn cynnwys dangosyddion arloesi drwy ganfod a yw busnes yn cael ei olrhain gan Beauhurst ac yn fuddiolwr IUK ai peidio. Mae'r model hefyd yn cynnwys newidynnau ar gyfer cyflog isel, busnesau newydd ac unedau byw lleol[106] ac mae'n cyflwyno lefel twf trosiant a thwf cyflogaeth y diwydiant a busnesau yn y flwyddyn flaenorol.

---

[104] Mae hyn wedi'i fodelu gan ddefnyddio model probid, lle mae'r ffaith bod cwmni unigol yn cael cymorth (gan gymryd gwerth 1, neu 0 fel arall) yn cael ei atchwelyd ar nodweddion y busnesau cyn iddynt gymorth i benderfynu beth sy'n ysgogi busnesau i gael cymorth.

[105] Mae Beauhurst yn ddarparwr data sy'n olrhain grŵp o fwy na 50,000 o gwmnïau twf uchel. Er bod olrhain gan Beauhurst yn gallu bod yn brocsi ar gyfer potensial twf uchel, un o'r prif resymau i Beauhurst ddilyn busnes yw bod y busnes wedi llwyddo i godi arian (i hwyluso twf o'r fath).

[106] Nifer y swyddfeydd lleol.

- **Grŵp Rheoli Canolrif y Modelau:** Y canlyniadau canolrif ar gyfer pob un o'r newidynnau canlyniad a nodweddion y modelau a gynhyrchwyd.

7.7 Roedd sefydlu model a ffefrir o'r tri grŵp rheoli yn cynnwys archwilio'n gyntaf a oedd y grwpiau cymharu a ddewiswyd drwy'r paru yn debyg i'r busnesau a gynorthwyir ac yna ystyried pa wrthffeithiol posibl oedd fwyaf tebyg. Mae'r paru ystadegol yn gyffredinol yn alinio cymaryddion yn ôl nodweddion allweddol, megis bod maint cyfartalog y busnesau a gynorthwyir yn debyg i'r rhai a ddewiswyd ar gyfer y gwrthffeithiol.

7.8 Roedd ail brawf, i asesu ansawdd y grwpiau rheoli wedi'u modelu, yn cynnwys cymharu tueddiadau cyn-cymorth yn y newidynnau canlyniadau (sef ar gyfer yr astudiaeth hon, twf cyflogaeth a throsiant) mewn busnesau a gynorthwyir yn erbyn y tri grŵp rheoli. Canfu hwn fod y model a ffefrir (Grŵp 1) a'r ddau fodel amgen (Grŵp 2 a Chanolrif y Modelau) wedi darparu busnesau tebyg a oedd i'w gweld ar lwybr twf tebyg i'r busnesau a gynorthwyir. Ar gyfer y ddau grŵp olaf, nid yw hyn yn syndod, gan fod data cyflogaeth a throsiant o'r gorffennol wedi'i gynnwys yn y modelu, ac nid yw hynny'n wir am y model a ffefrir. Fodd bynnag, gall cynnwys ffocws y newidyn canlyniad (cyflogaeth a throsiant) yn y gwrthffeithiol fel mewnbwn ym modelu'r grŵp rheoli ragfarnu canfyddiadau canlyniadau'r gwrthffeithiol. O'r herwydd, rhoddir mwy o ffocws ar y Grŵp Rheoli a ffefrir 1 yn yr adrannau a ganlyn (er bod modelau amgen yn cael eu cyflwyno hefyd er mwyn cymharu).

### Proffilio'r mentrau a gafodd gymorth

7.9 Ar gyfer y gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) ar lefel cwmni, mae 4,936 o fusnesau yn cysylltu â data ONS. Mae'r busnesau hyn yn debygol iawn o gael eu "dewis" gan y rhai sy'n rhedeg y gweithrediadau a chan y busnesau eu hunain wrth gynnig eu hunain/eu busnes am y cymorth (hunanddewis). Er mwyn deall amgylchiadau'r dewis hwn, mae dadansoddiad yn canolbwyntio ar fusnesau cyn cael cymorth, gan ddychmygu'r ysgogwyr tuag at y cymorth. Felly, er mwyn modelu'r siwrnai honno tuag at gymorth a'r prosesau dethol sy'n gysylltiedig â'r daith honno, mae angen data am o leiaf y flwyddyn (ac yn ddelfrydol dwy flynedd) cyn i'r cymorth ddechrau er mwyn gallu lleoli'r modelu ar adeg pan oedd y busnes yn chwilio am gymorth. Mae sampl o 4,804 o fusnesau yn bodloni'r gofyniad hwn.

7.10 Er mwyn osgoi colli pellach oherwydd bod angen dwy flynedd o ddata cyn cymorth, cymerwyd camau[107] ar gyfer busnesau “newydd” nad oedd yn bresennol ar gofrestrau busnes am y cyfnod o ddwy flynedd cyn cymorth fel bod modd cadw’r busnesau hyn ac, felly, sicrhau nad yw’r dadansoddiad yn canolbwyntio’n ormodol ar fusnesau hŷn.

7.11 Mae’r BSD yn rhoi cipolwg blynyddol o’r boblogaeth fusnes yn y DU, gan olrhain cyflogaeth a throsiant dros amser. Mae’n rhoi’r dosbarthiad diwydiant (cod SIC) a blwyddyn dechrau’r busnes, ynghyd â newidynnau eraill sy’n nodweddu’r busnes. Drwy hyn gall y dadansoddiad olrhain y busnesau a gynorthwyir ar draws nifer o flynyddoedd, yn ogystal â chymharu eu perfformiad â pherfformiad busnesau tebyg eraill.

7.12 Roedd y BSD yn gysylltiedig â rhestrau o brosiectau a ariannwyd gan IUK a oedd yn cynnwys rhif Tŷ’r Cwmnïau (CRN) y cwmni a gefnogwyd gan y cyllid. Yn ogystal, cysylltwyd data ar lefel cwmni ar y codi arian llwyddiannus a wnaed gan fusnesau sy’n cael eu holrhain gan Beauhurst (gan fod busnesau arloesol sy’n tyfu’n gyflym fel arfer yn hwyluso eu twf ar gyfer codi arian),. Setiau data cyhoeddus eraill y gellir eu cysylltu â rhif CRN oedd patentau a’r busnesau a ddefnyddiodd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (gweler Atodiad C i gael rhagor o wybodaeth).

7.13 Mae Tabl 7.2 yn rhoi nodweddion busnesau a gynorthwyir, y boblogaeth fusnes ehangach, a’r Grŵp Rheoli a ffefrir. Mae busnesau a gynorthwyir yn fwy tebygol o fod mewn gweithgynhyrchu na’r boblogaeth fusnes ehangach, ac, ar amrywiol ddangosyddion, mae’n ymddangos eu bod yn fwy tueddol o arloesi, yn debygol o feddu ar batent neu wedi sicrhau cyllid gan Innovate UK.

7.14 Mae’r “cymhariaeth a ffefrir” yn paru ar sail maint y busnes, categorïau cyflogaeth, twf blaenorol, unrhyw gyllid blaenorol gan Innovate UK a gwaith olrhain Beauhurst. Ystyriwyd modelau eraill; mae’r “gymhariaeth amgen” yn seiliedig ar fodel tebyg sy’n cynnwys a oedd busnes wedi gwneud cais yn y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (gweler Atodiad C i gael rhagor o wybodaeth). Yn ogystal, cyflwynir

[107] Roedd hyn wedi cynnwys gosod y data cyn dechrau’r busnes i 0 ac yna cynnwys newidyn hafal i 1 lle’r oedd y busnes yn fusnes newydd, gan felly osgoi’r modelu yn gollwng y busnes oherwydd bod data amdano cyn dechrau’r busnes ar goll.

model canolrif sy’n defnyddio’r canlyniadau canolrifol ar gyfer pob un o’r 22 model a redwyd.

**Tabl 7.2: Ystadegau cryno ar gyfer buddiolwyr a grwpiau cymharu yn y flwyddyn sylfaen**

| | **ERDF Cymru** | **Cymhariaeth a ffefrir** | **Model cymharu canolrif** | **BSD ehangach[108]** |
|---|---|---|---|---|
| **Newidyn** | **Cymedrig (n=4,804)** | **Cymedrig (n=4,804)** | **Cymedrig (n=4,804)** | **Cymedrig (n=3,570,536)** |
| | | Maint y busnes | | |
| Cyflogaeth | 23 | 41** | 25 | 10** |
| Trosiant gwirioneddol (£’000) | 2,954 | 3,361 | 3,049 | 1,768 |
| Cynhyrchiant gwirioneddol | 109 | 114 | 149 | 147 |
| | | Dosbarthiadau diwydiant | | |
| Cyflog isel | 28% | 28% | 28% | 28% |
| Uwch dechnoleg | 17% | 17% | 15% | 13%** |
| Gweithgynhyrchu | 16% | 17% | 15% | 4% |
| Gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg | 1% | 1% | 1% | 0%* |
| Gwasanaethau dwys eu gwybodaeth | 7% | 9%* | 7% | 8% |
| Gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ganolig | 4% | 3%** | 3% | 2% |
| | | Procsi arloesedd | | |
| Prosiect IUK yn flaenorol | 3% | 3% | 3% | 0%** |
| Yn meddu ar batent | 4% | 3% | 3% | 1%** |
| Wedi’i olrhain gan Beauhurst | 8% | 8% | 8% | 1%** |
| | | Effaith y Coronafeirws | | |
| Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) | 54% | 54% | 33%** | 18%** |
| | | Demograffeg y busnesau | | |
| Unedau lleol | 1.7 | 2.0** | 1.8 | 1.1** |
| Blynyddoedd o weithgarwch | 12.8 | 13.4 | 13.4 | 11.5 |

Nodyn: Cyfrifwyd ystadegau cryno ar gyfer y flwyddyn sylfaen drwy ddefnyddio data BSD a setiau data cyhoeddus eraill. Cyfrifwyd ystadegau BSD ehangach ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Cyfrifwyd trosiant gwirioneddol gan ddefnyddio datchwyddwyr sector-benodol a’i fynegi mewn miloedd o bunnoedd gan ddefnyddio 2021 fel y flwyddyn sylfaen. Defnyddir Eurostat i nodi sectorau gwybodaeth-ddwys drwy ddefnyddio dangosyddion ar gymysgedd sgiliau. Dengys data’r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws gan y CThEF a oedd cwmni wedi cael cymorth ar gyfer cyflogeion ar ffyrlo ai peidio. Mae cynhyrchiant gwirioneddol yn weithgarwch trosiant gwirioneddol fesul cyflogai. Profir a yw cymedr y cymharydd yn wahanol i’r un a gafodd gymorth, a’r lefelau arwyddocâd yw 1% (**) a 5% (*).

108 Nid yw’r BSD ehangach yn cynnwys busnesau mawr iawn, a ddiffinnir fel rhai sydd â mwy na 5,000 o weithwyr neu drosiant dros £1bn.

**Newidiadau cyflogaeth yn y busnesau a gynorthwyir**

7.15 Mae Tabl 7.3 isod yn cyflwyno'r newid mewn cyflogaeth i fusnesau a gynorthwyir yn y blynyddoedd ar ôl cael cymorth. Mae'r newid hwn yn fesur "gros", gan fod y cymorth yn effeithio arno yn ogystal â ffactorau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r cymorth. Dangosodd dadansoddiad fod rhai busnesau mawr iawn yn y grŵp a gynorthwyir. Gallai hyn ddigwydd oherwydd gwall wrth baru enwau busnes â rhifau CRN. Hefyd, mae'n bosibl i BBaCh fod yn rhan o fenter fwy ond wedi'i gofrestru ar wahân neu iddo gael ei brynu gan endid mwy ar ôl cael cymorth. Defnyddiwyd torbwynt syml i ddileu'r llurgunio yn sgil hyn yn y dadansoddiad, gan ei gyfyngu i fusnesau â llai na 5,000 o gyflogeion neu lai na £1bn mewn trosiant.

7.16 Mae'r tabl yn dangos bod y busnesau gyda'i gilydd (ar draws yr holl Amcanion Penodol) yn cyflogi 108,347 o staff cyn derbyn cymorth. Yna mae'r tabl yn olrhain sut y newidiodd nifer y swyddi yn y blynyddoedd ar ôl i gymorth ERDF ddigwydd. Yn gyffredinol, mae cyflogaeth yn y busnesau a gynorthwyir yn cynyddu 10,585 o swyddi.

7.17 Bydd rhai o'r amcangyfrifon cyflogaeth ar gyfer blwyddyn y bydd COVID-19 wedi effeithio arni. Er y bydd amcangyfrifon cyflogaeth 2015/16 a 2016/17 yn cwmpasu cyfnod sy'n dod i ben cyn 2020/21, ym mhob un o'r carfannau ar ôl hyn bydd yr amcangyfrif cyflogaeth terfynol yn amcangyfrif cyflogaeth yn 2020/21. Roedd hon yn flwyddyn pan fyddai busnesau wedi cael eu heffeithio gan y cyfnodau clo, y cyfyngiadau ar symud ac amhariadau eraill yn ymwneud â'r pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, efallai y bydd cyflogaeth hefyd wedi cael ei chefnogi gan y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws[109].

109 Ar 20 Mawrth 2020 cyhoeddodd y llywodraeth Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Pwrpas y cynllun oedd rhoi grantiau i gyflogwyr i sicrhau eu bod yn gallu cadw a pharhau i dalu staff, er gwaethaf effeithiau pandemig COVID-19.

**Tabl 7.3: Newid cyflogaeth gros i fuddiolwyr yn ôl blwyddyn cymorth**

| Cyflogaeth | Carfan 2015/2016 (n=309) | Carfan 2016/2017 (n=928) | Carfan 2017/2018 (n=1,115) | Carfan 2018/2019 (n=1,059) | Carfan 2019/2020 (n=700) | Carfan 2020/2021 (n=584) | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn sylfaen | 6,460 | 23,386 | 23,937 | 26,676 | 16,564 | 11,324 | 108,347 |
| Blwyddyn y cymorth | 6,737 | 24,863 | 25,748 | 27,487 | 17,073 | 11,385 | |
| 2 flynedd wedyn | 7,081 | 26,310 | 26,474 | 27,876 | 16,950 | | |
| 3 blynedd wedyn | 7,340 | 27,451 | 29,602 | 27,901 | | | |
| 4 blynedd wedyn | 7,537 | 27,741 | 27,418 | | | | |
| Newid gros | 1,077 | 4,355 | 3,481 | 1,225 | 386 | 61 | **10,585** |

Sylwer: Mae ffigurau cyflogaeth yn dangos y swm ar draws yr holl fuddiolwyr ym mhob carfan benodol. Cyfrifir newid gros o'r flwyddyn sylfaen. Mae'r dadansoddiad hwn yn dileu allanolion, sydd wedi'u diffinio fel cwmnïau mawr iawn o ran cyflogaeth ac/neu drosiant gwirioneddol.

7.18 Bydd y newid gros hwn mewn cyflogaeth yn cynnwys twf cyflogaeth a fyddai wedi digwydd beth bynnag. Amcan gwerthusiad gwrthffeithiol yw amcangyfrif yr hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y cymorth er mwyn amcangyfrif y newid net y gellir ei briodoli i gymorth ERDF.


**Effaith y cymorth ar dwf cyflogaeth**

7.19 Mae Ffigur 7.2 yn dangos bod twf cyflogaeth y busnesau a gynorthwyir yn uwch o gymharu â grwpiau cymharu a'r boblogaeth fusnes ehangach. Defnyddiai'r ffigur hwn a ffigurau diweddarach newidynnau cofnodedig fel nad oedd unrhyw allanolion yn y twf yn dylanwadu'n ormodol ar yr amcangyfrif a bod y ffocws ar y twf ym mherfformiad y cwmni. Ym mhob ffigwr, caiff y perfformiad ei fynegeio fel bod y gwerth yn y flwyddyn sylfaen yn cael ei osod i 100 er mwyn gallu gweld unrhyw wahaniaeth yn haws yn y llwybrau perfformiad maes o law rhwng y grŵp a gafodd gymorth a'r grŵp cymharu. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos cyfnod y cymorth, gyda busnesau wedi'i gael yn ystod y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn sylfaen.

7.20 Y llinell "cymorth" yw'r mynegai cyflogaeth ar gyfer busnesau a gynorthwyir. I'r rhai a gafodd gymorth drwy'r ERDF, mae twf cyflogaeth cofnodedig yn 8.6 y cant yn y flwyddyn gymorth, 15.1 y cant ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn sylfaen, ac 16.6 y cant

dair blynedd ar ôl y flwyddyn sylfaen. Mae'r ffigur yn dangos bod hwn yn dwf cyflogaeth llawer uwch nag mewn busnesau yn y boblogaeth fusnes ehangach. Fel y nodwyd yn flaenorol, fodd bynnag, mae busnesau a gynorthwyir yn wahanol o ran eu natur i'r boblogaeth fusnes ehangach, ac ar ôl paru, defnyddir set o fusnesau sy'n fwy tebyg i'r rhai a gafodd gymorth a chyflwynir y gwahanol grwpiau cyfatebol. Er bod y grwpiau cyfatebol hefyd yn dangos cyfraddau twf cyson uwch nag yn y boblogaeth fusnes ehangach, mae cyfraddau twf y busnesau a gynorthwyir yn dal yn uwch fyth.

**Ffigur 7.2: Twf cyflogaeth mewn busnesau a gynorthwyir yn erbyn cymaryddion**




7.21 Gellir rhoi prawf i ba raddau y mae'r cyfraddau twf yn wahanol drwy ddefnyddio gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (DiD), sef amcangyfrif sut mae newidiadau mewn cyflogaeth yn y rhai sy'n cael cymorth a'r rhai gwrthffeithiol (y gwahaniaeth cyntaf) yn wahanol cyn ac ar ôl y cymorth (yr ail wahaniaeth).

7.22 Dengys canlyniadau DiD (Tabl 7.4 isod) fod y busnesau a gynorthwyir gan raglenni ERDF wedi cael twf cyflogaeth uwch na'r grwpiau cymharu (y model a ffefrir a'r model canolrif). Mae'r twf cyflogaeth uwch yn arwyddocaol yn ystadegol ym mlwyddyn y cymorth yn ogystal ag yn y ddwy flynedd ar ôl y cymorth pan fo effaith y cymorth yn llawer amlycach. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau yn arwyddocaol yn ystadegol ar

gyfer y drydedd flwyddyn ar ôl y cymorth yn y model a ffefrir. Mae hyn yn golygu y teimlwyd effaith y cymorth yn bennaf yn y ddwy flynedd gyntaf yn dilyn y gefnogaeth a bod yr effaith wedi lleihau dros amser.

**Tabl 7.4: Ychwanegedd cyflogaeth**

| Twf cyflogaeth | Twf yn rhai a gynorthwyir | Model a ffefrir | Model canolrif | Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau | Amcangyfrifon ychwanegedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn eu cefnogi** | 8.6% | 5.3% | 5.0% | 3.3% (3.29**) | 38% |
| **2 flynedd ar ôl y cymorth** | 15.1% | 9.6% | 9.6% | 5.5% (3.51**) | 36% |
| **3 blynedd ar ôl y cymorth** | 16.6% | 13.9% | 13.5% | 2.7% (1.31) | 16% |

Sylwer: Y lefelau arwyddocâd yw 1% (**) a 5% (*); cyflwynir ystadegau T mewn cromfachau gan ddefnyddio gwallau safonol cadarn. Mae gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn cael ei drin fel rheolaeth negyddol.

7.23 Mae Tabl 7.4 yn amcangyfrif cyfran y twf a welwyd mewn busnesau a gynorthwyir na welir yn y gwrthffeithiol, a hyn yn cynrychioli'r gyfran sy'n ychwanegol. Gellir cyfuno'r twf ychwanegol gydag amcangyfrifon y newid cyflogaeth a welwyd yn y busnesau, fel y'i cyflwynir yn Nhabl 7.3. Dengys y tabl sut yr oedd busnesau a gynorthwyir wedi creu swyddi newydd yn y tair blynedd ar ôl y cymorth, gan gynrychioli 10,585 o flynyddoedd o gyflogaeth[110]. Gellir defnyddio'r twf ychwanegol i amcangyfrif y gyflogaeth y tu hwnt i'r hyn a welwyd mewn busnesau tebyg. Yn y flwyddyn y cafwyd y cymorth mae Tabl 7.4 yn awgrymu bod 0.38 o flynyddoedd (38 y cant) yn ychwanegol, sy'n lleihau yn y blynyddoedd dilynol (36 y cant ac 16 y cant, yn y drefn honno), ond bod cyflogaeth ychwanegol o hyd. Gyda'i gilydd mae hyn yn cyfateb i **4,023 o flynyddoedd o gyflogaeth yr amcangyfrifir ei fod oherwydd y cymorth**.

7.24 Mae'r cyfraddau ychwanegedd wedi'u defnyddio i "gronni" blynyddoedd cyflogaeth ychwanegol i adlewyrchu nifer y busnesau cyfranogol unigryw yn AP1.2, AP2.3 ac

[110] Y mesur cyflogaeth a ddefnyddir yw "blynyddoedd o gyflogaeth" fel y gellir cyfansymio effeithiau gwahanol garfannau o gymorth yn foddhaol. Mae swydd newydd mewn busnes a gedwir am ddwy flynedd yn darparu dwy flynedd o gyflogaeth, ac mae cwmni sydd â chyflogaeth newydd yn cynyddu i bedair yn y flwyddyn ar ôl cymorth, gan gynyddu i chwech y flwyddyn ar ôl hynny, wedi sicrhau cyfanswm o 10 mlynedd o gyflogaeth.

AP2.4 ac i fynd i'r afael â'r rhai a gollwyd drwy ymarfer gwrthffeithiol CIE, fel y nodir yn Nhabl 7.5 isod. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif bras o gyfanswm blynyddoedd cyflogaeth ychwanegol ar gyfer y rhai a gefnogir drwy'r tri AP. Mae'r dull gweithredu wedi'i nodi isod.

**Tabl 7.5: Modelu amcangyfrif o flynyddoedd cyflogaeth ychwanegol**

| | |
|---|---|
| Blynyddoedd cyflogaeth ychwanegol gros ar gyfer AP1.2, 2.3 a 2.4 | 10,585 |
| Y gwahaniaeth mewn blynyddoedd cyflogaeth ychwanegol rhwng y grŵp cymorth a'r grŵp rheoli | 4,023 |
| Cyfradd ychwanegedd | 38.0% |
| Cyfanswm nifer y cwmnïau a ddefnyddir yn y modelu gwrthffeithiol/CIE ar gyfer 2.2, 2.3 a 2.4 | 4,843 |
| Cyfanswm cyfranogwyr unigryw | 14,573 |
| Cymhareb ehangu/tyfu | 3.01 |
| **Amcangyfrif o flynyddoedd cyflogaeth ychwanegol ar gyfer AP1.2, 2.3 a 2.4** | **12,105** |

7.25 O ddadansoddi yn ôl Amcan Penodol, roedd twf cyflogaeth yn AP2.4 (twf BBaCh) wedi bod yn arwyddocaol yn ystadegol (ar lefel arwyddocaol o 0.01) ar draws y tair blynedd o gymharu â'r grŵp cymharu a ffefrir. Mae hyn yn cyfateb i ychwanegedd o 47 y cant ar draws y tair blynedd ar ôl derbyn cymorth.

**Effaith cymorth ar drosiant gwirioneddol**

7.26 Gellir hefyd olrhain gwerthiannau neu drosiant gwirioneddol y busnesau a gynorthwyir mewn ffordd debyg i'r dadansoddiad o newidiadau mewn cyflogaeth. Mae Tabl 7.6 yn cyflwyno'r amcangyfrifon ar gyfer hyn.

7.27 Yn gyffredinol, mae gwerthiant yn cynyddu ar draws y carfannau o fusnesau a gynorthwyir. Yn y flwyddyn sylfaen, trosiant y busnesau ar draws y carfannau (blynyddoedd) o gymorth yw trosiant cyfun o £14.2bn, sy'n cyfateb i £2.9m fesul busnes a £131k fesul cyflogai. Erbyn y flwyddyn olaf y mae data ar gael, h.y. 2020/21, mae'r trosiant wedi cynyddu i £15bn, sy'n welliant o bump y cant.


**Tabl 7.6: Newid yn y trosiant gwirioneddol i fuddiolwyr yn ôl blwyddyn y cymorth**

| Trosiant gwirioneddol (£mil) | Carfan 2015/2016 (n=309) | Carfan 2016/2017 (n=928) | Carfan 2017/2018 (n=1,115) | Carfan 2018/2019 (n=1,059) | Carfan 2019/2020 (n=700) | Carfan 2020/2021 (n=584) | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn sylfaen | 757.9 | 2919.7 | 3440.4 | 3489.2 | 2255.2 | 1335.2 | **14,197** |
| Blwyddyn y cymorth | 819.9 | 2818.4 | 3448.8 | 3660.2 | 2247.8 | 1390.5 | |
| 2 flynedd wedyn | 803.9 | 3061.1 | 3567.1 | 3669.2 | 2209.1 | 0.0 | |
| 3 blynedd wedyn | 824.0 | 3376.8 | 3497.1 | 4050.4 | 0.0 | 0.0 | |
| 4 blynedd wedyn | 836.5 | 3402.9 | 3671.8 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | |
| Newid gros | 78.6 | 483.2 | 231.4 | 1.2 | -46.0 | 55.3 | **803.6** |

Sylwer: Y ffigurau cyflogaeth a ddefnyddir mewn cyfrifiadau yw'r swm ar draws yr holl fuddiolwyr ym mhob carfan benodol. Cyfrifir y newid gros o'r flwyddyn sylfaen. Mae'r dadansoddiad hwn yn dileu'r allanolion, sydd wedi'u diffinio yn gwmnïau mawr iawn o ran cyflogaeth ac/neu drosiant gwirioneddol.

7.28 Mae Ffigur 7.3 yn dangos y twf trosiant gwirioneddol ar gyfer y busnesau a gynorthwyir o gymharu â grwpiau cymharu a'r boblogaeth fusnes ehangach. Cyflwynir amcangyfrifon ar gyfer y trosiant gwirioneddol cofnodedig, unwaith eto wedi'u mynegeio i 100 yn y flwyddyn cyn y cymorth fel bod y ffigur yn canolbwyntio ar dwf ac yn caniatáu cymhariaeth o'r cyfnod ar ôl cymorth. Roedd twf trosiant gwirioneddol yn is o gymharu â'r grŵp gwrthffeithiol; fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 7.3: Twf trosiant mewn busnesau a gynorthwyir yn erbyn cymaryddion**





7.29 Wrth ddadansoddi yn ôl Amcan Penodol, roedd busnesau a gefnogid gan AP2.4 (twf BBaCh) wedi tyfu yn arwyddocaol yn ystadegol (ar lefel arwyddocâd 0.01 am y ddwy flynedd gyntaf a lefel arwyddocâd 0.05 am y drydedd flwyddyn) yn gyflymach nag yn hanes y Grŵp Rheoli a ffefrir. Roedd ychwanegedd y cymorth mewn cymhariaeth â'r grŵp cymharu a ffefrir yn cyfateb i 78 y cant o dwf trosiant yn ystod y tair blynedd hynny. I fusnesau a gafodd gymorth drwy AP1.2 (Ymchwil ac Arloesi), roedd yr effeithiau trosiant gwirioneddol yn gymedrol, gan adlewyrchu bod canlyniadau'r busnesau cyfranogol hyn yn ymwneud yn bennaf â buddsoddiadau mewn arloesi a datblygu cynnyrch newydd, yn hytrach na chynhyrchu gwerthiannau ychwanegol (a fyddai'n debygol o godi yn y blynyddoedd dilynol).

**Effaith y cymorth ar drosiant gwirioneddol fesul cyflogai (cynhyrchiant gwirioneddol)**

7.30 Mae Ffigur 7.4 yn dangos y newidiadau mewn trosiant gwirioneddol fesul cyflogai ar gyfer y busnesau a gynorthwyir, y grwpiau cymharu, a'r boblogaeth fusnes ehangach. Ym mhob ffigur, mae'r perfformiad a gofnodwyd wedi cael ei fynegeio fel bod y gwerth yn y flwyddyn sylfaen wedi'i osod i 100. Mae'r mesur hwn yn brocsi ar gyfer cynhyrchiant gan fod trosiant gwirioneddol wedi'i rannu â chyflogaeth yn aml yn cael ei ystyried yn cyfatebu i'r gwerth ychwanegol fesul mewnbwn llafur.

**Ffigur 7.4: Cynhyrchiant gwirioneddol**




7.31 Mae Ffigur 7.4 yn dangos bod y grŵp rheoli wedi tyfu o ran cynhyrchiant gwirioneddol, tra bod y grŵp a gafodd gymorth wedi gostwng o ran cynhyrchiant gwirioneddol. Mae cynhyrchiant gwirioneddol yn dyst i dwf sylweddol dair blynedd ar ôl cymorth yn y grŵp a'i cafodd, sy'n dynodi effaith dal i fyny. Yn amlwg, mae cynhyrchiant gwirioneddol yn gostwng ar gyfer busnesau a gafodd gymorth a'r BSD ehangach ac yna'n gwella'n araf, a gellid esbonio hyn oherwydd effaith COVID-19 ar yr economi. Gan fod cynhyrchiant gwirioneddol yn weithgarwch trosiant a chyflogaeth (trosiant fesul cyflogai), a chan fod cyflogaeth wedi cynyddu tra nad oedd trosiant wedi gwneud hynny ar gyfer y cymorth cyffredinol, disgwylir y gostyngiad hwn.

**Cyfyngiadau dadansoddi drwy ddefnyddio'r gwrthffeithiol**

7.32 Mae'r adran hon wedi archwilio a oes modd gweld yr effeithiau a welwyd mewn busnesau a gynorthwyir mewn set gymaradwy o fusnesau, ac os gwelir effeithiau tebyg yna i ba raddau y ceir yr effeithiau hynny. Cyflwynir ystod o effeithiau a gellir mesur y rhain i bennu effeithiau ychwanegol cymorth. Fodd bynnag, yn enwedig oherwydd bod yr ymagwedd yn dibynnu ar ddata gweinyddol, mae rhywfaint o gyfyngiadau iddo.

7.33 Dibynna’r effeithiau ychwanegol ar ansawdd y paru â busnesau tebyg. Mae busnesau gwrthffeithiol wedi’u nodi ac ymddengys bod y rhain yn debyg i’r busnesau a gynorthwyir. Fodd bynnag, mae hyn yn canolbwyntio ar gymariaethau drwy ddefnyddio nodweddion mesuradwy ac ni fydd yn cynnwys ysgogwyr i fynd am gymorth ac mae hynny’n bwysig gan y gallai gydberthyn â pherfformiad gwell. Wrth wneud cais am gymorth, er enghraifft, mae busnes yn debygol o fod yn canolbwyntio mwy ar dwf a bydd yn fwy tebygol o fod â thîm rheoli sy’n fwy abl a pharod i dderbyn cymorth. Ni chaiff y nodweddion hyn eu mesur ac, felly, ni ellir gwarantu y byddant yn digwydd yn y grŵp rheoli. Ar ben hynny, mae risgiau y gallai’r rhai sy’n cael cymorth fod wedi cyrchu mathau eraill o gymorth o wahanol ffynonellau. Gall y cymorth fod wedi dylanwadu ar berfformiad ac nid yw’n bosibl ynysu’r achosion.

7.34 Efallai na fydd yr effeithiau y gellir eu mesur yn adlewyrchu holl fuddion ychwanegol disgwyliedig y cymorth. Mae data gweinyddol yn ffynhonnell wych ar gyfer cyflogaeth, gwerthiannau, a deall statws goroesiad busnes. Fodd bynnag, efallai nad dyma’r agweddau ar y busnes sy’n debygol o newid oherwydd cymorth. Felly, gallai cymorth annog buddsoddi mewn ymchwil a datblygu neu uwchsgilio yn y busnes, a gallai’r dadansoddiad fethu hynny.

7.35 Yn gysylltiedig â hyn, efallai na fydd effeithiau’r cymorth wedi dod i’r amlwg eto. Mae’r astudiaeth yn elwa ar gyfnod cymharol hir i lawer o’r busnesau a gynorthwyir, ond gall rhai mathau o effaith busnes, megis arloesi, gymryd mwy o amser i aeddfedu’n effeithiau mesuredig ar (er enghraifft) gynhyrchiant.

7.36 Mae’r ysgytwadau mawr yn y cyfnod ar ôl cael cymorth hefyd wedi cymhlethu priodoli’r perfformiad gwahanol a welwyd mewn busnesau a gefnogir gan ERDF mewn cymhariaeth â’r gwrthffeithiol. Byddai effeithiau COVID-19 yn digwydd flwyddyn ar ôl y cymorth; yn y cyfamser, byddai newidiadau wrth i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar fwy o flynyddoedd.

7.37 Mae priodoli yn dibynnu ar i ba raddau, ar ôl modelu dewis, y gall hyn integreiddio’r ysgytwadau yn gyfartal i’r rhai a gafodd gymorth a’r grŵp rheoli fel y gellir priodoli unrhyw wahaniaeth mewn perfformiad wedyn i bolisi ERDF.

7.38 O ran effeithiau COVID-19, mae’r cymorth a roddwyd gan y llywodraeth drwy ffyrlo yn cymhlethu priodoli oherwydd mesurau cymorth y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y

Coronafeirws (CJRS). Gall y dadansoddiad, drwy integreiddio cymorth arall megis cyllid Innovate UK, wirio'r cymorth gan y CJRS yn y cyd-destun ehangach hwn. Roedd gwiriadau ar sensitifrwydd effeithiau cyflogaeth i wahanol fodelu yn awgrymu nad oedd yr amcangyfrifon gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau, a'u harwyddocâd, wedi cael eu heffeithio'n ormodol (amcangyfrifon newid cyflogaeth un flwyddyn yw 0.03 yn y modelau a ffefrir, ac mae'r rhai heb ffyrlo yn amrywio o 0.019 i 0.035, pob un ohonynt yn arwyddocaol ar bump y cant).

7.39 Mae'r rhesymeg y tu ôl i ffyrlo yn golygu rhai effeithiau disgwyliedig ar ganlyniadau. Er enghraifft, byddai sioc COVID-19 gyda ffyrlo yn arwain at gyflogaeth barhaus, er y byddai trosiant yn gostwng wrth i weithwyr gael eu rhoi ar ffyrlo. Roedd profi cadernid yn anos wedyn wrth archwilio mesurau cynhyrchiant, gan fod yr amrywiad mewn trosiant fesul cyflogai yn uchel; felly, cyfyngedig yw'r gallu i fynd dan groen yr hyn a welir yn y mesur hwn.

## Crynodeb

- Dengys dadansoddiad gwrthffeithiol CIE bod y twf cyflogaeth a welwyd mewn busnesau a gafodd gymorth anariannol gan yr ERDF ac a oedd yn rhan o'r astudiaeth hon yn uwch na grwpiau cymharu busnesau tebyg, yn ogystal â bod yn uwch na thwf cyflogaeth yn y boblogaeth fusnes ehangach.
- Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn dangos bod 38 y cant o'r twf cyflogaeth ymhlith busnesau a gynorthwyir yn dwf nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y busnesau tebyg (ac felly'n effaith wahaniaethol). Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 4,023 o flynyddoedd ychwanegol o gyflogaeth[111]. Mae graddfa'r gwahaniaeth yn yr amcangyfrifon ar gyfer twf cyflogaeth ymhlith busnesau a gynorthwyir o gymharu â'r grŵp cymharu yn arwyddocaol yn ystadegol. O'i ehangu i gyfrif am yr holl gyfranogwyr unigryw yn AP1.2, AP2.3 ac AP2.4, mae'n cyfateb i amcangyfrif o 12,000 o flynyddoedd o gyflogaeth o ganlyniad i gymorth ERDF.
- Dangosodd dadansoddiad gwrthffeithiol CIE bod y cyfraddau twf cyflogaeth ac ychwanegedd cryfaf i'w gweld ymhlith busnesau a gefnogwyd o dan AP2.4. Yn ogystal, roedd trosiant gwirioneddol hefyd wedi tyfu'n gyflymach ymhlith busnesau a gynorthwyir yn

[111] Defnyddir blynyddoedd cyflogaeth i adlewyrchu bod y dadansoddiad yn cael ei gynnal yn flynyddol. Un flwyddyn o gyflogaeth yw pan fydd swydd ychwanegol wedi'i chreu am flwyddyn yn y grŵp ymyrraeth.

AP2.4 nag yn y Grŵp Rheoli a ffefrir. Mae'r gwahaniaeth yn y twf trosiant yn arwyddocaol yn ystadegol.

- Ymysg busnesau a gafodd gymorth drwy AP1.2 ac AP2.3[112], dengys dadansoddiad gwrthffeithiol fod twf trosiant gwirioneddol yn is o'i gymharu â'r grŵp gwrthffeithiol. Nid oedd y gwahaniaeth mewn twf trosiant gwirioneddol yn arwyddocaol yn ystadegol.
- Noda'r dadansoddiad fod busnesau a gynorthwyir fel arfer yn gweld gostyngiad mewn cynhyrchiant gwirioneddol, h.y. trosiant fesul cyflogai, yn y blynyddoedd ar ôl cymorth. Mae'r gostyngiad hwn yn digwydd yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl y cymorth ac yna'n dechrau symud tuag at ei lefel cynhyrchiant wreiddiol. Mae'r cynhyrchiant gwirioneddol yn y dadansoddiad hwn yn weithgarwch trosiant a chyflogaeth (trosiant fesul cyflogai), a chan fod cyflogaeth wedi cynyddu tra nad oedd trosiant wedi gwneud hynny ar gyfer y cymorth cyffredinol, disgwylir y gostyngiad hwn.
- Heblaw am fusnesau a gynorthwyir trwy AP2.4, ychydig o dystiolaeth a geir o dwf trosiant (gwerthiannau) ymhlith busnesau a gynorthwyir. Nid oedd cynhyrchu twf mewn gwerthiannau yn darged ar gyfer gweithrediadau; fodd bynnag, dengys y dadansoddiad fod diffyg twf trosiant ynghyd â thwf cyflogaeth yn golygu bod cynhyrchiant gwirioneddol (trosiant fesul cyflogai) wedi aros yn ei unfan neu wedi gostwng. Ni fydd cyfraddau cynhyrchiant sy'n gostwng neu'n sefydlog ymhlith busnesau a gynorthwyir yn mynd i'r afael â'r bwlch cynhyrchiant parhaus sy'n bodoli rhwng Cymru a chyfartaledd y DU.

***Argymhellion***

- Er mwyn gwella'r paru ystadegol â grŵp rheoli, gallai fod yn ddefnyddiol cael rhestr o fusnesau a oedd â diddordeb mewn cymorth ond a oedd naill ai wedi cael eu gwrthod neu heb fwrw ati â'r cais. Felly, er mwyn cael cronfa ar gyfer dewis y gwrthffeithiol ohoni, byddai'n werthfawr cael rhestrau o ymgeiswyr na chafodd gymorth neu'r rhai a fynegodd ddiddordeb ond na wnaeth gais yn y diwedd. Mae hyn yn aml yn rhoi cymharydd cadarn gan fod y busnesau hyn yn aml yn rhannu nodweddion nad oes modd eu mesur o ran ymddygiad ac agwedd.
- Mae paru buddiolwyr drwy ddata gweinyddol bob amser yn dibynnu ar ansawdd y data adnabod a ddarperir wrth gael cymorth. Gellir gwella ansawdd dynodwyr trwy brosesau

[112] Cafodd AP2.2 ei adael allan o'r dadansoddiad oherwydd nifer isel y busnesau sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data amrywiol.

gweinyddol sy'n cynnwys gwiriadau rhifau CRN. Yn ogystal, byddai unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i hidlo busnesau nad ydynt yn gofrestredig, megis gofyn am hyn fel rhan o gais am gymorth, yn lleihau'r ymdrech ac yn lleihau'r anghysondebau sy'n gysylltiedig â chysylltu busnesau nad ydynt mewn data gweinyddol.

- Dylid ystyried creu gwerthiannau yn ddangosydd perfformiad (ochr yn ochr â chyflogaeth) mewn darpariaeth cymorth busnes yn y dyfodol i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a rhanbarthau eraill y DU.

# 8. Casgliadau ac argymhellion

8.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r casgliadau o'r astudiaeth ynghyd ag argymhellion.

**Rhesymeg a chyd-destun economaidd-gymdeithasol**

8.2 Roedd y rhesymeg y tu ôl i ddyluniad penodol yr Amcanion Penodol a werthuswyd yn tynnu ar dystiolaeth o danberfformio parhaus yn economi Cymru o gymharu â chyfartaledd y DU. Roedd gweithgarwch entrepreneuraidd, cynhyrchiant, a buddsoddiad mewn ymchwil, datblygu ac arloesi oll yn ddangosyddion oedd ar ei hôl hi o gymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU. Câi'r problemau i economi Cymru eu hadlewyrchu mewn dangosyddion diffyg uchelgais entrepreneuraidd a diffyg uchelgais i fanteisio ar farchnadoedd newydd, tra bod sefyllfa ymylol a gwledig llawer o Gymru yn rhwystro cysylltedd a thwf.

8.3 Roedd cyfnodau Rhaglenni Gweithredol 2014–2020 yn dyst i gynnwrf sylweddol yn economi Cymru ac yn wir yn economi ehangach y DU, yn enwedig ers dechrau COVID-19 ym mis Mawrth 2020.

8.4 Dros gyfnod y rhaglen ac er gwaethaf y cyfnod cythryblus, mae'n amlwg fod cyfoeth o dueddiadau macro-economaidd cadarnhaol ar gyfer economi Cymru. O bwys arbennig yw cyfradd y gwelliant mewn cynhyrchiant, sy'n uwch na chyfartaledd y DU (gan arwain at gau ychydig ar y bwlch yn y gyfradd cynhyrchiant ar draws gweddill y DU). Yn ogystal, mae gwelliannau sylweddol mewn gweithgarwch entrepreneuraidd, cyfraddau busnesau yn goroesi, a chyflogau a'r rhain oll wedi arwain at leihau'r bwlch â chyfartaledd y DU.

8.5 Mae dangosyddion economaidd-gymdeithasol ychwanegol ar y cyfan yn dangos symudiadau cadarnhaol; fodd bynnag, mae'r rhain yn aml wedi dod dan gysgod cyfradd cyfartalog gwell ar draws y DU hefyd, gan ehangu'r bwlch perfformiad sylfaenol ar draws dangosyddion sy'n gysylltiedig â sgiliau, lefelau arloesi, a gweithgarwch allforio.

8.6 Mae ffactorau cyd-destunol eraill wedi dylanwadu ar berfformiad economi Cymru, yn ogystal â phandemig COVID-19, ac mae'r rhain yn cynnwys ymadawiad y DU â'r UE a goresgyniad Rwsia ar Wcráin, sydd wedi cael effeithiau chwyddiant sylweddol ar brisiau ynni a chostau byw.

**Dyluniad a gweithredu**

8.7 Wrth wraidd gweithgareddau sy’n gysylltiedig ag AP2.2, 2.3 a 2.4 mae prosiectau “asgwrn cefn” strategol sy’n pwyso ar ddysgu a wnaed o gylchoedd blaenorol y Cronfeydd Strwythurol. Ceisiai’r prosiectau hyn fabwysiadu cynnig gwasanaeth oedd wedi’i fireinio ac yn pwysleisio eglurder a symlrwydd yn natur y gwasanaeth a gynigid. At hynny, datblygodd y prosiectau asgwrn cefn hyn o weithgarwch blaenorol, gan helpu i drosglwyddo gwasanaethau’n gymharol ddidrafferth i’r rhaglen gyfredol.

8.8 Yn ystod camau cynnar y gweithredu, roedd diffyg eglurder mewn rhai dangosyddion neu newid bach yn y derminoleg ers y rhaglen flaenorol, a hynny wedi arwain at rywfaint o ddryswch. Roedd y diffiniadau ynghylch cymhwysedd hefyd, ar brydiau, yn aneglur, a hynny wedi arwain at broblemau yn ymwneud â chasglu tystiolaeth a chofnodi dangosyddion.

8.9 Nododd sawl rhanddeiliad addasiad yn rôl WEFO wrth reoli’r rhaglen. Gweithredai mewn mwy o rôl partner nag mewn rhaglenni blaenorol, gan gefnogi gweithrediadau trwy gyfnodau heriol, yn enwedig yn ystod y pandemig.

8.10 Roedd dull partneriaeth WEFO hefyd yn amlwg yn y gwaith o integreiddio mwy ar y themâu trawsbynciol yng ngweithgarwch gweithrediadau yn AP2.2 ac AP2.4 (lle neilltuwyd targedau). Er bod yr Amcanion Penodol hyn yn fyr o’u targedau ar gyfer y themâu trawsbynciol, bu cynnydd sylweddol mewn perfformiad, ac mae darpariaeth themâu trawsbynciol wedi’i hintegreiddio’n well i’r ddarpariaeth gwasanaeth.

***Argymhelliad***

Wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, dylid cadw’r dulliau a fabwysiadwyd i integreiddio themâu trawsbynciol yn effeithiol, yn enwedig o ystyried eu haliniad agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru.

8.11 Dangosodd yr addasu cyflym yn y gwaith ac ym mhwyslais y targedau ar adeg y pandemig (sef i ffwrdd o dwf a thuag at adfywiad a gwytnwch) y gall cyllid ERDF fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion sy’n newid. O safbwynt gweithredol, roedd y newid i gynnal y gwasanaeth o bell yn arbennig o effeithiol, gan fod ag effaith negyddol fach iawn ar y busnesau hynny a oedd yn cael cymorth, yn enwedig ym Mlaenoriaeth 2.

8.12 Ar gyfer y rhai yn gweithredu yn AP1.2 roedd angen aml i gael mynediad at offer arbenigol mewn labordai, a hynny wedi arwain at oedi mewn gweithgareddau ar anterth y cyfyngiadau cymdeithasol. Yn wir, dywedodd 46 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a oedd wedi cael cymorth gan yr AP hwnnw fod cymorth wedi'i ohirio neu nad oedd ar gael o ganlyniad i'r pandemig. Yn ehangach, daeth y pandemig â rhywfaint o bwyllo a hynny wedi cael effaith gymysg ar y busnesau a gymerodd ran, gyda rhai yn cofleidio'r cyfle ac yn arallgyfeirio yn unol â hynny fel rhan o'r ymdrech ymateb i'r argyfwng, tra bod eraill wedi dal yn ôl rhag cynlluniau buddsoddi a thwf oherwydd yr ansicrwydd ychwanegol.

**Gweithgareddau**

8.13 Roedd cryn ymwybyddiaeth ymhlith cyfranogwyr bod y cymorth a gawsant yn cael ei ariannu gan ERDF, yn enwedig ymhlith y rhai a gymerodd ran yn AP1.2. Daeth bron i draean o'r cyfranogwyr i wybod am y cymorth trwy chwilio ar-lein (wedi codi o chwech y cant yn y rhaglen flaenorol), sy'n dangos pwysigrwydd cynyddol y Rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol mewn gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu. Wedi dweud hynny, roedd un ymatebydd o bob pump wedi dod i wybod am y cymorth drwy rywun yn sôn wrthynt amdano, gan ddangos bod dulliau mwy traddodiadol o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn parhau i fod yn bwysig hefyd.

8.14 Mae dechrau neu dyfu busnes yn parhau i fod yn sbardun amlwg ar gyfer ymgysylltu â'r rhaglen, gyda dylanwadau eraill yn adlewyrchu nodau pob Amcan Penodol unigol. Ymhlith y rhai a gofrestrodd â'r ddarpariaeth ar ôl i COVID-19 ddechrau, roedd cynnydd amlwg (a oedd yn ystadegol arwyddocaol) yn y nifer a oedd yn chwilio am gymorth i gael mynediad at gyllid, ac, i'r gwrthwyneb, gostyngiad (a oedd yn ystadegol arwyddocaol) yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi chwilio am gyngor ar ofod swyddfa.

8.15 Marchnata a hyrwyddo a chynllunio busnes oedd y mathau amlaf o gymorth a gafwyd; ymhlith busnesau mwy sefydledig, fodd bynnag, roedd mwy o bwyslais ar ymgysylltu â chwsmeriaid. Ymhlith y rheiny a gafodd gymorth arloesi, roedd bron i hanner (46 y cant) wedi cael cefnogaeth ymchwil a datblygu, datblygu cynnyrch ac arloesi, a 42 y cant wedi cael cymorth â masnacheiddio a throsglwyddo gwybodaeth.

8.16 Ar draws holl ymatebwyr yr arolwg, roedd bron i dri chwarter (73 y cant) yn “fodlon iawn” neu’n “eithaf bodlon” ag ansawdd y cymorth a gafwyd, a 69 y cant gyda’r ffordd y darparwyd y cymorth. Roedd y rheswm pennaf dros fod yn fodlon neu beidio yn ymwneud â chyfathrebu rheolaidd (neu ddiffyg hynny).

8.17 Teimlai dros 80 y cant o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg fod eu disgwyliadau (o leiaf) wedi cael eu bodloni, a dywedodd bron i ddau draean (60 y cant) ohonynt fod y cymorth wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Y prif ddylanwadau ar lefelau bodlonrwydd a disgwyliadau oedd themâu yn ymwneud â gwybodaeth a phrofiad y cynghorydd, pa mor berthnasol oedd y cyngor, cyflymder yr ymateb, ac ymgysylltu dilynol wedi hynny. Roedd cyfraddau anfodlonrwydd ar ei uchaf ymhlith ymatebwyr a oedd wedi cael cymorth drwy AP2.4. Roedd y prif reswm dros anfodlonrwydd yn ymwneud â theimlo bod diffyg ymatebolrwydd, gyda mwy nag un o bob pump o’r ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o ymgysylltu dilynol na theilwra’r ddarpariaeth. Mae’n bosibl bod y lefel hon o anfodlonrwydd ynghylch ymgysylltu dilynol, ynghyd â chyfraddau uchel y rhagori ar ddisgwyliadau cyfranogwyr, yn dangos bod angen ystyried sut mae’r gwasanaethau a gynigir yn cael eu cyflwyno i fusnesau sy’n cymryd rhan.

**Perfformiad yn erbyn dangosyddion targed**

8.18 O’r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a’r adborth gan fuddiolwyr arweiniol a busnesau cyfranogol, mae’n amlwg mai gweithrediadau yn AP1.2 a gafodd eu heffeithio fwyaf gan bandemig COVID-19. Arweiniodd hyn at ddadneilltuo cyllid a diffyg yn erbyn nifer o ddangosyddion prosiect (gan gynnwys cynnyrch newydd i’r farchnad a chynnyrch newydd i’r cwmni, patentau a gofrestrwyd, a chyflogaeth a grëwyd). Mae’r Amcan Penodol hwn wedi perfformio’n arbennig o gryf mewn perthynas â chydweithrediad partneriaid, a hyn wedi’i adlewyrchu yn yr arolwg busnes, lle dywedodd mwy na thraean (37 y cant) o’r rhai a gafodd gymorth arloesi eu bod wedi datblygu perthynas gydweithredol â sefydliadau AU, academyddion eraill, a busnesau eraill.

8.19 Ymddengys mai prin oedd y llwyddiant a gafwyd i fasnacheiddio cynnyrch drwy gydweithio â sefydliadau ymchwil. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig â’r dangosydd targed ar gyfer nifer y patentau cofrestredig sy’n cael eu hystyried, sydd, o edrych yn ôl, yn amhriodol ar gyfer y rhaglen, ond hefyd ymdeimlad na chafodd y rhwystrau i fasnacheiddio cynnyrch eu goresgyn gyda’r cymorth oedd ar gael, yn enwedig ar gyfer

microfusnesau. Wedi dweud hynny, cafwyd arwyddion o gynnydd yn yr arolwg busnes parthed datblygu cynnyrch a phrosesau, gyda chyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod eu cynnyrch neu wasanaethau newydd yn barod i'r farchnad yn cynyddu o 20 y cant cyn cael cymorth i 56 y cant ar ôl cael cymorth.

8.20 Nododd rhanddeiliaid a busnesau fod diffyg cymorth ariannol yn un o'r prif rwystrau i fasnacheiddio cynnyrch a gwasanaethau. Teimlai sawl rhanddeiliad y byddai aliniad cryfach rhwng y ddarpariaeth cymorth ag Innovate UK yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn, o ystyried diffyg cymharol yr opsiynau ariannu eraill (Horizon Ewrop) sydd ar gael ar hyn o bryd.

***Argymhelliad***

Mae angen i wasanaethau cymorth sicrhau aliniad agos ag Innovate UK ac adnoddau eraill sy'n canolbwyntio ar arloesi, a mynediad da i'r adnoddau hyn, er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn cael eu cyfran deg o gyfleoedd i gael gafael ar y buddsoddiad hwn.

8.21 O ran AP2.2, gorgyflawnodd y gweithrediad o ran cymorth i fusnesau sefydledig; yn ogystal, dengys ymchwil cysylltiedig[113] bod y cymorth wedi cael effaith gref ar gyfraddau goroesi busnesau newydd. Fodd bynnag, er bod dangosyddion economaidd cenedlaethol ar gyfer yr economi yn awgrymu cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuraidd, mae gweithrediadau o dan AP2.2 yn fyr o'u targed o ran nifer y mentrau newydd a gynorthwyir. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn arwain at fwy o bwyllo yn gysylltiedig â dechrau busnes.

8.22 Mae'r gweithrediad sy'n ymwneud â Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn wedi cyrraedd yr holl dargedau sy'n gysylltiedig ag AP2.3 ac mae'n adlewyrchu'r cyflymu yn y galw am gymorth i fabwysiadu ac ymelwa ar TGCh a ddaeth yn sgil y pandemig a'i etifeddiaeth.

***Argymhelliad***

Dylai darpariaeth cymorth digidol fod yn rhan o'r cynnig prif ffrwd ar gyfer cymorth busnes, o ystyried ei rôl ganolog yn hybu cystadleurwydd economaidd.

[113] Munday, M. a Roche, N. (2021) *Mesur effaith economaidd Busnes Cymru*, Prifysgol Caerdydd.

8.23 O ran y cymorth a roddwyd drwy AP2.4, er ei bod yn ymddangos bod y dangosydd targed ar gyfer cymorth anariannol i fentrau yn debygol o fethu â chyrraedd y targed o dan AP2.4, eto mae dangosyddion canlyniadau cyflogaeth a thwf allforio yn perfformio'n gryf. Awgryma hyn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau na'r disgwyl a chyfran uwch na'r disgwyl o fusnesau yn canolbwyntio ar dwf.

**Canlyniadau ac effeithiau**

8.24 Roedd mwy na thri chwarter (77 y cant) o'r busnesau a holwyd wedi cymryd o leiaf un cam gweithredu o ganlyniad i gael cymorth. Gan amlaf, roedd y rhain yn ymwneud â gwell gwerthiant a marchnata, targedu cwsmeriaid newydd, a chynyddu sgiliau yn y busnes.

Arloesi

8.25 O'r 446 o fusnesau unigryw (45 y cant o ymatebwyr busnes) a oedd wedi datblygu cynnyrch neu brosesau newydd, roedd bron i dri chwarter (72 y cant) ohonynt o'r farn bod y cymorth yn bwysig wrth ddatblygu'r rhain.

8.26 Cyn ymgysylltu â'r rhaglen, dim ond 20 y cant o gynnyrch oedd yn barod ar gyfer y farchnad, gyda mwy na hanner (59 y cant) ohonynt yn y cam datblygu cychwynnol neu'r cam profi cysyniad. Er bod rhanddeiliaid a dangosyddion perfformiad wedi dangos heriau o ran masnacheiddio cynnyrch a gwasanaethau, cyn ymgysylltu â darpariaeth AP1.2, dim ond 20 y cant o'r busnesau a ymatebodd a deimlai bod eu cynnyrch neu wasanaeth yn barod ar gyfer y farchnad. Yn dilyn y cymorth, teimlai 56 y cant o'r ymatebwyr fod eu cynnyrch wedi'i fasnacheiddio'n llawn (yn cael ei werthu neu ei gynnig i gwsmeriaid). Pan ofynnwyd iddynt ystyried effaith eu cynnyrch newydd ar werthiannau, dywedodd dau draean (65 y cant, 92/141) eu bod wedi gweld cynnydd mewn gwerthiant, gyda thraean o'r rheini (33 y cant, 30/92) yn amcangyfrif bod eu gwerthiant wedi cynyddu mwy na 31 y cant.

Mentrau newydd

8.27 Roedd bron i chwarter o ymatebwyr yr arolwg wedi dechrau busnes o ganlyniad i'r cymorth a gawsant drwy'r rhaglen. Mae'r data monitro diweddaraf yn dangos bod ychydig dros 6,000 (6,043) o fentrau newydd wedi'u cefnogi drwy AP2.2. Teimlai bron un o bob pump o'r ymatebwyr (19 y cant) y byddai'n "annhebygol" (12 y cant) neu'n

“annhebygol iawn” (saith y cant) y byddent wedi sefydlu busnes yn absenoldeb y cymorth. **Ymysg cyfranogwyr AP2.2, mae hyn yn cyfateb i 643 o fusnesau ychwanegol cyfanredol wedi’u sefydlu o ganlyniad i’r cymorth a gafwyd.**

Ymelwa ar TGCh

8.28 Roedd bron i chwarter (23 y cant) o’r busnesau a ymatebodd wedi gweithredu newidiadau i’w seilwaith TGCh ers dechrau cael eu cymorth. Pan ofynnwyd i’r busnesau hyn nodi’r newidiadau yr oeddent wedi’u gwneud, cyfeiriodd bron i dri chwarter (73 y cant) at ddatblygiad presenoldeb ar-lein drwy weithgarwch marchnata a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, roedd dau ymatebydd o bob tri wedi cyflwyno gwefan i’w cwmni neu wedi ei gwella.

8.29 Roedd ychydig mwy na thraean (34 y cant) naill ai wedi cyflwyno band eang ffeibr/cebl (17 y cant) neu wedi cynyddu eu defnydd ohono (17 y cant) yn ystod y pum mlynedd diwethaf. O’r ymatebwyr hyn, roedd 11 y cant ohonynt (ac 20 y cant o ymatebwyr AP2.3) yn priodoli’r newid hwn i’r cymorth a gawsant a oedd wedi effeithio ar hyn.

Twf cyflogaeth

8.30 Ymysg y rhai a ymatebodd i’r arolwg, dywedodd 10 y cant eu bod wedi creu neu ddiogelu swyddi o ganlyniad i’r cymorth. Mae modelu’r nifer a adroddwyd o swyddi a grëwyd yn erbyn nifer amcangyfrifedig y cyfranogwyr unigryw ar gyfer pob AP yn awgrymu bod bron i 10,000 o swyddi FTE hunangofnodedig wedi’u creu o ganlyniad uniongyrchol i’r cymorth.

8.31 Nododd y gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) dwf cyflogaeth a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol ymhlith busnesau a gynorthwyir (sy’n uwch na’r gwrthffeithiol cyfatebol a’r Gronfa Ddata Strwythur Busnes [BSD] ehangach). Teimlwyd effaith y cymorth yn bennaf yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cael y cymorth, a lleihau wnâi’r effaith dros amser.

8.32 Drwy’r CIE, dengys y data bod busnesau a gynorthwyir wedi creu swyddi newydd yn y tair blynedd ar ôl cael cymorth, sef 10,585 o flynyddoedd o gyflogaeth. Mae’r gyflogaeth uwchlaw’r hyn a welwyd mewn busnesau tebyg o 4,023 o flynyddoedd o gyflogaeth. Amcangyfrifir bod y gyflogaeth ychwanegol hon wedi digwydd o ganlyniad i’r cymorth a ariennir gan ERDF. Pan gymhwysir cyfradd yr ychwanegedd at bob

busnes yn yr Amcanion Penodol sydd wedi'u cynnwys yn y CIE (AP1.2, 2.3 a 2.4), mae hyn yn cyfateb i ychydig dros 12,000 o flynyddoedd ychwanegol cyfanredol o gyflogaeth o ganlyniad i gymorth a ariennir gan ERDF. Nid yw hyn yn cynnwys cyflogaeth a gynhyrchir ar gyfer y rhai yn AP2.2, gan nad oes digon o wybodaeth berthnasol i'w chynnwys yn y CIE.

8.33 Mae'r ffaith bod yr arolwg yn adrodd ffigurau is na'r rhai sydd yn y CIE (er eu bod yn cynnwys y rhai o AP2.2) wedi'i briodoli o leiaf yn rhannol oherwydd bod un dadansoddiad yn dadansoddi nifer y swyddi ychwanegol, tra bod y CIE wedi dadansoddi nifer y blynyddoedd o gyflogaeth. **Gyda'i gilydd, felly, amcangyfrifir bod y cymorth ar draws yr Amcanion Penodol wedi arwain at gyflogaeth ychwanegol gyfanredol (na fyddai wedi digwydd yn absenoldeb cymorth) o 10,000 o swyddi ar y lleiaf.**

Trosiant a chynhyrchiant

8.34 Ymysg ymatebwyr yr arolwg, teimlai tua thraean fod y camau a gymerwyd yn dilyn cael cymorth wedi arwain at gynnydd mewn trosiant a phroffidioldeb, tra teimlai 45 y cant eu bod wedi arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant, heb fawr o amrywiad yn ôl AP.

8.35 Wrth fodelu'r CIE, fodd bynnag, nid oedd twf trosiant, o'i fesur ar draws yr holl Amcanion Penodol, yn arwyddocaol yn ystadegol mewn cymhariaeth â'r gwrthffeithiol. Fodd bynnag, o'i ddadansoddi ar lefel AP manylach, roedd y trosiant ymhlith busnesau a gefnogwyd gan AP2.4 (twf BBaCh) wedi tyfu'n gyflymach nag yn y grŵp cymharu a ffefrir. Roedd maint y gwahaniaeth mewn cyfraddau twf rhwng y rhai a oedd yn cael cymorth drwy AP2.4 a'r grwpiau cymharu yn arwyddocaol yn ystadegol ym mhob un o'r tair blynedd ar ôl derbyn y cymorth. **Roedd ychwanegedd y cymorth o gymharu â'r grŵp cymharu a ffefrir yn cyfateb i 78 y cant o dwf trosiant ychwanegol dros y tair blynedd hynny ar gyfer cyfranogwyr AP2.4.**

8.36 Yn ddisgwyliedig, wrth ddadansoddi cymorth ar draws y pedwar AP, o ystyried y twf mewn cyflogaeth ond diffyg twf cymesur mewn trosiant, roedd busnesau a gynorthwyir wedi gweld gostyngiad mewn cynhyrchiant gwirioneddol, gan ei fod yn weithgarwch trosiant a chyflogaeth – trosiant fesul cyflogai. Mae hyn yn peri pryder o ystyried y bwlch cynhyrchiant parhaus sy'n amlwg yn economi Cymru o gymharu â chyfartaledd y DU. Ar draws yr holl Amcanion Penodol ac yn enwedig o fewn AP2.4, fodd bynnag,

mae cynnydd sylweddol mewn cynhyrchiant dair blynedd ar ôl y flwyddyn sylfaen, sy'n dangos effaith 'dal i fyny'. Wedi dweud hynny, ni ystyrir bod yr un o'r newidiadau yn arwyddocaol yn ystadegol.

***Argymhelliad***

Dylid ystyried cael 'creu gwerthiannau' yn ddangosydd perfformiad (ochr yn ochr â chyflogaeth) mewn darpariaeth cymorth busnes yn y dyfodol i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a rhanbarthau eraill y DU.

Perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad

8.37 Wrth archwilio perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad ar lefel genedlaethol ar gyfer pob AP, mae'n amlwg bod yr holl ddangosyddion canlyniad wedi'u cyflawni, gyda rhai wedi rhagori arnynt o gryn dipyn. Mae tystiolaeth o fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, creu menter, a thwf ymhlith BBaCh yn ogystal â mabwysiadu band eang a ffeibr sy'n cael ei briodoli i'r cymorth. Dengys y dystiolaeth fod cyllid ERDF, i raddau gwahanol, wedi cyfrannu at y dangosyddion canlyniad.

**Darpariaeth yn y dyfodol**

8.38 Amrywiol oedd y farn ymhlith rhanddeiliaid a busnesau cyfranogol ynghylch natur cymorth a fyddai'n ddefnyddiol mewn rhaglenni yn y dyfodol. Lleisiodd busnesau bryderon ynghylch y sefyllfa economaidd-gymdeithasol a'r effaith yr oedd yn ei chael ar eu hawydd i fuddsoddi. Yn fwy na hynny, roedd heriau yn gysylltiedig â dod o hyd i staff â'r sgiliau addas yng nghanol pryder bod gweithio o bell yn golygu bod busnesau Cymru yn cystadlu yn erbyn cronfa ehangach o gyflogwyr am ymgeiswyr cymwys. Yn bennaf, o ystyried yr ansicrwydd economaidd-gymdeithasol, roedd busnesau yn dymuno cael cymorth ariannol. Ymhellach, roedd awydd yn parhau i gael cymorth â marchnata a hyrwyddo. Soniodd bron i hanner yr ymatebwyr am yr angen am gymorth i leihau gorbenion, gan ddarparu tystiolaeth bellach o gefnogaeth sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd amgylcheddol, tra mai maes o ddiddordeb allweddol hefyd oedd mabwysiadu technoleg i werthu i gwsmeriaid ac i gael y cydbwysedd gorau posibl rhwng bywyd a gwaith. Soniodd nifer o randdeiliaid am yr elfennau olaf hyn gan deimlo ei bod yn bwysig bod mwy o brif ffrydio ar fabwysiadu digidol a thechnolegol yn y cymorth a gynigir.

8.39 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, gwelwyd mai maes ffocws pwysig oedd pwysigrwydd alinio cymorth arloesi yn agosach at ddarpariaeth cymorth busnes arall. Yn ogystal, bydd angen parhau i fireinio’r cymorth i adlewyrchu’r sefyllfa economaidd-gymdeithasol gyfoes, o ystyried yr amgylchiadau anodd parhaus.

8.40 Wrth adfyfyrio ar y ddarpariaeth yn y dyfodol, roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o’r newid yn strwythur llywodraethu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), sef mai awdurdodau lleol fyddai’n pennu natur buddsoddi mewn gweithgarwch yn lleol.

8.41 I rai rhanddeiliaid teimlwyd bod hwn yn gyfle i ddatblygu darpariaeth leol sydd wedi’i thargedu ac i dreialu mentrau arloesol; fodd bynnag, soniodd sawl un am y rôl bwysig y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae wrth gadw darpariaeth “asgwrn cefn” strategol y dylai’r cynnig lleol ei ategu. Rhoddwyd croeso eang i’r fframwaith blaenoriaethau economaidd a chael mentrau hanfodol “asgwrn cefn” wrth ddylunio a gweithredu Rhaglenni Gweithredol 2014–2020, gan alluogi gwreiddio darpariaeth oedd â brandio cyson. Ategwyd hyn gan y cyfnod negodi ar geisiadau prosiect i sicrhau cyfuniad o brosiectau gwahanol ac i helpu i leihau dryswch a’r posibilrwydd o orgyffwrdd neu ddyblygu yn y farchnad. Wrth edrych ymlaen, mae pryderon y bydd darpariaeth gwasanaeth dan arweiniad awdurdodau lleol yn arwain at doreth o amrywiaeth o fentrau a allai gynyddu dryswch ynghylch y cymorth sydd ar gael ac arwain at rywfaint o “loteri cod post” yn natur y ddarpariaeth sydd ar gael i fusnesau.

***Argymhelliad***

Erys rôl hanfodol i Lywodraeth Cymru yn y gwaith o gydlynu, alinio a hyrwyddo gweithgarwch cymorth busnes dan arweiniad awdurdodau lleol, gan weithio ochr yn ochr â thimau rhanbarthol i leihau’r risg o ddryswch a mwy o gymhlethdod o ran yr hyn a gynigir yn y farchnad.

**Adran Cyfeiriadau**


Guilford, G. (2013) *Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020*, WEFO, Caerdydd.

Llywodraeth EF (2014) *Cytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig – Cynnig Swyddogol Rhan 1 (Adrannau 1 a 2)*, Llywodraeth EF.

Munday, M. a Roche, N. (2021) *Mesur effaith economaidd Busnes Cymru*, Prifysgol Caerdydd.

Ofcom (2013) *Communications Market Report: Wales*, Ofcom.

Ofcom (2013) *Infrastructure Report – 2013 Update*, Ofcom.

SQW Ltd, Ysgol Fusnes Aston a BMG Research (2016) *Gwethusiad o 'Cymorth i Fusnesau' yr ERDF*, WEFO, Llywodraeth Cymru.

Wavehill (2023) *Astudiaeth Dangosyddion Cronfeydd Strwythurol Ewrop - Adroddiad Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop*, Llywodraeth Cymru.

WEFO (2015) Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth – ERDF: Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2012) *Sgorfwrdd Arloesedd Rhanbarthol*, yr Undeb Ewropeaidd, Gwlad Belg.

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2022) *The latest evidence on the impact of Brexit on UK trade – Mawrth 2022*.

## Atodiad A: Yr Arolwg i Fusnesau

### Cyflwyniad dros y ffôn

A fyddai modd i ni recordio'r alwad? Ni fydd y recordiad yn cael ei rannu y tu allan i Winning Moves ond gellir ei ddefnyddio at ddibenion monitro a hyfforddi.

1. Cewch
2. Na chewch

### Cyflwyniad ar-lein

Hoffech chi fwrw ymlaen yn y Gymraeg neu'n Saesneg?

1. Saesneg
2. Cymraeg

### Cyflwyniad ar-lein II

Mae Winning Moves yn rhan o gonsortiwm o ymgynghorwyr ymchwil annibynnol (sydd hefyd yn cynnwys Wavehill a Belmana) sy'n cynnal gwerthusiad o'r cymorth anariannol a gynigir i fusnesau Cymru drwy raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) 2014- 20.

Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym yn gofyn i unigolion a busnesau sydd wedi cael y cymorth hwn, i lenwi arolwg ar-lein i gael adborth ar y cymorth a gafwyd ac unrhyw fanteision a ddaeth o'r cymorth i'w busnes. Bydd yr holiadur yn cymryd rhwng 20 a 25 munud i'w gwblhau a bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- Y math o gymorth a gafwyd, gan gynnwys o ble y'i cafwyd
- Rhesymau dros gyrchu'r cymorth a dderbyniwyd
- Bodlonrwydd ag ansawdd a chanlyniad y cymorth a roddwyd
- Meysydd lle gallai'r cymorth wella
- Camau y mae busnesau wedi'u cymryd ers cael y cymorth ac effeithiau hyn
- Effeithiau'r cymorth a chefnogaeth
- Effeithiau COVID-19 ac unrhyw anghenion cymorth busnes canlyniadol

Byddwch yn gallu cadw a dychwelyd at eich ymatebion ar unrhyw adeg CYN i chi gyflwyno eich holiadur.

**Cyflwyniad 3**

Yn ôl ein cofnodion, roeddech wedi ymwneud â {Enw'r gweithrediad} o {sefydliad cynnal} ({*opdescription2_en*} != '')?' ac {*opdescription2_en*}':''. A allwch gadarnhau hyn?

1. Cadarnhau
2. Na allaf (manylwch isod)

**Cyflwyniad 3_bis os (Cyflwyniad3 == 3)**

Nodwch y rhaglen yr oeddech wedi ymwneud â hi.
Testun penagored:

**Q1** F os (modiwl() == CATI)

[PEIDIWCH Â GOFYN, rhowch god fel y bo'n briodol os sonnir eu bod yn mynd i gau] A yw'r busnes wedi dweud y byddant yn cau yn fuan/yn bwriadu cau?

1. Ydi – a gaf i ofyn ambell gwestiwn cyflym am eich busnes, os gwelwch yn dda?
2. Nac ydi – parhewch

**Q2:** A allwch gadarnhau eich bod yn uwch berson sy'n rheoli'r busnes o ddydd i ddydd?

1. Gallaf
2. Na allaf

**Q2_bis F os (Q2 == 2)**

(modiwl() == CAWI)?' A allai hwn gael ei gwblhau gan rywun mewn swydd reoli? A allaf i siarad ag uwch swyddog sy'n rheoli'r busnes o ddydd i ddydd?

1. Gallwch
2. Na allwch **(Llwybr i orffen)**

**Q3:** Yr enw sydd gennym ar gyfer y sefydliad sy'n derbyn cymorth yw {enw'r busnes},a yw hwn yn gywir?

1. Ydi
2. Nac ydi (ysgrifennwch yr enw neu'r sefydliad cywir)

**Q4 F os(modiwl() == CAWI)**

A yw (Q3 == 1)?A yw '{enw’r busnes}':'[Q4]' yn dal yn bodoli?

1. Ydi
2. Nac ydi **(Llwybr i orffen)**

**Q5:** Ym mha flwyddyn y sefydlwyd eich busnes?

Testun penagored:

**Q6:** A allech chi ddisgrifio’n fyr beth mae eich busnes yn ei wneud? Cofiwch sôn am eich prif gynnyrch ac/neu wasanaeth a’r math o gwsmeriaid

Testun penagored:

**Q7 F os (Q1 == 1) Yna llwybr i orffen**

A fyddech cystal â rhoi ychydig o fanylion ynghylch pam y byddwch yn cau eich busnes?

Testun penagored:

**Q8:** Ai’r gweithle hwn yw…?

1. Unig gwmni’r sefydliad
2. Prif swyddfa sefydliad sydd â nifer o safleoedd
3. Cangen o sefydliad sydd â nifer o safleoedd
4. Ddim yn gwybod

**Q9 F os(Q8 == 2 || Q8 == 3)**

Sawl safle sydd gan eich busnes?

Testun penagored:

**Q10 F os (Q8 == 2 || Q8 == 3)**

Sawl un o’r safleoedd hyn sydd wedi elwa o’r cymorth busnes a gynigiwyd?

Testun penagored:

**Q11:** Faint o staff a gyflogir ar eich safle? (dylech gynnwys staff amser llawn a rhan-amser)

1. Nifer y cyflogeion:
2. Ddim yn gwybod

**Q11_bis**

(Q11 == 2)?'Os nad ydych yn gwybod yr union ffigur, a allwch o leiaf gynnig rhif bras o nifer y gweithwyr ar eich safle?': Nodwch yn fras nifer y cyflogeion ar eich safle, yn seiliedig ar eich ateb blaenorol'

1. 0–4
2. 5–9
3. 10–24
4. 25–49
5. 50–99
6. 100–199
7. 200–249
8. 250+

**Q12 F os ([Q9.1] > 1)**

Faint o staff y mae eich busnes yn eu cyflogi yng Nghymru? (dylech gynnwys staff amser llawn a rhan-amser)

1. Nifer y cyflogeion:
2. Ddim yn gwybod

**Q12_bis**

(Q12 == 2)?''Os nad ydych yn gwybod yr union ffigur, a allwch o leiaf gynnig rhif bras o nifer y staff y mae'r cwmni yn eu cyflogi yng Nghymru?': Nodwch yn fras nifer y staff y mae eich busnes yn eu cyflogi yng Nghymru, yn seiliedig ar eich ateb blaenorol''

1. 0–4
2. 5–9
3. 10–24

4. 25–49

5. 50–99

6. 100–199

7. 200–249

8. 250+

**Q13 F os ([Q9.2] >= 1)**

Faint o staff y mae eich busnes yn eu cyflogi ar safleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig? (dylech gynnwys staff amser llawn a rhan-amser)

1. Nifer y cyflogeion:

2. Ddim yn gwybod

**Q13_bis**

(Q13 == 2)?'Os nad ydych yn gwybod yr union ffigur, a allwch o leiaf gynnig rhif bras o nifer y staff y mae'r cwmni yn eu cyflogi yn y Deyrnas Unedig?': Nodwch yn fras nifer y staff y mae eich busnes yn eu cyflogi yn y Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar eich ateb blaenorol"

1. 0–4

2. 5–9

3. 10–24

4. 25–49

5. 50–99

6. 100–199

7. 200–249

8. 250+

**Q15:** Ar adeg derbyn y cymorth, a oeddech yn ymwybodol bod y cyngor neu'r cymorth a gawsoch wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), a roddwyd drwy'r Undeb Ewropeaidd?

1. Oeddwn

2. Nac oeddwn

3. Ddim yn gwybod

**Q16:** Sut daethoch chi i wybod am y rhaglen yn y lle cyntaf?

1. Cyswllt blaenorol â’r sefydliad darparu
2. Atgyfeiriad gan sefydliad cymorth busnes
3. Gweld marchnata’r rhaglen
4. Chwilio ar-lein
5. Argymhelliad (gan fusnes arall, teulu, ffrind ac ati)
6. Arall (manylwch)
7. Ddim yn cofio

**Q17:** Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau eich rhesymau dros gymryd rhan yn y rhaglen?

1. Dechrau busnes
2. Tyfu’r busnes
3. Cadw lefelau trosiant y busnes, proffidioldeb
4. Cyflwyno cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd
5. Cynyddu gwerthiannau allforio
6. Arallgyfeirio i farchnadoedd newydd yn y DU ac/neu ryngwladol
7. Datblygu partneriaethau cydweithredol newydd
8. Cael cymorth Ymchwil a Datblygu gan sefydliadau Addysg Uwch (AU)
9. Arall (manylwch)
10. Ddim yn gwybod/ddim yn cofio

**Q18:** Petai’r rhaglen heb fodoli, pa mor debygol yw hi y byddech chi wedi chwilio am gymorth o ffynonellau eraill?

1. Tebygol iawn
2. Tebygol
3. Annhebygol

4. Annhebygol iawn

5. Ddim yn gwybod

**Q19:** Pam wnaethoch chi gais am gymorth drwy'r prosiect, yn hytrach nag o ffynhonnell arall?

1. Am ddim neu'n rhatach na chymorth arall sydd ar gael

2. Gwell ansawdd

3. Yn fwy addas i anghenion y busnes

4. Cefnogaeth a chyngor haws ei gael

5. Y rhaglen wnaeth gysylltu â ni

6. Arall (eglurwch)

7. Ddim yn gwybod

**Q20:** Gan feddwl yn ôl i'r adeg pan gawsoch y cymorth, beth oedd eich disgwyliadau o'r cymorth pan wnaethoch chi gysylltu yn wreiddiol? e.e. sut oeddech chi'n disgwyl i'r cymorth gael ei ddarparu, pa ganlyniadau oeddech chi'n gobeithio eu cael, pa gyngor oeddech chi'n gobeithio ei gael?

Teipiwch eich ateb yn y bocs isod.

1. Testun penagored:

2. Ddim yn gwybod/ddim yn cofio

**Q21:** Ar raddfa o 1–5 (gydag 1 yn "Llawer llai na'r disgwyl" a 5 yn "Llawer mwy na'r disgwyl"), i ba raddau ydych chi'n meddwl y cafodd eich disgwyliadau eu cyflawni?

1. Llawer llai na'r disgwyl

2. Llai na'r disgwyl

3. Fel roeddwn i'n ei ddisgwyl

4. Mwy na'r disgwyl

5. Llawer mwy na'r disgwyl

6. Ddim yn gwybod

**Q22 F os(Q21 == 1 || Q21 == 5)**

A allwch chi roi rhesymau dros y sgôr hwn?

Testun penagored:

**Q23:** Pa un o'r mathau canlynol o gyngor neu gymorth a gafodd eich busnes drwy'r rhaglen?

| | **Do** | **Naddo** |
|---|---|---|
| 1. Cyngor neu gymorth ar sut i ddechrau busnes | | |
| 2. Cyngor neu gymorth ar sut i redeg a thyfu busnes | | |
| 3. Cymorth yn ymwneud ag adeiladau'r busnes neu ofod swyddfa, gan gynnwys gofod labordy | | |
| 4. Cael gafael ar gyllid | | |
| 5. Cefnogaeth gyda marchnata digidol ac e-fasnach | | |
| 6. Cyngor neu gefnogaeth arloesi | | |
| 7. Datblygu cydweithredu, partneriaeth neu gefnogaeth â rhwydweithio | | |
| 8. Cyngor neu gefnogaeth TGCh | | |
| 9. Cyngor neu gefnogaeth allforio | | |
| 10. Drafftio strategaethau ac/neu brosesau ar gyfer y cwmni cyfan - gan gynnwys strategaethau Amgylcheddol a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth | | |
| 11. Dim un o'r rhain | | |
| 12. Arall (manylwch isod) | | |
| 13. Ddim yn cofio/Ddim yn gwybod | | |

**Q23_bis F os (Q23.12 == 1)**

Manylwch ynghylch unrhyw fathau ychwanegol o gyngor / cymorth nad ydynt wedi'u nodi yn barod uchod.

Ateb penagored:

**Q24 F os (Q23.1 == 1)**

Pa gymorth dechrau busnes gawsoch chi drwy'r rhaglen?

1. Datblygu eich syniad busnes
2. Gwneud cynllun busnes
3. Cyngor ar reoleiddio a deddfwriaeth
4. Llunio polisïau
5. Deall eich marchnad/gwneud ymchwil i'r farchnad
6. Marchnata a hyrwyddo eich busnes
7. Recriwtio a hyfforddi staff
8. Mynediad at gyllid
9. Arall (manylwch)
10. Ddim yn cofio/Ddim yn gwybod

**Q25 F os(Q23.6 == 1)**

A oedd y gefnogaeth ar gyfer arloesi a gawsoch yn:

1. Cefnogi ymchwil a datblygu, datblygu cynnyrch ac arloesi
2. Cymorth â masnacheiddio a throsglwyddo gwybodaeth
3. Arall (manylwch)
4. Ddim yn cofio/Ddim yn gwybod

**Q26 F os (Q23.6 == 1)**

A wnaethoch chi sefydlu unrhyw berthynas gydweithredol mewn perthynas â'r cymorth arloesi hwn?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q27 F os (Q26 == 1)**

Os Do, pa sefydliad(au) wnaethoch chi gydweithio â nhw? Rhowch enw'r sefydliad(au) a'r math.

Ateb penagored:

**Q28 F os (Q23.2 == 1)**

A oedd y cyngor neu'r gefnogaeth a gawsoch ar gyfer unrhyw un o'r pynciau canlynol?

| | **Oedd** | **Nac oedd** |
|---|---|---|
| 1. Marchnata a hyrwyddo | | |
| 2. Cynllunio busnes | | |
| 3. Gwella rheolaeth AD, gan gynnwys gweithdrefnau recriwtio, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth | | |
| 4. Gwella prosesau busnes | | |
| 5. Mabwysiadu technoleg ddigidol | | |
| 6. Datblygu'r gadwyn gyflenwi a chymorth tendro | | |
| 7. Cymorth ag effeithlonrwydd ynni ac adnoddau | | |
| 8. Gwella arferion amgylcheddol | | |
| 9. Cyngor ar gydymffurfio a rheoliadau a deddfwriaeth | | |
| 10. Seilwaith TG | | |
| 11. Gwella ymgysylltiad cwsmeriaid | | |
| 12. Arall (manylwch isod) | | |
| 13. Ddim yn gwybod | | |

**Q28_bis F os (Q28.12 == 1)**

Rhowch fanylion pwnc(pynciau) eraill yr ydych wedi cael cymorth/cyngor arnynt.

Testun agored gair am air:

**Q29:** Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn "Anfodlon iawn" a 5 yn "Bodlon iawn", pa mor fodlon oeddech chi â'r ffordd y darparwyd y cymorth drwy'r rhaglen?

1. Anfodlon iawn

2. Eithaf anfodlon

3. Ddim yn fodlon nac yn anfodlon

4. Eithaf bodlon

5. Bodlon iawn

**Q30:** Allwch chi egluro'r rhesymau am eich sgôr?

Testun agored gair am air:

**Q31:** Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn "Anfodlon iawn" a 5 yn "Bodlon iawn", pa mor fodlon oeddech chi ag ansawdd y cymorth a roddwyd?

1. Anfodlon iawn

2. Eithaf anfodlon

3. Ddim yn fodlon nac yn anfodlon

4. Eithaf bodlon

5. Bodlon iawn

**Q32:** Allwch chi egluro'r rhesymau am eich sgôr?

Testun agored gair am air:

**Q33:** Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn "Anfodlon iawn" a 5 yn "Bodlon iawn", pa mor fodlon oeddech chi â chanlyniadau/effeithiau'r gefnogaeth i'ch busnes?

1. Anfodlon iawn

2. Eithaf anfodlon

3. Ddim yn fodlon nac yn anfodlon

4. Eithaf bodlon

5. Bodlon iawn

**Q34:** Allwch chi egluro'r rhesymau am eich sgôr?

Testun agored gair am air:

**Q35:** Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn "Anghytuno'n gryf" a 5 yn "Cytuno'n gryf", i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y cymorth a gawsoch?

**Q36:** Ers cael cymorth gan y rhaglen, a yw eich busnes wedi cael cymorth o unrhyw ffynhonnell arall (heblaw ERDF)?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q37 F os (Q36 == 1)**

Pa sefydliad(au) roddodd y cymorth hwn?

1. Cystadleuwyr neu fusnesau eraill yn eich diwydiant
2. Ymgynghorwyr neu asiantaethau preifat
3. Prifysgolion neu sefydliadau addysg uwch eraill
4. Cyhoeddiadau proffesiynol/masnach/technegol
5. Adrannau Llywodraeth y DU (e.e. UKTI, CThEF)
6. Llywodraeth Cymru
7. Llywodraeth leol
8. Asiantaethau menter neu sefydliadau cymorth busnes eraill
9. Arall (manylwch)
10. Ddim yn gwybod
11. Well gen i beidio dweud

**Q38:** A yw'r cymorth a gawsoch gan y rhaglen, ac o ffynonellau eraill, wedi ychwanegu gwerth at eich busnes?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q39:** A ydych chi'n cofio a ddefnyddiodd eich busnes Becyn Adnoddau Diogelu Dyfodol eich Busnes ai peidio?

1. Do

2. Naddo

3. Ddim yn gwybod

**Q40 F os (Q39 == 1)**

Creodd y Pecyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes adroddiad pwrpasol ar sail cwestiynau yr ateboch am eich busnes. Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn 'anghytuno'n gryf' a 5 yn 'cytuno'n gryf', i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau a ganlyn am yr adroddiad a gynhyrchwyd ar gyfer eich busnes gan Becyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes Llywodraeth Cymru?

**Q41 F os (Q39 == 1)**

A oes gennych unrhyw sylwadau am y datganiadau uchod neu a oes gennych chi unrhyw beth pellach i'w ychwanegu am Becyn Adnoddau Diogelu Dyfodol Eich Busnes Llywodraeth Cymru?

**Q42:** Pa gamau, os rhai o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd ers cael cymorth drwy'r rhaglen?

1. Dechrau busnes

2. Targedu cwsmeriaid newydd

3. Cael mynediad at gyllid neu fuddsoddiad

4. Datblygu cynnyrch ac/neu wasanaethau newydd

5. Datblygu prosesau newydd sy'n cefnogi gallu cynnig cynnyrch a gwasanaethau i gwsmeriaid

6. Datblygu prosesau/gweithdrefnau/systemau newydd sy'n cynorthwyo â rheoli eich busnes o ddydd i ddydd

7. Wedi dechrau neu wedi cynyddu allforio

8. Gwell gwerthiant a marchnata

9. Recriwtio ac/neu gadw staff

10. Cynyddu sgiliau yn y busnes

11. Mabwysiadu technolegau newydd, gan gynnwys TGCh

12. Mesurau i wella effeithlonrwydd adnoddau ac/neu gyflawni uchelgeisiau sero net

13. Arall (manylwch)

14. Dim

15. Well gen i beidio dweud

**Q43** F os (CymharuDyddiad({blwyddyn},01/03/2020) >= 0 && CymharuDyddiad({blwyddyn},31/12/2021) <= 0)

A gafodd COVID-19 unrhyw effaith ar pryd neu sut y darparwyd y cymorth a gawsoch?

1. Do

2. Naddo

3. Ddim yn gwybod

**Q44 F os (Q43 == 1)**

Os Do, sut?
Testun agored gair am air:

**Q45 F os (CymharuDyddiad({blwyddyn},01/03/2020) >= 0)**

A gafodd COVID-19 unrhyw effaith ar eich gallu i roi camau gweithredu ar waith yn dilyn y cymorth?

1. Do. Beth oedd yr effaith honno? (Testun agored gair am air)

2. Naddo

3. Ddim yn gwybod

**Q46:** A gafodd Brexit unrhyw effaith ar eich gallu i roi camau gweithredu ar waith yn dilyn y cymorth?

1. Do. Beth oedd yr effaith honno? (Testun agored gair am air)

2. Naddo

3. Ddim yn gwybod

**Q47 F os (Q42 == 1)**

Pe na byddech wedi derbyn y cyngor a'r cymorth drwy'r rhaglen, pa mor debygol yw hi y byddai'r busnes wedi cael ei sefydlu beth bynnag?

1. Tebygol iawn
2. Tebygol
3. Annhebygol
4. Annhebygol iawn
5. Ddim yn gwybod

**Q48 F os (Q42 == 4 || Q42 == 5 || Q42 == 16)**

Ydych chi wedi datblygu unrhyw gynnyrch ac/neu brosesau newydd o ganlyniad uniongyrchol i gymorth y rhaglen? Sylwch, mae prosesau'n cyfeirio at feysydd sy'n cynnwys hyfforddi staff, recriwtio, strwythur busnes, rheoli perfformiad, ac unrhyw brosesau rheoli eraill.

1. Do – cynnyrch ac/neu wasanaethau newydd **F os (Q42 == 4)**
2. Do – prosesau newydd sy'n cefnogi darparu cynnyrch a gwasanaethau i gwsmeriaid **F os (Q42 == 5)**
3. Do - prosesau/gweithdrefnau/neu systemau newydd sy'n cefnogi rheolaeth y busnes o ddydd i ddydd **F os (Q42 == 16)**
4. Naddo
5. Ddim yn gwybod
6. Well gen i beidio dweud

**Q49 F os (Q48 == 1)**

A allech chi ddisgrifio'n fyr y cynnyrch a ddatblygwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth?

Testun agored yma:

**Q50 F os (Q48 == 1)**

A oedd y cynnyrch hwn yn:

1. Newydd i'r farchnad
2. Newydd i'ch busnes
3. Gwelliant sylweddol ar rywbeth yr oedd y busnes eisoes yn ei gynhyrchu

**Q51 F os (Q48 == 1)**

Cyn i chi ymgysylltu â'r rhaglen, ar ba gam yn y broses fasnacheiddio oedd eich technoleg/cynnyrch?

1. Ar y datblygiad cychwynnol
2. Ar y cam profi cysyniad
3. Yn cael profion sylfaenol
4. Yn cael ei arddangos mewn amgylchedd perthnasol
5. Yn barod ar gyfer y farchnad
6. Wedi'i fasnacheiddio'n llawn
7. Well gen i beidio dweud

**Q52 F os (Q48 == 1)**

Ar ôl i chi ymgysylltu â'r rhaglen, ar ba gam yn y broses fasnacheiddio oedd eich technoleg/cynnyrch?

1. Ar y datblygiad cychwynnol
2. Ar y cam profi cysyniad
3. Yn cael profion sylfaenol
4. Yn cael ei arddangos mewn amgylchedd perthnasol
5. Yn barod ar gyfer y farchnad
6. Wedi'i fasnacheiddio'n llawn
7. Well gen i beidio dweud

**Q53 F os (Q48 == 1)**

Ar raddfa o 1–5, pa mor bwysig oedd cymorth y rhaglen i ddatblygu'r cynnyrch hwn?

1. Ddim yn bwysig
2. Rhywfaint yn bwysig
3. Gweddol bwysig
4. Pwysig gan amlaf

5. Pwysig iawn

**Q54 F os (Q48 == 1)**

Allwch chi egluro'r rhesymau am eich sgôr?

**Q55 F os (Q48 == 2)**

Os do, a allech chi ddisgrifio'n fyr y prosesau newydd sy'n cefnogi darparu cynnyrch newydd i gwsmeriaid sydd wedi'u datblygu o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth?

Testun agored gair am air:

**Q56 F os (Q48 == 2)**

Ar raddfa o 1–5, pa mor bwysig oedd cymorth y rhaglen wrth ddatblygu'r prosesau hyn?

1. Ddim yn bwysig
2. Rhywfaint yn bwysig
3. Gweddol bwysig
4. Pwysig gan amlaf
5. Pwysig iawn

**Q57 F os (Q48 == 2)**

A oedd y prosesau hyn yn:

1. Newydd i'r farchnad
2. Newydd i'ch busnes
3. Gwelliant sylweddol ar rywbeth yr oedd y busnes eisoes yn ei gynhyrchu

**Q57a F os (Q48 == 2)**

Beth fyddai wedi digwydd i'r prosesau hyn pe byddech chi ddim wedi cael y cymorth?

1. Byddem yn dal wedi'u datblygu, ond byddai'r cynnydd wedi bod yn arafach
2. Byddem yn dal wedi'u datblygu, ond byddai cwmpas/graddfa'r newidiadau i'r broses wedi bod yn llai
3. Ni fyddem wedi datblygu unrhyw brosesau newydd

4. Ni fyddai unrhyw wahaniaeth go iawn

**Q55proc F os (Q48 == 6)**

Os do, allech chi ddisgrifio'r prosesau/gweithdrefnau/systemau newydd hyn a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cymorth?

Testun agored gair am air:

**Q56PROC.1 F os (Q48 == 6)**

Ar raddfa o 1–5, pa mor bwysig oedd cymorth y rhaglen wrth ddatblygu'r prosesau hyn?

1. Ddim yn bwysig
2. Rhywfaint yn bwysig
3. Gweddol bwysig
4. Pwysig gan amlaf
5. Pwysig iawn

**Q58 F os (Q48 == 1)**

A wnaethoch chi sefydlu unrhyw berthynas gydweithredol â sefydliadau AU neu sefydliadau eraill o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q59 F os (Q48 == 1)**

Beth fyddai wedi digwydd i'r cynnyrch hwn pe byddech chi ddim wedi cael y cymorth?

1. Byddem yn dal wedi'u datblygu, ond byddai'r cynnydd wedi bod yn arafach
2. Byddem yn dal wedi'u datblygu, ond byddai cwmpas/graddfa y newidiadau i'r cynnyrch wedi bod yn llai
3. Ni fyddem wedi datblygu unrhyw gynnyrch/gwasanaethau newydd
4. Ni fyddai unrhyw wahaniaeth go iawn

**Q60 F os (Q48 == 1)**

A yw’r cynnyrch neu’r gwasanaeth newydd wedi arwain at gynnydd yn eich gwerthiannau blynyddol?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod

**Q61bis F os (Q60 == 1)**

Beth yw’r cynnydd?

1. Llai na 1%
2. 1–2%
3. 3–5%
4. 6–10%
5. 11–20%
6. 21–30%
7. 31%+
8. Ddim yn gwybod
9. Ddim am ddatgelu

**Q62 F os (Q42 == 8)**

Fe ddywedoch eich bod wedi recriwtio ac/neu gadw staff ers derbyn cymorth drwy’r rhaglen. Faint o swyddi ydych chi wedi’u creu?

| | |
|---|---|
| 1. Llawn amser | |
| 2. Rhan-amser | |
| 3. Ddim yn gwybod | |
| 4. Ddim am ddatgelu | |

**Q63 F os (Q42 == 8)**

Ers cael cefnogaeth gan y rhaglen, faint o swyddi gafodd eu diogelu yn ystod cyfnod Covid-19? At ddiben y cwestiwn hwn mae cyfnod Covid-19 yn cael ei ddiffinio fel 23 Mawrth 2020 hyd at 28 Mawrth 2022.

| | |
|---|---|
| 1. Llawn amser | |
| 2. Rhan-amser | |
| 3. Ddim yn gwybod | |
| 4. Ddim am ddatgelu | |

**Q63bis F os (Q42 == 8 && !Q62.3 == 1 && !Q62.4 == 1 && [Q62.1]+[Q62.2] == 0 && !Q63.3 == 1 && !Q63.4 == 1 && [Q63.1]+[Q63.2] == 0)**

Sylwer: Soniasoch yn flaenorol eich bod wedi creu swyddi/cadw staff ers derbyn cymorth, ac eto fe wnaethoch nodi cyfanswm o 0 swydd wedi'u creu a'u diogelu ers hynny.

Edrychwch eto ar eich atebion.

1. Swyddi a grëwyd cywir **Sgipiwch Ewch i (Q62)**
2. Swyddi a ddiogelwyd cywir **Sgipiwch Ewch i (Q63)**

**Q64 F os (Q42 == 8 && ([Q62.1]+[Q62.2] > 0 || [Q63.1]+[Q63.2] > 0))**

Beth yw cyflog cyfartalog y...?

| | Cyflog cyfartalog **(mewn £)** | **Ddim yn gwybod** | **Ddim am ddatgelu** |
|---|---|---|---|
| 1. Swyddi a grëwyd | | | |
| 2. Swyddi a ddiogelwyd | | | |

**Q64bis (Q64.1 == 6)**

Nodwch yn fras tua faint oedd cyflog cyfartalog y swyddi a grëwyd, yn seiliedig ar eich ateb blaenorol.

1. Llai na £15,000
2. £15,000–£24,999

3. £25,000–£39,999

4. £40,000–£64,999

5. £65,000+

**Q64ter (Q64.2 == 6)**

Nodwch ateb bras cyflog cyfartalog y swyddi a ddiogelwyd, yn seiliedig ar eich ateb blaenorol.

1. Llai na £15,000

2. £15,000–£24,999

3. £25,000–£39,999

4. £40,000–£64,999

5. £65,000+

**Q65 F os (Q42 == 8)**

Ar raddfa o 1–5, pa mor bwysig oedd cymorth y rhaglen wrth ddatblygu neu ddiogelu'r swyddi hyn?

1. Ddim yn bwysig

2. Rhywfaint yn bwysig

3. Gweddol bwysig

4. Pwysig gan amlaf

5. Pwysig iawn

**Q66:** Dros y pum mlynedd nesaf, a ydych yn rhagweld y bydd rhagor o swyddi'n cael eu creu yn y busnes o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd yn dilyn cymorth y rhaglen?

1. Ydw
2. Nac ydw
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q67 F os (Q42 == 11)**

Dros y pum mlynedd diwethaf, a ydych wedi rhoi unrhyw un o'r newidiadau canlynol ar waith i'ch seilwaith TGCh o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen?

1. Datblygu gwefan
2. Gweithgarwch marchnata a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol
3. Llwyfannau cyfathrebu ar-lein(Microsoft Teams, Zoom, etc.)
4. Cyfathrebu mewnol a gweithio o bell (e.e. mewnrwyd)
5. Meddalwedd rheoli (e.e. meddalwedd rheoli prosiectau, gwyliau, cyfrifo digidol, etc.)
6. Systemau storio ac/neu rannu data
7. System CRM i integreiddio/cysylltu systemau TG eraill
8. Dim un o'r uchod (os arall, manylwch)
9. Ddim yn gwybod

**Q68 F os (unrhyw ddewis yn Q67)**

Pa mor debygol neu annhebygol yw hi y byddech wedi cyflwyno TGCh o'r un ansawdd a thros yr un cyfnod o amser, pe na baech wedi cael y cymorth?

| | **Tebygol iawn** | **Tebygol** | **Annhebygol** | **Annhebygol iawn** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr un cwmpas a graddfa | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yr un amserlen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yr un ansawdd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Q69:** Yn y pum mlynedd ddiwethaf, a ydych wedi dechrau defnyddio neu gynyddu eich defnydd o fand eang ffeibr neu gebl ar gyfer unrhyw ran o'ch gweithrediadau?

1. Do – wedi cyflwyno band eang ffeibr/cebl
2. Do – wedi cynyddu eich defnydd o fand eang ffeibr/cebl
3. Naddo
4. Ddim yn gwybod

**Q70 F os (Q69 == 1 || Q69 == 2)**

A oedd y cymorth a gafwyd gan y rhaglen wedi cael unrhyw effaith ar gyflwyno'r gwasanaethau band eang hyn?

1. Oedd
2. Nac oedd
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q71 F os (Q70 == 1)**

Os oedd, disgrifiwch.

Testun agored gair am air:

**Q72:** Allwch chi gadarnhau pryd mae eich blwyddyn ariannol yn dechrau ac yn gorffen?

1. Ebrill i fis Mawrth
2. Ionawr i fis Rhagfyr
3. Arall (eglurwch)

**Q73:** Beth oedd trosiant bras eich busnes yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?

1. Trosiant (mewn £):
2. Ddim yn gwybod
3. Well gen i beidio dweud

**Q73_bis F os (Q73 != 3) (Q73 == 2)**

Nodwch rychwant trosiant eich busnes yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn seiliedig ar eich ateb blaenorol.

1. Llai na £10,000
2. £10,000 i £49,999
3. £50,000 i £99,999
4. £100,000 i £199,999
5. £200,000 i £499,999
6. £500,000 i £999,999
7. £1m i £1,999,999
8. £2m i £4,999,999
9. £5m i £9,999,999
10. £10m i £19,999,999
11. £20m+
12. Ddim yn gwybod

**Q74:** A wnaethoch chi elw neu golled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?

1. Elw
2. Colled
3. Ddim yn gwybod
4. Well gen i beidio dweud

**Q75 F os (Q74 == 1)**

Os gwnaethoch elw, tua faint o elw wnaethoch chi?

1. Llai na £10,000
2. £10,000 i £49,999
3. £50,000 i £99,999
4. £100,000 i £199,999

5. £200,000 i £499,999

6. £500,000 i £999,999

7. £1m i £1,999,999

8. £2m i £4,999,999

9. £5m i £9,999,999

10. £10m i £19,999,999

11. £20m+

12. Ddim yn gwybod

13. Well gen i beidio dweud

**Q76 F os (Q74 == 2)**

Os gwnaethoch golled, faint o golled a wnaethoch yn fras?

1. Llai na £10,000

2. £10,000 i £49,999

3. £50,000 i £99,999

4. £100,000 i £199,999

5. £200,000 i £499,999

6. £500,000 i £999,999

7. £1m i £1,999,999

8. £2m i £4,999,999

9. £5m i £9,999,999

10. £10m i £19,999,999

11. £20m+

12. Ddim yn gwybod

13. Well gen i beidio dweud

**Q77:** I ba raddau ydych chi'n meddwl bod COVID-19 wedi effeithio ar eich elw neu golled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?

1. Dim o gwbl
2. Ychydig iawn
3. Rhywfaint
4. I raddau helaeth
5. Ddim yn gwybod

**Q78:** Pa ganran o'ch gwerthiannau a gynhyrchir yn y marchnadoedd canlynol?

| | **nodwch %** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|
| 1. Cymru | | |
| 2. y DU (tu allan i Gymru) | | |
| 3. Gweddill Ewrop | | |
| 4. Gogledd America | | |
| 5. Canol/De America | | |
| 6. Y Dwyrain Canol | | |
| 7. Affrica | | |
| 8. Rwsia | | |
| 9. Asia | | |
| 10. Awstralia a Seland Newydd | | |
| **CYFANSWM** | | |

**Q79 F os (Q42 >= 1 && Q42 != 14 && Q42 != 15)**

Ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau i'r canlynol o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd yn dilyn y cymorth a gawsoch?

| | **Cynyddu** | **Gostwng** | **Aros yr un fath** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwerthiannau/trosiant | | | | |
| 2. Proffidioldeb | | | | |
| 3. Gwerthiannau (yn y DU) | | | | |
| 4. Gwerthiannau y tu allan i'r DU | | | | |
| 5. Cynhyrchiant / Effeithlonrwydd | | | | |

**Q80 F os (Q42 >= 1 && Q42 != 14 && Q42 != 15)**

Sut mae'r cymorth a gawsoch gan y rhaglen wedi cyfrannu at berfformiad eich busnes, yn gyffredinol?

1. Cyfraniad hanfodol
2. Rhywfaint o gyfraniad
3. Dim cyfraniad
4. Ddim yn gwybod
5. Well gen i beidio dweud

**Q81:** Wrth adfyfyrio ar eich profiad, pa elfennau o'r cymorth oedd...?

| | **Testun penagored:** |
|---|---|
| 1. wedi gweithio'n dda | |
| 2. ddim wedi gweithio gystal | |

**Q82:** Pa welliannau ydych chi'n meddwl y gellid eu gwneud i'r gefnogaeth a gawsoch?

Testun penagored:

**Q83:** Cyn belled ag y gwyddoch, a yw eich busnes wedi elwa ar gymorth o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer hyfforddi eich gweithlu yn y tair blynedd diwethaf?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod

**Q84:** Pa wasanaethau cymorth yn y dyfodol ydych chi'n meddwl y bydd eich busnes chi, a busnesau tebyg i'ch un chi, eu hangen yn y 12-18 mis nesaf?

1. Mynediad at gyllid
2. Rheolaeth ariannol
3. Marchnata a hyrwyddo
4. Canfod cwsmeriaid a'u cadw
5. Defnyddio technoleg i werthu i gwsmeriaid
6. Cynnig gweithio hyblyg ac o bell
7. Rheoli gofod swyddi a rhannu desgiau
8. Defnyddio technoleg i gael y cydbwysedd gorau rhwng bywyd a gwaith
9. Lleihau gorbenion
10. Adfer ar ôl COVID-19
11. Arall (eglurwch)

**Q85:** A oes gennych bryderon sy'n parhau ynghylch effeithiau tymor hwy COVID-19?

1. Oes. Beth ydynt?
2. Nac oes
3. Ddim yn gwybod
4. Ddim yn berthnasol

# Atodiad B: Astudiaethau achos

## Astudiaeth achos: Cyflymu – Cyflymydd Technoleg Arloesi Iechyd Cymru (DC a GCC)

Nodau ac amcanion

Nod rhaglen Cyflymu oedd cefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy roi modd iddynt ddefnyddio arbenigedd academaidd a'r cyfleusterau diweddaraf mewn sefydliadau Addysg Uwch (AU) i'w galluogi i fanteisio ar syniadau arloesol yn y sector gwyddorau bywyd.

Roedd Cyflymu yn gweithredu o dan Amcan Penodol 1.2 drwy ymateb i gyfleoedd datblygu economaidd ledled Cymru yn y sectorau iechyd a gwyddorau bywyd, a hynny, yn ei dro, yn cyfrannu at wella iechyd a chael ansawdd gwell yn narpariaeth iechyd Cymru.

Roedd targedau'r gweithredu yn cynnwys:

- cofrestru patentau ar gyfer cynhyrchion yn y sector iechyd a gwyddorau bywyd
- darparu cymorth anariannol i fentrau, yn ogystal â chefnogi mentrau newydd
- cynyddu lefelau cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir
- annog buddsoddiad preifat i gyfateb cymorth cyhoeddus mewn arloesedd neu brosiectau ymchwil a datblygu
- cefnogi mentrau i gyflwyno cynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd i'r farchnad a newydd i'r cwmni
- nifer y partneriaid yn cydweithio ar brosiectau ymchwil.

Cyd-destun a rhesymeg

Datblygwyd gweithrediad Cyflymu mewn ymateb i sawl her yr oedd partneriaid prosiect wedi sylwi arnynt yn y sectorau gwyddorau bywyd ac iechyd yng Nghymru:

- rhwystrau wrth ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, arloesol yn seiliedig ar ddiwallu anghenion clinigwyr ac ymarferwyr iechyd – arloesiadau a allai wella effeithlonrwydd yn y GIG
- yr angen i integreiddio arbenigedd academaidd yn well i ddatblygu atebion ymarferol ac arloesol i fynd i'r afael â heriau iechyd
- yr angen i gynyddu cyfranogiad y sector preifat yn y sectorau iechyd a gwyddorau bywyd yng Nghymru.

Nododd Llywodraeth Cymru synergedd rhwng ceisiadau am gyllid a gyflwynwyd gan dri sefydliad AU mewn ymateb i alwad am brosiectau arloesol i'w cyflawni yn y maes hwn. Felly, gwnaed y penderfyniad i Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gydweithio, gan ddarparu cymorth technegol ar brosiect dan arweiniad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW),sef corff hyd braich Llywodraeth Cymru sy'n gweithio'n agos gyda'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i nodi heriau a phwysau y gall diwydiant fynd i'r afael â hwy.

Gweithgarwch a gynhaliwyd

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd ar gyfer gwerthusiad terfynol y gweithrediad, daeth dros 60 y cant o'r mentrau a gynorthwyir a ymatebodd i'r arolwg i wybod am Cyflymu trwy gyswllt uniongyrchol gan bartner academaidd neu drwy Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Roedd llwybrau ymgysylltu cychwynnol eraill yn cynnwys clywed am y rhaglen trwy grŵp busnes neu gyswllt rhwydwaith a thrwy ymchwil ar-lein. Ar ôl dod i gysylltiad â Cyflymu, cyfeiriwyd mentrau at y sefydliadau partner mwyaf addas i gydweithio â nhw i lunio cynllun ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i lansio'r cysyniad. Roedd y cymorth wedi'i deilwra i bob menter; gellid defnyddio cymorth academaidd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion megis datblygu cynnyrch, dylunio ymchwil, dadansoddi, ac arbenigedd yn y farchnad. Roedd mynediad i gyfleusterau prifysgol yn y Ganolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (AtiC), y Cyflymydd Arloesedd Clinigol (CIA) a'r Ganolfan Technoleg Gofal Iechyd (HTC) wedi cynnig cyfleoedd i fusnesau ddefnyddio technolegau arbenigol a datblygu a phrofi prototeipiau

Ac eithrio problemau yn ymwneud yn benodol â COVID-19, nodwyd nifer o heriau wrth gyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith na ofynnwyd i fentrau ymrwymo'n ariannol i brosiect cyn cael cymorth gan Cyflymu, a hynny wedi arwain at achosion lle na allai prosiectau barhau ar ôl i gymorth Cyflymu ddod i ben.

Yn ogystal, daeth COVID-19 â her sylweddol o ran recriwtio staff i gynnal rhaglen Cyflymu. Arweiniodd rhagolwg economaidd besimistaidd yn sgil pandemig COVID-19 at lai o ddiddordeb mewn swyddi contract dros dro fel y rhai a hysbysebwyd ar gyfer Cyflymu, a hyn wedi gwaethygu'r her o hyfforddi dechreuwyr newydd yn gyflym mewn rolau a oedd yn gofyn am wybodaeth a sgiliau penodol (megis rheolwyr cyllid), yn ogystal â'r colli gwybodaeth pan symudai deiliaid y swyddi ymlaen.

Cododd her arall wrth reoli disgwyliadau mentrau, gyda rhai cwmnïau'n camddeall cynnig y rhaglen, gan feddwl y gallent gael cymorth ariannol neu fynd ar restrau cyflenwyr dewisol y GIG. Aeth partneriaid i'r afael â hyn drwy bwysleisio'n barhaus yr hyn y gallai Cyflymu ei gynnig.

Perfformiad

Mae'r rhaglen Cyflymu wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni neu ragori ar bron bob un o'i dangosyddion targed ar draws y ddwy Raglen Weithredol. Roedd yr her fwyaf i'r partneriaid yn ymwneud â'r dangosyddion targed ar gyfer nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion a nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol. Roedd COVID-19 wedi gwneud y ddwy her yn llawer anoddach.

Y tu hwnt i'r dangosyddion targed, mae Cyflymu wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu systemau cydweithio newydd rhwng diwydiant, sefydliadau AU a'r GIG yng Nghymru. Mae gwerthusiad terfynol y prosiect yn nodi nad oedd y model cydweithio agosach wedi'i weld yng Nghymru o'r blaen, bod byrddau iechyd a busnesau wedi mynegi awydd i barhau i gydweithio, a bod trafodaethau ar brosiectau cydweithio pellach wedi digwydd. Pan ofynnwyd i fuddiolwyr a fyddent yn parhau i weithio gyda phartneriaid academaidd y tu hwnt i Cyflymu, roedd bron i 60 y cant yn credu y byddai cydweithredu'n parhau y tu hwnt i'r cymorth.

Ychwanegedd

Yn ogystal ag effeithiau economaidd, mae gwerth ychwanegol wedi'i greu trwy gyfleoedd rhwydweithio rhwng busnesau yn ogystal â gwell cydweithio rhwng y byd academaidd a'r diwydiannau iechyd a gwyddorau bywyd.

Themâu trawsbynciol

Mae'r rhaglen Cyflymu wedi cyfrannu at amrywiaeth o ddangosyddion themâu trawsbynciol ar lefel achos, gan helpu i ysgogi cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a rhoi ystyriaeth arbennig i sicrhau bod menywod yn ymgysylltu cymaint â phosibl â STEM drwy weithdai penodol ac (er enghraifft) drwy wahodd chwe menyw ysbrydoledig o'r sectorau technoleg ac iechyd a gofal i siarad am eu profiadau gyda chyfranogwyr fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Roedd datblygu cynaliadwy wrth galon y prosiect, gan fod ei waith yn anochel yn anelu at wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau'r GIG drwy gyflwyno arloesiadau newydd yn y sectorau iechyd a gwyddorau bywyd. Dewisodd HTC gymryd rhan yn

LEAF (Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai), sef rhaglen a gynlluniwyd i hybu ac ysgogi gwelliannau mewn effeithlonrwydd labordy. Mae'r offer yn rhoi modd i HTC leihau costau cyfleustodau yn ogystal â'u hôl troed amgylcheddol, cynyddu effeithlonrwydd ymchwil, a sicrhau cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch. Cawsant eu harchwilio yn ddiweddar a dyfarnwyd y Wobr Efydd iddynt.

Mae Cyflymu hefyd wedi cyfrannu at drechu tlodi a mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol drwy godi dyheadau am yrfa mewn meysydd nad ydynt yn ymgysylltu'n ddigonol â phobl ifanc. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy weithdai a gynhaliwyd gyda Technocamps ac Ymgyrraedd yn Ehangach (a oedd wedi targedu unigolion a ddosbarthwyd yn NEET).

Myfyrdodau ac argymhellion

Yr ymdeimlad cyffredinol ymhlith partneriaid cyflawni a buddiolwyr yw bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant wrth gefnogi BBaChau i ddatblygu eu syniadau arloesol yn atebion ymarferol.

Gosodwyd cyfres o argymhellion yn y gwerthusiad terfynol a oedd yn cynnwys symleiddio'r gwaith ar gyfer staff y prosiect drwy ddefnyddio CRM, yn ogystal â chyflogi swyddogion datblygu busnes i wella allgymorth â chleientiaid. Yn ogystal, dylai fod gan brosiectau yn y dyfodol feini prawf dethol cliriach a dull symlach a diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod cydweithredu wedi bod yn briodol. O ystyried natur araf, gostus ac anodd ei lywio o gaffael patentau, argymhellwyd hefyd ddangosydd meddalach a mwy priodol na phatentau i fonitro prosiectau yn y dyfodol, megis nifer y cymeradwyaethau dylunio a sicrhawyd. Yn olaf, argymhellwyd cydweithio agosach fyth rhwng y byd academaidd a diwydiant er mwyn nodi bylchau posibl yn y farchnad yn well yn ogystal â hwyluso trosglwyddo gwybodaeth.

**Astudiaeth achos: CEMET – Y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Technoleg Symudol a Datblygol (DC a GCC)**

Nodau ac amcanion

Gan weithredu drwy'r Gyfadran Cyfrifiadura, Peirianneg a Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol De Cymru, bwriad CEMET oedd rhoi mynediad i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru at waith ymchwil a datblygu wedi'i ariannu er mwyn dod â chynnyrch i'r farchnad mewn sectorau twf uchel fel deallusrwydd artiffisial, gweithgynhyrchu digidol, a seiberddiogelwch. Cynlluniwyd y gwaith Ymchwil a Datblygu i helpu busnesau sydd am greu cynnyrch, datrysiadau neu wasanaethau newydd sy'n ymwneud â thechnolegau blaengar a newydd fel dysgu peirianyddol, rhith-realiti a realiti estynedig, delweddu data, a deallusrwydd artiffisial.

Cynhaliwyd CEMET drwy Amcan Penodol 1.2 gyda'r dangosyddion targed canlynol:

- nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol
- nifer y partneriaid yn cydweithio ar brosiectau ymchwil
- nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni
- nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad
- buddsoddiad preifat yn cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau ymchwil a datblygu.

Cyd-destun a rhesymeg

Roedd y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Technoleg Symudol a Datblygol (CEMET) yn brosiect dilynol gan y Ganolfan Ragoriaeth mewn Gwasanaethau a Chymwysiadau Symudol (CEMAS) a oedd yn rhedeg o dan y cyfnod ariannu ERDF blaenorol. Ei nod oedd cynnig cymorth ag ymchwil, datblygu ac arloesi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n dangos potensial twf cryf. Mae'r gwerthusiad canol tymor arno yn disgrifio'r rhesymeg y tu ôl i CEMET fel un sy'n seiliedig ar yr angen i fynd i'r afael â rhwystrau ymchwil a datblygu i BBaChau mewn perthynas â datblygiad technolegol oherwydd diffyg arbenigedd, sgiliau a gallu yn ogystal â chostau dechrau uchel sy'n risg mawr oherwydd nid oes sicrwydd o elw i'r busnes.

Gweithgarwch a gynhaliwyd

Byddai busnesau yn ymgysylltu â CEMET i ddechrau arni drwy gael diagnosteg busnes a oedd yn cynnwys trafodaeth am eu syniad cychwynnol a llunio cynnig ymchwil a datblygu

dichonadwy i'w adolygu gan dîm mewnol CEMET o arbenigwyr technoleg newydd. Yna symudai busnesau ymlaen i'r cam ymchwil a datblygu cydweithredol, lle mae'r cwmpas a'r amcanion yn cael eu ffurfioli i sicrhau effeithlonrwydd amser ac adnoddau. Yn ystod y cam cydweithredol, byddai CEMET yn cadarnhau pa mor ymarferol yw dyluniad y busnesau a'u cefnogi drwy'r cam datblygu cynnyrch drwy ymgynghori ac ymgysylltu cyson. Yn ystod cam olaf y cymorth, byddai'r busnesau yn gweithio gyda thîm CEMET i gynllunio llwybr hyfyw i'r farchnad ar gyfer y cynnyrch newydd. Byddai'r broses gyfan o gael cymorth fel arfer yn para am 3 i 4 mis.

Roedd cymorth ar gael trwy'r gweithrediad i fusnesau ar ystod eang o elfennau yn ymwneud â chael cynnyrch neu wasanaeth yn barod, gan gefnogi busnesau o'r cam profi cysyniad i fusnesau oedd â phrototeip eisoes wedi'i brofi. Mae busnesau wedi cael cymorth ymchwil a datblygu i ddatblygu technolegau, ac mae effeithiau cadarnhaol diriaethol i ddefnyddwyr mewn sectorau fel cyllid ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Perfformiad

Dangosodd y gwerthusiad canol tymor fod CEMET ar y trywydd iawn i gyrraedd neu ragori ar ei dargedau a gontractiwyd gan WEFO, er bod y rhain wedi bod yn fwy heriol i'w cyflawni yn rhaglen Gorllewin Cymru oherwydd er bod y tîm wedi ymgysylltu â chleientiaid sydd wedi'u lleoli yn y Gorllewin weithiau roedd eu busnesau wedi'u cofrestru yng Nghaerdydd, ac felly yn cyfrif tuag at weithrediad Dwyrain Cymru.

Roedd cyfweliadau manwl â buddiolwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn canmol arbenigedd y staff a gydweithiai â nhw ar eu prosiectau, gan nodi bod ganddynt ddealltwriaeth gref o'r broses arloesi ac wedi rhoi adborth y gellid ei weithredu ar sut i symud ymlaen i ddatblygu eu cynnyrch.

Ar y cyfan, cafodd pandemig COVID-19 effaith gadarnhaol ar y gweithrediad. Roedd eisoes yn gweithredu'n rhithiol ac, felly, ychydig iawn o newid oedd yn angenrheidiol er mwyn cadw at y cyfyngiadau cymdeithasol; fodd bynnag, roedd wedi rhoi modd cael mwy o gymorth yn rhithwir, gan gynyddu effeithlonrwydd y darparu gwasanaeth (gan ddileu amseroedd teithio i gwrdd â chleientiaid, er enghraifft). Dywedodd rheolwr y prosiect fod y pandemig wedi rhoi hwb i gymhelliant busnesau hynod arloesol i fwrw ati gyda'u syniad, yn ogystal â bod busnesau i'w gweld yn fwy rhagweithiol yn dilyn dechrau COVID-19 a'r galw am y cymorth wedi cynyddu.

Ychwanegedd

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi ystyried mathau eraill o gymorth yn yr arolwg buddiolwyr, nododd yr holl ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o gymorth tebyg o'r math hwn sydd ar gael. Cytunai tîm y prosiect â'r farn hon ac nid oeddent yn gwybod am unrhyw ddarpariaeth arall o'r math hwn sydd ar gael yn y farchnad. Ymhellach, nododd nifer o fusnesau, ar ôl ymchwilio i fathau eraill o gymorth, nad oedd unrhyw beth arall yn gweddu i'w hanghenion mewn ffordd debyg i rai CEMET, gan ddangos ychwanegedd cryf i fusnesau sy'n ceisio datblygu cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar flaen y gad.

Er y gallai rhai o'r prosiectau gyda busnesau fod wedi symud ymlaen yn absenoldeb y cymorth, credai tîm y prosiect y byddent yn debygol o fod wedi bod yn arafach yn dod i'r farchnad ac o bosibl o ansawdd is. Yn ôl gwerthusiad canol tymor y gweithrediad, yn absenoldeb CEMET, teimlai buddiolwyr na fyddent wedi bwrw ymlaen â rhai o'r syniadau o gwbl.

Themâu trawsbynciol

Mae CEMET wedi bod yn llwyddiannus wrth annog datblygu cynaliadwy trwy gefnogi busnesau i ddatblygu technolegau sy'n gwella effeithlonrwydd busnes. Er enghraifft, mae apiau hyfforddiant meddygol rhith-realiti wedi gwella hygyrchedd hyfforddiant, gan leihau baich teithio. Yn ogystal, dylai technoleg synhwyro symudiadau ar gyfer pobl mewn gofal wella ymatebolrwydd cyflenwyr gofal i bobl sydd ag anghenion cymorth brys. Ymhellach, cyfrannodd llawer o brosiectau CEMET at gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi, sef trwy ddatblygu rhaglenni a chynnyrch hyfforddi sy'n lleihau rhwystrau i gael mynediad at yrfaoedd mewn meysydd penodol. Mae un cydweithrediad, er enghraifft, rhwng Gas Assessment and Training Centre Ltd a CEMET wedi creu cymhwysiad rhith-realiti sy'n gwella hyfforddiant darpar beirianwyr nwy.

Yn fewnol, mae CEMET wedi mabwysiadu polisïau Prifysgol De Cymru mewn perthynas â chyfle cyfartal a phrif ffrydio materion rhyw, yn ogystal â pholisïau cynaliadwyedd trwy strategaeth amgylcheddol y brifysgol.

Myfyrdodau ac argymhellion

Roedd busnesau'n gadarnhaol iawn am y cymorth a gawsant, a byddent wedi hoffi cael rhagor o gyfleoedd rhwydweithio rhwng busnesau a oedd yn cael cymorth CEMET. Er bod pob

buddiolwr yn yr arolwg cymorth busnes manwl wedi rhoi canmoliaeth fawr i'r arbenigedd technegol a gynigid, eto byddai rhai busnesau wedi gwerthfawrogi mwy o arbenigedd masnachol a chyfreithiol wrth iddynt symud eu cynnyrch neu wasanaeth tuag at ddefnydd masnachol.

Adfyfyriodd tîm y prosiect ar werth ychwanegol cael tîm bach, cyson, a theimlwyd bod hyn yn allweddol i'w llwyddiant oherwydd eu bod yn gallu datblygu a rhannu dysgu gyda'i gilydd. Wrth edrych ymlaen, nododd y tîm, o ystyried ei rôl ganolog yn economi Cymru, y dylid cynnwys integreiddio darpariaeth cymorth digidol yn y cymorth busnes craidd a gynigir i fod yn faes ffocws allweddol yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

**Astudiaeth achos: Bwydydd i'r Dyfodol (GCC)**

Nodau ac amcanion

Nod Bwydydd i'r Dyfodol oedd sicrhau arbenigedd o safon fyd-eang mewn gwyddor bwyd, technoleg, maeth, ymchwil a datblygu ar gyfer busnesau bwyd uchelgeisiol yng Nghymru a oedd yn ceisio datblygu cynnyrch iach, gan greu marchnad a'i thargedu i'w gwerthu yn y DU a thramor. Wrth ddarparu'r cymorth hwn, ceisiai'r gweithrediad alluogi cwmnïau bwyd a diod yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i wella eu gallu i gystadlu a bod yn sail i dwf a chynaliadwyedd yn y dyfodol. Roedd Bwydydd i'r Dyfodol yn cyfrannu'n benodol tuag at Amcan Penodol 1.2.

Cyd-destun a rhesymeg

Daeth Bwydydd i'r Dyfodol ag arbenigedd dau sefydliad ynghyd, sef Prifysgol Aberystwyth (yn enwedig ArloesiAber a'i Ganolfan Bwyd y Dyfodol) a BIC Innovation Ltd. Mae'r strwythur gweithredol yn cynnwys dull cydweithredol arloesol rhwng busnesau bach a chanolig a sefydliad addysg uwch i gyflawni gweithrediad ERDF yng Nghymru.

Dangosodd dadansoddiad a gynhaliwyd gan Gorff Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI)[114] lefelau isel o wariant ar ymchwil a datblygu yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Trwy ddata a gasglwyd gan Maeth-Cymru/Nutri-Wales, roedd tystiolaeth hefyd y gallai busnesau, trwy groesawu ymchwil a datblygu, ddatblygu cynhyrchion newydd a chynyddu gwydnwch yn y sector yn ei gyfanrwydd. Arweiniodd hyn at gydweithio rhwng BIC Innovation a Phrifysgol Aberystwyth (ac yn benodol â'r arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, IBERS) i gynnig arbenigedd gwyddonol nad yw busnesau fel arfer yn ei ddefnyddio, wedi'i ddarparu ochr yn ochr â gwybodaeth fasnachol ac arbenigedd ar y sector bwyd.

Gweithgarwch a gynhaliwyd

Roedd atgyfeiriadau i'r gweithrediad yn eang, gyda thîm y rhaglen yn amcangyfrif 12 i 15 o wahanol lwybrau i mewn i'r rhaglen, gan gynnwys atgyfeiriadau o Brifysgol Aberystwyth, Cywain, a thrwy bobl yn siarad. Fe'i hyrwyddwyd yn helaeth hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy raglen gyfathrebu yn ogystal â thrwy BIC Innovation a chysylltiadau blaenorol y Brifysgol â sefydliadau yn y sector bwyd a diod.

[114] UKRI (2022), Geographical distribution of spend data financial year (aethpwyd iddo: 16 Ionawr 2023).

O ran ymgysylltu, ar ôl trafodaethau cychwynnol gyda thîm Bwydydd y Dyfodol, câi busnesau eu hatgyfeirio ymlaen at bartneriaid academaidd i ddechrau ar eu taith ymchwil a datblygu. Mae tystiolaeth o'r cyfweliadau busnes manwl a gynhaliwyd gyda'r busnesau a gymerodd ran yn dangos bod llawer o'r busnesau angen defnyddio'r cyfleusterau profi sydd ar gael trwy Ganolfan Bwyd y Dyfodol yn ArloesiAber i asesu gwerth maethol eu cynnyrch wrth newid ryseitiau. Roedd cysylltiad agos rhwng y rhaglen a champws ArloesiAber, a hwn yn llwybr atgyfeirio allweddol i gael cymorth dilynol wrth adael gweithrediad Bwydydd y Dyfodol.

Mae'r cymorth gan Bwydydd y Dyfodol yn bennaf wedi rhoi tystiolaeth wyddonol i gwmnïau allu datblygu cynnyrch newydd a chefnogi honiadau maethol am eu cynhyrchion bwyd. Mewn achosion eraill, roedd cwmnïau wedi gallu datblygu a gwella cynhyrchion presennol yn dilyn gwaith ymchwil a datblygu helaeth, gan wella rhagolygon eu busnes yn y tymor hir.

Ynghyd â darparu arbenigedd a chyfleusterau gwyddonol cynhwysfawr i ddylunio, cyflwyno a chynnal prosiectau yn y labordai sydd ar gael yn ArloesiAber, roedd BIC Innovation wedi cynnig rôl datblygu busnes ynghyd ag ymchwil a datblygu technegol a masnachol parhaus a rheoli cleientiaid.

Perfformiad

Daeth y rhaglen i ben ym mis Rhagfyr 2022 gan gyflawni neu ragori ar chwech o'i saith dangosydd perfformiad allweddol:

- partneriaid yn cydweithredu mewn prosiect ymchwil
- cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir
- mentrau yn cael cymorth anariannol
- mentrau yn cyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad
- mentrau yn cyflwyno cynnyrch newydd i'r cwmni
- nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion.

Yr unig ddangosydd na chyflawnwyd oedd y dangosydd ar gyfer buddsoddiad preifat yn cyfateb i gymorth cyhoeddus, a oedd â diffyg bychan ar ddiwedd y prosiect.

Cymysg oedd effaith pandemig COVID-19 ar y prosiect. O safbwynt cadarnhaol, arweiniodd at drosglwyddo i gyfarfodydd ar-lein ar gyfer rheoli a buddiolwyr busnes, a hynny wedi lleihau costau teithio a gwneud defnydd mwy effeithiol o amser a gollwyd yn flaenorol drwy deithio. Teimlai'r busnesau a gymerodd ran, fodd bynnag, fod y cyfyngiadau wedi lleihau ar eu gallu i

gael mynediad i gyfleusterau labordy yn ArloesiAber, gan atal neu arafu eu cynnydd, tra byddai'n well gan rai ymgysylltu'n bersonol (yn hytrach nag yn rhithwir).

Ychwanegedd

Deuai ychwanegedd y rhaglen yn bennaf o ddyfnder technegol a manylder yr ymchwil a gynigiwyd i fentrau. Ni fyddai gan fentrau bychain yr adnoddau na'r amser i gael gafael ar y wybodaeth a ddarparwyd drwy'r prosiect, heb sôn am ei ddistyllu a'i ddefnyddio, ac ni fyddent ychwaith wedi gallu cael mynediad at y cyfleusterau a'r offer o ansawdd uchel a oedd ar gael.

Soniodd tîm y prosiect sut roedd y gweithrediad wedi newid meddylfryd ynghylch ymchwil a datblygu ac yna wedi darparu'r arbenigedd i nodi cyfleoedd marchnata, a theimlir na fyddai llawer o'r rhain wedi bod yn bosibl yn absenoldeb y prosiect.

Themâu trawsbynciol

Roedd BIC Innovation a Phrifysgol Aberystwyth ill dau wedi enwebu Hyrwyddwyr Themâu Trawsbynciol ar gyfer y prosiect, a'r rheiny wedi cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Mae amrywiaeth rhyw wedi bod ar ben blaen ystyriaethau pob tîm prosiect a'r bwrdd cynghori allanol trwy gydol y prosiect.

Roedd y rhaglen hefyd wedi cefnogi llu o weithgareddau gyda busnesau mewn perthynas â bwydydd swyddogaethol a gyda phwyslais ar wella lefel cynhyrchu lleol, a thrwy hynny leihau milltiroedd bwyd a chynyddu lefelau sicrwydd a gwydnwch bwyd, ac felly gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Myfyrdodau ac argymhellion

Gan adfyfyrio ar lwyddiant y prosiect, teimlai'r tîm rheoli fod y gwaith a oedd ynghlwm wrth ddylunio'r prosiect wedi bod yn allweddol i'w lwyddiant. Ymhellach, o safbwynt llywodraethu, disgrifiwyd y bartneriaeth rhwng BIC Innovation a Phrifysgol Aberystwyth fel un a dyfodd yn gryfach dros amser gan fod â dealltwriaeth gliriach o gryfderau a galluoedd pob partner wrth i'r gweithrediad ddatblygu. Mae'r cydweithio rhwng arbenigedd academaidd a masnachol wrth gynnal prosiect o'r natur hwn yn rhoi'r gallu i dynnu ar gryfderau allweddol pob partner, gan ddwyn ynghyd wybodaeth ac arbenigedd sy'n darparu pecyn cymorth mwy cyflawn.

Soniodd y busnesau a gymerodd ran yn aml am wybodaeth ac arbenigedd yr arbenigwyr proffesiynol a gwyddonol yn ogystal ag ansawdd y cyfleusterau y cawsant fynediad iddynt. I'r

gwrthwyneb, ni allai busnesau nodi unrhyw wendidau gyda’r cynnig, gan ddangos gwerth canfyddedig y cymorth.

Roedd argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol gan fusnesau yn ymwneud ag awydd i’w gwneud yn haws cael gafael ar arbenigwyr. Dywedodd sawl busnes y byddent wedi hoffi aros mewn cysylltiad ag arbenigwyr academaidd dros gyfnod hirach ar gyfer camau datblygu cynnyrch yn y dyfodol, gan adfyfyrio ar werth yr elfen honno o’r cymorth a ddarparwyd. Nododd busnesau eraill na allent gael mynediad at arbenigwyr ar gyfer rhai agweddau o’r gwaith, megis datblygu llinell gynhyrchu, marchnata’r cynnyrch, ac ehangu’r busnes. Mewn cynllun yn y dyfodol, gellid ystyried ehangu’r cynnig integredig i fusnesau i ymestyn y cymorth, neu integreiddio ymhellach â darpariaeth arall a allai gynnig cymorth i roi’r cynhyrchion a ddatblygwyd ar y farchnad.

**Astudiaeth achos: Cefnogaeth Entrepreneuriaeth a Chymorth i BBaCh (DC a GCC) Busnes Cymru**

Nodau ac amcanion

Nod y Gwasanaeth Craidd a Thwf oedd cynnig siop un-stop i entrepreneuriaid drwy Amcan Penodol 2.2 a BBaCh drwy AP2.4 i'w cefnogi i dyfu a chreu swyddi. Roedd lefel y cymorth a roddwyd gan y rhaglen yn dibynnu ar botensial a graddfa twf y buddiolwr, o lefel 1 ar gyfer microfusnesau a'r rheini sy'n hunangyflogedig sy'n canolbwyntio ar ffordd o fyw i lefel 4 ar gyfer sefydliadau mwy sydd â mwy o botensial i dyfu. Roedd lefelau is o gymorth i'r rhai oedd wrthi'n dechrau busnes yn cynnwys cyrsiau hyfforddi, gweithdai, cymorth cynghori, a chyfeirio at gymorth arall, tra gallai busnesau a oedd eisoes yn masnachu gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gymorth mewn perthynas ag agweddau fel AD, tendro, masnach ryngwladol, sgiliau, mentora, marchnata, TGCh, ac effeithlonrwydd adnoddau.

Roedd y Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) ar gael i fusnesau a busnesau newydd a oedd yn dangos potensial twf uwch na'r rheini ar lefelau 1 i 4, gan ddangos y potensial ar gyfer cynnydd o 20 y cant yn eu trosiant bob blwyddyn am dair blynedd. Roedd y gwasanaethau hyn yn mynd i'r afael ag AP2.2 a 2.4: "cynyddu nifer y BBaChau newydd drwy roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth" a "chynyddu twf y BBaCh hynny sydd â photensial i dyfu, yn enwedig trwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)".

Gyda'i gilydd, mae'r gweithrediadau yn targedu'r dangosyddion canlynol.

| Dangosydd | Entrepreneuriaeth | Twf BBaCh |
|---|---|---|
| Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | ✓ | |
| Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | ✓ | ✓ |
| Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | ✓ | ✓ |
| Cynnydd mewn lefelau allforio | | ✓ |
| Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella: | | |
| – strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | ✓ | ✓ |
| – strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | ✓ | ✓ |

Cyd-destun a rhesymeg

Roedd dangosyddion sy'n gysylltiedig â gweithgarwch entrepreneuraidd a chynhyrchiant yng Nghymru yn gyson is na chyfartaledd y DU. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyllid o raglen ERDF 2007–2013 i gefnogi dwy raglen i roi cymorth i fusnesau, sef: Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Chymorth Dechrau Busnes Newydd. Argymhellodd gwerthusiadau'r rhaglenni hyn y dylid parhau â chymorth a ariennir gan ERDF ledled Cymru. Ar gyfer rhaglen ERDF 2014–2020, mewn ymateb sefydlwyd Busnes Cymru i fod yn un brand ar draws y ddau faes rhaglen, wedi'i rannu'n weithrediadau gwahanol: Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru, Rhaglen Cyflymu Twf ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid a'r Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol[115].

Y rhesymeg y tu ôl i ddiwygiadau i'r dyluniad oedd y byddai'n caniatáu i unigolion a mentrau gael mynediad rhwydd at y cymorth cywir ar yr adeg gywir o dan un brand cyson. Disgrifir y model weithiau fel uwchgyfeirio cymorth, gan roi'r cyfle i symud ymlaen drwy'r ddarpariaeth wrth i fusnes dyfu. Roedd dyluniad a brandio'r gweithrediad o dan Busnes Cymru yn gyfle i symleiddio'r model cyflawni a dod ag eglurder i'r cwsmer.

Gweithgarwch a gynhaliwyd

Roedd y rhaglen yn ymgysylltu â busnesau trwy borth ar-lein pwrpasol a llinell gymorth a allai anfon busnesau ymlaen at daflenni ffeithiau, cyrsiau, gweithdai, diagnosteg busnes, a chyngor un-i-un. Dechreuai busnesau ar eu taith yn aml drwy lenwi holiadur ar-lein a hwnnw wedi galluogi busnesau i amlinellu'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu a'u dyheadau busnes, gan fod yn rhan o'r broses ddiagnostig gynnar am anghenion a gofynion ac wedi llywio'r gwaith o lunio cynllun gweithredu.

Yna câi busnesau eu hatgyfeirio at y cymorth perthnasol, a allai amrywio o gyngor cyffredinol ar dreth neu farchnata (a roddir ar y dechrau drwy weithdai ac wedi hynny drwy weminarau) i ddull mwy manwl a phenodol a roddir un-i-un gan gynghorydd busnes.

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer y rhai ar lefelau 1 i 4 yn cael ei chynnig ar sail "taro-mewn, taro-allan", gan fod ar gael yn ôl angen busnesau. Ar gyfer y busnesau hynny â gogwydd twf

[115] Yn ystod rhaglen ERDF 2014–2020, roedd cyllid o dan frand Busnes Cymru hefyd wedi cefnogi Hybiau Menter – sef pum lleoliad cymunedol "corfforol" ledled Cymru ar gyfer busnesau newydd a rhai yn eu cyfnod cynnar.

cryfach, mabwysiadwyd dull mwy hirdymor o reoli'r berthynas ac, yn nodweddiadol, cafodd y garfan hon fwy o gymorth mwy dwys dros gyfnod hirach.

Pan ofynnwyd iddynt am y math o gymorth yr oedd mentrau'n ei gael gan Busnes Cymru, cyfeiriodd y busnesau at amrywiaeth eang o ddarpariaeth, sy'n adlewyrchu'r dull siop-un-stop a gynigir drwy'r gweithrediad.

Roedd pandemig COVID-19 wedi amharu ar ddarparu gweithdai a sesiynau cynghori un-i-un wyneb yn wyneb; fodd bynnag, nododd llawer o fusnesau yn y cyfweliadau cymorth busnes manwl ac yn yr arolwg ffôn ehangach nad oedd y pandemig wedi effeithio ar y cymorth a gawsant, yn aml oherwydd bod llawer o wasanaethau Busnes Cymru eisoes yn cael eu darparu o bell, gyda'r pandemig fel arfer wedi cyflymu newid i ddarparu gweminarau ac ymgynghoriadau busnes yn rhithwir. Wrth i gyfyngiadau cymdeithasol leddfu, cafodd darpariaeth wyneb yn wyneb ei hailgyflwyno yn y model cyflawni, gyda'r cynnig yn gyfuniad o ddarpariaeth rithwir ac wyneb yn wyneb.

Perfformiad

Pan ofynnwyd i fusnesau a oedd yn cymryd rhan am gryfderau'r gweithrediad, cyfeiriodd llawer at brofiad y rheiny a oedd yn rhoi'r cymorth, gyda'u gallu i gynnig cymorth penodol a thrylwyr o werth arbennig. Roedd busnesau hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y cymorth yn rhad ac am ddim iddynt, gyda rhai busnesau yn dweud y byddai talu ffioedd ymgynghori wedi bod yn rhwystr rhy fawr iddynt gael mynediad at fathau tebyg o gymorth.

Roedd un o'r heriau cychwynnol a gafodd staff cyflawni yn ymwneud â'u dealltwriaeth o'r gofynion ynghylch bod yn gymwys i rai allbynnau prosiect. Arweiniodd hyn ar y dechrau at danberfformio yn ystod camau cynnar y prosiect. Dros amser llwyddodd dull mwy cydweithredol o weithio gyda WEFO i wella eglurder y tîm o ran hawlio allbynnau, gan roi modd iddynt wella eu cefnogaeth wrth i'r prosiect symud yn ei flaen. Datgelodd cyfweliadau ag arweinwyr y prosiect fod y newid i gyflenwi ar-lein hefyd wedi bod yn her wrth gasglu tystiolaeth am effeithiau'r cymorth y tu hwnt i'r chwe awr o gymorth sydd ei angen i hawlio allbwn. Arweiniodd hyn at newid yn ffocws casglu tystiolaeth i asesu rhywfaint o'r effaith ehangach a gyflawnwyd gan Busnes Cymru.

Yn ehangach, ystyrir bod y prosiect yn arbennig o lwyddiannus wrth gynhyrchu model cymorth sy'n symlach yng Nghymru, gyda thîm y rhaglen yn delio â chymhlethdodau pedwar prosiect gwahanol y tu ôl i'r llenni wrth sicrhau cynnal brand cyson i'r cwsmer.

Ychwanegedd

Nododd arolygon a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad canol tymor fod llawer o fusnesau oedd yn fuddiolwyr yn teimlo bod Busnes Cymru yn llenwi bwlch mawr yn y math o gymorth sydd ar gael i fentrau yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad interim yn nodi bod llawer o fusnesau yn y Gwasanaeth Craidd a Thwf a'r Rhaglen Cyflymu Twf yn teimlo y byddent wedi bod yn llai llwyddiannus pe na byddent wedi cael cymorth gan Busnes Cymru, a hyn wedi'i adleisio yng nghanfyddiadau'r arolwg yn adran 5 y prif adroddiad.

Themâu trawsbynciol

Casglwyd data sy'n berthnasol i'r themâu trawsbynciol fel rhan o'r gwerthusiad canol tymor, a hwnnw wedi dangos bod 46 y cant o gyfranogwyr Busnes Cymru (o 8,671 o gyfranogwyr yn y rhaglen Gwasanaeth Craidd a Thwf) yn fenywod, a bod perchnogion pump y cant o'r busnesau buddiolwyr (cyfanswm o 584) yn bobl Ddu, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Cyfrannodd y rhaglen at ddatblygu cynaliadwy trwy wella effeithlonrwydd busnes, tra bod llawer o weithgareddau'r rhaglen hefyd wedi'u cynnal yn rhithwir, gan sicrhau bod y buddion yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl gyda'r effaith amgylcheddol leiaf bosibl. Mae dosbarthiad daearyddol y buddiolwyr a gefnogir yn dangos bod y prosiect wedi cyfrannu at drechu tlodi a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy gefnogi twf posibl busnesau ledled Cymru gyfan.

Roedd y rhaglen yn cynnwys dangosyddion targed ar gyfer 40 y cant o fentrau a gynorthwyir yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth mentrau a gefnogir (gan gynnwys systemau monitro) a mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy (gan gynnwys systemau monitro). Dywedwyd bod y cynnydd yn erbyn y targed hwn yng nghamau cynnar y prosiect yn wael, mater a ategwyd yn y gwerthusiad canol tymor. Fodd bynnag, soniodd y tîm am weithio mewn cydweithrediad agos â WEFO i nodi ffyrdd arloesol o ddarparu'r cymorth hwn, gan gyflwyno Pecyn Adnoddau Diogelu at y Dyfodol fel mecanwaith i ategu system wedi'i mireinio ar gyfer y themâu trawsbynciol lle mae'r dull o'u darparu yn symud o fod yn rhywbeth ymylol i gael ei integreiddio'n effeithiol, o'r ymgysylltu â chymorth hyd at fabwysiadu dulliau gweithredu pragmatig wrth eu darparu. Drwy integreiddio

themâu trawsbynciol yn well i'r cynnig prif ffrwd, mae'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon wedi cynyddu'n sylweddol ac ystyrir bod y targed o 40 y cant bellach yn gyraeddadwy.

Myfyrdodau ac argymhellion

Adfyfyriodd tîm y rhaglen ar rai o'r heriau oedd yn gysylltiedig â chymhwysedd a gofynion tystiolaeth ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol yng nghamau cynnar y gwaith cyflawni – roeddent wedi newid ychydig o'r rhaglen flaenorol, ac fe gymerodd gryn amser, gan weithio'n agos gyda WEFO, i gael yr eglurder angenrheidiol. Roedd tîm y rhaglen o'r farn bod y berthynas gydweithio agos â WEFO yn gryfder arbennig.

Rhoddwyd ystyriaeth gadarnhaol hefyd i'r gweithgarwch marchnata a chyfathrebu a gynhaliwyd ar draws ystod o gyfryngau, a helpodd i godi ymwybyddiaeth a chadarnhau brand Busnes Cymru ar draws y farchnad BBaChau.

Dywedodd rhai buddiolwyr y byddai'n well ganddynt fwy o ryngweithio wyneb yn wyneb mewn cymorth yn y dyfodol, gan gyfaddef nad oedd hynny'n bosibl ar y pryd oherwydd rheoliadau COVID-19. Ymhellach, mynegodd rhai busnesau awydd i wybod mwy am ba gymorth oedd ar gael drwy Busnes Cymru drwy fod mwy o hyrwyddo a hysbysebu ar y cymorth. Byddai nifer fach o fuddiolwyr hefyd wedi gwerthfawrogi mwy o gyfleoedd ariannu gan Busnes Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu gael eu cyfeirio at gyfleoedd eraill.

Wrth edrych ymlaen, mae pryderon ynghylch dyblygu posibl Busnes Cymru yn deillio o raglenni lleol yn cael eu sefydlu o ganlyniad i gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), ac ailadroddodd tîm y rhaglen bwysigrwydd cadw arlwy cyson, symlach i entrepreneuriaid a busnesau ar draws Cymru.

**Astudiaeth achos: Busnes Cymdeithasol Cymru: Dechrau Newydd (DC a GCC)**

Nodau ac amcanion

Nod rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru (ar draws y ddau weithrediad) oedd darparu cymorth a gwybodaeth dechnegol i'r rheiny sydd am sefydlu busnes cymdeithasol (drwy ddarpariaeth a roddir dan AP2.2), rhedeg busnes cymdeithasol neu dyfu busnes o'r fath (drwy ddarpariaeth a roddir dan AP2.4). Yn ogystal â rhoi cymorth ynghylch sut i sefydlu a thyfu'r mathau hyn o fusnesau, roedd Busnes Cymdeithasol Cymru hefyd yn rhoi cyngor arbenigol i fentrau sy'n chwilio am fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol neu gyngor cyfreithiol i'r rhai sydd am ddod yn ymddiriedolaeth dan berchnogaeth y gweithwyr.

Gyda'i gilydd, bwriad y gweithrediadau hyn o dan AP2.2 ac AP2.4 oedd cyflawni'r dangosyddion a ganlyn:

- mentrau sy'n cael cymorth anariannol
- nifer y mentrau newydd a gynorthwyir
- cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir
- mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau prif ffrydio cydraddoldeb a rhyw a systemau monitro
- mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro.

Cyd-destun a rhesymeg

Yn 2013, nododd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru nad oedd y dulliau confensiynol o ymdrin â thwf economaidd yn ddigon ar eu pen eu hunain i gyflawni'r gwelliannau dymunol o ran llesiant pobl Cymru. Roeddent o blaid ehangu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol (pob un ohonynt yn dod o dan ymbarél busnesau cymdeithasol), gan eu bod yn cynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol o'i gymharu â busnesau cyffredin. Ymhellach, o ystyried y gwahanol gymhellion, strwythurau, a fframweithiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â busnesau cymdeithasol, cydnabuwyd eu bod yn haeddu cymorth busnes pwrpasol ar wahân i gynnig craidd Busnes Cymru.

Yn 2015, cyfyngwyd ar Cwmpas (sef Canolfan Cydweithredol Cymru yn flaenorol) i ymateb i un galwad prosiect "asgwrn cefn" strategol o fewn un Amcan Penodol (prosiectau asgwrn cefn strategol oedd y gweithgareddau hynny a oedd yn dangos potensial clir ar gyfer cyflawni

amcanion allweddol Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd[116]. Galluogodd y dull hwn iddynt symud tuag at weithgarwch ar lefel fwy strategol ac i ffwrdd oddi wrth weithrediadau mwy niferus, ar raddfa lai).

Arweiniodd y gofynion hyn at y penderfyniad i gymhwyso’r Amcan Penodol sy’n gysylltiedig â thwf BBaCh a busnesau cymdeithasol (AP2.4). Rhwng 2015 a 2019, cynigwyd darpariaeth dechrau busnes cymdeithasol fel rhan o gynnig craidd Busnes Cymru; yn 2019, fodd bynnag, cymeradwyodd WEFO gais gan Cwmpas i roi cymorth pwrpasol ar gyfer dechrau busnes cymdeithasol (Busnes Cymdeithasol Cymru: Dechrau Newydd) i ategu gweithrediad Twf Busnes Cymdeithasol.

Gweithgarwch a gynhaliwyd

Câi mentrau eu cyfeirio gan amlaf at Busnes Cymdeithasol Cymru drwy sefydliadau a chynlluniau cymorth busnes eraill a oedd yn eu gwneud yn ymwybodol o’r hyn y gallent ei gael o’r rhaglen. Roedd y pwynt cyswllt cyntaf fel arfer yn digwydd drwy wefan Busnes Cymdeithasol Cymru, lle gallent lenwi ffurflen weithredu.

Roedd y cyswllt cychwynnol (ar ôl llenwi ffurflen) yn cynnwys cyfarfodydd rhithwir gydag aelod o dîm Busnes Cymdeithasol Cymru, a byddai diagnostig dros y ffôn yn cael ei wneud i sefydlu anghenion yr unigolyn neu’r busnes a beth y gellid ei wneud i’w cefnogi a’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Wedi hynny, cynigid ystod eang o gymorth i fusnesau, gyda llawer ohono’n arbenigol ei natur ac yn golygu sefydlu fframwaith o ymgynghorwyr i ddiwallu’r anghenion penodol hynny. Roedd enghreifftiau’n cynnwys cyngor cyfreithiol i helpu i bennu natur y busnes cymdeithasol yr oeddent am ei sefydlu, cymorth i ddod yn ymddiriedolaeth sy’n eiddo i’r gweithwyr, cynllunio ariannol, a chyngor technegol sector-benodol.

Byddai busnesau cyfranogol fel arfer yn cael eu cefnogi trwy’r gweithrediad busnes newydd am eu 12-18 mis cyntaf o fasnachu (pan fyddent yn trosglwyddo i Twf Busnes Cymdeithasol). Pe baent yn dal yn rhoi prawf ar fasnachu ar yr adeg honno, byddent yn aros gyda’r gweithrediad hwnnw; unwaith y byddent yn barod, byddent yn cael eu trosglwyddo i Twf Busnes Cymdeithasol.

[116] Mae’r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd wedi’i gynllunio i alluogi adnabod meysydd lle gall y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu’n fwyaf effeithiol at bolisi datblygu economaidd cyffredinol Llywodraeth Cymru.

COVID-19

Roedd y cymorth a roddwyd gan Busnes Cymdeithasol Cymru wedi addasu'n gyflym mewn ymateb i bandemig COVID-19, gyda'r pwyslais yn symud oddi ar dwf tuag at oroesi a gwytnwch a dod o hyd i fenthyciadau a chyllid cymdeithasol. Adlewyrchai hyn newid amlwg yn nisgwyliadau buddiolwyr i gael darpariaeth â phwyslais ar oroesi a chymorth AD byrdymor (cyn cyhoeddi ffyrlo), gan fod y rhagolygon i rai busnesau wedi ymddangos mor llwm. Yr unig newid a nodwyd gan fuddiolwyr oedd newid i gwrdd â staff Busnes Cymdeithasol Cymru yn rhithiol, gyda gweminarau yn dominyddu (yn hytrach na sesiynau wyneb yn wyneb mewn cyfleusterau cymunedol), nad oedd, meddent, wedi effeithio ar ansawdd y cymorth.

Arweiniodd y pandemig at lawer o fusnesau yn addasu eu cynnig gwasanaeth er mwyn ymateb i'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd a ddaeth yn eu sgil. I gynghorwyr, roedd y newid i ddarpariaeth rithwir wedi cynyddu faint o wasanaeth uniongyrchol y gallent ei ddarparu. Awgryma dadansoddiad Cwmpas fod nifer yr oriau o gymorth uniongyrchol wedi cynyddu tua 87 y cant i ddechrau arni, sydd wedyn wedi setlo ar 58 y cant yn uwch na'r lefel cyn-COVID-19.

Perfformiad

Roedd busnesau wedi canmol Cwmpas am ei effeithlonrwydd gweithdrefnol: ymatebai cynghorwyr i ymholiadau'n brydlon, trefnwyd cymorth allanol yn glir, a chrëwyd amgylchedd heb bwysau i fusnesau gyrraedd eu nodau, gan wybod y gallai'r gweithrediad gynnig cymorth pan fo angen.

Ymhellach, mae gwerthusiad interim Busnes Cymdeithasol Cymru yn dangos bod y prosiect wedi llwyddo i ragori ar ei dargedau ar gyfer nifer y busnesau a gefnogwyd yn ogystal â chynyddu cyflogaeth bron bob chwarter rhwng 2017 a 2019, gan roi'r prosiect mewn sefyllfa gref i symud ymlaen.

Mewn trafodaethau mwy diweddar gyda rheolwyr prosiect, gwelwyd bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar dargedau twf swyddi. Mae hyn wedi'i briodoli'n bennaf i oedi'r ddarpariaeth oedd yn canolbwyntio ar dwf yn ystod y pandemig, yn ogystal â mentrau'n dod yn llai parod i gymryd risg yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ddewis talu gweithwyr llawrydd neu ddod â gwirfoddolwyr i mewn (yn hytrach na llogi staff newydd). Wedi dweud hynny, mae'r elfen

busnes newydd yn parhau i ddenu niferoedd mwy i'r prosiect nag a ragwelwyd, ac, wrth wneud hynny, mae'n cefnogi busnesau cymdeithasol y dyfodol.

O ran y gweithrediad newydd, ar adeg yr ymgynghori, roedd y prosiect ar y blaen o ran pob targed heblaw am y swyddi a grëwyd. O ran gweithrediad Twf Busnesau Cymdeithasol, roedd y cynllun eto'n fyr o ran swyddi a grëwyd, a thra bod dangosyddion eraill ychydig yn fyr, teimlai'r tîm yn hyderus y byddent yn rhagori ar y targedau hyn erbyn i'r gweithrediad ddod i ben (ar ddiwedd Mehefin 2023).

Ychwanegedd

Nid oedd busnesau'n gwybod am fath tebyg o gymorth oedd ar gael, a nododd rhai fod Busnes Cymdeithasol Cymru yn llwybr amlwg iddynt (o ystyried eu perthynas hirsefydlog naill ai â Busnes Cymru neu Cwmpas). Arwydd amlwg o ychwanegedd hefyd yw eu bod wedi nodi bod anghenion a chyfleoedd ar gyfer busnesau cymdeithasol yn ddigon gwahanol i'r sector preifat i haeddu cymorth penodol.

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru hefyd wedi cael effaith ar y dirwedd bolisi drwy ddod â pherchnogaeth gweithwyr i'r amlwg bron drwy weithgarwch ymchwil a chymorth i godi'r mater a phwysigrwydd perchnogaeth gweithwyr i economi Cymru. Nododd rheolwyr prosiect eu bod wedi llwyddo i gynnwys perchnogaeth gweithwyr fel blaenoriaeth yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae hyn, yn ei dro, wedi golygu bod rhaglenni eraill fel Busnes Cymru hefyd bellach yn pwyso am fodelau busnes mwy buddiol yn gymdeithasol.

Themâu trawsbynciol

Roedd y rhaglen yn cynnwys dangosyddion targed ar gyfer 50 y cant o'r mentrau a gefnogir yn mabwysiadu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys systemau monitro) a mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy (gan gynnwys systemau monitro). Dangosodd y gwerthusiad interim fod y prosiect ar y blaen i'w dargedau ar gyfer datblygu'r strategaethau hyn gyda busnesau. Yn ogystal, nodwyd sut mae perchnogion busnesau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy amrywiol o ran oedran, rhyw, a chefndiroedd eraill.

Yn ogystal, mae'r newid i gyflenwi hybrid yn dilyn pandemig COVID-19 wedi hybu cynhyrchiant ac wedi lleihau amser teithio, gan arwain at fanteision amgylcheddol.

Myfyrdodau ac argymhellion

Argymhellodd y gwerthusiad interim y dylid parhau â’r prosiect y tu hwnt i’w amserlen bresennol, yn arbennig yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd (lle nodwyd bod y model cyflawni wedi bod yn arbennig o lwyddiannus). Ar ben hynny, soniodd y gwerthusiad am yr angen i ystyried ymhellach sut y gellid mesur a chofnodi effeithiau Busnes Cymdeithasol Cymru yn ddigonol. Gan fod effeithiau’r prosiect yn ehangu y tu hwnt i gymorth busnes generig, dylid defnyddio offer monitro ychwanegol i adnabod y canlyniadau ehangach a gyflawnwyd, megis diogelu swyddi yn ogystal â chymorth ar gyfer cyflogaeth leol, er mwyn gallu dangos gwerth cymdeithasol llawn y prosiect.

O ran Cwmpas, y cynllun yw uno’r ddau dîm ar ôl cwblhau’r prosiect, a bydd hynny’n helpu i integreiddio’r ddarpariaeth a darparu asesiad mwy cyflawn o berfformiad ar gyfer unrhyw raglen gymorth yn y dyfodol.

**Astudiaeth achos: Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (DC a GCC)**

Nodau ac amcanion

Nod y rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE) oedd cefnogi busnesau i fanteisio ar y rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau a gyflwynwyd ledled Cymru. Nod y gweithrediad oedd gwneud hyn trwy gefnogi busnesau i ddeall y cyfleoedd masnachol a'r arbedion effeithlonrwydd y gellid eu cael trwy fabwysiadu Cyflymu Cymru i Fusnesau.

Yn ogystal â'r manteision cynhenid i fusnesau a ddaeth yn sgil y rhaglen, roedd disgwyl hefyd i'r rhaglen hon gefnogi rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru a oedd yn canolbwyntio ar Gyflymu Cymru i Fusnesau, gan gynnwys:

- Allwedd Band Eang Cymru: rhaglen sy'n rhoi grantiau i unigolion, busnesau, a sefydliadau'r trydydd sector i gyflwyno dewisiadau amgen i fand eang pan na fyddai uwchraddio i fand eang cyflym iawn yn rhoi newid sylweddol yn y cyflymder lawrlwytho
- Y Cynllun Taleb Gwibgyswllt: rhaglen sy'n rhoi grantiau i fusnesau gyflwyno band eang o safon busnes.

Mae'r rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn yn gweithredu o dan AP2.3 ac roedd ganddi ddau darged ERDF, sef darparu cymorth anariannol i fentrau a chyflwyno cynnyrch sy'n newydd i gwmnïau.

Cyd-destun a rhesymeg

Yn 2012, Cymru oedd â lefel isaf band eang ffeibr o blith gwledydd y DU[117] ac mae natur wledig ac ymylol sawl rhan o Gymru yn cyfyngu ar allu'r sector preifat i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan ysgogi'r angen am ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i ehangu lefelau gosod ffeibr ar draws y wlad. Er bod gosod band eang yn ystod rhaglen 2006-2013 wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r diffyg a nodwyd, cydnabuwyd bod angen cymorth ar rai mentrau er mwyn iddynt fanteisio'n llawn ar y seilwaith newydd.

Gan weithredu o dan frand Busnes Cymru, mae'r rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (SFBE) wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â'r angen i barhau i ddarparu cymorth busnes mewn

---

[117] Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu yng Nghymru yn WEFO (2015) Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth – ERDF: Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

cyd-destun technolegol newydd, gyda'r nod o ehangu'r broses o gyflwyno Cyflymu Cymru i Fusnesau ar gyfer mentrau ledled Cymru.

Gweithgarwch a gynhaliwyd

Roedd dros chwarter y 272 o fusnesau a holwyd gan Winning Moves wedi dod i wybod am y cymorth drwy atgyfeiriad gan sefydliad rhoi cymorth i fusnesau. Daeth chwarter arall i wybod am y gefnogaeth ar ôl chwilio ar-lein, gan adlewyrchu ymgyrch helaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein ar gyfer y gweithrediad. Yn dilyn ymgysylltu cychwynnol, adroddodd y mwyafrif o fusnesau eu bod wedi cymryd rhan mewn gweminarau ar amrywiaeth eang o bynciau, megis dylunio gwefan, tueddiadau yn y farchnad ar-lein, GDPR, a ffyrdd o uwchraddio seilwaith TG. Roedd y gweminarau (neu'r gweithdai fel yr oeddent cyn COVID-19) fel arfer yn arwain at gynllun gweithredu ar gyfer busnesau a oedd yn nodi'r camau sy'n gysylltiedig â manteisio'n well ar seilwaith TGCh i wella pa mor gystadleuol yw eu busnes. Yna câi llawer o fusnesau drafodaethau un-i-un gyda chynghorydd ar fand eang cyflym iawn, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Byddai'r cynghorydd yn cynnal rhaglen ddiagnostig o'r busnes ac yn cefnogi'r busnes i wella elfennau o'u TG, ac mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys llunio adroddiadau i fusnesau ar sut y gallent wella eu gwefannau, neu drafodaeth gyda staff TG busnes ar sut i reoli'r newid i Cyflymu Cymru i Fusnesau.

Mae tystiolaeth o arolwg busnes Winning Moves yn dangos nad oedd pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar eu profiad. Y brif effaith ar ddarparu'r cymorth oedd y newid i ymgynghoriadau rhithwir gyda chynghorwyr Cyflymu Cymru i Fusnesau. Er nad oedd COVID-19 wedi effeithio (i raddau helaeth) ar brofiad y buddiolwr, teimlai'r tîm nad oedd rhai elfennau bellach yn bosibl o'u cynnal yn rhithwir, sef elfennau na ellir ond eu cael trwy ryngweithio dynol yn enwedig yn y gweithdai (gan gynnwys y cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol a ddaw yn eu sgil).

Perfformiad

Rhagwelodd y gwerthusiad canol tymor y byddai'r rhaglen yn debygol o gyrraedd y rhan fwyaf o'i thargedau. Mynegwyd peth pryder yn y camau cynnar am yr her o gasglu data ar gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i gwmnïau. Fodd bynnag, mae data monitro ar gyfer y gwerthusiad terfynol yn dangos y bydd y rhaglen yn cyrraedd pob un o'i thargedau contract, sydd wedi'i gadarnhau gan dîm y prosiect.

Un o elfennau cryfaf y rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn oedd ei gallu i drosglwyddo'n gyflym i gynnal darpariaeth ar-lein. Nododd un rheolwr prosiect ei bod yn glod i'r timau cyflawni bod y gweithrediad wedi gallu trosglwyddo'n llawn i ddarpariaeth ar-lein ymhen 10 diwrnod. Fel y nodwyd uchod, mae'r cyfweliadau manwl â busnesau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn dangos bod busnesau'n teimlo nad oedd ansawdd y cyflenwi wedi gostwng o gwbl yn ystod pandemig COVID-19. Ar adegau roedd y gweithrediad bron wedi cael trafferth ymateb i lefel y galw, wrth i'r lefelau diddordeb gynyddu yn sgil y cyfyngiadau cymdeithasol a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig.

Ychwanegedd

Gan mai dyma'r unig weithrediad o dan AP2.3, roedd y tîm yn gymharol hyderus bod y cynllun yn unigryw i raddau helaeth yng Nghymru. Nododd llawer o fusnesau yn yr arolwg manwl fod eu gwybodaeth ddigidol cyn ymgysylltu â'r rhaglen yn eithaf isel, gan ddangos bod cydberthynas gref mewn llawer o achosion rhwng y cymorth a ddarparwyd drwy'r rhaglen ac unrhyw welliant digidol iddynt.

Themâu trawsbynciol

Ar adeg y gwerthusiad canol tymor, roedd dros hanner buddiolwyr y rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn (56 y cant) yn fenywod ac roedd gan 4.9 y cant o'r busnesau berchnogion Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Mae'r rhaglen yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy wella effeithlonrwydd busnes, yn bennaf drwy annog busnesau i ddod o hyd i offer mwy effeithlon a mabwysiadu strategaethau effeithlonrwydd ynni. Cyflwynwyd llawer o weithgareddau'r rhaglen yn rhithwir hefyd, gan sicrhau bod y buddion yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl gyda chyn lleied â phosibl o effaith amgylcheddol. Mae dosbarthiad daearyddol y buddiolwyr a gefnogir yn dangos bod y prosiect yn cyfrannu rhywfaint at drechu tlodi a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy gefnogi twf busnes posibl ar draws Cymru gyfan.

Myfyrdodau ac argymhellion

Pan ofynnwyd iddynt nodi cryfderau'r rhaglen, roedd llawer o fusnesau'n gwerthfawrogi arbenigedd cynghorwyr y gweithrediad, gan ganmol eu gallu i nodi meysydd i'w gwella ar gyfer busnesau a rhoi datrysiadau y gellir gweithredu arnynt. Yn ogystal, canmolodd busnesau'r gweminarau am roi llawer o wybodaeth newydd i fusnesau ar sut y gallent wella elfennau digidol eu busnes, yn enwedig eu gwefan a'u presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae tystiolaeth o arolwg busnes Winning Moves yn dangos y byddai llawer o fusnesau hefyd wedi gwerthfawrogi cyfleoedd i rwydweithio er mwyn iddynt allu cydweithio a rhannu gwybodaeth â busnesau mewn sectorau tebyg. Ymhellach, mynegodd sawl busnes ddyhead i'r cymorth fod ar gael dros y tymor hwy, gan eu bod yn teimlo y byddent wedi elwa'n fwy o ymgynghoriadau un-i-un yn nes ymlaen er mwyn gallu gosod nodau newydd i helpu ymhellach â'u defnydd o TGCh a seilwaith ffeibr yn eu gweithrediadau busnes.

Ymhlith tîm y prosiect, ystyriwyd bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau dan gontract yn gryfder arbennig, a hynny wedyn yn hybu perthynas gref rhwng y darparwyr gwasanaethau a'r awdurdodau lleol. Wrth symud ymlaen, mae dyhead i brif ffrydio fwyfwy ar y cymorth i ddefnyddio technolegau digidol yn y cymorth busnes a gynigir i gydnabod pa mor dreiddiol y mae wedi dod mewn gweithrediadau busnes.

## Atodiad C: Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol

### Casglu buddiolwyr

Mae'r Atodiad hwn yn crynhoi'r casgliad o fusnesau a gefnogwyd gan gyllid ERDF o dan Amcanion Penodol (AP) 1.2, 2.2, 2.3 a 2.4. Yr amcan yw paru cwmnïau a gafodd gymorth nad oes ganddynt rif Tŷ'r Cwmnïau (CRN). Mae hyn er mwyn llunio rhestrau o fuddiolwyr fel y gellir cysylltu'r busnesau a gynorthwyir â data Gwasanaeth Ymchwil Ddiogel (SRS) yr ONS, er mwyn galluogi dadansoddi effaith y cymorth anariannol a ariennir gan ERDF ar fusnesau a gynorthwyir yng Nghymru.

Ar ôl cysylltu â chofrestrfa Tŷ'r Cwmnïau, roedd 9,664 o fusnesau ar y rhestr o fuddiolwyr â rhif CRN ac roedd y rhain wedi cael 12,567 o achosion o gymorth; cyflawnwyd hyn trwy restr o 16,941 o unigolion ac endidau a gafodd 21,554 o achosion o gymorth. Roedd y setiau data cychwynnol yn cynnwys rhai rhifau CRN, a nododd ein gwaith paru rifau CRN ychwanegol ynghyd â chywiro rhifau CRN yn y set ddata, gan ychwanegu 3,338 o achosion o gymorth yn gysylltiedig â rhifau CRN. Ceir dadansoddiad fesul AP a chyfeirnod gweithrediad y rhifau CRN a barwyd hefyd.

### Dull a ddefnyddiwyd

Roedd y set ddata gychwynnol yn cynnwys 22,601 o achosion o gymorth, a darparwyd 12,000 o rifau CRN ar eu cyfer. Ar ôl glanhau a gwirio'r data, roedd 9,229 o rifau CRN dilys (sef bod ganddynt wyth nod, sef wyth digid neu ddwy lythyren a chwe digid). Mae nifer uchel y rhifau CRN coll i'w ddisgwyl oherwydd bod nifer o unigolion na fyddai ganddynt CRN yn y set ddata. Roedd hyn yn trosi i 8,228 o rifau CRN unigryw o 16,877 o gofnodion, ar ôl cywiro ar gyfer achosion o'r un cwmni yn dangos rhifau CRN gwahanol/gwahaniaethau sillafu bach.

Roedd sawl cam i'r dull a ddefnyddiwyd wrth lanhau a gwirio'r data a nodi rhifau CRN unigryw. Yn y cam cyntaf aethpwyd ati i wirio cywirdeb y data, ac roedd 3,896 o enwau cwmnïau, rhifau CRN, a chodau post yn cyfateb yn union i gofrestrfa Tŷ'r Cwmnïau, ac roedd 3,153 ohonynt yn unigryw. Wrth wirio'r cwmni a rhif y cwmni, cadarnhawyd 3,268 o fusnesau ychwanegol, gyda 2,808 ohonynt yn unigryw.

Wrth gymharu'r rhifau CRN a ddarparwyd â'r gwahanol CRN wedi'u paru drwy'r enw o gofrestrfa Tŷ'r Cwmnïau, daeth i'r amlwg bod gwallau yn y rhifau CRN a gofnodwyd (fel rheol trefn y rhifau o chwith – saith allan o 20 o sampl o'r rhai heb eu cyfateb). Felly, defnyddiwyd

cysylltu yn ôl enw cwmni a chod post (a gywirodd ar 100 y cant o sampl o 10) i ddisodli'r rhifau CRN nas cadarnhawyd yn y gwiriadau blaenorol, a hyn wedi cywiro'r rhifau CRN ar gyfer 593 o gofnodion. O ganlyniad, ychwanegwyd 3,669 o rifau CRN o weddill y data a ddarparwyd, yn ogystal â'r cysylltu â Thŷ'r Cwmnïau, a oedd yn golygu 3,131 o fusnesau ychwanegol. Yn dilyn hyn, cysylltwyd enwau cwmnïau â chofrestrfa Tŷ'r Cwmnïau ond eu cyfyngu i'r rhai wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig, gan ychwanegu 615 o barau ychwanegol.

Roedd prosiectau a oedd yn bennaf yn targedu entrepreneuriaid (80754 ["Cefnogaeth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru, Gorllewin"] a 80755 ["Cefnogaeth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru, Dwyrain"]) heb rifau CRN ar gyfer 70 y cant a 64 y cant o gofnodion. Cafodd y rhain eu tagio fel targedu unigolion. Felly, o ystyried eu bod yn canolbwyntio ar entrepreneuriaid, ni fyddent yn cyfrif fel Rhifau Tŷ'r Cwmnïau coll. Ar ôl glanhau, gwirio a chysylltu'r data, roedd 9,654 o fusnesau wedi'u nodi ar y rhestr o fuddiolwyr a chafodd y rhain 11,448 o achosion o gymorth, gan ychwanegu 2,219 o achosion o gymorth i 1,426 o gwmnïau unigryw.

**Tabl C1: Canlyniadau ar gyfer nifer y rhifau CRN a nifer y rhai unigryw ar bob cam**

| Cam: Cysylltu Data | Nifer rhifau CRN | Cyfanswm nifer y cofnodion | Nifer rhifau CRN unigryw | Cyfanswm nifer unigryw | Cywirdeb yr ychwanegiad | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Data cychwynnol | 12,000 | 22,601 | 8,994 | 17,757 | *amherthnasol* | Sylwyd ar sawl cofnod data wedi'i gofnodi â llaw |
| Glanhau data | 9,229 | 19,786 | 8,228 | 16,877 | *amherthnasol* | Gostyngiad wrth i ddata gael ei lanhau a chywiro cwmnïau â sawl rhif CRN i un rhif, a gollwng camgymeriadau yn y rhifau CRN (llai nag wyth digid neu ddwy lythyren a chwe digid) |
| Gwirio Data Lefel 1: Cyfateb enw, CRN, cod post | 3,896 | 19,786 | 3,153 | 16,877 | 100% (20/20) | Cafwyd cadarnhad o'r union ddata ar gyfer 3,896 o gofnodion |

| Cam: Cysylltu Data | Nifer rhifau CRN | Cyfanswm nifer y cofnodion | Nifer rhifau CRN unigryw | Cyfanswm nifer unigryw | Cywirdeb yr ychwanegiad | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirio Data Lefel 2: Paru enw a rhif CRN | 7,164 | 19,786 | 5,961 | 16,877 | 100% (20/20) | Cadarnhad data o ran enw cwmni a rhif CRN ar gyfer 7,164 o gofnodion |
| Cysylltu Data Lefel 1: Paru enw a chod post | 10,833 | 19,786 | 9,092 | 16,877 | 100% (20/20) | Defnyddio data llawn a ddarparwyd gan y cleient, cywiro gwallau mewn rhifau CRN ar gyfer 593 o gofnodion trwy baru enw a chod post, sy’n fwy cywir (15/20 ar gyfer data nas cadarnhawyd yn flaenorol), ac ychwanegu rhifau CRN ychwanegol |
| Cysylltu Data 2: Paru enw | 11,448 | 19,786 | 9,654 | 16,877 | 85% (17/20) | Cysylltu ar gyfer cwmnïau yng Nghymru yn unig |
| Cysylltu Data 3: Dileu’r rhai nad ydynt yn gwmnïau | 11,448 | 17,223 | 9,654 | 14,538 | 90% (18/20) | Prosiectau 80754 a 80755 (Cefnogaeth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru [Gorllewin a Dwyrain Cymru]) wedi’u cofnodi |
| Setiau data newydd wedi’u hychwanegu a’u cysylltu | 12,567 | 18,113 | 9,664 | 14,602 | *amherthnasol* | 10 rhif CRN newydd unigryw wedi’u rhoi, oriau ar gyfer tua 9,000 achos o gymorth wedi’i ychwanegu |
| Gwiriad data cyflawn ar y rhai heb eu paru | 5,775 heb eu paru | | 4,884 unigryw heb eu paru | | 90% (18/20) | Yn gywir heb eu cynnwys yn y dadansoddiad |

Darparwyd data ychwanegol mewn sawl dogfen Excel yn ystod camau cynnar yr astudiaeth. Cafodd y rhain eu casglu, eu glanhau a'u hychwanegu at y data a oedd yn bodoli eisoes. Ar ôl glanhau a chysylltu â'r set ddata wreiddiol, darparwyd 890 o achosion cymorth newydd yn y set ddata, ac o'r rhain ychwanegwyd 64 o gwmnïau a nodwyd i fod yn unigryw.

**Rhifau CRN yn ôl Amcan Penodol**

Isod ceir tabl o rifau CRN a ddarganfuwyd yn ôl Amcan Penodol. Mae Tabl C2 yn canolbwyntio ar achosion o gymorth, tra bod Tabl C3 yn ymdrin â'r busnesau unigryw ar ôl i'r data ystyried busnesau a gafodd sawl achos o gymorth.

**Tabl C2: Rhifau CRN a ganfuwyd yn ôl Amcan Penodol yn ôl achosion cymorth**

| Amcan Penodol | Rhif CRN | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|
| AP1.2 | 1,159 | 1,216 | 95% |
| AP2.2 | 2,355 | 2,355 | 100% |
| AP2.3 | 2,767 | 5,325 | 52% |
| AP2.4 | 6,286 | 9,217 | 68% |
| Cyfanswm | 12,567 | 18,113 | 69% |

Mae'r tablau'n dangos cyfraddau paru uwch pan dargedir BBaChau, gyda chanrannau isel yn yr Amcanion Penodol lle mae nifer uchel o unigolion/nad ydynt yn gwmnïau wedi'u targedu gan gyfeirnod y gweithrediad.

**Tabl C3: Rhifau CRN unigryw a ganfuwyd yn ôl Amcan Penodol**

| Amcan Penodol | CRN | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|
| AP1.2 | 941 | 994 | 95% |
| AP2.2 | 2,218 | 2,218 | 100% |
| AP2.3 | 2,425 | 4,982 | 49% |
| AP2.4 | 4,080 | 6,408 | 64% |
| Cyfanswm | 9,664 | 14,602 | 66% |

**Paru sgorau tueddiad a dewis model**

Defnyddiwyd cyfanswm o 22 o fodelau i ddod o hyd i grŵp rheoli addas a fyddai'n adlewyrchu'r gwrthffeithiol yn fwyaf cywir.

Cafwyd heriau wrth ddod o hyd i grŵp gwrthffeithiol priodol ar gyfer y busnesau a gafodd gymorth. Gwelwyd y rhain yn bennaf yn y gwahaniaethau yn y lefelau twf mewn trosiant gwirioneddol, cyflogaeth, a chynhyrchiant gwirioneddol yn y ddau grŵp cyn blwyddyn y cymorth. Mae lefelau twf sy'n sylweddol wahanol (h.y. y busnesau a gafodd gymorth yn tyfu'n gyflym, tra bod y grŵp cymharu yn gostwng yn y newidynnau hyn) yn mynd yn groes i'r rhagdybiaeth o dueddiadau cyffredin (tybiaeth econometrig bod y grŵp gwrthffeithiol a'r grwpiau a gafodd gymorth yn tyfu'n debyg cyn y cymorth). Felly, cyflwynwyd y modelau i geisio gwella'r paru, drwy ychwanegu newidynnau canlyniadau yn raddol (cyfraddau cyn y twf). Y cyfaddawd rhwng ychwanegu newidynnau canlyniadau yw y byddai'r gyfradd paru yn gwella o ran tueddiadau'r cyfnod cyn-cymorth; fodd bynnag, byddai'n dirymu'r cyfraddau twf ychwanegol a gellid cael risg o baru busnesau sy'n llai tebyg ond sy'n digwydd bod yn tyfu ar gyfraddau tebyg i rai'r busnesau sy'n cael cymorth.

Roedd y modelau fel a ganlyn:

- **Model I** – paru cwmnïau yn seiliedig ar gategorïau trosiant, sector gwasanaeth gwybodaeth ddwys, lefel uchel o weithgynhyrchu, cwmni sydd wrthi'n tyfu, a ydynt yn cael eu holrhain gan Beauhurst ai peidio, eu cyflogaeth yn y flwyddyn flaenorol, a'r flwyddyn y mae'r cwmnïau yn gweithredu ynddi
- **Model II** – paru cwmnïau yn seiliedig ar gategorïau cyflogaeth, buddiolwyr prosiect IUK, swyddi cyflog isel, eu cyflogaeth yn y flwyddyn flaenorol, a'r flwyddyn y mae cwmnïau'n gweithredu ynddi

- **Modelau III i V** – paru ar gyfuniadau categorïau trosiant a chyflogaeth, yn ogystal â nifer o gategorïau eraill
- **Modelau VI i X** – paru ar gyfuniadau cyfraddau twf dwy-flynedd y diwydiant cyn y cymorth (cyflogaeth a throsiant)
- **Modelau XI i XV** – paru ar gyfuniadau cyfraddau twf un-mlynedd y diwydiant cyn y cymorth (cyflogaeth a throsiant)
- **Modelau XVI i XXII** – paru ar gyfuniadau cyfraddau twf un-mlynedd ar lefel cwmni cyn y cymorth (cyflogaeth a throsiant).

**Amcangyfrifon probid**

Caiff grwpiau o fusnesau tebyg eu dynodi drwy ddefnyddio paru sgorau tueddiad (PSM). Mae'r dechneg hon yn defnyddio model ystadegol o'r broses ddethol yn gymorth er mwyn amcangyfrif y tebygolrwydd o gymryd rhan yn rhaglen ERDF, h.y. y sgôr tueddiad, ac yna'n paru busnesau sydd â'r sgoriau tueddiad agosaf.

Mae'r model dethol yn ceisio brasamcanu'r prosesau recriwtio, ymgeisio a dethol, eithr mewn model meintiol symlach. Os yw'r model yn gadarn, gellir ei ddefnyddio wedyn i nodi busnesau nad ydynt yn cael cymorth sy'n ymddangos – o ran y nodweddion wedi'u modelu – yn debyg iawn i fuddiolwyr ERDF. Defnyddir model probid i amcangyfrif pa mor debygol yw hi y byddai cwmnïau'n cael cymorth (o ystyried eu nodweddion). Cynhaliwyd cyfanswm o 22 o fodelau a gynhyrchodd ganlyniadau a oedd yn weddol gyson, a chyflwynir tri model dethol ohonynt isod.

**Tabl C4: Amcangyfrifon model probid**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Newidynnau** | **Model I (n=756,621)** | **Model II (n=756,621)** | **Model III (n=756,621)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Categorïau Cyflogaeth** | | | |
| 3–9 o gyflogeion | | 0.4923*** | 0.5161*** |
| 10–19 o gyflogeion | | 0.8646*** | 0.8819*** |
| 20–49 o gyflogeion | | 0.5193*** | 0.5356*** |
| **Categorïau Trosiant** | | | |
| <£101,000 | 0.7552*** | 0.1756*** | 0.1838*** |
| £101,000–£500,000 | 0.8868*** | 0.3346*** | 0.3371*** |
| £501,000–£1,000,000 | 0.9689*** | 0.4255*** | 0.4279*** |
| £1–5 miliwn | 0.6112*** | 0.2714*** | 0.2791*** |
| £5–10 miliwn | 0.2986*** | 0.1599*** | 0.165*** |
| £10–50 miliwn | 0.0888 | 0.0179 | 0.023 |
| **Newidynnau yn y sector** | | | |
| Busnes wrthi'n tyfu | | 0.1392*** | 0.106*** |
| Busnes yn dechrau | 0.0488*** | -0.0968*** | -0.1106*** |
| Gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg | | 0.2923*** | 0.2738*** |
| Cyflogau isel | -0.0847*** | -0.0334*** | -0.0366*** |
| Unedau lleol sy'n fyw | | 0.003 | 0.004 |
| **Blynyddol** | | | |
| 2015 | 0.7464*** | 0.7083*** | 0.7077*** |
| 2016 | 0.8059*** | 0.7692*** | 0.7691*** |
| 2017 | 0.7701*** | 0.7429*** | 0.7427*** |
| 2018 | 0.6089*** | 0.5882*** | 0.5884*** |
| 2019 | 0.5316*** | 0.5233*** | 0.5225*** |
| **Blynyddoedd blaenorol cyflogaeth a throsiant** | | | |
| Cyfl.cyfartalog y diwydiant (t-1) | -0.41** | 5.1592 | 4.7025 |
| Cyfl.cyfartalog y diwydiant (t-2) | -0.30* | 5.2663 | 4.8301 |
| Trosiant cyfartalog y diw. (t-1) | -0.35** | 5.2199 | 4.7424 |
| Trosiant cyfartalog y diw. (t-2) | 0.02 | 0.0299 | 0.0279 |
| Cyfl. Cofnodedig (t-1)(dechrau) | 0.14 | | |
| Cysonyn | -4.0759*** | -3.8708*** | -3.8845*** |


Mae Tabl C4 yn dangos tri model amcangyfrifedig. Mae amcangyfrifon cadarnhaol yn dangos bod newidyn yn cynyddu'r siawns o gymryd rhan. Mae'r dewis yn tueddu i dargedu busnesau llai. Mae perfformiad yn y gorffennol hefyd yn gydberthynas gref, gyda thwf cyflogaeth cyfartalog y diwydiant cyn cymorth yn arwain at fwy o siawns o gael eu dethol. Roedd cyflwyno cais i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws hefyd yn awgrymu pwysoli cadarnhaol i'r dethol.

### Paru canlyniadau

Ar ôl canfod busnesau tebyg drwy ddefnyddio paru sgorau tueddiad (PSM), mae'r prif brofion cadernid yn canolbwyntio ar y graddau y mae'r rhai a gafodd gymorth a'r cymaryddion yn debyg ar ôl paru ac a oedd eu llwybrau twf cyn cymorth yn debyg. Yn ogystal, cynhaliwyd

amryw o wiriadau ychwanegol, megis ystyried a yw sgorau tueddiad ar gyfer y rhai a gafodd gymorth a'r grŵp rheoli yn cyfateb yn fras er mwyn bod y duedd dan sylw wedi'i chynnwys yn y gronfa o fusnesau na chafodd gymorth. Mae Ffigur C1 yn cyflwyno dau o'r plotiau, sef un ar gyfer Model I a'r ail ar gyfer Model II, gan ddangos sut y cyfatebwyd pob un a gafodd gymorth yn y modelau hyn.

**Ffigur C1: Plotio sgorau tueddiad ar gyfer Modelau I a II (wedi cael neu heb gael cymorth)**




**Ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwrthffeithiol**

Mae'r modelu'n defnyddio newidynnau sydd ar gael ar fusnesau a gynorthwyir cyn cael cymorth a'r set ehangach o fusnesau. Mae'r newidynnau yn deillio o Gronfa Ddata Strwythur Busnesau'r ONS (BSD), sy'n gysylltiedig â setiau data eraill. Mae'r BSD yn darparu cyflogaeth a throsiant blynyddol ar lefel cwmnïau ar gyfer holl fusnesau arwyddocaol y DU. Ar ben hynny, mae'n nodi eu diwydiant a'u lleoliad.

Mae gwaith wedi'i wneud i ddiffinio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) penodol ar gyfer diwydiannau hynod wybodaeth-ddwys a gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg. Gan ddefnyddio natur panel BSD, gellir amcangyfrif tueddiadau cyflogaeth cyn cymorth neu dueddiadau trosiant ac mae modd cynnwys categorïau daearyddol, oedran busnes, cyflogaeth a maint trosiant. Yn ogystal, mae setiau data sy'n gysylltiedig â data'r ONS fel a ganlyn.

Mae Beauhurst yn ddarparwr data a chwmni technoleg newydd a ymgorfforwyd yn 2010, ac mae'n darparu meddalwedd-fel-gwasanaeth a gwasanaethau gwybodaeth ac yn olrhain grŵp

dethol o 50k+ o gwmnïau twf uchel drwy sbardunau olrhain yn seiliedig ar berfformiad. Mae gan Belmana y gallu i dynnu data ar lefel Tŷ'r Cwmnïau a data codi arian o Beauhurst trwy gyfres o godau a wnaed gan Belmana, gan roi modd cynnal dadansoddiad meintiol cyflym a chynhwysfawr. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal dadansoddiad effaith ar gwmnïau ar gamau cynnar eu datblygiad, mesur polisïau sy'n targedu arloesedd mewn BBaChau, yn ogystal â chreu diwydiannau newydd, a darparu dadansoddiad meintiol lle gellir gwerthuso dealltwriaeth feintiol yn unig. Fel rhan o'n dadansoddiad, defnyddiwyd codi arian a'r statws a yw busnes yn cael ei olrhain gan Beauhurst ai peidio.

Mae Innovate UK yn adrodd am yr holl achosion o gymorth a roddodd ers 2004, gan ddarparu manylion busnes, symiau grant, dyddiadau dechrau, dyddiadau gorffen, gwybodaeth am gynnyrch, a chydweithredwyr. Mae hyn wedi'i gysylltu â'r BSD. Gall y ffaith bod busnes wedi cael cymorth yn y gorffennol ddatgelu nodweddion ysgogol, e.e. cymhelliant i dyfu yn ogystal â mynd ati'n fwriadol i chwilio am gymorth i gyflawni'r nod hwn.

Mae setiau data'r Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO) yn gipluniau o geisiadau patent/tystysgrifau diogelu atodol (SPC) a dderbyniwyd ac a gyhoeddwyd wedyn gan y Swyddfa. Mae'r set ddata hon wedyn yn cael ei chysylltu â chyfeirnodau menter busnesau trwy baru enwau cwmnïau.

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn cyhoeddi set ddata sy'n cwmpasu holl geisiadau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a gyflwynwyd gan gyflogwyr o ddechrau'r cynllun hyd at 31 Awst 2021. Mae'n cynnwys ystadegau am y ceisiadau eu hunain a'r swyddi a gefnogwyd. Gellir defnyddio gwneud hawliad drwy'r cynllun hwn fel procsi bod sioc COVID-19 wedi cael effaith negyddol.